

Mae Defro yn delio â hanfodion bywyd – bwyd, aer, tir, dŵr a phobl.

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

www.defra.gov.uk

defra
Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig

Hoffai Defra ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r canllawiau hyn, yn arbennig aelodau Grŵp Llywio Dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, sy'n cynnwys aelodau sy'n cynrychioli Natural England, yr Ymddiriedolaethau Natur, Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol. Gyda'i gilydd bu eu cyfraniadau a'u hawgrymiadau yn werthfawr iawn.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

Delwedd ar y clawr blaen: Mwynhau natur ger Pen Ponds
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# Cynnwys


**CRYNODEB GWEITHREDOL** 3

**1. CYFLWYNO'R DDYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH I AWDURDODAU LLEOL** 6

1.1 Dyletswydd Newydd i Awdurdodau Lleol 6
1.2 Y Canllawiau 7
1.3 Beth yw Bioamrywiaeth? 8
1.4 Manteision Gwarchod Bioamrywiaeth 9
1.5 Rôl Awdurdodau Lleol o ran Gwarchod Bioamrywiaeth 12

**2. POLISÏAU A STRATEGAETHAU LLEOL A BIOAMRYWIAETH** 14

2.1 Cyflwyniad 14
2.2 Bioamrywiaeth fel Agenda Drawsbynciol 14
2.3 Integreiddio Bioamrywiaeth mewn Blaenoriaethau Corfforaethol a Pholisïau Mewnol 15
2.4 Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy 17
2.5 Cytundebau Ardal Lleol 18
2.6 Adnewyddu Cymdogaethau 19
2.7 Seilwaith Gwyrdd 20
2.8 Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Gweithio mewn Partneriaeth 21

**3. RHEOLI TIR AC ADEILADAU O DAN REOLAETH AWDURDODAU LLEOL** 23

3.1 Cyflwyniad 23
3.2 Camau Gweithredu Cadarnhaol o ran Bioamrywiaeth ar Safleoedd ac Adeiladau Awdurdodau Lleol 24
3.3 Safleoedd Dynodedig 27
3.4 Rhywogaethau a Ddiogelir a Rhywogaethau â Blaenoriaeth ar Dir Awdurdodau Lleol 29
3.5 Rheoli'r Seilwaith Gwyrdd 30
3.6 Lleiniau Ymyl Ffordd 32
3.7 Ffermydd a Thenantir 34
3.8 Tiroedd Ysgolion 35
3.9 Ardaloedd Glân Dŵr ac Arfordirol 36

**4. CYNLLUNIO, SEILWAITH A DATBLYGU** 38

4.1 Cyflwyniad 38
4.2 Effeithiau Datblygu ar Fioamrywiaeth 38
4.3 Gofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol 39
4.4 Gofynion Cyfreithiol o ran Arfarniadau Amgylcheddol ac Arfarniadau o Gynaliadwyedd 40
4.5 Blaengynllunio 40
4.6 Rheoli Datblygu 45


This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**5. ADDYSG, CYNGOR AC YMWYBYDDIAETH** 48

5.1 Cyflwyniad 48
5.2 Addysg 48
5.3 Cyngor 50
5.4 Ymgysylltu â'r Gymuned 53
5.5 Codi Ymwybyddiaeth 55

**6. GWEITHREDU'R DDYLETSWYDD – GOBLYGIADAU I AWDURDODAU LLEOL A'U STAFF** 57

6.1 Adnoddau Ariannol 57
6.2 Sgiliau a Hyfforddiant 58
6.3 Mesur Cynnydd 59

**ATODIAD 1: CRYNODEB O'R DEUNYDDIAU CYFARWYDDYD PERTHNASOL (WEDI'U CYHOEDDI AR Y WE)**
http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/index.htm

**ATODIAD 2: CRYNODEB O'R DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL** 62

**ATODIAD 3: CRYNODEB O DDYNODIADAU SAFLEOEDD** 75

**ATODIAD 4: ASTUDIAETHAU ACHOS YCHWANEGOL (WEDI'U CYHOEDDI AR Y WE)**
http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/index.htm

**ATODIAD 5: DIAGRAM O WASANAETHAU AWDURDODAU LLEOL** 76

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Cyflwyno'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth i Awdurdodau Lleol

1. Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear, ac mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r systemau naturiol sy'n eu cynnal. Mae bioamrywiaeth yn un o elfennau craidd datblygu cynaliadwy, ac yn sail i ddatblygu economaidd a ffyniant, ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae i ddatblygu cymunedau sy'n unigryw yn lleol ac yn gynaliadwy.

2. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd ac wrth ddarparu gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, peillio a darparu awyr iach a dŵr glân.

3. Mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae i warchod bioamrywiaeth, drwy eu rôl i: ddatblygu polisïau a strategaethau lleol a dylanwadu arnynt; cynllunio a datblygu rheolaethau; perchen ar eu hystadau a'u rheoli; caffael; addysg, codi ymwybyddiaeth a swyddogaethau cynghori.

4. Mae Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried y gwaith o warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Cyflwynwyd y Ddyletswydd hon gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a daeth i rym ar 1 Hydref 2006. Mae'r Ddyletswydd yn effeithio ar bob awdurdod cyhoeddus a'i nod yw codi proffil a natur weladwy bioamrywiaeth, egluro'r ymrwymiadau presennol o ran bioamrywiaeth, a sicrhau ei fod yn rhan naturiol ac annatod o brosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

5. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys adfer a gwella niferoedd rhywogaethau a chynefinoedd, yn ogystal â'u diogelu.

6. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn gan Defra a'r Cynulliad i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu Dyletswydd.

7. Mae bioamrywiaeth yn bwysig iawn yn ei rinwedd ei hun ac mae gennym gyfrifoldebau rhyngwladol a systemau cenedlaethol a lleol ar waith i'w ddiogelu a'i wella. Mae'n chwarae rhan allweddol i lywio ansawdd bywyd lleol a rhoi "naws am le". Mae bioamrywiaeth yn cynnig cyfleoedd twristiaeth, datblygu economaidd, hybu iechyd, cymunedau cynaliadwy a chydlyniant cymdeithasol.

8. Mae cynigion ym mhapur gwyn Llywodraeth Leol a'r fframwaith perfformiad newydd ar gyfer llywodraeth leol yn cynnig potensial mawr i awdurdodau lleol roi arweiniad yn y gymuned er mwyn diogelu a gwella bioamrywiaeth. Gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad mawr i'r targed ar gyfer 2010 o atal y broses o golli bioamrywiaeth.

## Integreiddio Bioamrywiaeth yng Ngwasanaethau Awdurdodau Lleol

9. Mae gan lawer o adrannau a swyddogaethau awdurdodau lleol ran hanfodol i'w chwarae i warchod bioamrywiaeth. Dyma agweddau pwysig ar integreiddio bioamrywiaeth yng ngwasanaethau awdurdodau lleol:

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

A. Cyflawni rhwymedigaethau statudol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn y prosesau blaengynllunio a rheoli datblygu.

B. Cynnwys y gwaith o warchod bioamrywiaeth a'i fanteision yn strategaethau perthnasol yr awdurdod lleol. Ymhlith y rhain mae Strategaethau Corfforaethol, strategaethau datblygu cynaliadwy, strategaethau caffael, cynlluniau rheoli asedau, cynlluniau datblygu economaidd a systemau rheoli amgylcheddol.

C. Ystyried bioamrywiaeth o fewn trefniadau partneriaeth megis Strategaethau Cymunedol a Chytundebau Ardal Lleol.

Ch. Ystyried y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a rhaglenni amgylcheddol eraill megis rheoli gwastraff, arbed ynni a'r ymateb i newid yn yr hinsawdd.

D. Cyflwyno'r egwyddorion canlynol ar gyfer bioamrywiaeth a nodir mewn canllawiau cynllunio cenedlaethol.

Dd. Cymryd rhan mewn partneriaethau bioamrywiaeth lleol a helpu i gyflawni amcanion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (a lle y bo'n briodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU) o fewn gwasanaethau awdurdodau lleol perthnasol.

E. Gweithio mewn partneriaethau â sefydliadau eraill i hyrwyddo'r broses o reoli tir mewn ffordd a fydd o fudd i fioamrywiaeth.

F. Diogelu a gwella bioamrywiaeth ar ystad yr awdurdod lleol.

Ff. Nodi'r ffactorau sy'n llywio polisïau a sicrhau bod y data diweddaraf am fioamrywiaeth ar gael i'r awdurdod lleol gan gynnwys cymorth i'r Canolfannau Cofnodion Lleol.

G. Nodi Safleoedd Lleol o bwys o ran bioamrywiaeth a rheoli systemau, mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn ystyried y rhain yn y prosesau cynllunio a rheoli tir.

Ng. Defnyddio'r manteision o ran mynediad at fioamrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd, a hamdden.

H. Cefnogi mynediad priodol i natur a dealltwriaeth o fyd natur mewn ysgolion, ymgysylltu â chymunedau, rhaglenni addysg, a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ymhlith y cyhoedd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

## Gweithredu'r Ddyletswydd – Goblygiadau i Awdurdodau Lleol a'u Staff

10. Wrth ddangos ei fod wedi cyflawni ei Ddyletswydd i ystyried bioamrywiaeth, mae awdurdod lleol yn debygol o allu dangos ei fod wedi:

- Nodi cyfleoedd i integreiddio ystyriaethau o ran bioamrywiaeth ym mhob maes gwasanaeth a swyddogaeth berthnasol a manteisio arnynt, a sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ddiogelu a'i wella yn unol â rhwymedigaethau statudol presennol;

- Codi ymwybyddiaeth staff, rheolwyr ac aelodau etholedig o faterion o ran bioamrywiaeth;
- Dangos ymrwymiad a chyfraniad i fentrau bioamrywiaeth lleol allweddol, megis Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol a systemau Safleoedd Lleol;
- Dangos cynnydd yn erbyn dangosyddion a thargedau bioamrywiaeth.

Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael ar hyn o bryd i helpu awdurdodau lleol i fesur eu perfformiad ym maes gwarchod bioamrywiaeth.

11. Mae i ystyried gwarchod bioamrywiaeth yn eu gweithgareddau oblygiadau o ran ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig. Gellir diwallu'r anghenion hyn drwy wella ymwybyddiaeth gyffredinol, defnyddio'r canllawiau sydd ar gael, integreiddio bioamrywiaeth mewn hyfforddiant i staff, defnyddio arbenigedd ecolegol mewnol neu geisio cyngor gan gydweithwyr a chyrff allanol, a, lle y bo angen, darparu hyfforddiant penodol.

12. Gellir cynnwys ystyried bioamrywiaeth mewn llawer o swyddogaethau a gwasanaethau awdurdodau lleol heb gostau ychwanegol sylweddol a cheir amryw gyfleoedd i leihau costau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen gwariant ychwanegol, mewn achosion lle nad yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r ymrwymiadau statudol presennol. Mae'r canllawiau yn cynnig awgrymiadau o ran sut y gellir lleihau'r costau.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 1. Cyflwyno'r ddyletswydd bioamrywiaeth i awdurdodau lleol

### Negeseuon allweddol

- Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear, ac mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r systemau naturiol sy'n eu cefnogi[1].
- Mae Dyletswydd ar bob awdurdod lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru a Lloegr bellach i ystyried sut y gellir gwarchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.
- Gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad mawr i fioamrywiaeth ac mae'n ddogfen hon yn rhoi canllawiau i'w helpu i weithredu eu Dyletswydd Bioamrywiaeth.
- Mae gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys adfer a gwella niferoedd rhywogaethau a chynefinoedd, yn ogystal â'u diogelu.
- Mae gwarchod bioamrywiaeth yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd Yn ogystal daw llawer o fanteision economaidd, lleol ac amgylcheddol i gymunedau lleol yn ogystal â gwasanaethau cynnal bywyd hanfodol yn sgîl bioamrywiaeth.
- Er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn effeithiol, mae'n ofynnol ei integreiddio mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, swyddogaethau a gwasanaethau awdurdodau lleol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

### 1.1 Dyletswydd Newydd i Awdurdodau Lleol

Mae bioamrywiaeth yn un o elfennau craidd datblygu cynaliadwy, ac yn sail i ddatblygu economaidd a ffyniant, ac mae ganddo ran bwysig i'w chwarae i ddatblygu cymunedau sy'n unigryw yn lleol ac yn gynaliadwy.

O 1 Hydref 2006, mae Dyletswydd ar bob awdurdod lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru a Lloegr i ystyried sut y gellir gwarchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Nod y Ddyletswydd yw codi proffil a natur weladwy bioamrywiaeth, egluro'r ymrwymiadau presennol o ran bioamrywiaeth, a sicrhau ei fod yn rhan naturiol ac annatod o brosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

Nodir y Ddyletswydd yn Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, ac mae'n nodi:

*"Every public authority must, in exercising its functions, have regard, so far as is consistent with the proper exercise of those functions, to the purpose of conserving biodiversity"*[2]

Mae'r Ddeddf yn ymestyn i bob awdurdod cyhoeddus y ddyletswydd bioamrywiaeth o Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a osododd ddyletswydd ar y Llywodraeth a Gweinidogion. Cyflwynwyd dyletswydd debyg yn yr Alban o dan Ddeddf Gwarchod Natur (yr Alban) 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo'r gwaith o warchod bioamrywiaeth.

Mae'r Ddyletswydd yn effeithio ar bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus, y llywodraeth ac ymgymerwyr statudol. Mae'r Ddyletswydd yn gymwys i bob awdurdod lleol, gan gynnwys y 410 o gynghorau unedol, sir a dosbarth yng Nghymru a Lloegr, a thua 10,000 o gynghorau cymuned, plwyf a thref.

[1] Diffiniad y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol o "amrywiaeth biolegol" yw'r amrywioldeb ymhlith organebau byw o bob ffynhonnell gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ecosystemau daearol, morol a dyfrol eraill a'r cymhlethdodau ecolegol y maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac amrywiaeth ecosystemau.

[2] Mae'r testun llawn ar gael yn http://www.defra.gov.uk/rural/ruraldelivery/bill/default.htm

## 1.2 Y Canllawiau

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan hanfodol i warchod bioamrywiaeth, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau sydd wedi'u hanelu'n benodol at eu helpu i weithredu eu Dyletswydd Bioamrywiaeth.[3] Am fod y Ddyletswydd yn berthnasol i amrywiaeth eang o swyddogaethau a gwasanaethau awdurdodau lleol, nod y canllawiau yw helpu pob aelod o staff awdurdodau lleol i ystyried bioamrywiaeth yn eu gwaith, a hysbysu uwch weithredwyr ac aelodau etholedig o'r cyfleoedd niferus i ystyried bioamrywiaeth ar lefel gorfforaethol.

Mae'r canllawiau yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth sy'n rhoi cyngor ar weithgareddau a swyddogaethau gwahanol awdurdodau lleol. Bwriedir i'r canllawiau helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth ond nid ydynt yn dehongli'r ddeddfwriaeth mewn ffordd derfynol nac yn rhoi argymhellion cynhwysfawr ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth. Fe'u cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ac amrywiaeth eang o awdurdodau cyhoeddus eraill, drwy gyfres o weithdai yng Nghymru a Lloegr yn ystod hydref 2006.

Cyflwynir y Canllawiau mewn chwe phrif adran:

- Mae Adran 1 yn cyflwyno'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth, gan ddiffinio'r term bioamrywiaeth, crynhoi'r manteision a ddaw yn sgîl gwarchod bioamrywiaeth, a chan egluro pam mae'n bwysig i bob awdurdod lleol ystyried gwarchod bioamrywiaeth.
- Mae Adrannau 2-5 yn rhoi canllawiau ar agweddau allweddol ar swyddogaethau a gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Mae hyn yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

  2. Polisi, Strategaeth a Chaffael;

  3. Rheoli Tir ac Adeiladau Cyhoeddus

  4. Cynllunio, Seilwaith a Datblygu

  5. Addysg, Cyngor ac Ymwybyddiaeth.
- Mae Adran 6 yn ystyried y goblygiadau i awdurdodau lleol yn sgîl gweithredu'r Ddyletswydd, gan gynnwys adnoddau ariannol, sgiliau a hyfforddiant, a mesur cynnydd.

Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o'r dogfennau cyfarwyddyd presennol sy'n berthnasol i swyddogaethau a gweithgareddau gwahanol awdurdodau lleol ac mae Atodiad 2 yn crynhoi'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o ddynodiadau safleoedd allweddol.

Mae'r Canllawiau yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n dangos ymdrechion awdurdodau lleol gwahanol i ystyried bioamrywiaeth yn eu gweithgareddau amrywiol. Nod yr astudiaethau achos hyn yw dangos rhai o'r dulliau a ddefnyddiwyd hyd yma a'r gwersi a ddysgwyd. Nid ydynt yn gynhwysfawr ac efallai y bydd yr hyn sy'n gweithio yn amrywio fel na fydd y rhain yn briodol ym mhob achos o bosibl. Rhoddir astudiaethau achos ychwanegol yn Atodiad 4.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[3] Mae dogfen arall yn rhoi canllawiau cyffredinol i awdurdodau cyhoeddus ar gyflawni eu dyletswydd.

## 1.3 Beth yw Bioamrywiaeth?

Mae bioamrywiaeth yn cynnwys pob peth byw ar y Ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, ond hefyd eu hamrywiad genetig, a'r ecosystemau cymhleth y maent yn rhan ohonynt. Mae'n cwmpasu byd natur yn ei gyfanrwydd, o'r rhywogaethau cyffredin i'r rhywogaethau sydd o dan fygythiad mawr.

Mae bioamrywiaeth yn disgrifio ein cyfoeth naturiol. Hwn yw'r cyfalaf naturiol sy'n gwneud y tirweddau byw o'n hamgylch, sy'n cynnal systemau byw ac sy'n gwella ansawdd ein bywyd. Mae'n rhan bwysig o'r olygfa o'n ffenestr, y bwyd a fwytawn, y dillad a wisgwn, y deunyddiau a'r meddyginiaethau a ddefnyddiwn, a'r ffordd y gweithreda'r systemau a'r prosesau naturiol y mae ein bywydau yn dibynnu arnynt.

Mae pryder cynyddol am gyflwr bioamrywiaeth y byd wedi arwain at ymdrechion rhyngwladol i'w warchod. Datblygodd Uwch Gynhadledd y Ddaear yn Rio yn 1992 Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol,[4] a lofnodwyd gan 150 o wledydd gan gynnwys y DU, sydd wedi ymrwymo i wneud ymdrechion i warchod a chadw amrywiaeth pethau byw ar y ddaear.

Cyflwynir ymrwymiad y DU i warchod bioamrywiaeth drwy Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU,[5] sy'n cynnwys cyfres o gynlluniau i dargedu camau gweithredu at gynefinoedd a rhywogaethau sydd o dan fygythiad arbennig (Blwch 1.1). Yn ogystal, mae Strategaeth Fioamrywiaeth Lloegr,[6] *Working With the Grain of Nature*, a gyhoeddwyd yn 2002, yn dod â chyfraniadau allweddol Lloegr at ei gilydd er mwyn cyflawni'r targed ar gyfer 2010[7] i atal y broses o golli bioamrywiaeth, ac mae'n nodi rhaglen i sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei integreiddio wrth lunio polisïau ac mewn arferion. Ar 2 Tachwedd 2006, cyhoeddwyd adroddiad llawn ar y cynnydd a wnaed o dan Strategaeth Fioamrywiaeth Lloegr, gan gynnwys cynigion i ateb heriau'r pedair blynedd nesaf.[8] Caiff Fframwaith Bioamrywiaeth i Gymru ei ddatblygu hefyd,[9] ac ymdrinnir â'r gwaith o warchod bioamrywiaeth hefyd yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a'i Chynllun Gweithredu, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006.[10]

Mae gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys adfer a gwella niferoedd rhywogaethau a chynefinoedd, yn ogystal â'u diogelu. Gall cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ddarparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu ym maes bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

4 http://www.biodiv.org/default.shtml
5 http://www.ukbap.org.uk
6 Working with the Grain of Nature – A Biodiversity Strategy for England. http://www.ukbap.org.uk/EBG/england_biodiversity_strategy.asp
7 http://ec.europa.eu/environment/nature_biodiversity/index_en.htm
8 http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/biostrat/indicators/pdf/grain/grainvol1v3.pdf
9 Cynhyrchwyd dogfen ymgynghori ar y Fframwaith Bioamrywiaeth Drafft i Gymru yn ystod hydref 2006 – http://www.biodiversitywales.org.uk/admin/upload/docs/english/engframe.pdf
10 http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/Environment_strategy_for_wales/About_the_strategy/?lang=en

### Box 1.1: Blaenoriaethau Gwarchod Bioamrywiaeth yn Genedlaethol, yn Rhanbarthol ac yn Lleol

Mae ymagwedd y DU tuag at warchod bioamrywiaeth[11] yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu adnoddau. Mae dwy elfen allweddol i'r ymagwedd hon:

a) Integreiddio bioamrywiaeth mewn cynlluniau, polisïau a rhaglenni cyhoeddus

b) Annog camau gweithredu cadwraeth drwy Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn genedlaethol ac yn lleol.

Aseswyd rhywogaethau a chynefinoedd ar lefel y DU yn erbyn meini prawf gwrthrychol gan gynnwys pa mor brin ydynt a statws sy'n dirywio. Felly, mae'r rhywogaethau a'r cynefinoedd a nodwyd yn flaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu gwarchod yn y DU.[12] Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth wedi'u cynhyrchu sy'n nodi targedau a chamau gweithredu clir ar gyfer gwarchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn.[13] Maent yn rhoi canllawiau gwerthfawr ar y camau gweithredu sydd eu hangen a fframwaith hanfodol ar gyfer monitro cynnydd.

Yn ogystal, mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi'u cynhyrchu i ategu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a helpu i gyflawni targedau penodol.[14] Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn seiliedig ar bartneriaeth ac yn aml mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu a chyflwyno'r cynllun. Dylai Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol nodi cyfraniadau lleol allweddol at dargedau cenedlaethol yn ogystal â thargedau a chamau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd unigryw lleol. Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi'u cynhyrchu ar raddfeydd daearyddol gwahanol, e.e. plwyf, sir neu barc cenedlaethol. Yn Lloegr, ceir Cynlluniau Gweithredu neu Strategaethau Bioamrywiaeth Rhanbarthol hefyd. Yn aml, rhydd y rhain dargedau rhanbarthol ar gyfer cynefinoedd â blaenoriaeth.

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth rhanbarthol a lleol ac i'r DU yn fodd i flaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus. Lle y ceir cyfleoedd i gymryd camau gweithredu priodol ac effeithiol o ran blaenoriaethau cenedlaethol, dylid manteisio ar y rhain. Mae Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi gwybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Bydd canllawiau pellach ar flaenoriaethau bioamrywiaeth ar gael pan gyhoeddir rhestrau diwygiedig o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn o dan adran 41 (Lloegr) ac Adran 42 (Cymru) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Gall ymdrechion gwarchod gynnwys rheoli i ba raddau y mae rhywogaethau goresgynnol anfrodorol sy'n niweidio neu'n peryglu cynefinoedd a rhywogaethau brodorol yn cael eu cyflwyno neu'n lledaenu. Yn ogystal, dylid osgoi gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth mewn gwledydd eraill lle bynnag y bo'n bosibl.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 1.4 Manteision Gwarchod Bioamrywiaeth

Ceir llawer o resymau gwahanol dros warchod bioamrywiaeth:

- **Mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**. Mae cynefinoedd bywyd gwyllt megis coetiroedd a mawnogydd yn gweithredu fel amsugnwyr carbon, gan helpu i leihau difrifoldeb newid yn yr hinsawdd. Gall cynefinoedd eraill megis gorlifdiroedd naturiol a chynefinoedd arfordirol helpu i leihau llifogydd a gwasgaru ynni tonnau. Mae cynefinoedd naturiol hefyd yn bwysig o ran rhoi coridorau i alluogi rhywogaethau symudol i symud mewn ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd.

[11] Biodiversity: The UK Action Plan (1994) Cm 2428, Y Llyfrfa, Llundain.

[12] Ar adeg argraffu'r ddogfen, roedd blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu hadolygu, a disgwylir i ganlyniadau'r adolygiad hwn gael eu cyhoeddi yn ystod 2007.

[13] Gweler http://www.ukbap.org.uk/ i gael rhagor o fanylion a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth unigol.

[14] Gweler http://www.ukbap.org.uk/GenPageText.aspx?id=57

- **Mae'n arwydd o iechyd ehangach ein hamgylchedd**. Mae amgylchedd ac iddo fioamrywiaeth cyfoethog hefyd yn debygol o gyflawni'n dda yn erbyn mesurau eraill o ansawdd amgylcheddol (megis ansawdd yr aer a'r dŵr), a rhoi amgylchedd byw iach a deniadol i bobl. Felly mae bioamrywiaeth yn arwydd allweddol o ddatblygu cynaliadwy.
- **Mae'n helpu i gynnal economïau lleol**. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn cynnal swyddi ac incwm ym maes rheoli cadwraeth, ac yn dod â manteision ychwanegol yn sgîl denu ymwelwyr i ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd newydd ar y farchnad i ffermwyr a rheolwyr tir. Gall yr effeithiau economaidd hyn fod yn sylweddol yn lleol, yn enwedig mewn ardaloedd â chyfoeth naturiol ond sydd heb lawer o gyfleoedd cyflogaeth eraill. Crynhoir rhywfaint o'r dystiolaeth ym Mlwch 1.2.
- **Mae'n cefnogi gwasanaethau hanfodol eraill sy'n cynnal bywyd ar y ddaear (Gwasanaethau Ecosystem)**. Mae bywyd dynol a gweithgarwch economaidd yn dibynnu ar wasanaethau hanfodol a ddarperir gan ecosystemau, megis darparu aer a dŵr glân, amddiffyn rhag llifogydd a stormydd, a rheoli gwastraff a llygredd. Mae astudiaethau wedi dangos bod gwerth economaidd y gwasanaethau ecosystem hyn yn enfawr, a bod cyfran fawr o'r gwerth hwn yn dibynnu ar amrywiaeth biolegol y systemau hyn. Mae Blwch 1.3 yn crynhoi rhywfaint o'r dystiolaeth am werth y gwasanaethau hyn yn y DU.
- **Mae'n cyfrannu at ein hiechyd a'n lles**. Mae astudiaethau wedi dangos bod natur yn helpu i wella ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl, drwy annog gweithgareddau hamdden, ymarfer corff a gweithgareddau ymlacio yn yr awyr agored.[15] Mae bioamrywiaeth yn chwarae rhan bwysig i wella ac annog gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored drwy wneud y dirwedd yn fwy amrywiol, atyniadol a diddorol. Mae bioamrywiaeth hefyd yn chwarae rhan bwysig i'n dysgu am y byd o'n hamgylch.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK



Seiclwr ar lwybr beicio.
Llun: Ffotograffydd Natural England Paul Glendell

[15] Gweler, er enghraifft, CJC Consulting (2005) *Economic Benefits of Accessible Green Spaces for Physical and Mental Health: Scoping Study* – adroddiad i'r Comisiwn Coedwigaeth

- **Mae'n rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n hunaniaeth**. Mae bioamrywiaeth yn bwysig o ran diffinio cymeriad a natur unigryw ardal leol. Mae'n helpu i lywio'r amgylcheddau lle y mae awdurdodau lleol yn gweithredu, gan effeithio ar ansawdd bywyd trigolion lleol. Mae'n elfen ddiffiniol allweddol yng nghoed derw ucheldir Cymru, glaswelltiroedd sialc de Lloegr, corsydd East Anglia a rhostiroedd Gogledd Swydd Efrog. Mae coetiroedd clychau'r gog, clogwyni adar y môr, mawnogydd a gweundiroedd iseldir oll yn rhannau pwysig o'n treftadaeth, a byddem yn dlotach o'u colli.
- **Mae'n cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddoli**. Mae prosiectau bioamrywiaeth lleol yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau lleol a datblygu cynhwysiant cymdeithasol. Mae llawer o bobl yn cael boddhad mawr fel gwirfoddolwyr mewn prosiectau cadwraeth, gan roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn ffordd ymarferol mewn rheoli'r amgylchedd.
- **Mae'n rhoi cynhyrchion a deunyddiau hanfodol i ni**. Mae bioamrywiaeth yn ffynhonnell llawer o gynhyrchion hanfodol megis bwyd, meddyginiaethau a deunyddiau adeiladu. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn parhau i fod ar gael i ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae cynnal pysgodfeydd cynaliadwy yn dibynnu ar warchod bioamrywiaeth morol. Mae bioamrywiaeth yn cynnig cyfleoedd eang i ddatblygu meddyginiaethau a bwydydd newydd a chynhyrchion newydd eraill, a gaiff eu colli os nad ydym yn ei warchod.
- **Mae cyfrifoldeb arnom i warchod bioamrywiaeth**. Ar wahân i'r manteision i bobl, mae rhesymau moesegol cryf pam y dylai dynolryw warchod bioamrywiaeth. Rydym yn rhannu'r blaned â llawer o rywogaethau eraill, a byddai llawer yn dadlau nad oes hawl gennym i beri i anifeiliaid a phlanhigion eraill ddarfod o'r tir. Yn ogystal â gwerth cynhenid bioamrywiaeth, mae cyfrifoldeb arnom i drosglwyddo stoc iach o gyfalaf naturiol i genedlaethau'r dyfodol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Blwch 1.2: Arwyddocâd Economaidd Gwarchod Natur a Thwristiaeth Bywyd Gwyllt

Amcangyfrifodd astudiaeth i Defra fod gweithgareddau sy'n cyfrannu at reoli'r amgylchedd naturiol, neu sy'n dibynnu ar amgylchedd o ansawdd da, yn cynnal 299,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a Gwerth Ychwanegol Crynswth o £7.6 biliwn yn Lloegr bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau yn y sectorau gwarchod natur, amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, bwyd a thwristiaeth.[16] Amcangyfrifwyd bod y broses o reoli, defnyddio a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yn cynnal 117,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol, sef tua 12% o gyfanswm cyflogaeth yn genedlaethol.[17]

Dangoswyd bod twristiaeth bywyd gwyllt yn arwain at fanteision sylweddol i economïau lleol. Er enghraifft:

- **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol**. Mae dros 200 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yn denu tua 13 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Amcangyfrifwyd bod y tair Gwarchodfa yng Nghymru wedi denu £7 miliwn o wariant ychwanegol gan ymwelwyr i economïau lleol yn 1998, gan gynnal incymau lleol o £2.2 miliwn a mwy na 400 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.[18]
- **Arfordir Norfolk**. Amcangyfrifodd astudiaeth o ymwelwyr yn 1999 i ymwelwyr â chwe safle wario £21 miliwn y flwyddyn yn yr economi leol, ac y gellid priodoli £6 miliwn ohono i adar a bywyd gwyllt (gan gynnal 135 o swyddi cyfwerth ag amser llawn).

[16] GHK Consulting a GFA-Race (2004) Revealing the Value of the Natural Environment in England. Adroddiad i Defra.

[17] Bilsborough a Hill (2003) Valuing our Environment: The Economic Impact of the Environment of Wales. Crynodeb Technegol. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

[18] Christie, M., Keirle I. a Scott A (1998) Welsh National Nature Reserves: Effectiveness of Interpretation, its Economic Impact and Recreational Use. Adroddiad i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Blwch 1.2: Arwyddocâd Economaidd Gwarchod Natur a Thwristiaeth Bywyd Gwyllt (parhau)**

- Denodd **safleoedd nythod** gweilch y pysgod yn y DU 290,000 o ymweliadau yn 2005, o ganlyniad i gynlluniau gweld i'r cyhoedd mewn naw safle yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Amcangyfrifwyd i'r safleoedd sicrhau £3.5 miliwn o wariant ychwanegol gan ymwelwyr mewn economïau lleol.[19]

Enghreifftiau o Werth y Gwasanaethau a ddarperir gan Goetiroedd:[20]

- **Lleihau llygredd aer**. Rhoddwyd gwerth o rhwng £222k a £11.2 miliwn y flwyddyn ar fanteision coed o ran lleihau llygredd aer ym Mhrydain;
- **Storio carbon**, helpu i leihau newid yn yr hinsawdd. Amcangyfrifwyd bod gwerth presennol net storio carbon o goetiroedd llydanddail yn amrywio o £601 miliwn yng Ngogledd-orllewin Lloegr i £2,684 miliwn yn Ne-ddwyrain Lloegr.
- **Rhoi cyfleoedd hamdden**. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y manteision hamdden blynyddol yw £290,000 ar gyfer Derwent Walk, Gatehead a £110,000 ar gyfer Whippendell Wood, Hertfordshire, sy'n gyfwerth â £1600 i £1800 yr hectar.
- **Gwella'r amgylchedd trefol**. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm gwerth gweld coetiroedd ar gyrion y dref yn Lloegr yn fwy na £3.5 biliwn (gwerth wedi'i gyfalafu) neu £150 yr hectar (gwerth presennol net blynyddol).

Yn gryno, mae gwarchod bioamrywiaeth nid yn unig yn rhywbeth y dylid ei wneud – mae'n hanfodol i'n bodolaeth yn y dyfodol ar y blaned hon. Rydym yn gwella ein dealltwriaeth o bwysigrwydd systemau a phrosesau naturiol i gynnal bywyd, a'r rhan y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae i gynnal y rhain. Rydym yn ymwybodol bod bioamrywiaeth yn parhau i gael ei golli ar raddfa frawychus o ganlyniad i weithgareddau pobl, ond ni wyddom eto a all hyn barhau, ac am ba mor hir, cyn i ni danseilio'r systemau cynnal bywyd yr ydym yn dibynnu arnynt.[21] Mae gwarchod bioamrywiaeth yn dibynnu ar weithredu lleol yn ogystal â gweithredu cenedlaethol a rhyngwladol.

Gall bioamrywiaeth chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu amryw wasanaethau awdurdodau lleol megis addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a datblygu economaidd.

## 1.5 Rôl Awdurdodau Lleol o ran Gwarchod Bioamrywiaeth

Er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn effeithiol, mae angen ei integreiddio mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, sectorau a sefydliadau. Dyma un o themâu allweddol Strategaeth Fioamrywiaeth Lloegr. Yn yr un modd, yng Nghymru, mae cylch gorchwyl Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cynnwys *ceisio codi ymwybyddiaeth y llywodraeth, busnesau a'r cyhoedd ynghylch gwarchod bioamrywiaeth, ynghylch y rôl y gallant fynd i'r afael â hi a'r hyn y gallant ei wneud*.

Caiff awdurdodau lleol effeithiau mawr ar fioamrywiaeth, ac mae gan eu gweithgareddau ran bwysig i'w chwarae i warchod bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol i:

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[19] Dickie, Hughes ac Esteban (2006) Watched Like Never Before – the Local Economic Benefits of Spectacular Bird Species. RSPB
[20] EFTEC (2005) The Economic, Social and Ecological value of Ecosystem Services', Adroddiad i Defra
[21] Mae Asesiad Ecosystem y Mileniwm yn rhoi asesiad byd-eang o gyflwr ecosystemau'r byd a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ac mae hefyd yn rhoi tystiolaeth o rôl bioamrywiaeth i ddarparu'r gwasanaethau hyn. http://www.millenniumassessment.org/en/index.aspx

- **Arwain polisïau a strategaethau lleol** sy'n effeithio ar ddefnydd tir, datblygu a'r amgylchedd. Mae awdurdodau lleol yn rhan o'r broses o lunio a gweithredu polisïau a strategaethau lleol allweddol megis Cytundebau Ardal Lleol a Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy yn ogystal â chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol.
- **Gweinyddu'r system gynllunio**, gan ddylanwadau ar benderfyniadau ynghylch datblygu a defnydd tir a allai effeithio ar safleoedd a rhywogaethau;
- **Datblygu seilwaith newydd,** megis adeiladau, ffyrdd a mesurau amddiffyn rhag llifogydd, a allai effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau.
- **Perchnogaeth o dir ac adeiladau a'u rheoli**, gan gynnwys mannau agored cyhoeddus, gwarchodfeydd natur, adeiladau dinesig, swyddfeydd a seilwaith. Caiff y gwaith o reoli'r safleoedd hyn effeithiau pwysig ar fioamrywiaeth, gan roi cynefinoedd uniongyrchol i fywyd gwyllt, a chan greu effeithiau amgylcheddol sy'n effeithio ar safleoedd bywyd gwyllt eraill.
- **Hyrwyddo'r ardal leol**, ymhlith ymwelwyr, buddsoddwyr a chynulleidfaoedd allanol. Mae gan fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol ran allweddol i'w chwarae i ddiffinio nodweddion unigryw lleol ac ansawdd lle
- **Creu effeithiau amgylcheddol**, drwy'r defnydd o ynni a dŵr a chreu gwastraff a llygredd. Felly caiff polisi a pherfformiad amgylcheddol mewnol awdurdodau lleol effeithiau ar fioamrywiaeth. Mae goblygiadau difrifol i fioamrywiaeth yn sgîl rôl ehangach awdurdodau lleol i hyrwyddo gwaith rheoli gwastraff cynaliadwy hefyd.
- **Dylanwadu ar ymwybyddiaeth ac agweddau** pobl, busnesau a rheolwyr tir, drwy addysg, gweithgareddau cynghori a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth
- **Casglu, storio a lledaenu gwybodaeth** sy'n berthnasol i fioamrywiaeth, drwy Ganolfannau Cofnodion Lleol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a gwasanaethau eraill.
- **Cynnwys bioamrywiaeth mewn strategaethau datblygu**, drwy gydnabod yr amrywiaeth o gyfleoedd twristiaeth, datblygu a diwylliannol y gall bioamrywiaeth eu cynnig, a chan sicrhau y caiff y rhain eu hadlewyrchu mewn strategaethau a rhaglenni lleol perthnasol.
- **Gwneud penderfyniadau ym maes caffael**, megis cael gafael ar gynhyrchion coed (sy'n effeithio ar waith rheoli coedwigoedd) a phlanhigion a chyfryngau plannu (sy'n effeithio ar fawnogydd).

Mae Ffigur 1.1 yn Atodiad 3 yn rhoi map o swyddogaethau a gwasanaethau awdurdodau lleol a'u cydberthynas â bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

# 2. Polisïau a strategaethau lleol a bioamrywiaeth

## Negeseuon allweddol

- Mae bioamrywiaeth wrth wraidd datblygu cynaliadwy a gall gyfrannu'n gadarnhaol at gydlyniant cymdeithasol, lles cymunedol ac ansawdd bywyd.
- Cyfle allweddol i awdurdodau lleol yw cydnabod y manteision hyn o ran ansawdd bywyd drwy roi blaenoriaeth leol i waith gwarchod bioamrywiaeth a pharhau i wneud hynny a thrwy integreiddio bioamrywiaeth mewn amryw swyddogaethau a gwasanaethau.
- Mae angen integreiddio bioamrywiaeth mewn blaenoriaethau corfforaethol a pholisïau mewnol.
- Mae cyfleoedd i warchod bioamrywiaeth drwy Bartneriaethau Strategol Lleol, Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy a Chytundebau Ardal Lleol.
- Mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar y broses Cynllunio Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 2.1 Cyflwyniad

Mae llunio polisïau yn rhan helaeth o waith awdurdodau lleol ac mae'r berthynas â bioamrywiaeth yn gymhleth, ac yn annelwig weithiau. Gall amryw ffactorau effeithio ar fioamrywiaeth, ac yn aml newidiadau hirdymor ydynt.

Mae datblygu polisi a strategaeth yn rhoi cyfle cynnar i integreiddio gwaith gwarchod bioamrywiaeth mewn rhaglenni a gweithgareddau lleol drwy feysydd gwasanaeth awdurdodau lleol. Bydd ystyried bioamrywiaeth yn rhagweithiol yn helpu i sicrhau y rhoddir digon o flaenoriaeth iddo.

## 2.2 Bioamrywiaeth fel Agenda Drawsbynciol

Nid dim ond fel mater amgylcheddol y dylid ystyried gwarchod bioamrywiaeth, ond fel elfen graidd o ddatblygu cynaliadwy, sy'n sail i ddatblygu economaidd a ffyniant, ac yn cynnig nifer o fanteision o ran ansawdd bywyd ar draws amrywiol feysydd gwasanaeth awdurdodau lleol.

Lansiwyd Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd y Llywodraeth, 'Sicrhau'r', gan Brif Weinidog y DU ar 7 Mawrth 2005. Diffiniad y Llywodraeth o gymunedau cynaliadwy yw:

Mae cymunedau cynaliadwy yn ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy. Maent yn:

- Cydbwyso ac yn integreiddio elfennau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymuned
- Diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau i ddod
- Parchu anghenion cymunedau eraill yn y rhanbarth ehangach ac yn rhyngwladol hefyd er mwyn sicrhau bod eu cymunedau yn gynaliadwy

*Sicrhau'r Dyfodol,* Y Llyfrfa, Mawrth 2005, Atodiad A.

Mae gwarchod bioamrywiaeth yn berthnasol i bob un o'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Llywodraeth, o ddiogelu adnoddau naturiol a gwella'r amgylchedd yn uniongyrchol i achosi llai o bwysau ar fioamrywiaeth yn sgîl patrymau cynhyrchu a defnyddio mwy

cynaliadwy. Un o'r meysydd allweddol lle y mae angen cymryd camau ar fyrder yw'r angen i ddatblygu ac integreiddio polisïau addasu drwy holl wasanaethau awdurdodau lleol er mwyn helpu'r amgylchedd naturiol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn well. Gall bioamrywiaeth hefyd wneud cyfraniad mawr i gymunedau cynaliadwy, er enghraifft, drwy wella nodweddion unigryw lleol neu greu mynediad gwell i barciau a mannau gwyrdd.

Mewn araith yn 2006 i gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol, dywedodd David Milliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

*"er mwyn i ni ateb yr heriau amgylcheddol, bydd angen egni ac arloesi gan gymunedau a dinasyddion lleol".*

Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa unigryw am mai hwy yw'r unig sefydliadau a all gydgysylltu gwaith rheoli amgylcheddol yn lleol, gan ei gysylltu â blaenoriaethau ehangach drwy bartneriaethau strategol lleol.

Mae Ffigur 1.1. yn Atodiad 5 yn dangos rhai o'r cysylltiadau allweddol rhwng gwarchod bioamrywiaeth a swyddogaethau awdurdodau lleol. Drwy weithgareddau a all helpu i warchod bioamrywiaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, mae'n bosibl sicrhau nifer o welliannau i gydlyniant cymdeithasol a lles cymunedol ac ansawdd bywyd. Mae camau i wella'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth, bron bob amser yn sail i amcanion eraill cynghorau neu yn eu hatgyfnerthu megis lleihau anghydraddoldebau iechyd, datblygu economaidd ac adfywio. Mae cymryd camau ar yr agenda 'lân a gwyrdd' yn debygol o wella enw da cynghorau, gan eu bod yn effeithio ar fywydau pob un ohonom.

Felly, mae'n bwysig bod awdurdodau yn ystyried gwarchod bioamrywiaeth drwy amrywiaeth eang o strategaethau a pholisïau lleol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn mae:

- Integreiddio bioamrywiaeth mewn blaenoriaethau corfforaethol a pholisïau mewnol;
- Datblygu gwaith gwarchod bioamrywiaeth drwy Bartneriaethau Strategol Lleol, Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy, Partneriaethau Safle Lleol a Chytundebau Ardal Lleol;
- Manteisio i'r eithaf ar y broses Cynllunio Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

## 2.3 Integreiddio Bioamrywiaeth mewn Blaenoriaethau Corfforaethol a Pholisïau Mewnol

Er mwyn gwireddu manteision ansawdd bywyd yn llawn, mae angen i amcanion gwarchod bioamrywiaeth dreiddio i holl wasanaethau a swyddogaethau awdurdodau lleol. Bydd hyn yn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir, hybu gweithio mewn partneriaeth a gwella ymwybyddiaeth staff awdurdodau lleol a'r cyhoedd.

Ffordd allweddol o integreiddio bioamrywiaeth ym mlaenoriaethau corfforaethol awdurdodau lleol yw cynnwys polisïau priodol mewn Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol neu Strategaethau Datblygu Cynaliadwy, neu fabwysiadu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth fel Strategaeth Gorfforaethol ynddo'i hun.

Un o nodau **Papur Gwyn Llywodraeth Leol 2006** yw lleihau nifer y targedau lleol, y dangosyddion perfformiad a'r adroddiadau sy'n ofynnol yn genedlaethol yn sylweddol, ac, yn lle hynny, cyflwyno cyfleoedd newydd i ddinasyddion ddwyn eu darparwyr lleol i gyfrif am ansawdd gwasanaethau.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

Mae Ymgyrch Cymdeithas Llywodraeth Leol i wneud cymunedau yn fwy gwyrdd yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffyrdd y mae cynghorau gwahanol wedi cynnwys targedau bioamrywiaeth mewn nodau corfforaethol. Er enghraifft:

- Mae Cyngor Dinas Manceinion wedi pennu **targedau mwy gwyrdd** drwy ei ymgyrch i wneud Manceinion yn fwy gwyrdd.
- Mae Cyngor Swydd Cernyw wedi cytuno ar darged i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth mewn **Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus Lleol**.
- Mae Cyngor Swydd Amwythig wedi cynnwys amcanion amgylcheddol yn ei **fframwaith strategaeth ar gyfer cynllunio** craidd. Mae'r strategaeth hon yn sail i'r Fframwaith Datblygu Lleol (gweler Adran 4), sydd yn ei dro yn adlewyrchu blaenoriaethau mewn Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy lleol. Mae'n cynnwys targed i ddiogelu a gwella poblogaethau a chynefinoedd naturiol rhywogaethau ac ansawdd a maint cynefinoedd bywyd gwyllt ac ecosystemau yn swydd Amwythig.
- Mae gan **Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau** Cyngor Dinas Lincoln gynllun cymunedol i "hyrwyddo'r amgylchedd cynaliadwy gorau posibl a'i ddiogelu i ni ac i'r cenedlaethau i ddod". Yn 2005/6 cynhwyswyd gwaith i greu cynlluniau rheoli bioamrywiaeth o bob ardal tir yn y Cynllun Strategol.

Gellir gweld gwybodaeth am ymgyrch Cymdeithas Llywodraeth Leol i wneud cymunedau yn fwy gwyrdd yn: **http://www.lga.gov.uk/ProjectHome.asp?ccat=1132**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 1 Astudiaeth Achos ALl: Gwarchod Natur i'r Gymuned

### Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol Cyngor Sir Hampshire

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol Cyngor Sir Hampshire yn pwysleisio pwysigrwydd natur i ansawdd bywyd yn Hampshire. Mae'n cynnwys pob adran o'r Cyngor ac yn cynnwys cynllunio, priffyrdd, rheoli tir, hamdden, addysg a gofal cymdeithasol. Mae camau gweithredu yn amrywio o ddiogelu cynefinoedd sydd o bwys yn rhyngwladol i wella amgylchedd naturiol tiroedd ysgolion.

Mae'r Cynllun yn elfen allweddol yn rhaglen datblygu cynaliadwy y Cyngor. Mae'n dangos ymrwymiad corfforaethol cryf i warchod amgylchedd naturiol Hampshire ac yn nodi cynllun heriol o gamau gweithredu i hyrwyddo'r gwaith hwn a datblygu mentrau newydd.

Mae gan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol dri phrif nod:

- Gwella perfformiad y Cyngor o ran gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Hampshire
- Defnyddio manteision bioamrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau megis addysg a lles cymdeithasol
- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a staff o fioamrywiaeth

Mae'r Cynllun yn cwmpasu camau gweithredu, dangosyddion a thargedau allweddol er mwyn sicrhau ymrwymiad gwirioneddol i'w cyflawni. Mae'r gydnabyddiaeth bwysig bod bioamrywiaeth yn sail i gynaliadwyedd yn rhoi *Conserving Nature for the Community* wrth wraidd gwaith o ddydd i ddydd yn Hampshire. Mae hyn wedi helpu i wella'r rhaglenni amgylcheddol a ddarperir, gwella gwaith rhyngadrannol ar weithgarwch bioamrywiaeth a gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith staff y Cyngor.

**http://www3.hants.gov.uk/biodiversity/corporateactionplan.htm**

Mae gan awdurdodau lleol y cyfle i arwain drwy esiampl drwy sicrhau bod eu gweithrediadau eu hunain yn cael yr effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar yr amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth, a lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl i'r eithaf.

Er enghraifft, bydd caffael deunyddiau y gellir cael gafael arnynt drwy ddulliau teithio cynaliadwy yn helpu i leihau llygredd a gollyngiadau carbon deuocsid ac effeithiau cysylltiedig newid yn yr hinsawdd. Bydd caffael deunyddiau a gynhyrchwyd drwy ddulliau cynhyrchu cynaliadwy yn helpu i leihau'r galw am adnoddau naturiol megis pridd, aer a dŵr.

Gall **Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS)** helpu awdurdodau lleol i gyflawni amcanion amgylcheddol cadarnhaol yn systematig yn strategol o ran effeithlonrwydd adnoddau, effeithlonrwydd ynni, cynllunio, iechyd yr amgylchedd, addysg, rheoli gwastraff a rheoli llygredd. Yn ogystal, gall EMS helpu i ddangos bod awdurdod lleol yn cymryd ei rwymedigaethau amgylcheddol o ddifrif.

Ymhlith manteision EMS a amlygwyd gan awdurdodau lleol mae:

- Ymwybyddiaeth amgylcheddol well ac ymgysylltu ehangach y staff â chynlluniau amgylcheddol
- Prif ffrydio gwelliant amgylcheddol a mesur cynnydd yn erbyn targedau yn systematig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **http://www.emas.org.uk/ or http://www.iso14000-iso14001-environmental-management.com**

## 2.4 Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy

Mae cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth yn rhan bwysig o waith Partneriaethau Strategol Lleol ac awdurdodau lleol wrth ddatblygu Strategaethau Cymunedol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, baratoi Strategaethau Cymunedol er lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd. Nododd Cylchlythyr yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DETR) 04/2001 fod Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ymhlith yr elfennau y dylai awdurdodau lleol adeiladu arnynt wrth baratoi Strategaethau Cymunedol, ac mae canllawiau'r Llywodraeth hefyd yn cynnwys bioamrywiaeth fel ystyriaeth bwysig:

**http://www.communities.gov.uk/pub/186/Preparingcommunitystrategiesgovernmentguidancetolocalauthorities_id1507186.pdf**

Bydd pennu dangosyddion a thargedau bioamrywiaeth lleol priodol o fewn y broses gynllunio gymunedol, ac fel rhan o'r broses o lunio Strategaethau Cymunedol, yn hanfodol i ran pennu effeithiolrwydd y broses o'u cyflawni.

Mae Defra hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar ymgorffori bioamrywiaeth mewn Strategaethau Cymunedol:

**http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/lifesupport/lifesupport.pdf**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar ymgorffori materion amgylcheddol mewn Strategaethau Cymunedol:

**http://www.biodiversitywales.org.uk/pdf/community%20strategies%20environmental%20issues%20english.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 2.5 Cytundebau Ardal Lleol

Mae Cytundebau Ardal Lleol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd lleol, y cytunir arnynt rhwng Llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a nifer o gyrff eraill a gynrychiolir ar Bartneriaethau Strategol Lleol. Mae Cytundebau Ardal Lleol yn fodd hanfodol i sicrhau datblygu mwy cynaliadwy yn lleol. Maent yn rhoi mwy o hwb i nifer o ddogfennau polisi a strategaeth eraill, yn benodol yr amcanion a'r dyheadau a nodir mewn Strategaethau Cymunedol Cynaliadwy.

Mae Papur Gwyn Llywodraeth Leol 2006 yn nodi rôl ychwanegol i gynghorau fel arweinwyr strategol a llunwyr lleoedd drwy Bartneriaethau Strategol Lleol cryfach a'r genhedlaeth nesaf o Gytundebau Ardal Lleol mwy eang eu cwmpas. Mae llawer mwy o hyblygrwydd i benderfynu ar flaenoriaethau yn lleol a chynnwys yr ardal leol yn y gwaith o'u cyflawni yn sicrhau bod y broses o ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol yn llawer agosach at wraidd datblygu cynaliadwy drwy gyfleoedd am fwy o gyfrifoldeb lleol ac unigol.

O dan Fesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd, enwir Natural England yn bartner a fydd â 'dyletswydd i gydweithredu' ag awdurdodau lleol yr haen uchaf er mwyn helpu i lunio ac ystyried targedau Cytundebau Ardal Lleol.

Mae Cytundebau Ardal Lleol yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol gymryd camau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i fioamrywiaeth tra'n sicrhau manteision trawsbynciol hefyd megis iechyd, cydlyniant cymdeithasol ac addysg well i'w cymunedau lleol. Er enghraifft, drwy agor parc newydd, crëir cyfleoedd ymarfer corff sy'n hybu iechyd, yn ogystal â chreu man gwyrdd y gellir ei reoli i wella bioamrywiaeth. Gall gwarchod yr amgylchedd naturiol helpu i hyrwyddo twristiaeth a bydd hefyd yn annog y broses o greu swyddi a buddsoddi.

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi ateb yr her hon yng nghylchoedd Cytundebau Ardal Lleol cynharach. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n arbennig ar welliannau i fioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol drwy fwy o ddynodiadau Gwarchodfeydd Natur Lleol, gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a mwy o gytundebau Stiwardiaeth Amgylcheddol. Mae eraill yn codi materion ehangach ac yn cydnabod cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth a mwynhad o fannau gwyrdd a gwneud y cysylltiad rhwng amgylchedd iach a buddsoddi yn yr economi leol.

Mae adroddiad ar y cyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Defra ar gael sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y gellir cydgysylltu amcanion amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth, â blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd eraill i'r ardal leol:

**http://www.lga.gov.uk/Documents/Briefing/Our_Work/Environment/localagreementsnew.pdf**

Yn ogystal, mae Defra wedi cynhyrchu pecyn cymorth i Gylch 3 o'r Cytundebau Ardal Lleol. Mae'n nodi holl ganlyniadau Defra yn fframwaith cyffredinol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac yn awgrymu canlyniadau posibl ar ffurf 'syniadau parod', â gwybodaeth ychwanegol i'w hategu. Mae'r cynnig i greu bloc 'Datblygu Economaidd a'r Amgylchedd' o fewn fframwaith canlyniadau Cytundebau Ardal Lleol yn rhoi thema y gallai camau gweithredu yn gysylltiedig â bioamrywiaeth gael eu cynnwys ynddi.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 2 Astudiaeth Achos ALl: Cytundeb Ardal Lleol ar gyfer Cernyw

**Cynghorau Sir a Dosbarth Cernyw**

Mae Cytundeb Ardal Lleol Cernyw yn gynllun cyflenwi ar gyfer Strategaeth Gymunedol Cernyw. Gweledigaeth Strategaeth Gymunedol Cernyw yw cymuned gynaliadwy gref i bawb, a nod y Cytundeb Ardal Lleol yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau yn y DU, drwy ddileu rhwystrau, gwella enillion a gwarchod yr amgylchedd. Nodir canlyniadau ar gyfer Cytundeb Ardal Lleol Cernyw, ac un ohonynt yw sicrhau bod Cernyw yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol. Y nod yw gwella'r gwaith o reoli bioamrywiaeth, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd, a rhoi hwb o gyfleoedd hyfforddiant a busnes amgylcheddol, yn ogystal â chyfrannu at ddelwedd brand Cernyw.

Caiff y gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Ragoriaeth ei lywio gan weithgorau a sefydlwyd gan Fforwm Economaidd Cernyw ac Environment Kernow (partneriaeth amgylcheddol gyffredinol ar gyfer Cernyw). Caiff y cynnydd a wneir o ran y canlyniad hwn ei fonitro drwy dri dangosydd, y pennir targedau uchelgeisiol ar eu cyfer:

- Y nifer sy'n manteisio ar Stiwardiaeth Amgylcheddol;
- Safleoedd Lleol â chanlyniadau gwell ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth;
- Buddiolwyr hyfforddiant yn y sector amgylcheddol.

Och yn ochr â'r nod i ddod yn Ganolfan Ragoriaeth, mae Cytundeb Ardal Lleol Cernyw hefyd yn cynnwys amcanion eraill yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Gwella gwaith rheoli amgylcheddol mewn busnesau gwledig;
- Gwneud cyfraniad mesuradwy i dargedau Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus Ansawdd Bywyd cenedlaethol, er enghraifft niferoedd yr adar ar dir ffermio;
- Gwella'r gwaith o reoli cynefinoedd mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol;
- Adfywio Environment Kernow;
- Cynyddu'r rhan y mae cymunedau yn ei chwarae mewn gwaith rheoli amgylcheddol.

**http://www.cornwallstrategicpartnership.gov.uk/index.cfm?articleid=12893**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 2.6 Adnewyddu Cymdogaethau

Mae'r agenda Adnewyddu Cymdogaethau yn rhoi ymrwymiad i greu cymunedau cynaliadwy. Mae Partneriaethau Strategol Lleol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer eu hardaloedd ac yn datblygu strategaethau adnewyddu sy'n diwallu anghenion lleol. Un maes allweddol y mae arian Adnewyddu Cymdogaethau wedi'i glustnodi ar ei gyfer (ynghyd â throseddau, iechyd, addysg a thai) yw'r amgylchedd lleol.

Gall integreiddio amcanion bioamrywiaeth mewn Strategaethau Adnewyddu Cymdogaethau mewn ffordd ddychmygus arwain at fanteision sylweddol. Er enghraifft gall prosiect i wella ansawdd mannau gwyrdd lleol a mynediad iddynt helpu i gyflawni canlyniadau iechyd gwell i bobl leol, gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac annog ymgysylltu a chydlyniant cymunedol drwy gyfleoedd gwirfoddoli. Bydd gweithredu yn y ffordd hon lle y bydd pawb ar ei ennill yn helpu i benderfynu ar y ffordd orau o wario arian, a byddant yn aml yn ategu’r Strategaeth Gymunedol ehangach.

## 2.7 Seilwaith Gwyrdd

Seilwaith gwyrdd yw’r rhwydwaith o safleoedd a ddiogelir, gwarchodfeydd natur, mannau gwyrdd (gan gynnwys parciau lleol, meysydd chwaraeon, mynwentydd, tiroedd ysgolion, rhandiroedd, tiroedd comin), coetiroedd, cysylltiadau glas mewn ardaloedd trefol, ardaloedd naturiol mewn trefi ac o’u hamgylch, a chefn gwlad. Mae’r cysylltiadau yn cynnwys coridorau afonydd a chamlesi a gorlifdiroedd, lleiniau ymyl ffordd, gwrychoedd a chilffyrdd rheilffyrdd. Yn ogystal â bod yn nodweddion yn y dirwedd, maent yn bwysig yn aml fel coridorau bywyd gwyllt a llwybrau mudo.

Mae seilwaith gwyrdd yn wahanol i ddulliau confensiynol o gynllunio mannau agored am ei fod yn ystyried swyddogaethau a manteision lluosog mannau gwyrdd ar y cyd â datblygu tir, rheoli twf a chynllunio seilwaith adeiledig. Gall seilwaith gwyrdd chwarae rhan gadarnhaol i gyflawni’r amcanion ar gyfer aer glân, dŵr, pridd a gwarchod bioamrywiaeth sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn byw o fewn ein terfynau amgylcheddol. Mae seilwaith gwyrdd yn darparu defnyddiau amlswyddogaethol e.e. profiad bywyd gwyllt, hamdden a diwylliannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau ecolegol, megis amddiffyn rhag llifogydd, rheoli llygredd a chymedroli microhinsawdd. Mae’n debygol y bydd y gwasanaethau hyn yn gynyddol bwysig o ran addasu i newid yn yr hinsawdd.

Bydd ymgorffori seilwaith gwyrdd mewn cynlluniau datblygu yn helpu i sicrhau llawer o’r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd eu hangen er mwyn cael cymunedau cynaliadwy.



**Derw hynafol byw, Cyngor Coed, glasbren**
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 2.8 Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Gweithio mewn Partneriaeth

Cyflawnir Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol drwy weithio mewn partneriaeth – 'meddwl yn fyd-eang – gweithredu'n lleol'. Maent yn sicrhau adnoddau gan bartneriaid a chyllidwyr allanol i weithredu'r cynlluniau, ac maent yn monitro ac yn cofnodi'r gwaith a wneir.

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn strategaethau allweddol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn lleol. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol i arwain a/neu gyfrannu at ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Cydnabyddir Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gyffredinol o fewn awdurdodau lleol a'r tu allan iddynt erbyn hyn, ac maent wedi'u defnyddio i ddylanwadu'n llwyddiannus ar y meysydd gwasanaeth hynny lle nad ystyrir gwarchod bioamrywiaeth yn brif swyddogaeth. Yn ogystal, defnyddir Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Rhanbarthol a'r targedau ynddynt gan gyrff sy'n rhoi grantiau, megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac Ymddiriedolaeth SITA, i helpu i nodi blaenoriaethau a phenderfynu ar geisiadau am grant.

Mae Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn codi ymwybyddiaeth ac yn addysgu pob rhan o'u cymunedau drwy amrywiaeth o gyfryngau, ac yn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei integreiddio mewn cynlluniau a pholisïau lleol. Gallant fanteisio ar gyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol ac arbenigedd lleol. Mae Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol yn cadw data gwerthfawr am fywyd gwyllt lleol y gellir eu defnyddio i sicrhau y gwneir penderfyniadau cynllunio hyddysg. Mae'n hanfodol bod Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol yn parhau i wynebu tuag at allan, gan integreiddio targedau a dangosyddion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth mewn amryw feysydd polisi a allai effeithio ar fioamrywiaeth.

Fel cynrychiolwyr cymunedau lleol, mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae i ddethol, diogelu a rheoli safleoedd lleol o ran gwarchod natur drwy broses y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Mae hyn yn ychwanegol at y dyletswyddau cyfreithiol presennol sy'n gymwys i warchod a gwella safleoedd dynodedig statudol sy'n berthnasol i bob maes gwneud penderfyniadau (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth). Mae Defra wedi cynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol ac eraill er mwyn annog dulliau tryloyw a chyson o nodi, dethol a rheoli safleoedd lleol nad ydynt yn statudol.
**http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/ewd/local-sites/localsites.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3 Astudiaeth Achos ALl: Cyflwyno Bioamrywiaeth drwy Bartneriaethau

**Cyngor Dinas Caergaint**

Gall Cyngor Dinas Caergaint ymgorffori bioamrywiaeth mewn llawer o'i weithgareddau oherwydd ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Mae cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brosiectau nid yn unig yn sicrhau manteision bioamrywiaeth penodol ond mae hefyd yn meithrin diwylliant lle y mae swyddogion yn gyfarwydd â rhwydweithio â rhanddeiliaid eraill a cheisio cyngor a chymorth.

Ar lefel y Sir, mae Cyngor y Ddinas yn aelod gweithgar o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Caint. Ar lefel is-ranbarthol, mae Partneriaeth Dwyrain Caint, a gefnogir gan Asiantaeth Ddatblygu De-ddwyrain Lloegr (SEEDA), wedi datblygu Strategaeth Dwyrain Caint sy'n cynnwys thema a blaenoriaeth i ddiogelu a gwella asedau ac adnoddau naturiol Dwyrain Caint.

Mae Cyngor y Ddinas yn bartner gweithgar mewn nifer o bartneriaethau sy'n ystyried materion amgylcheddol is-ranbarthol gan gynnwys Pwyllgor Cynghori ar y Cyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Twyni Caint, Partneriaeth Moryd Swale a Medway, Menter Blean, a Chynllun Rheoli Arfordiroedd Ewropeaidd Gogledd-ddwyrain Caint Arfordir Thanet.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor y Ddinas yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol, ac ymhlith y blaenoriaethau mae gwella'r amgylchedd fel calon las Dwyrain Caint; gan achub y blaen ym maes diogelwch amgylcheddol cynaliadwy.

Ar lefel weithredol, mae Cyngor y Ddinas wedi datblygu partneriaethau i reoli safleoedd bywyd gwyllt yn yr Ardal. Mae Cyngor y Ddinas yn berchen ar saith gwarchodfa natur, y rheolir tair ohonynt gan Ymddiriedaeth Natur Caint, ac un gan yr RSPB. Mae sefydliadau cadwraeth a grwpiau cymunedol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli'r lleill. Mae Cyngor y Ddinas wedi dynodi tair gwarchodfa natur leol arall, y rheolir dwy ohonynt gan Gynghorau Plwyf ac y rheolir y drydedd gan ymddiriedolaeth elusennol

**http://www.canterbury.gov.uk/**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# 3. Rheoli Tir ac Adeiladau o dan Reolaeth Awdurdodau Lleol

**Negeseuon Allweddol**

- Mae awdurdodau lleol yn dirfeddianwyr mawr a chyda'i gilydd maent yn berchen ar filoedd lawer o hectarau o dir trefol a gwledig ledled Cymru a Lloegr, neu'n eu rheoli, â goblygiadau mawr o ran bioamrywiaeth.
- Mae'r gwaith o reoli safleoedd awdurdodau lleol yn bwysig, gan roi cynefinoedd i fywyd gwyllt a chan leihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth.
- Mae angen i fesurau gwarchod bioamrywiaeth ystyried safleoedd dynodedig a rhywogaethau â blaenoriaeth, a rhywogaethau a chynefinoedd ehangach.
- Mae amrywiaeth eang o safleoedd yn bwysig yn hyn o beth gan gynnwys safleoedd dynodedig a gwarchodfeydd natur, seilwaith gwyrdd, adeiladau, tiroedd ysgolion, gwlyptiroedd a safleoedd arfordirol, priffyrdd a hawliau tramwy, ffermydd a thenantir.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3.1 Cyflwyniad

Un o'r effeithiau mwyaf uniongyrchol a gaiff awdurdodau lleol ar fioamrywiaeth yw drwy reoli eu tir a'u hadeiladau eu hunain. Mae awdurdodau lleol yn dirfeddianwyr mawr a chyda'i gilydd maent yn berchen ar filoedd lawer o hectarau o dir ledled Cymru a Lloegr, neu'n eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o safleoedd gwahanol, gan gynnwys gwarchodfeydd natur, Safleoedd Lleol, parciau a mannau agored cyhoeddus, coetiroedd, adeiladau a gerddi, ffyrdd a lleiniau ymyl ffordd, ffermydd cyngor a thenantir arall, mynwentydd ac amlosgfeydd, tiroedd ysgolion, meysydd chwaraeon, cyrsiau golff, tai, tir gwastraff, cyrff dŵr, traethau a morlin, i enwi ond ychydig (Ffigur 3.1).


Mae rheoli'r safleoedd a'r adeiladau hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth mewn dwy brif ffordd:

- Yn gyntaf, mae llawer o'r tir y mae awdurdodau lleol yn berchen arno neu'n ei reoli yn darparu – neu'n gallu darparu – cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt. Gall adeiladau ddarparu safleoedd nythu a chlwydo pwysig.
- Yn ail, gall y gwaith o reoli'r safleoedd a'r adeiladau hyn effeithio ar fioamrywiaeth yn anuniongyrchol drwy effeithio ar yr amgylchedd. Gall y defnydd o ynni, dŵr, cemegion a mawn; llygredd aer, sŵn a golau; cymryd tir a chyflwyno rhywogaethau goresgynnol oll gael effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Drwy wella'r gwaith o reoli safleoedd ac adeiladau awdurdodau lleol gellir sicrhau manteision amgylcheddol, iechyd, economaidd ac adfywio i gymunedau lleol.

Gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae hefyd i gefnogi a hwyluso gwaith rheoli tir o fewn eu hardaloedd gweinyddol gan gynnwys: rhoi canllawiau ar reoli Safleoedd Lleol fel rhan o'r Bartneriaeth Safleoedd Lleol; prosiectau partneriaeth yn rheoli ac yn adfer cynefinoedd; a pharatoi strategaethau rheoli tir; cynlluniau a phrosiectau i gefnogi hyfywedd prosesau rheoli tir gwledig ac ati.

**Ffigur 3.1: Bioamrywiaeth a Thir ac Adeiladau Awdurdodau Lleol**




This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3.2 Camau Gweithredu Cadarnhaol o ran Bioamrywiaeth ar Safleoedd ac Adeiladau Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol yn berchen ar amrywiaeth eang o safleoedd, adeiladau a strwythurau ac yn eu rheoli. Yn ogystal â rheoli eu stoc adeiladau, maent hefyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu adeiladau a strwythurau newydd, naill ai at eu defnydd eu hunain neu fel rhan o brosiect adfywio, datblygu economaidd, tai neu drafnidiaeth ehangach.

Ymhlith y camau cadarnhaol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i wella eu safleoedd a'u hadeiladau o ran bioamrywiaeth mae:

- **Arolygon ac archwiliadau**. Y cam cyntaf i gynnal a gwella gwerth bioamrywiaeth ystad awdurdod lleol yw asesu'r adnodd bioamrywiaeth posibl. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o ddaliadau tir a'u maint ond gall gynnwys cynnal arolygon, ceisio cyngor arbenigol gan ecolegydd awdurdod lleol ar wybodaeth ac arolygon presennol, ceisio cyngor gan arbenigwyr allanol, defnyddio'r Ganolfan Gofnodion Leol a/neu Ranbarthol ac ymgynghori â phartneriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Dylai hyn ddefnyddio arolygon blaenorol a data presennol, a gall nodi'r angen i gynnal arolygon pellach i lenwi unrhyw fylchau yn y data. Bydd tystiolaeth o arolygon yn helpu i nodi rhywogaethau a chynefinoedd pwysig, gan gynnwys y rhai y rhoddir blaenoriaeth iddynt mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol a phresenoldeb unrhyw rywogaethau anfrodorol goresgynnol. Gan ddibynnu ar nifer y safleoedd ac arwynebedd y tir dan sylw, efallai y bydd angen proses flaenoriaethu gan ganolbwyntio'n gyntaf ar safleoedd yr ystyrir eu bod yn fwyaf tebygol o fod yn bwysig iawn. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cydweithio'n llwyddiannus â grwpiau amgylcheddol a gwirfoddolwyr i gynnal arolygon o'u safleoedd.
- **Lleoli datblygiadau oddi wrth safleoedd pwysig**. Ymgorffori arolygon o safleoedd er mwyn sicrhau na cheir effaith andwyol ar rywogaethau na chynefinoedd sensitif ac y cymerir camau gwella lle y bo'n briodol. Lle y ceir rhagdybiaeth o blaid datblygiad ar safleoedd tir llwyd, mae'n bwysig nodi y gall y rhain fod yn bwysig i fioamrywiaeth;
- **Dylunio safleoedd ac adeiladau**. Os caiff safleoedd ac adeiladau newydd eu dylunio'n ofalus, gall manteision ddod yn eu sgil o ran bioamrywiaeth drwy warchod ac integreiddio cynefinoedd presennol, darparu safleoedd nythu a chlwydo, a rhoi cynefinoedd. Er enghraifft, darparu blychau nythu, waliau gwyrdd a thoeau brown a gwyrdd lle y bo'n briodol, i leihau effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, lleihau'r defnydd o ynni a darparu cynefinoedd ar raddfa fach i fywyd gwyllt.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK



Gardd bywyd gwyllt Tŷ Northminster Natural England
Llun: Ffotograffydd Natural England Paul Lacey

- **Cynlluniau ac arferion rheoli**. Bydd rheoli tir awdurdodau lleol yn briodol o fudd i fioamrywiaeth, gan gynnwys arferion buddiol o ran torri a symud llystyfiant, defnyddio cemegion, rheoli mynediad, amseru gwaith cynnal a chadw ac ati. Mae gan fanyleb contractau cynnal a chadw tiroedd ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth.[22]

- **Defnyddio rhywogaethau coed a phlanhigion brodorol**. Mae awdurdodau lleol yn plannu nifer fawr o goed a phlanhigion ar eu tir, a, thrwy ddefnyddio rhywogaethau brodorol, gallant sicrhau'r manteision mwyaf o ran bioamrywiaeth a lleihau'r risg o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

- **Cysylltu safleoedd cyhoeddus ag ardaloedd naturio**. Gall safleoedd awdurdodau lleol chwarae rhan strategol bwysig i gysylltu ardaloedd naturiol yng nghefn gwlad ehangach, sy'n gynyddol ddarniog bellach yn aml. Gall hyn gynnwys darparu coridorau bywyd gwyllt ac ail-greu cynefinoedd megis glaswelltiroedd lled-naturiol i gysylltu ardaloedd cyffiniol o werth naturiol mawr. Mewn ardaloedd mwy trefol, bydd Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn helpu i gysylltu safleoedd cyhoeddus â'i gilydd.

- **Mynediad cyhoeddus, dehongli a chymryd rhan**. Defnyddir llawer o safleoedd awdurdodau lleol fel adnodd hamdden ac addysg gan y cyhoedd, ac mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth. Drwy gynnwys y gymuned mewn prosiectau bioamrywiaeth, gall awdurdodau lleol eu defnyddio i ddatblygu cymunedau cryfach.

- **Arwain drwy esiampl**. Fel sefydliadau cyhoeddus, mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae i arwain drwy esiampl wrth reoli eu safleoedd. Gall safleoedd a reolir yn dda ddangos rôl gadarnhaol gwaith rheoli safleoedd o ran busnesau, sefydliadau eraill a'r cyhoedd.

Mae cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth safleoedd yn ffordd o ddod â'r gweithgareddau gwahanol hyn at ei gilydd i lunio cynllun cydlynol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth ar safleoedd penodol.[23]

Mae cynlluniau ardystio megis Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) yn galluogi awdurdodau lleol i ddangos bod eu hadeiladau yn cyrraedd safonau amgylcheddol cydnabyddedig. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cael ardystiad BREEAM, yn enwedig ar gyfer datblygiadau newydd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gorllewin Sussex yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd dros £2m ac estyniadau i ysgolion dros £0.5m gael statws da iawn BREEAM, ac mae Cyngor Sir Durham yn ei gwneud yn ofynnol i bob safle ac adeilad ysgol newydd gael asesiad ecolegol llawn a cheisio cael statws ardderchog BREEAM. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi gosod her yn ddiweddar y dylai pob ysgol newydd a phob adeilad ysgol a adnewyddir yn sylweddol geisio statws 'Da Iawn'. **http://www.breeam.org/index.html**

Ar 13 Rhagfyr 2006, lansiwyd y Cod i Gartrefi Cynaliadwy – safon genedlaethol newydd ar gyfer dylunio ac adeiladu cartrefi newydd yn gynaliadwy. Un o'r categorïau yw "Ecoleg" ac mae'n nodi nifer o safonau sy'n berthnasol i warchod bioamrywiaeth:
**http://www.planningportal.gov.uk/uploads/code_for_sust_homes.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[22] Gweler, er enghraifft, http://www.cabe.org.uk/AssetLibrary/8068.pdf
[23] Gweler, er enghraifft, http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/B&B%20SITE%20BAP%20(181)%20V10.pdf

## 3.3 Safleoedd Dynodedig

Caiff llawer o safleoedd y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli eu diogelu drwy ddynodiadau cadwraeth. Mae safleoedd Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) yn cael y diogelwch mwyaf o dan gyfraith yr UE. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o bwys cenedlaethol ac fe'u diogelir o dan ddeddfwriaeth genedlaethol. Mae safleoedd pwysig eraill yn cynnwys Safleoedd Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol. Ceir crynodeb o'r dynodiadau allweddol yn Atodiad 3.

Diogelir safleoedd dynodedig yr UE gan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994,[24] ac o dan y rhain, mae gan awdurdodau cymwys h.y. unrhyw Weinidog, adran o'r Llywodraeth, corff cyhoeddus, neu unigolyn â swydd gyhoeddus, ddyletswydd gyffredinol i ystyried y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer rheoli gweithrediadau a allai fod yn niweidiol, lle mai dim ond ar ôl dangos drwy asesiad priodol na fydd y cynllun neu'r prosiect arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle y gall yr awdurdod cymwys roi caniatâd.

Yn Lloegr, mae gan y Llywodraeth darged Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus i sicrhau bod 95% o SoDdGA mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010. Mae awdurdodau lleol yn berchen ar gyfanswm o tua 40,000 o hectarau o dir a ddynodwyd yn SoDdGA ac felly mae ganddynt rôl allweddol i gyfrannu at gyrraedd y targed hwn. Mae'r astudiaeth achos isod yn rhoi enghraifft o'r camau a gymerwyd gan awdurdod lleol i wella cyflwr a statws SoDdGA.

Mae Adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol i "take reasonable steps, consistent with the proper exercise of the authority's functions, to further the conservation and enhancement of the flora, fauna or geological or physiographical features by reason of which the site is of special scientific interest". A "The Secretary of State expects that all public bodies will take full account of their responsibilities under this duty whenever their actions may affect SSSIs". Mae'r gofyniad hwn yn ymwneud â thir yr awdurdod ei hun a hefyd â'r system gynllunio a phob maes gwneud penderfyniadau. Yn Lloegr, darparwyd cod canllawiau gan Defra i lywio'r gwaith o reoli SoDdGA.[25]

Er mwyn diogelu a rheoli safleoedd dynodedig yn effeithiol, mae angen i bob rhan o'r Cyngor fod yn ymwybodol o'u lleoliad a'u maint. Mae angen rhoi gwybodaeth a chanllawiau priodol i staff ynghylch eu lleoliad a sut i'w diogelu a'u rheoli. Am ragor o wybodaeth am safleoedd dynodedig, gweler Datganiad Polisi Cynllunio 9 (Adran 3).



Coedwig Dyffryn Bovey, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coetiroedd a Rhostiroedd Dwyrain Dartmoor
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[24] http://www.jncc.gov.uk/tudalen-1379
[25] Defra (2003) SSSIs – Encouraging Positive Partnerships. http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/ewd/sssi/sssi-code.pdf

### 4 Astudiaeth Achos ALl: Comin Epsom – adfer SoDdGA

**Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell**

Mae’r rhan fawr o Gomin Epsom yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell yn berchen arno ac yn ei reoli. Yn ystod yr 1980au, cydnabuwyd bod bioamrywiaeth Comin Epsom yn dirywio oherwydd twf cyflym prysgwydd a choetir ifanc, a oedd yn cwtogi ar amrywiaeth cynefinoedd ar y safle. Gwnaed rhywfaint o waith gyda gwirfoddolwyr a staff y cyngor i glirio rhai prysgwydd ac awgrymwyd y syniad o ailgyflwyno gwartheg. Yn 1997, cyflwynwyd dwy fuwch. Roedd ymateb y cyhoedd yn gadarnhaol ond nid oedd y fenter yn ddigon mawr i wrthdroi’r newidiadau niweidiol.

Ar ôl i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ddod i rym, daeth Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell yn gyfrifol yn statudol am ddiogelwch ei fioamrywiaeth, a dosbarthwyd ei statws yn ‘anffafriol yn dirywio’. Gofynnodd English Nature a Chymdeithas Comin Epsom, sef grŵp buddiannau lleol ag 800 o aelodau, i Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell lofnodi ‘Datganiad Rheoli Safle’ a’i rhwymodd i weithio i sicrhau y câi bioamrywiaeth y safle ei ddiogelu ac nad oedd yn colli ei statws fel SoDdGA.

Mae llawer o gynnydd wedi’i wneud ers 2001 mewn partneriaeth â Natural England, Cymdeithas Comin Epsom a Phrosiect Rheoli Cefn Gwlad Lower Mole. Yn 2001 datganodd Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell y safle cyfan yn Warchodfa Natur Leol a lluniwyd Cytundeb Stiwardiaeth Cefn Gwlad â Defra i ddechrau proses o ail-greu coetir pori ar y safle a gwrthdroi’r dirywiad mewn cynefinoedd pwysig yn barhaol. Wrth i brysgwydd gael eu clirio, mae pori wedi’i ailgyflwyno’n raddol. Ym mis Ionawr 2005 cymeradwywyd cynllun rheoli 10 mlynedd gan Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell a datganwyd statws y safle yn ‘anffafriol yn gwella’. Penodwyd un o nodau hirdymor Statws Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn nod gan Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell a Natural England ac mae Natural England bellach yn ystyried bod y safle yn un o’r tiroedd comin a reolir orau yn Ne-ddwyrain Lloegr. Ym mis Awst 2005, cytunwyd ar ‘Gynllun Gwella Bywyd Gwyllt’ pum mlynedd â Natural England i ariannu gwaith bioamrywiaeth.

Mae llawer o’r cynnydd a wnaed hyd yma wedi’i wneud yn sgîl ymdrechion gwirfoddolwyr a thrigolion lleol. Mae gan EcoVols (cangen gwirfoddolwyr Cymdeithas Comin Epsom) raglen waith flynyddol fawr, maent yn gwneud gologo unwaith y mis ac yn 2006 rhoddodd cynghorwyr sir lleol £10,000 iddynt i brynu cerbyd sy’n addas ar gyfer pob math o dir i gludo eu holl offer o amgylch y safle.

Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn lleoedd â bywyd gwyllt neu nodweddion daearegol sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol. Maent wedi’u dynodi ar gyfer bywyd gwyllt a phobl ac yn cynnig cyfleoedd i astudio natur, dysgu amdani neu ei mwynhau. Mae bellach 1260 o Warchodfeydd Natur Lleol yn Lloegr, yn amrywio o bentiroedd arfordirol agored i’r gwynt a choetiroedd hynafol i safleoedd tir llwyd mewn ardaloedd trefol. Maent yn cwmpasu bron 40,000 o hectarau i gyd. Mae canllawiau ar ddatgan a rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol ar gael gan Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.[26] Mae Llyfrgell y Comisiwn Archwilio o Ddangosyddion Lleol i Gymru a Lloegr[27] yn awgrymu y dylai fod 1 hectar o Warchodfa Natur Leol fesul 1000 y pen o’r boblogaeth mewn ardal awdurdod lleol.

Detholir Safleoedd Lleol gan bartneriaethau lleol oherwydd eu gwerth gwarchod natur sylweddol. Mae dros 35,000 o Safleoedd Lleol yn Lloegr, ac mae awdurdodau lleol yn berchen ar lawer ohonynt neu’n eu rheoli.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[26] Gweler http://www.english-nature.org.uk/special/lnr/office.htm & http://www.ccw.gov.uk/generalinfo/index.cfm?Action=ResourceMore&ResourceID=34&Subject=ProtectedSites&lang=en

[27] http://www.local-pi-library.gov.uk/LIBRARY_ALL_PIS.ASP?MENUID=609

### 5 Astudiaeth Achos ALl: Prosiect Calderdale Wildspace! – Gwella Gwarchodfeydd Natur Lleol er Bioamrywiaeth

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Calderdale**

Roedd Wildspace Calderdale yn brosiect 3 blynedd a ariannwyd gan English Nature. Ymhlith y nodau roedd:

- Cynyddu darpariaeth Gwarchodfeydd Natur Lleol Calderdale o ddim Gwarchodfeydd Natur Lleol i un hectar o Warchodfa Natur Leol i bob 760 o bobl yn Calderdale a sicrhau bod gan 80% o drigolion Calderdale Warchodfa Natur Leol o fewn 2km i'w cartref drwy ddatgan 10 o Warchodfeydd Natur Lleol, sef cyfanswm o 250 o hectarau. Cyflawnwyd hyn a Calderdale yw un o'r awdurdodau lleol cyntaf i ragori ar darged English Nature o un hectar o Warchodfa Natur Leol fesul 1000 o'r boblogaeth.
- Cynnwys cymunedau lleol yn well, yn enwedig grwpiau difreintiedig, yn y gwaith o ddefnyddio a rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol yn gynaliadwy. Mae gan bob safle grŵp cymunedol lleol sy'n gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth. Mewn rhai achosion, grwpiau Cyfeillion ydynt, a grwpiau defnyddwyr ydynt mewn achosion eraill.
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth Gwarchodfeydd Natur Lleol, gan roi sylw arbennig i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodwyd fel blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Calderdale, drwy gynhyrchu a gweithredu cynlluniau rheoli. Mae gan bob safle gynllun rheoli bellach, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau o ran cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Mae'r prosiect wedi helpu i brif ffrydio bioamrywiaeth ym meddylfryd y Cyngor a bu'n fodd i fanteisio ar ffrydiau ariannu lleol a chenedlaethol.


This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3.4 Rhywogaethau a Ddiogelir a Rhywogaethau â Blaenoriaeth ar Dir Awdurdodau Lleol

Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt Prydain yn cael eu diogelu o dan y gyfraith. Y brif ddeddf sy'n ymdrin â hyn yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981, fel y'i diwygiwyd yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan foch daear, ceirw a morloi Ddeddfau Seneddol penodol ar eu cyfer. Mae rhywogaethau hefyd yn cael eu diogelu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Ceir crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn Atodiad 2.

Yn ogystal, mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn nodi rhywogaethau penodol fel blaenoriaethau i'w gwarchod,[28] tra rhoddir blaenoriaeth i rywogaethau eraill yn lleol o dan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Mae gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae i sicrhau y caiff y rhywogaethau hyn eu diogelu ar eu tir, ac i nodi camau cadarnhaol y gellir eu cymryd i warchod rhywogaethau yn unol â



Glöyn byw brith perlog math BAP
Llun: Ffotograffydd Natural England Michael Hammett

[28] Gweler Blwch 1.1 am ragor o fanylion am gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth cenedlaethol a lleol drwy reoli safleoedd yn briodol. Gellir defnyddio arolygon ac archwiliadau o safleoedd i nodi presenoldeb rhywogaethau a ddiogelir neu rywogaethau â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a hefyd bresenoldeb rhywogaethau anfrodorol goresgynnol bygythiol, ac efallai y bydd gwybodaeth ar gael gan Ganolfannau Cofnodion Lleol hefyd. Mae'n bwysig iawn nodi presenoldeb rhywogaethau a ddiogelir pan gynigir gwaith datblygu mawr neu newidiadau rheoli ar safleoedd penodol.

Ceir rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth rhywogaethau a ddiogelir ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn **http://www.jncc.gov.uk/page-1747,**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3.5 Rheoli'r Seilwaith Gwyrdd

Mae awdurdodau lleol yn berchen ar nifer ardaloedd gwyrdd ac yn eu rheoli, ac os caiff y rhain eu rheoli'n gydymdeimladol, gallant fod yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt yn ogystal â chynnig cyfleoedd i bobl ddod yn agos at natur, gan sicrhau manteision o ran iechyd a lles. Gweler adran 2.7 am enghreifftiau o seilwaith gwyrdd.

Mae angen i'r gwaith o reoli'r seilwaith gwyrdd ystyried nifer o amcanion a diwallu anghenion pobl yn ogystal â bywyd gwyllt. Mewn rhai achosion, efallai fod yr amcanion hyn yn ymddangos yn groes i'w gilydd. Er enghraifft, efallai y bydd angen torri glaswellt yn fyr ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, er y byddai bywyd gwyllt o bosibl yn cael budd o gyfundrefnau rheoli gwahanol lle y torrir y gwair yn llai aml a lle y caiff strwythur mwy amrywiol ei greu gan gynnwys ardaloedd gwyllt. Drwy archwilio'r cyfleoedd i warchod bioamrywiaeth ar draws seilwaith gwyrdd cyfan yr awdurdod, gellir datrys llawer o'r achosion hyn o wrthdaro. Mae'n bwysig cydnabod bod rhai safleoedd yn fwy addas o ran gwella bioamrywiaeth nag eraill, ond y bydd rhannau o lawer o safleoedd yn cynnig cyfleoedd i warchod bioamrywiaeth.

Mae gwerth ardaloedd gwyrdd fel cynefinoedd yn dibynnu ar y rhywogaethau dan sylw, strwythur y llystyfiant, a'r math o weithrediadau rheoli a pha mor aml y'u cynhelir.

Y gwaith cynnal a chadw mwyaf cyffredin mewn llawer o ardaloedd gwyrdd yw torri glaswelltir amwynder yn fyr. Mae cyfundrefnau rheoli sy'n ffafrio bioamrywiaeth yn debygol o amrywio'r arferion prif ffrwd hyn. Gallant gynnwys:

- Gadael i laswellt dyfu'n hwy ar adegau penodol o'r flwyddyn ac mewn mannau penodol, er mwyn darparu strwythur mwy amrywiol, symbylu tyfiant blodau gwyllt, a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt
- Gadael rhai ardaloedd llawn chwyn i ddarparu bwyd i adar ac anifeiliaid
- Defnyddio rhywogaethau coed a phlanhigion brodorol o ffynonellau cynaliadwy mewn gwaith plannu newydd, lle bynnag y bo'n bosibl ac osgoi defnyddio rhywogaethau goresgynnol anfrodorol
- Lleihau'r defnydd o chwynladdwyr, plaladdwyr a dŵr ac osgoi defnyddio mawn
- Arferion rheoli coetir buddiol, gan gynnwys (lle y bo'n gyson ag ystyriaethau iechyd a diogelwch) gadael pren marw ar y safle
- Darparu brithwaith o gynefinoedd
- Datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli sy'n ceisio gwella gwerth bioamrywiaeth y safle dros gyfnod penodol o amser.

Yn aml, gall gwella'r gwaith o reoli'r seilwaith gwyrdd yn y ffordd hon leihau i ba raddau y mae angen ymyrryd, gan arwain at arbedion cost posibl. Fodd bynnag, yn aml mae angen bod yn fwy hyblyg a chynllunio'n well nag ar gyfer mathau mwy arferol o waith rheoli, ac efallai y bydd angen amrywiaeth eang o sgiliau a chyfraniad mwy gan reolwyr. Mae hyn yn gosod her o ran manyleb contractau cynnal a chadw safleoedd. Mae Space (2006) y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE) yn rhoi canllawiau ar sut y gellir gwella parciau trefol er bioamrywiaeth.

## Blwch 3.1: Gwneud i Gontractau Weithio er Bywyd Gwyllt

Mae'r canllawiau yn crynhoi mathau gwahanol o gontractau cynnal a chadw tir fel a ganlyn:

- **Yn seiliedig ar fewnbwn** – lle y nodir y gweithrediadau, yn ogystal â pha mor aml y'u cynhelir a safonau.
- **Yn seiliedig ar allbw** – lle y nodir canlyniadau penodol, megis uchder mwyaf y glaswellt a ganiateir.
- **Yn seiliedig ar ganlyniadau** – lle y disgrifir y canlyniadau cyffredinol, gan adael i'r contractwyr nodi sut y maent yn bwriadu eu cyflawni. Fel arfer, ategir hyn gan ddatganiadau dull a ddarparwyd gan y contractwr, y cytunwyd arnynt gan y cleient, a llunio cyfarwyddiadau ymarferol i'r rhai sy'n gwneud y gwaith.

Mae Space CABE yn argymell contract yn seiliedig ar ganlyniadau fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r nod o wella bioamrywiaeth, tra'n rhoi ffordd ddefnyddiol o nodi gwaith cynnal a chadw tiroedd hefyd. Mae gan y math hwn o fanyleb fantais arall yn y ffaith nad yw wedi'i gyfyngu i gylch gwaith blynyddol, gan olygu y gellir symud at ganlyniadau drwy fwy nag un tymor. Gellir cyflawni gwaith hunan-fonitro os bydd y dulliau mesur yn glir, a gall hyn gynnwys targedau cynyddol.

*Making Contracts work for Wildlife – How to Encourage Biodiversity in Urban Parks:*
**http://www.cabe.org.uk/AssetLibrary/8068.pdf**

**Gwobr y Faner Werdd** yw'r safon genedlaethol ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynllun yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r mannau gwyrdd gorau yn y wlad. Mae'r Wobr yn agored i unrhyw fan wyrdd hygyrch, gan gynnwys parciau, gerddi, gwarchodfeydd natur, mynwentydd ac amlosgfeydd, mannau agored, coetiroedd a rhandiroedd. Mae wyth maen prawf dyfarnu, sy'n cynnwys cadwraeth a threftadaeth (gan gynnwys gwarchod a gwella nodweddion naturiol, fflora a ffawna) a chynaliadwyedd (yn cwmpasu polisi amgylcheddol, plaladdwyr, mawn, rheoli gwastraff, safonau garddwriaethol a rheoli ynni). Dylid hyrwyddo cyfranogiad cymunedau ac mae'n ofynnol llunio cynllun rheoli ar gyfer pob safle. Yn ogystal â dangos manteision parciau a mannau gwyrdd i'r cyhoedd, mae ennill statws y Faner Werdd yn cynnig llawer o fanteision i awdurdodau lleol o ran enw da a mesur perfformiad. http://www.greenflagaward.org.uk

Mae gwella'r gwaith o reoli'r seilwaith gwyrdd er bioamrywiaeth yn cynnig llawer o gyfleoedd i gynnwys cymunedau. Daw llu o fanteision yn sgîl cynnwys cymunedau mewn prosiectau bioamrywiaeth, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o waith gwarchod bioamrywiaeth, hyrwyddo gwerthfawrogiad o amcanion rheoli'r safle, darparu llafur gwerthfawr a chyfraniad gan reolwyr, a hyrwyddo gallu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol. Rhoddir enghreifftiau o gynnwys cymunedau mewn gwaith gwarchod bioamrywiaeth ym Manceinion yn yr astudiaeth achos isod.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 6 Astudiaeth Achos ALl: Ceunant a Pharc Broadhurst

**Cyngor Dinas Manceinion**

Mae'r safle hwn yn cwmpasu 14 o hectarau o ardaloedd naturiol yn ardal drefol Moston, Gogledd Manceinion, sef ardal ddifreintiedig iawn. Roedd Ceunant Broadhurst yn hen gynefin dŵr agored a lenwyd yn 1946 er mwyn adeiladau tai parod, a ddymchwelwyd wedyn yn y 1960au. Ers hynny, mae wedi dod yn wlyptir sy'n dirywio – gan aros yn wlyb yn ystod misoedd y gaeaf ond heb gadw ei nodweddion dŵr agored. Cafwyd amrywiaeth o broblemau ar y safle, oherwydd pwysau'r cyhoedd yn bennaf yn sgîl sathru, dympio, llosgi a beiciau modur oddi ar y ffordd. Mae'r gwlyptir wrth ymyl Parc Broadhurst, sef man gwyrdd cyhoeddus ffurfiol â chaeau pêl-droed i dimau iau ac uwch, lle y cafwyd problemau draenio difrifol a gafodd effaith andwyol ar eu swyddogaeth fel cyfleuster chwaraeon.

Ymdriniodd y prosiect â'r ddwy broblem wahanol hyn a oedd yn effeithio ar y ddau fan gwyrdd cyfagos pwysig. Yr ateb oedd draenio'r dŵr dros ben o'r caeau chwarae i'r ardal wlyb gyfagos a oedd yn dirywio, gan ei hadfer yn wlyptir a chan gwella gallu'r caeau chwaraeon i weithredu fel cyfleuster chwaraeon. Yn sgîl hyn, bu modd creu dwy ardal dŵr agored tra'n cadw rhywfaint o'r glaswelltir corsiog. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r gymuned bêl-droed leol, trigolion a grwpiau archeolegol i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect arfaethedig a sicrhau cefnogaeth iddo.

Roedd y gwaith yn cynnwys dau gam. Y cam cyntaf oedd creu'r pwll bas gwlyptir a gwaith draenio'r caeau pêl-droed, a'r ail gam oedd datblygu'r seilwaith gwlyptir, mynediad a dehongli, gyda'r nod o gynyddu defnydd a mwynhad y cyhoedd o'r safle.

Mae'r prosiect wedi cael cyfranogiad cymunedol gwirfoddol penodedig i wella'r safle. Gwnaed cais am Grant Mannau Anadlu i gynnal gweithgareddau cymunedol i gynyddu'r defnydd o'r Ceunant. Cafwyd gwelliant sylweddol o ran draeniad y caeau pêl-droed i dimau iau. Dros amser, ceir cynlluniau i ddatblygu'r safle ymhellach fel adnodd o safon i weithgareddau hamdden goddefol a gweithredol, a chyfleuster addysgol pwysig i ysgolion lleol ac oedolion.

## 3.6 Lleiniau Ymyl Ffordd

Lleiniau ymyl ffordd yw rhai o'r ardaloedd olaf o laswelltir heb ei wella sydd wedi goroesi yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â chynefinoedd eraill megis coetir, rhostir a gwrychoedd. Os cânt eu rheoli gan ystyried bioamrywiaeth, gallant fod yn adnodd pwysig a gweithredu fel coridorau yn cysylltu cynefinoedd eraill.

Yn draddodiadol, mae lleiniau ymyl ffordd glaswelltog wedi'u rheoli drwy eu torri'n fyr yn rheolaidd, sy'n gyson ag ystyriaethau diogelwch ac y gellir ei gyflawni'n gyfleus drwy gontractau rheoli safonol. Fodd bynnag, cydnabyddir gwerth lleiniau ymyl ffordd o ran bioamrywiaeth yn gynyddol, ac mae arferion rheoli wedi'u newid i gynnwys torri lleiniau ymyl ffordd yn llai aml a symud toriadau, er mwyn annog bioamrywiaeth blodau i ddatblygu. Mae rhai Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi nodi lleiniau ymyl ffordd fel cynefinoedd lleol â blaenoriaeth ac wedi llunio cynlluniau gweithredu i'w diogelu a'u rheoli. Cydnabyddir manteision gweledol

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

blodau gwyllt ar leiniau a chylchfannau yn eang bellach mewn sawl ardal. Gallai'r bygythiadau i gynefinoedd lleiniau ymyl ffordd gynnwys:

- Gwaith rheoli amhriodol e.e. cyfundrefn torri a thirlunio e.e. plannu blodau gardd mewn ardaloedd amhriodol;
- Y lleiniau yn mynd yn llai oherwydd parcio ceir neu ehangu'r ffordd;
- Amharu ar y lleiniau drwy osod gwasanaethau, eu defnyddio i storio eitemau neu yn sgîl defnydd gan gerddwyr a cheffylau;
- Ailhadu â rhygwellt;
- Sbwriel.[29]

Gall torri lleiniau ymyl ffordd yn llai aml arwain at arbedion cost, ar yr amod y gellir goresgyn rhwystrau technegol penodol.

## 7 Astudiaeth Achos ALl: Prosiect Priffyrdd Byw

**Cyngor Sir Powys, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Phartneriaid**

Yn y DU, mae lleiniau ymyl ffordd yn cynnwys rhai o'r enghreifftiau olaf o gynefinoedd llawn rhywogaethau a oedd yn gyffredin gynt yng nghefn gwlad ac sydd wedi dirywio'n sylweddol yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae'n bosibl hefyd y byddant yn helpu i ddarparu cysylltiadau ffisegol rhwng pocedi o gynefinoedd sy'n weddill a fyddai'n ynysig fel arall, gan helpu i ehangu a gwasgaru rhywogaethau llai symudol.

Mae'r Prosiect Priffyrdd Byw yn bartneriaeth sefydledig, a ddechreuwyd yn 2001, rhwng Ymddiriedolaethau Natur Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed a Brycheiniog, Cyngor Sir Powys, CCGC a Grŵp Pryder Lleiniau Ymyl Ffordd a Gwrychoedd Powys. Nod y prosiect yw diogelu ac annog cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt gwerthfawr sy'n gysylltiedig â lleiniau ymyl ffordd ym Mhowys, yn y Canolbarth. Mae'r prosiect yn gweithio ar nifer o fentrau gwahanol i gyflawni hyn, gan gynnwys sefydlu systemau i ddiogelu safleoedd hysbys o werth ecolegol mawr a gwella arferion rheoli lleiniau ymyl ffordd.

Mae symud toriadau yn ystyriaeth reoli bwysig wrth anelu at gynnal neu gynyddu bioamrywiaeth ardaloedd glaswellt, gan helpu i ostwng lefelau maetholion er budd fflora brodorol. Yn 2005, ymchwiliodd treialon a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn ar ran y bartneriaeth i ymarferoldeb defnyddio toriadau i gynhyrchu compost a bionwy. Dangoswyd bod modd casglu toriadau o leiniau ymyl ffordd Powys ar raddfa gymharol fawr a bod y deunydd yn addas i gynhyrchu compost a bionwy, gan gynhyrchu cynhyrchion terfynol a allai fod yn werthfawr. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol a ddaw yn sgîl peidio â gwaredu'r deunydd mewn safleoedd tirlenwi, gall gwaith cynhyrchu bionwy hefyd fod yn ffynhonnell o ynni cynaliadwy, ac iddo fanteision o ran lleihau gollyngiadau carbon. Ar ôl y treial, cafwyd gwaith datblygu a gwerthuso pellach, gyda'r nod o gynaeafu ar raddfa fawr yn y dyfodol.

Mae'r heriau technegol a gweithredol sy'n gysylltiedig â gwella'r ffordd o reoli bioamrywiaeth lleiniau ymyl ffordd i'r eithaf yn golygu bod angen i awdurdodau flaenoriaethu safleoedd penodol yn aml. Drwy arolygu safleoedd ymyl ffordd a/neu weithio gyda phartneriaid (gweler y Prosiect Priffyrdd Byw), gall cynghorau nodi'r rhai y dylid rhoi blaenoriaeth i'w diogelu, eu rheoli a'u gwella, a datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ar gyfer y safleoedd hyn.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[29] Ffynhonnell: *Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Selsey (http://www.geocities.com/mecyclops2002/RoadVerges.htm)*

## 3.7 Ffermydd a Thenantir

Mae llawer o awdurdodau lleol yn berchen ar dir ffermio a safleoedd eraill a osodir i ffermwyr a thenantiaid eraill. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Caergrawnt yn credu ei fod yn berchen ar yr ystad ffermio fwyaf o blith yr awdurdodau lleol sy'n cwmpasu 14,000 o hectarau ac y mae 270 o denantiaid yn ei ffermio. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod ystad ffermio'r awdurdod lleol yn cwmpasu 120,000 o hectarau yn genedlaethol. Yn ogystal â sicrhau manteision ariannol, gellir defnyddio'r tir hwn i hyrwyddo mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a diogelu a gwella tirwedd, bioamrywiaeth ac archeoleg tir ffermio a choetir.

Mae llawer o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn dibynnu ar reoli cynefinoedd tir ffermio a choetir mewn ffordd gydymdeimladol.[30] Mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae i annog tenantiaid i wella'r gwaith o reoli'r tir er bioamrywiaeth, drwy eu cytundebau tenantiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

### 8 Astudiaeth Achos ALl: Defnyddio Cynlluniau Amaeth-amgylchedd i Wella Gwlyptiroedd ar Gyrion y Dref

**Cyngor Dinas Norwich**

Mae pum safle gwlyptir a reolir gan Gyngor Dinas Norwich wedi cael arian amaeth-amgylchedd o dan Gynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif y Broads. Mae'r safleoedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o wlyptir, gan gynnwys ffen, corsleoedd a glaswelltir gwlyb ac maent yn gyfagos at afonydd Yare a Wensum. Mae Cyngor Dinas Norwich wedi cynnwys cyfanswm o 46 o hectarau o'r pum safle yn y Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif.

Cyn eu cynnwys yn y cynllun, roedd y safleoedd dan sylw wedi mynd drwy gylchoedd o weithgarwch ac wedyn roeddent wedi cael eu hesgeuluso i raddau, oherwydd blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor neu faint o arian a oedd ar gael. Er bod gwaith rheoli cadwraeth wedi'i wneud mewn rhai o'r safleoedd, nid oedd yr un ohonynt mewn cyflwr delfrydol o bell ffordd, ac roedd rhai wedi'u hesgeuluso a'u camddefnyddio, gan gynnwys dympio anghyfreithlon. Nid oedd fawr ddim gobaith y gallai'r Cyngor ariannu'r gwelliannau angenrheidiol ac, yn ogystal, roedd rhai aelodau o'r Cyngor o'r farn bod y safleoedd yn gwastraffu adnoddau'r Cyngor, ac ar un adeg cafwyd cynnig i werthu llawer o'r safle mwyaf, gorau, Marston Marsh, er mwyn ymestyn cwrs golff.

Credwyd y gallai'r Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ariannu llawer o'r buddsoddiad cyfalaf a'r gwaith rheoli blynyddol a oedd eu hangen, yn ogystal â rheoli'r safleoedd mewn ffordd fwy cyson na fyddai blaenoriaethau a chyllidebau cyfnewidiol y Cyngor yn effeithio arno. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn, ac mae pob un o'r safleoedd bellach mewn cyflwr gwell, a bwriedir cyflawni gwelliannau pellach, gan gynnwys gwaith cyfalaf pellach o dan Gynlluniau Cadwraeth Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif. Mae'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif wedi golygu y gall gwartheg bori ar y tri safle bellach, gan wella'r strwythur llystyfiant a chan atal prysgwydd rhag tyfu dros y safleoedd. Cofnodwyd tegeirianau cors y de yn 2006, mae planhigion blodeuol eraill wedi cynyddu hefyd o ganlyniad i'r pori ac mae amodau'r gaeaf wedi gwella i adar megis giachod cyffredin.

Mae llawer o fanteision o ran cadwraeth wedi dod yn sgîl y cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ac mae wedi helpu i godi proffil y safleoedd, y cydnabyddir pob un ohonynt fel safleoedd bioamrywiaeth allweddol bellach. Mae wedi helpu i sicrhau arian am welliannau eraill megis byrddau dehongli a thaflenni i ymwelwyr. Mae'r cynllun hefyd wedi golygu y gellir cyfeirio cyllidebau cadwraeth mewnol sy'n weddill at safleoedd eraill nad ydynt yn rhan o'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif y mae angen buddsoddi ynddynt a'u rheoli'n well.

[30] Gweler, er enghraifft, http://www.rspb.org.uk/countryside/advice/index.asp

## 3.8 Tiroedd Ysgolion

Gall pob tir ysgol gyfrannu at warchod bioamrywiaeth, ac mae llawer yn cynnig cyfleoedd i greu ardaloedd bywyd gwyllt. Mae prosiectau ar diroedd ysgolion hefyd yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno plant i'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth mewn ffordd ymarferol. Maent yn cynnig cyfleuster diogel a allai fod yn gyffrous i addysg awyr agored a all ategu gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth. Gall ardaloedd natur ar diroedd ysgolion ychwanegu'n fawr at y cyfleuster hwn. Ymhlith y prosiectau a allai fod o fudd i fioamrywiaeth mae:

- Plannu gwrychoedd, coed, llwyni a phlanhigion brodorol eraill;
- Creu nodweddion bywyd gwyllt megis gerddi, dolydd a phyllau;
- Rheoli ardaloedd glaswelltir mewn ffordd gydymdeimladol;
- Adeiladu a lleoli blychau nythu.

Anogir prosiectau bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion o dan y rhaglen Eco-ysgolion, sy'n ceisio darparu fframwaith syml i alluogi ysgolion i ddadansoddi eu gweithrediadau a dod yn fwy cynaliadwy. Mae cynllun gwobrwyo yn anelu at gydnabod cynnydd a chodi proffil yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y gymuned ehangach. **http://www.eco-schools.org.uk**

Mae Learning through Landscapes (LTL), yr elusen tiroedd ysgolion genedlaethol, yn cynnig cyngor a chymorth i ysgolion er mwyn eu helpu i reoli a datblygu eu mannau awyr agored yn effeithiol o ran addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **http://www.ltl.org.uk/**



Gwarchodfa Natur Leol Shortwood – Blwch adar isel
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 9 Astudiaeth Achos ALl: Prosiect Bywyd Gwyllt Tiroedd Ysgolion

**Cyngor Sir Norfolk**

Bu’r cynllun hwn yn rhedeg ers 1989. Mae wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn o fod yn gynllun sy’n ymwneud â gwella gwerth gwarchod natur tiroedd ysgolion yn unig drwy blannu coed a chreu pyllau a dolydd i gylch gwaith ehangach lle y caiff cymunedau ysgolion eu hannog i ystyried sut y maent yn defnyddio eu tiroedd a’r hyn y gellid ei wneud i’w gwella, gan bwysleisio dymunoldeb gwella bioamrywiaeth. Mae dros dri chwarter ysgolion Norfolk wedi cymryd camau i wella eu tiroedd gyda chymorth y cynllun.

Cynigir gwasanaeth cyngor a dylunio am ddim i bob ysgol awdurdod lleol yn Norfolk er mwyn eu helpu mewn prosiectau gwella tiroedd. Yn ogystal, mae grant llawn ar gael i goed a llwyni brodorol. Cynigiwyd coed ffrwythau i ysgolion, i gysylltu â’r fenter ffrwythau ‘pump y dydd’, gan eu hannog i blannu amrywiadau lleol lle y bo’n bosibl.

Ceir rhwydwaith cryf o gymorth i ysgolion sy’n dymuno gwella eu tiroedd yn Norfolk. Cydgysylltir y rhwydwaith hwn drwy Grŵp Cydgysylltu Tiroedd Ysgolion Norfolk; fforwm o’r ymarferwyr hynny o awdurdodau lleol, cwmnïau a sefydliadau anllywodraethol y mae eu gwaith yn cynnwys cynghori ysgolion am wella eu tiroedd.

Gwerthusodd y Cyngor y cynllun yn 2005 i brofi ei effeithiolrwydd o ran cynyddu bioamrywiaeth tiroedd ysgolion. Anfonwyd holiadur i 21 o ysgolion a oedd wedi creu pwll ac a oedd wedi plannu coed brodorol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nododd yr ymatebion gynnydd sylweddol yn nifer y brogaod, llyffantod, madfallod dŵr ac adar bronfraith ar diroedd ysgolion, gan ddangos bod y gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’w bioamrywiaeth yn ogystal â chreu adnodd addysgol pwysig.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 3.9 Ardaloedd Glan Dŵr ac Arfordirol

Yn aml, mae awdurdodau lleol yn rhan o’r gwaith o reoli safleoedd glan dŵr, gan gynnwys traethau, glannau afon a gorlifdiroedd, aberoedd, camlesi, parciau dŵr a gwlyptiroedd. Mae’n bwysig rheoli’r safleoedd hyn yn ofalus er bioamrywiaeth a phobl, ac yn aml mae angen cydbwyso anghenion swyddogaethau gwahanol a mathau gwahanol o ddefnydd. Gallai enghreifftiau o integreiddio bioamrywiaeth mewn cyfundrefnau rheoli i’r safleoedd hyn gynnwys:

- Traethau: Gall cyfundrefnau glanhau traethau mwy cydymdeimladol fod yn fuddiol o ran bioamrywiaeth (gweler yr astudiaeth achos isod), a chyfleoedd i adfer cynefinoedd â blaenoriaeth megis twyni tywod, gan reoli mynediad yn unol â hynny.
- Rheoli gorlifdiroedd a’r arfordir: Gall adfer gwlyptiroedd gorlifdir a chynefinoedd arfordirol chwarae ran bwysig o ran amddiffyn rhag llifogydd, gan leihau’r amgen am fesurau amddiffyn rhag llifogydd wedi’u peiriannu costus, tra’n darparu cynefinoedd gwerthfawr. Mae hyn yn debygol o fod yn gynyddol bwysig yn wyneb effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar lifogydd.
- Camlesi: Gall camlesi fod yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt, fel coridorau gwyrdd a chynefinoedd gwlyptir, yn arbennig lle y ceir ymylon meddal a naturiol. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn rhoi canllawiau ar reoli dyfrffyrdd er bioamrywiaeth ac ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth. **http://www.britishwaterways.co.uk**

Efallai y bydd anghenion hyfforddi ychwanegol i'r staff sy'n ymwneud â rheoli safleoedd penodol (e.e. rheoli traethau, gweler yr astudiaeth achos isod). Bydd a wnelo elfen allweddol â nodi cyfleoedd i integreiddio bioamrywiaeth mewn cynlluniau a strategaethau sy'n effeithio ar y cynefinoedd hyn, megis Cynlluniau Rheoli Parthau Arfordirol Integredig, cynlluniau rheoli basnau afonydd, cynlluniau rheoli traethau a chynlluniau rheoli dyfrffyrdd. Mae hwn yn faes lle y mae awdurdodau lleol yn debygol o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill megis Asiantaeth yr Amgylchedd, Dyfrffyrdd Prydain, Natural England a CCGC.

## 10 Astudiaeth Achos ALl: Rheoli Traethau er Bioamrywiaeth

### Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro

Ers blynyddoedd lawer, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cydnabod pwysigrwydd traethau a blaendraethau am fioamrywiaeth ac fel rhan bwysig o'r dirwedd. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen ar sawl blaendraeth ac mae wedi ymgymryd â phrosiectau mawr i adfer twyni gan ddefnyddio grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr i ffensio a phlannu twyni, symud meysydd parcio ceir oddi wrth ardaloedd tywodlyd a gosod llwybrau bordiau.

Ers creu Cyngor Sir Penfro yn 1996, bu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rhan o grŵp cyswllt o dan arweiniad Cyngor Sir Penfro yn cynnwys sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli traethau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys sawl tîm o Gyngor Sir Penfro, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Wardeiniaid Cŵn ac arweinwyr tîm o dimau sy'n gyfrifol am lanhau traethau a thoiledau. Maent yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn â staff o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i drafod gwobrau traethau, gwaith rheoli traethau, ansawdd dŵr a diogelwch. Er mwyn gwarchod bioamrywiaeth, caiff traethau yn Sir Benfro eu glanhau â llaw yn hytrach na chan ddefnyddio peiriant, gan helpu i ddiogelu llinell y lan fel y caiff gwymon a broc môr eu cadw yn eu lle. Hyd yn oed lle y ceir llawer o wymon, fe'i cedwir ar y safle oni bai bod ystyriaethau iechyd ac amwynder yn bwysicach nag ystyriaethau eraill. Mae sesiwn friffio aml-asiantaeth flynyddol ar gyfer pob aelod o staff y traethau yn sicrhau bod gan y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r traeth wybodaeth am unrhyw nodweddion arbennig traethau ac ystyriaethau o ran gwarchod bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

### Negeseuon Allweddol

- Polisi cynllunio cenedlaethol ar warchod bioamrywiaeth yw'r prif gyfeirbwynt i'r rhai sy'n datblygu neu'n arfarnu cynlluniau neu brosiectau datblygu.
- Mae sefydlu sail dystiolaeth dda yn hanfodol wrth ddatblygu polisïau cynllunio a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Mae gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth, yn ogystal â'i ddiogelu.
- Dylai awdurdodau lleol chwarae rhan arweiniol i sefydlu systemau i warchod a gwella Safleoedd Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol a rhoi ystyriaeth briodol i fioamrywiaeth y tu allan i ardaloedd dynodedig.
- Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sgrinio cynigion datblygu o ran yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth er mwyn sicrhau yr ystyrir bioamrywiaeth yn llawn ac er mwyn atal oedi cyn penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Mae gwaith monitro effeithiol yn allweddol er mwyn sicrhau bod y mesurau a roddir ar waith i warchod bioamrywiaeth yn llwyddiannus.

## 4.1 Cyflwyniad

Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae i gyflawni ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol y DU ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Gwaith cynllunio awdurdodau lleol yw'r dull allweddol o ran penderfynu ar leoliad, maint a natur datblygiadau. Mae gwarchod bioamrywiaeth yn dibynnu'n fawr ar y graddau yr ymdrinnir ag ef mewn prosiectau seilwaith a phrosiectau datblygu a pha mor dda y mae'r broses gynllunio yn integreiddio bioamrywiaeth mewn polisïau rheoli cynllunio a datblygu.


Mae'r adran hon o'r canllawiau yn nodi enghreifftiau o botensial gwaith datblygu i effeithio ar fioamrywiaeth yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae'n amlygu'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ac yn disgrifio rhai o'r egwyddorion allweddol sy'n bwysig i awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth.

## 4.2 Effeithiau Datblygu ar Fioamrywiaeth

Mae Ffigur 4.1 yn nodi nifer o enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl mathau gwahanol o ddatblygu ar fioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Ffigur 4.1: Enghreifftiau o Effeithiau Posibl Datblygu ar Fioamrywiaeth**




This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 4.3 Gofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth Ryngwladol, Ewropeaidd a Chenedlaethol gadarn ar warchod bioamrywiaeth mewn perthynas â chynllunio, seilwaith a datblygu. Ceir rhagor o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau yn Atodiad 2.

Dylai'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio, seilwaith a datblygu gyfeirio'n gyntaf at ofynion y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru a Lloegr, wrth ystyried yr hyn y mae angen ei wneud i warchod bioamrywiaeth.

### 4.3.1 Lloegr

Datganiad Polisi Cynllunio 9 (PPS9): Gwarchod Bioamrywiaeth a Gwarchod Daearegol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2005) yw'r polisi cynllunio cenedlaethol allweddol o ran bioamrywiaeth yn Lloegr. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol y dylai cyrff cynllunio rhanbarthol ac awdurdodau cynllunio lleol gadw atynt er mwyn sicrhau yr ystyrir bioamrywiaeth yn llawn wrth ddatblygu polisi cynllunio a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Datganiad Polisi Cynllunio 9 ar gael yn:
**http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1501970**

Mae canllaw arfer da yn ategu PPS 9: **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1164839**

Ceir rhagor o wybodaeth am y dogfennau hyn yn Atodiad 2.

### 4.3.2 Cymru

Mae **Polisi Cynllunio Cymru, (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002)** yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylai pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru eu hystyried. Gellir gweld Polisi Cynllunio Cymru yn:
**http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403821/403821/403828/planningpolicy-e.pdf?lang=en**

Mae Pennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru yn amlygu'r gofynion i awdurdodau cynllunio lleol ymdrin â threftadaeth naturiol ar gam cynnar o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Unedol (CDU) ac yn y broses rheoli datblygu.

Dylid darllen **Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) Canllawiau Cynllunio (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (y Swyddfa Gymreig 1996)** ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru ac mae'n rhoi cyngor manwl i awdurdodau cynllunio lleol ar gynlluniau datblygu a rheoli datblygu mewn perthynas â safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol ac ardaloedd y tu allan i ddynodiadau statudol. Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 ar gael yn:

**http://new.wales.gov.uk/about/departments/depc/epcpublications/PlanPubs/TAN/TAN5?lang=en**

## 4.4 Gofynion Cyfreithiol o ran Arfarniadau Amgylcheddol ac Arfarniadau o Gynaliadwyedd

Gan ddibynnu ar natur y cynllun neu'r cynnig, efallai y bydd angen arfarniad amgylcheddol neu arfarniad o gynaliadwyedd. Rhestrir y gofynion allweddol a'r dogfennau cyfarwyddyd cysylltiedig isod a cheir crynodeb o ofynion deddfwriaethol yn Atodiad 2.

*Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol*

Mae'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol mewn amrywiaeth eang o brosiectau. Ceir canllawiau yn: **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1143250**

*Asesiad Amgylcheddol Strategol*

Ceir canllawiau ar gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol o gynlluniau a rhaglenni yn: **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1501988**

*Adran 39(2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) (Arfarniad o Gynaliadwyedd)*

Ceir canllawiau ar gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd o ddiwygiadau i Strategaeth Ofodol Ranbarthol a Dogfennau Cynlluniau Datblygu newydd neu ddiwygiedig a Dogfennau Cynllunio atodol yn: **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1164579**

*Asesu Priodol (Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994)*

Ceir canllawiau ar Asesu Priodol yn: **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1502244**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 4.5 Blaengynllunio

### 4.5.1 Datblygu Sail Dystiolaeth Dda

Pwysleisir pwysigrwydd datblygu sail dystiolaeth dda drwy'r dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru a Lloegr. Daw nifer o fanteision i'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio, seilwaith a datblygu yn sgîl cynnal astudiaeth gynhwysfawr o amodau sylfaenol a thueddiadau o ran bioamrywiaeth.

- Mae'n golygu y gellir datblygu polisïau cynllunio gofodol hyddysg sy'n pennu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cynigion datblygu. Mae sicrhau y caiff polisïau eu llunio yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy yn un o'r profion allweddol o gadernid y Cynllun Datblygu.
- Mae'n sail dda i arfarnu ceisiadau cynllunio mewn ffordd ystyrlon, gan greu'r cyfleoedd mwyaf posibl i wella bioamrywiaeth a chan osgoi effeithiau andwyol posibl ar fioamrywiaeth.
- Mae'n sicrhau y gellir cynnal gwaith monitro cynhwysfawr o dueddiadau o ran cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau dros gyfnod o amser, gan weithredu fel dangosyddion da o ansawdd yr amgylchedd lleol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Blwch 4.1: Rhestr Wirio ar gyfer Llunio Sail Dystiolaeth ar gyfer Bioamrywiaeth**

- A oes unrhyw safleoedd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o bwys gwarchod natur?
- A oes unrhyw gynefinoedd pwysig iawn ac, os felly, ble y maent?
- Pa rywogaethau a chynefinoedd a gynhwysir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n bresennol?
- A oes unrhyw ardaloedd o gynefin unigryw?
- A oes unrhyw ardaloedd o goetir hynafol neu gynefin naturiol pwysig arall (fel y'i nodwyd yn Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (troednodyn i 41 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006)?
- A oes unrhyw rwydweithiau cynefinoedd allweddol yn yr ardal?
- Beth yw'r systemau a'r prosesau naturiol allweddol yn yr ardal?
- A oes unrhyw ardaloedd y gellid eu gwella neu eu hadfer?
- Ble mae'r mannau gwyrdd?
- A oes unrhyw ardaloedd o dir a ddatblygwyd gynt â gwerth o ran bioamrywiaeth?
- A oes unrhyw rywogaethau a ddiogelir neu rywogaethau pwysig iawn yn yr ardal?
- Beth yw'r tueddiadau o ran maint a chyflwr cynefinoedd; a dosbarthiad a maint rhywogaethau?

*Addaswyd o Ffigur 1 PAS2010: Planning to halt the loss of biodiversity. Biodiversity conservation standards for planning in the United Kingdom – Code of Practice. Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE2006)*

Mae sefydlu partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn helpu i rannu arbenigedd lleol a gwybodaeth a datblygu sail dystiolaeth gynhwysfawr, drwy'r broses o gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol i gefnogi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac i'w defnyddio i lywio penderfyniadau o ran polisi cynllunio a rheoli datblygu.

Gall Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol chwarae rhan hollbwysig i alluogi awdurdodau lleol i gael gwybodaeth sylfaenol o safon am gynefinoedd a rhywogaethau. Mae hyn yn gofyn am gyfathrebu a phartneriaethau da rhwng awdurdodau lleol a Chanolfannau Cofnodion a darparwyr data eraill.

O dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw wybodaeth amgylcheddol sydd ganddynt ar gael i'r cyhoedd. Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod y wybodaeth hon mor hygyrch i'r cyhoedd â phosibl, ar ffurf electronig lle y bo'n ymarferol.

### Blwch 4.2: Ffynonellau Defnyddiol o Wybodaeth Sylfaenol

- Cofnodion rhywogaethau cenedlaethol gan gynnwys adroddiadau safle http://www.searchnbn.net
- Gwybodaeth fanwl am safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, gan gynnwys taflenni gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth am leoliad, nodweddion cymhwyso, nodweddion ffisegol a nodweddion ecolegol:
  - Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur – **http://www.jncc.gov.uk/**
  - 'Nature on the Map' gan Natural England – **http://www.natureonthemap.org.uk/**
- Mae Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol yn rhoi gwybodaeth am fioamrywiaeth lleol. Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Cofnodion Biolegol yn sefydliad i'r DU gyfan i'r rhai sy'n ymwneud â chofnodion biolegol **http://www.nfbr.org.uk/**
- Gwybodaeth am Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth **http://www.ukbap.org.uk/**
- Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol – Data am gofnodion dros 20 miliwn o rywogaethau yn y DU **http://nbn.org.uk/default.asp**
- Gwybodaeth wedi'i mapio am safleoedd dynodedig **http://www.magic.gov.uk/**
- Gwybodaeth am Ardaloedd Naturiol ac Ardaloedd Cymeriad ar y Cyd **http://www.english-nature.org.uk/science/natural/na_search.asp**
- Rhestr o goetiroedd hynafol **http://www.english-nature.org.uk/pubs/gis/tech_aw.htm**
- Gwybodaeth am ecolegwyr awdurdodau lleol ac am integreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith awdurdod lleol **http://alge.org.uk**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 4.5.2 Ceisio gwella bioamrywiaeth

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn mynd ati i geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth, yn ogystal â'r gofynion statudol i ddiogelu safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig.

Gall creu a gwella Seilwaith Gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig ac mewn ardaloedd naturiol mewn trefi ac o'u hamgylch helpu i sicrhau llawer o fanteision o ran bioamrywiaeth, tirwedd, ac iechyd a hamdden.

Mae Natural England wedi datblygu model a chanllawiau i ddarparu meincnod ar gyfer darparu mynediad i fannau gwyrdd, sef y Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch (ANGSt). Mae ANGSt yn ddull defnyddiol o lywio polisi cynllunio ar gyfer creu a gwella mannau gwyrdd, lle y gall bioamrywiaeth fod yn bresennol. Gweler: **www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/Accessgreenspace.pdf** i gael y safonau gofynnol a argymhellir gan Natural England ar gyfer darparu mannau gwyrdd naturiol yn agos at gartrefi pobl mewn trefi a dinasoedd.

Mae cynllunio strategol (e.e. Strategaethau Gofodol Rhanbarthol) yn cynnig cyfleoedd i nodi lleoliadau cyffredinol lle y dylid rhoi blaenoriaeth i warchod bioamrywiaeth a sefydlu rhwydweithiau ecolegol rhwng cynefinoedd presennol a chynefinoedd gwell.

## 11 Astudiaeth Achos ALl: Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth Gorllewin Canolbarth Lloegr

**Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr**

Er mwyn ateb yr her o weithredu 'ar raddfa'r dirwedd' neu 'yn seiliedig ar ardal', fel y'i nodir yn 'Restoring the Region's Wildlife: Regional Biodiversity Strategy in the West Midlands', mae Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi nodi 14 o Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth yn y Rhanbarth.

Mae'r Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth yn cwmpasu ardaloedd pwysig o fywyd gwyllt. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig anghysbell, ac maent yn amrywio o ran maint o ychydig blwyfi i gynefinoedd ucheldir mawr.

Mae Strategaeth Ofodol Ranbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr yn nodi'r Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth, ac yn annog y gwaith o atgyfnerthu eu cyfanrwydd ecolegol. Ymhlith y nodau ar gyfer yr Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth mae:

- cefnogi prosiectau gwella bioamrywiaeth a thirwedd presennol;
- clustogi unedau cynefinoedd rhag effeithiau andwyol;
- adfer ac ail-greu cynefinoedd nodweddiadol yn lleol;
- ehangu a chysylltu unedau cynefinoedd ynysig;
- hyrwyddo manteision cymdeithasol ac economaidd drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau cysylltiedig ar gyfer mynediad, mwynhad ac addysg gynaliadwy;
- buddsoddi mewn busnesau sy'n cyfrannu at amgylchedd naturiol o safon ac sy'n manteisio arno.

Dylai cyfleoedd gwell bioamrywiaeth gael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol:[31]

[31] Fel y nodir ym mharagraffau 4.22-4.36 o Planning for Biodiversity and Geological Conservation – A Good Practice Guide (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Defra, EN, Mawrth 2006) a chyngor a geir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

- Mae Strategaethau Craidd a Strategaethau Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer ardal y cynllun. Dylid datblygu amcanion a pholisïau strategol ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys amcanion gwella. Dylid hefyd ystyried sut y gellir defnyddio gwaith gwella bioamrywiaeth i sicrhau gwaith datblygu mwy cynaliadwy, drwy integreiddio ag amcanion polisi eraill a mathau eraill o ddefnydd tir, er enghraifft tai a datblygu economaidd, iechyd, addysg a chynhwysiant cymdeithasol.
- Dylid defnyddio Dogfennau Cynlluniau Datblygu Dyrannu Safleoedd Penodol, Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd a pholisïau a dyraniadau Cynlluniau Datblygu Lleol i nodi lle y ceir cyfleoedd gwella, a pha gamau y mae angen eu cymryd i wella bioamrywiaeth. Gellir nodi tir ar gyfer creu, adfer neu wella bioamrywiaeth, yn gysylltiedig ag amcanion strategol y Strategaeth Graidd.
- Mae gan Ddogfennau a Chanllawiau Cynllunio Atodol ran i'w chwarae i sicrhau cyfleoedd gwella bioamrywiaeth fel rhan o frîff datblygu neu i roi canllawiau atodol ar warchod bioamrywiaeth mewn perthynas â pholisïau bioamrywiaeth mewn mannau eraill yn y Fframwaith Datblygu Lleol, er enghraifft polisïau'r Strategaeth Graidd ar ddiogelu a rheoli safleoedd dynodedig a safleoedd gwarchod natur eraill.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 12 Astudiaeth Achos ALl: Dogfen Gynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Thirwedd Lichfield

**Cyngor Dosbarth Lichfield**

Mae Cyngor Dosbarth Lichfield wedi cynhyrchu Dogfen Gynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Thirwedd ddrafft sydd â'r nod o ddarparu dull o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y Dosbarth yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o bolisïau yn ymwneud â'r dirwedd a bioamrywiaeth, dulliau o ddiogelu bioamrywiaeth a chyfleoedd gwella a chreu. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nifer fawr o atodiadau yn cynnwys rhestr wirio bioamrywiaeth i ddatblygwyr sy'n amlygu rhywogaethau a ddiogelir yn y Dosbarth ac yn cyfeirio at wybodaeth bellach yn ymwneud â'r rhywogaethau hyn.

Disgwylir y bydd i'r ddogfen nifer o fanteision pan gaiff ei chyhoeddi gan gynnwys:

- Rhoi gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol am warchod a gwella bioamrywiaeth i gynllunwyr a datblygwyr.
- Sicrhau yr ystyrir bioamrywiaeth ar y cam cynharaf, h.y. cyn gwneud cais. Mae hyn yn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ddiogelu'n effeithiol ac y cynllunnir yn briodol ar gyfer lliniaru a gwella er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o ran bioamrywiaeth. Ceir manteision hefyd i swyddogion rheoli datblygu ac ymgeiswyr oherwydd caiff oedi diangen yn y broses gwneud cais ei osgoi.
- Rhoi'r holl ganllawiau bioamrywiaeth a thirwedd lleol a chenedlaethol i ymgeiswyr a datblygwyr ar gam cynnar.
- Dilysu ceisiadau cyn i'r pwyllgor eu hystyried. Nodir materion o ran bioamrywiaeth drwy'r rhestr wirio ac wedyn mae ymgeiswyr yn rhoi gwybodaeth am arolygon gyda'u cais lle y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu y gellir cytuno ar fesurau lliniaru cyn i'r cais fynd i'r pwyllgor.

### 4.5.3 Systemau Safleoedd Lleol

Er bod safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol yn cael eu diogelu fwyaf, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn chwarae'r rhan arweiniol i sefydlu systemau i warchod a gwella Safleoedd Lleol ac i roi ystyriaeth briodol i fioamrywiaeth y tu allan i ardaloedd dynodedig. Y rhwydwaith cyffredinol o safleoedd sy'n bwysig boed yn rhyngwladol neu'n lleol yw sail yr adnodd bioamrywiaeth. Gweler i weld y cyswllt â chanllawiau Defra ar Safleoedd Lleol.

### 4.5.4 Monitro

Mae Datganiad Polisi Cynllunio 12: Fframweithiau Datblygu Lleol a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro effeithiolrwydd Dogfennau Datblygu a Chynlluniau Datblygu Lleol.

Mae'n bwysig y caiff amcanion, dangosyddion a thargedau bioamrywiaeth eu cynnwys mewn fframweithiau monitro, ac y cyflwynir adroddiad ar berfformiad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i farnu llwyddiant polisïau bioamrywiaeth a nodi newidiadau posibl y mae angen eu gwneud i wella gwaith gwarchod bioamrywiaeth.

Ceir gwybodaeth fanylach am fonitro yn Local Development Framework Monitoring: A Good Practice Guide (DCLG, 2005), **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1143905**

a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006). **http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403821/403821/403829/520887/LDP_Manual_Eng_with_binders.pdf?lang=en**

## 4.6 Rheoli Datblygu

Bydd polisïau cynllunio cryf ac effeithiol o ran bioamrywiaeth mewn Fframweithiau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn golygu y gellir rhoi pwys llawn a phriodol ar warchod bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu. Yr elfennau allweddol yw sgrinio cynigion datblygu i weld yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth a cheisio amodau a rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei warchod.

Bydd rhoi cyngor sgrinio i ymgeiswyr cyn iddynt gyflwyno eu ceisiadau cynllunio yn helpu i atal oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio, drwy sicrhau yr ystyrir yr holl effeithiau posibl o'r cychwyn. Gellir rhoi cyngor sgrinio drwy drafodaethau rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn ymwybodol o'r materion bioamrywiaeth posibl a thrwy ddefnyddio rhestrau gwirio i nodi'r effeithiau posibl y gallai'r datblygiad eu cael ar fioamrywiaeth. Dylai hyn helpu i sicrhau yr ystyrir bioamrywiaeth yn llawn wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu.

Yn ddiweddar, cynhaliodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno un ffurflen gais gynllunio safonol a symleiddio'r broses gynllunio a lleihau ansicrwydd o ran y canlyniad. Bwriedir treialu'r ffurflen a'r canllawiau ategol mewn nifer o awdurdodau lleol, gyda'r nod y bydd yn gwbl weithredol erbyn diwedd 2007.

Fel rhan o'r broses hon, mae Natural England a Chymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol yn datblygu canllawiau i gynllunwyr ac ecolegwyr proffesiynol i nodi pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno gyda chais cynllunio er mwyn iddo fod yn ddilys. Mae'r Canllawiau yn cynnwys templed ar gyfer rhestr wirio ddilysu i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i fodloni'r gofynion polisi a nodwyd yn egwyddorion allweddol PPS 9 Gwarchod Bioamrywiaeth a Gwarchod Daearegol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2005).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 13 Astudiaeth Achos ALl: Rhywogaethau a Ddiogelir a'ch Cais Cynllunio

**Cyngor Sir Caerhirfryn, yr Ymddiriedolaethau Natur, English Nature a Lancashire Rural Futures**

Mae Cyngor Sir Caerhirfryn a'i bartneriaid wedi llunio taflen tair tudalen i'w defnyddio gan bawb sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio. Mae'r daflen wedi'i chynllunio i gynnig cyflwyniad byr i rywogaethau a ddiogelir ac amlygu'r angen i ystyried rhywogaethau o'r fath ar gamau cychwynnol cais.

Mae'r daflen yn cynnwys digon o enghreifftiau ac yn hawdd i'w dilyn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth o dan y penawdau:

- Rhywogaethau a'r gyfraith;
- Sut y mae rhywogaethau a ddiogelir yn effeithio arnaf?;
- Eich cyfrifoldebau (cyn cyflwyno cais cynllunio);
- Gwybodaeth benodol am Ystlumod, Madfallod Dŵr Cribog, Moch Daear, Dyfrgwn, Llygod Dŵr ac Adar Gwyllt.

Mae'r daflen hefyd yn rhoi cysylltiadau â gwybodaeth bellach a chysylltiad â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Caerhirfryn: Tirwedd a Threftadaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth.

Mae'r daflen wedi'i chynhyrchu i arbed amser ac adnoddau i'r adran gynllunio oherwydd dylid ystyried rhywogaethau a ddiogelir cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio.

**http://www.lancashire.gov.uk/environment/ecology/protected_species_pp.asp**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK



Dyfrgi yn Wildwood
Llun: Ffotograffydd Natural England Paul Glendell

Mae amodau a rhwymedigaethau cynllunio yn ddulliau defnyddiol o osod mesurau lliniaru a gwella lle nad yw'n bosibl cyflawni'r lefel briodol o ran lliniaru neu wella fel rhan o gynllun cynnig datblygu. Bydd trafodaethau cyn gwneud cais yn golygu y gellir ystyried cwmpas priodol amodau neu rwymedigaethau o'r cychwyn.

Gellir defnyddio amodau cynllunio i atal gweithgareddau cymeradwy rhag effeithio'n andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau, er enghraifft, drwy osod cyfyngiadau amser ar weithgareddau i osgoi amharu yn ystod y tymor bridio. Mae rhwymedigaethau cynllunio yn arbennig o ddefnyddiol wrth geisio sicrhau mesurau gwella neu liniaru y tu allan i safle'r cais, er enghraifft, drwy daliadau ariannol i sicrhau y caiff safleoedd gwarchod natur eu rheoli'n well ac yn barhaus.

Dylid rhoi mesurau ar waith i fonitro'r broses o weithredu amodau a rhwymedigaethau cynllunio, a dylid cymryd camau os na chyflawnir yr amodau hyn. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i farnu llwyddiant rhwymedigaethau o ran eu cyfraniad i warchod bioamrywiaeth.

## 14 Astudiaeth Achos ALl: Strategaeth Redbridge ar gyfer Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio

**Cyngor Bwrdeistref Redbridge**

Mae Bwrdeistref Redbridge yn Llundain wedi cynhyrchu Dogfen Gynllunio Atodol ar warchod natur, sy'n caniatáu i amodau a rhwymedigaethau cynllunio gael eu defnyddio i sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth. Mae'r Ddogfen yn nodi:

"Where appropriate, the Council will use planning conditions or Section 106 agreements with developers to secure the rehabilitation and ongoing management of areas important for nature conservation. This may also include a contribution towards meeting the objectives of the Biodiversity Action Plan for the borough."

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# 5. Addysg, Cyngor ac Ymwybyddiaeth

## Negeseuon Allweddol


- Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, sy'n sail i amrywiaeth eang o weithgareddau gwarchod bioamrywiaeth.
- Mae ystyried gwaith gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys ymgorffori negeseuon bioamrywiaeth ymhob math o ryngweithio â rheolwyr tir, busnesau, sefydliadau eraill a'r cyhoedd.
- Ymhlith y dulliau a ddefnyddir mae gweithredu'r system addysg, darparu gwasanaethau cynghori, hybu diddordeb y gymuned mewn bioamrywiaeth, a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth drwy gysylltu â'r cyhoedd.

## 5.1 Cyflwyniad

Drwy hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, gall awdurdodau lleol helpu rheolwyr tir, busnesau a'r cyhoedd i weithredu mewn ffyrdd sydd o fudd i waith gwarchod bioamrywiaeth. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gyngor allanol, addysg a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, a gellir ei rhannu yn bedwar maes craidd (Ffigur 5.1).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Ffigur 5.1: Rôl Cyngor, Addysg ac Ymwybyddiaeth Awdurdodau Lleol**




Mae codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn thema drawsbynciol sy'n ymwneud â holl swyddogaethau awdurdodau lleol, ac mae'n bwysig iawn o ran hwyluso'r broses o weithredu'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth. Mae gan y swyddogaethau craidd yn y diagram uchod gysylltiadau agos â'i gilydd hefyd ac maent yn rhyngberthynol. Er enghraifft, mae llawer o weithgareddau sydd â'r nod o ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn debygol o godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, ac mae'n bosibl y byddant yn rhoi cyfleoedd i gysylltu ag ysgolion lleol neu wasanaethau cynghori'r cyhoedd.

## 5.2 Addysg

Mae'r system addysg yn gyfrwng allweddol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth. Mae hyn yn wir am bob grŵp oedran a'r system addysg gyfan o ysgolion cynradd ac uwchradd, i addysg bellach ac uwch, addysg i oedolion a dysgu gydol oes. Er mwyn i fioamrywiaeth oroesi yn y dyfodol, mae angen gweddnewid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu, ac mae'n rhaid i ni dderbyn ein bod yn rhan o system union gytbwys a rheoleiddio ein gweithgareddau yn unol â hynny.

Mae addysgu plant ysgol nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth o faterion gwarchod bioamrywiaeth ymhlith y genhedlaeth nesaf, ond mae hefyd yn ffordd anuniongyrchol effeithiol o dargedu cynulleidfa lawer ehangach, drwy eu teuluoedd a'u ffrindiau. Am y rheswm hwn, diffinnir bioamrywiaeth yn thema drawsbynciol yn y fframwaith Ysgolion Cynaliadwy ac yng nghynllun gweithredu'r Adran Addysg a Sgiliau i gefnogi ysgolion cynaliadwy.

Ymhlith y camau cadarnhaol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i wella addysg bioamrywiaeth mae:

- **Annog pobl i gynnwys bioamrywiaeth mewn addysg.** Mae rhai gofynion statudol o ran bioamrywiaeth yn bodoli eisoes yn y cwricwlwm cenedlaethol, megis:
  - Cwricwlwm gwyddoniaeth gan gynnwys "Prosesau bywyd a phethau byw" a "dinasyddiaeth fyd-eang"
  - Cynnwys datblygu cynaliadwy fel rhan annatod o amrywiaeth eang o feysydd pwnc.

  Ceir cyfleoedd hefyd i gynnwys prosiectau bioamrywiaeth mewn pynciau eraill o fathemateg, daearyddiaeth, celf, gwyddoniaeth a Saesneg i ddylunio a thechnoleg. Mae llawer o ysgolion yn gwneud gwaith yn y gymuned, a allai gynnwys prosiectau amgylcheddol lle y mae bioamrywiaeth yn elfen bwysig. Mae gan fioamrywiaeth ran allweddol i'w chwarae yn y maniffesto a lansiwyd yn ddiweddar *Learning Outside the Classroom Manifesto*, sydd â'r nod o sicrhau y caiff pob person ifanc amrywiaeth o brofiadau dysgu o safon y tu allan i'r ystafell ddosbarth[32]. Gellir cynnwys bioamrywiaeth mewn addysg gymunedol drwy ddarlithoedd, digwyddiadau, teithiau natur a dosbarthiadau gyda'r nos a dosbarthiadau hamdden mewn topigau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth i oedolion/dysgwyr gydol oes.

- **Gwella bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion.** Gellir ategu cynnwys bioamrywiaeth mewn addysg drwy brosiectau i wella bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion (gweler Adran 3.9 am ragor o wybodaeth).

- **Y Rhaglen Eco-Ysgolion.** Mae'r rhaglen ryngwladol hon wedi'i mabwysiadu eisoes gan lawer o ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, a'i nod yw hyrwyddo addysg



Dysgu am fywyd pyllau
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

32 http://www.teachernet.gov.uk/teachingandlearning/resourcematerials/outsideclassroom/

fel sail i gymdeithas fwy cynaliadwy ac ar yr un pryd integreiddio datblygu cynaliadwy yn y system addysg ar bob lefel. Mae'r rhaglen Eco-Ysgolion yn hwyluso gwaith hyrwyddo bioamrywiaeth ac ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn ffordd sy'n cynnwys amrywiaeth o bynciau yn y cwricwlwm, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol, ac mae'n ceisio gweithredu Agenda Leol 21 yng nghymuned yr ysgol. Mae myfyrwyr yn dysgu am fioamrywiaeth ac yn cymryd rhan yn y gwaith o'i warchod, tra bod ysgolion yn gwella effeithlonrwydd drwy effeithlonrwydd ynni, llai o sbwriel a gwastraff, amgylchedd gwell a chyhoeddusrwydd cadarnhaol. Gall y rhaglen Eco-ysgolion fod yn fodd i ysgolion ddod yn ysgolion cynaliadwy.

## 15 Astudiaeth Achos ALl: Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham – Addysg Bioamrywiaeth ac Eco-ysgolion

**Cyngor Sir Durham, Cyngor Bwrdeistref Darlington, Cyngor Gateshead, Cyngor Dosbarth South Tyneside a Chyngor Dinas Sunderland**

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham yn darparu deunyddiau addysg bioamrywiaeth ar y we, gan gynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth yn y cwricwlwm, prosiectau bioamrywiaeth lleol, enghreifftiau ymarferol o sut y gellir cynnwys bioamrywiaeth mewn cyfleoedd dysgu, ac enghreifftiau o arbedion effeithlonrwydd a chost posibl i ysgolion yn sgil prosiectau amgylcheddol.
**http://www.ecoeducation.org.uk/**

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn annog y gwaith o wella bywyd gwyllt ar diroedd ysgolion at ddibenion addysgol a dibenion bywyd gwyllt ac mae'n cysylltu hyn â chynnwys bioamrywiaeth mewn addysg yn fwy cyffredinol. Mae'r ddogfen 'Enhancing Wildlife in the School Ground: Everything you need to know to attract wildlife into the school environment!' yn amlinellu dulliau a all ddenu a gwella bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion, gan roi:

- Gwybodaeth ymarferol am reoli cynefinoedd a'r mathau gwahanol o rywogaethau y gellir eu denu i gynefinoedd penodol, eu hoffterion bwyta, ac ati
- Taflenni cyfarwyddyd i adeiladu byrddau adar a blychau i adar ac ystlumod
- Cyfleoedd astudio awgrymedig
- Gwybodaeth gyswllt am ragor o wybodaeth.

Drwy hyn llwyddwyd i annog addysgu bioamrywiaeth mewn ysgolion lleol a datblygu nifer o eco-ysgolion yn Durham. Un enghraifft o eco-ysgol yw Ysgol Iau Harrowgate Hill, a enillodd y Faner Werdd yn ddiweddar ar ôl gwerthuso llwyddiant y mentrau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae achrediad y Faner Werdd yn golygu y caiff y cynllun ei redeg mewn ffordd sy'n golygu bod y plant yn teimlo eu bod yn rhan ohono. Yn yr achos hwn, mae gan y plant eu cyllideb eu hun, a ariennir drwy ailgylchu cetris argraffu, gwerthu hen ddillad i'w hailgylchu i wledydd sy'n datblygu a mentrau codi arian eraill.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 5.3 Cyngor

Wrth gyflawni eu swyddogaethau, mae awdurdodau lleol yn rhoi cyngor i fusnesau, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, datblygwyr, a'r cyhoedd. Mewn sawl achos, bydd yn briodol i awdurdodau lleol ystyried bioamrywiaeth wrth roi'r cyngor hwn. Gall hyn roi cyfle pwysig i ddylanwadu ar gamau gweithredu nifer fawr o sefydliadau ac unigolion, gan eu helpu i wneud penderfyniadau hyddysg am eu cysylltiadau â bioamrywiaeth, a'r ffordd y maent yn effeithio arno. Gall y cyngor hwn:

Helpu busnesau i leihau effaith eu gweithgareddau ar yr amgylchedd; helpu datblygwyr i fod yn fwy sensitif i fioamrywiaeth; a chynghori rheolwyr tir a'r cyhoedd ar y ffyrdd y gallant warchod bioamrywiaeth.

Gall awdurdodau lleol ymdrin â materion o ran bioamrywiaeth a rhoi cyngor ar fioamrywiaeth i'r sefydliadau hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- **Cynnwys bioamrywiaeth yn y cyngor a roddir i fusnesau lleol.** Mae rôl allweddol i awdurdodau lleol roi cyngor a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth drwy eu cysylltiadau â busnesau, gan gynnwys gweithgareddau datblygu economaidd a chyngor ar safleoedd a lleoliadau busnesau. Mae bioamrywiaeth yn rhan allweddol o gyngor ar ddatblygu cynaliadwy. Mae lle hefyd i awdurdodau lleol roi cymhellion i fusnesau roi mwy o ystyriaeth i fioamrywiaeth, drwy wobrau busnes "gwyrdd" lleol. Enghraifft o hyn yw'r 'Wobr Fusnes Werdd', a ariennir gan Adran Datblygu Economaidd Cyngor Dosbarth Chichester ac a drefnir gan yr Uned Strategaeth Amgylcheddol. Mae'r Wobr yn gwobrwyo busnesau am wneud ymdrech i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, ac fe'i sefydlwyd i ddangos sut y gall gwella perfformiad amgylcheddol wella proffidioldeb. Mae enillwyr y wobr yn cael gwobr arian parod fel cymhelliant arall yn ogystal ag ennill gwobr uchel ei bri.
- **Rhoi cyngor ar faterion o ran bioamrywiaeth i sefydliadau eraill.** Mae llawer o ecolegwyr a swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol yn cynnig cyngor i sefydliadau a phartneriaid lleol eraill ar faterion o ran bioamrywiaeth, drwy gyflwyno Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a mentrau eraill.
- **Rhoi cyngor ar fioamrywiaeth i dirfeddianwyr a rheolwyr tir mewn perthynas â chynllunio a diogelu safleoedd dynodedig.** Fel rhan o'u swyddogaeth gynllunio, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ystyried safleoedd bywyd gwyllt, ac mae'n ofynnol iddynt nodi safleoedd dynodedig yn eu hardal leol a sicrhau y cânt eu diogelu a'u gwella. Mae gofyniad i roi gwybodaeth i reolwyr tir a thirfeddianwyr ac ymgynghori â hwy ynghylch safleoedd bywyd gwyllt dynodedig posibl, ac i roi cyngor i berchenogion safleoedd bywyd gwyllt presennol.
- **Ystyried bioamrywiaeth mewn cysylltiad â thirfeddianwyr a rheolwyr tir a'u cyfeirio at sefydliadau perthnasol.** Mae elfennau allweddol yn cynnwys ystyried materion o ran bioamrywiaeth mewn cysylltiad â thirfeddianwyr a rheolwyr tir a bod yn ymwybodol o'r sefydliadau perthnasol i'w cyfeirio atynt i gael rhagor o gyngor ynghylch rheoli tir (e.e. Defra, y Comisiwn Coedwigaeth, Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru). Efallai y bydd gan awdurdodau lleol rôl partneriaeth hefyd o ran rhoi cyngor, er enghraifft drwy grwpiau cynghori ffermio a bywyd gwyllt lleol (y Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[33] Gweler er enghraifft: http://www.gateshead.gov.uk/DocumentLibrary/Environment/Strategies/makingadifference.pdf

- **Rhoi cyngor ar fioamrywiaeth i'r cyhoedd.** Gall awdurdodau lleol hefyd hyrwyddo bioamrywiaeth drwy roi cyngor i'r cyhoedd. Gall hyn gwmpasu pob math o syniadau syml i wella bioamrywiaeth drwy ddenu bywyd gwyllt i erddi, ac annog unigolion i fyw bywydau mwy cynaliadwy.
- **Ystyried bioamrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau difa plâu ac wrth roi cyngor ar ddifa plâu i sefydliadau eraill a'r cyhoedd.** Gall gweithgareddau rheoli plâu gael effaith fawr ar fioamrywiaeth (e.e. drwy effeithio ar rywogaethau nas targedwyd), yn ogystal â bod â rhan gadarnhaol i'w chwarae i ddifa rhywogaethau plâu (e.e. difa gwiwerod llwyd mewn rhaglenni gwarchod gwiwerod coch a difa mincod mewn rhaglenni gwarchod llygod y dŵr)[33].

## 16 Astudiaeth Achos ALl: Rhwydwaith Amgylchedd Busnes Cumbria – Gwobrau Amgylcheddol

**Ymddiriedolaeth Amgylchedd Rheoli Gwastraff Cumbria, Asiantaeth Menter Wledig Cumbria, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Cumbria, Cyngor Dinas Caerliwelydd, Cyngor Dosbarth Eden**

Mae gan Rwydwaith Amgylchedd Busnes Cumbria (CBEN) gontract â Natural England i roi cyngor ymarferol ar fioamrywiaeth i fusnesau ledled Cumbria. Nod y prosiect yw rhoi cyngor penodol ar fioamrywiaeth i fusnesau, gan ystyried cynllun gweithredu bioamrywiaeth Cumbria er mwyn helpu i ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Gall y cyngor fod mor syml â chynghori busnesau i dorri'r glaswellt o amgylch eu hadeiladau yn llai aml er mwyn galluogi blodau gwyllt i flodeuo a hadu, gan roi ffynhonnell o fwyd i bryfed ac adar.

Mae menter arall yn cynnwys defnyddio cynllun gwobrwyo i fusnesau lleol. Cynigir archwiliad am ddim gan arbenigwr amgylcheddol i'r busnesau sy'n cymryd rhan, a bydd yr arbenigwr hwn yn cynghori ac yn llywio'r busnes drwy'r broses. Mae tair gwobr – efydd, arian ac aur – ac mae i bob lefel set o feini prawf, llawlyfr cyfarwyddyd a rhestr wirio at ddibenion asesu. Er mwyn ennill gwobr efydd rhaid i fusnesau ddangos ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i weithrediadau sy'n amgylcheddol gadarn. Wedyn caiff busnesau eu hannog i symud drwy'r system, gan ddilyn y canllawiau i gyrraedd y lefel arian, lle y disgwylir y byddant wedi gwneud cynnydd tuag at asesu a rheoli risgiau amgylcheddol. Yn olaf enillir y wobr aur gan fusnesau sydd wedi sicrhau rhagoriaeth o ran nodi risgiau, sydd wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i reoli eu heffeithiau posibl, ac sy'n cynllunio i wella eu perfformiad yn barhaus.

Prif fanteision amgylcheddol y cynllun yw:

- Gwella gwaith rheoli, sgiliau ac arferion amgylcheddol
- Cynyddu ailgylchu
- Lleihau costau drwy leihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi
- Lleihau'r risg o lygredd
- Sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol
- Lleihau'r defnydd o ynni
- Datblygu arferion gorau drwy leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, a lleihau costau ynni.

Caiff busnesau eu denu gan y cyfle i arbed costau, ac i gael cyngor a chymorth i fodloni deddfwriaeth amgylcheddol, a chan y manteision o ran enw da a ddaw yn sgîl ennill gwobr.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 5.4 Ymgysylltu â'r Gymuned

Gall cynnwys y gymuned leol yng ngwaith gwarchod bioamrywiaeth sicrhau manteision uniongyrchol i fioamrywiaeth drwy gyflawni prosiectau a gweithgareddau penodol, ac mae hefyd yn rhoi llawer o gyfleoedd i gael mentrau adfywio cymunedol lleol a grymuso cymdogaethau. Mae integreiddio bioamrywiaeth yn y mentrau hyn yn rhoi cyfleoedd i:

- Godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth;
- Rhoi cyfleoedd addysg anffurfiol i bobl o bob oedran i ddysgu am eu hamgylchedd naturiol;
- Rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr gasglu gwybodaeth am fioamrywiaeth a'i bwydo i mewn i'r Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol;
- Rhoi cyfleoedd cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau lleol;
- Sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol drwy weithio gyda grwpiau sydd wedi'u hallgáu a hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a chynhwysiant cymdeithasol.



**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Redgrave a Lopham**
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn rhoi nifer o enghreifftiau o brosiectau ymgysylltu â'r gymuned sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

### 17 Astudiaeth Achos ALl: B-LEAF – Training Towards Employment

**Grŵp Gweithredu Amgylcheddol Lleol Blyth Valley (B-LEAF), Cyngor Bwrdeistref Blyth Valley**

Mae'r prosiect B-LEAF wedi'i ddatblygu i roi cyfleoedd i bobl ddifreintiedig sy'n ceisio goresgyn dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol ymgymryd â gwaith gwirfoddol ar brosiectau bioamrywiaeth er mwyn eu helpu i gael bywyd 'arferol'. Sefydlwyd y prosiect oherwydd, er bod pob math o gymorth ar gael i helpu i oresgyn dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, nid oes cymorth ar gael i alluogi'r unigolyn i gael cyflogaeth ac integreiddio â chymdeithas. Gall hyn fod yn broblem fawr i'r grŵp hwn oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, gall y ffaith nad oes profiad gwaith na chymwysterau ganddynt a'u hanghenion o ran sgiliau sylfaenol greu rhwystrau i gyflogaeth a ffordd o fyw heb gyffuriau.

Mae'r prosiect B-LEAF yn rhoi cyfleoedd gwirfoddoli i gael profiad gwaith ar randiroedd prosiectau, ym maes rheoli coetiroedd ac ar warchodfeydd natur lleol, ac ennill cymwysterau i helpu'r unigolion hyn i gael cyflogaeth. Megis cychwyn mae'r prosiect, ond mae grŵp llywio wedi'i sefydlu â chynrychiolwyr o Dîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol (DAAT) Northumberland, Cyngor Bwrdeistref Blyth Valley, Escape Family Support, Community Matters, ac Ymddiriedolaeth Gofal Northumberland. Mae coleg amaethyddol lleol bellach wedi mynegi awydd i ddarparu cyrsiau a chymorth i gyfranogwyr, er mwyn eu galluogi i ennill cymwysterau. Caiff cysylltiadau eu meithrin â rhannau eraill o Northumberland a South Tyneside er mwyn ehangu'r gwasanaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 18 Astudiaeth Achos ALl: Prosiect Wildspace Bryste

**Cyngor Dinas Bryste**

Dechreuodd Prosiect Wildspace Bryste ym mis Medi 2002, wedi'i ariannu gan gynllun grant Wildspace! English Nature a Chronfa Parciau Cynhwysol Cyngor Dinas Bryste. Y prif nod yw hyrwyddo cyfranogiad cymunedol ac addysg amgylcheddol ar warchodfeydd natur lleol Bryste. Mae gwerthusiad o'r prosiect wedi nodi ei fod wedi sicrhau manteision sylweddol i Warchodfeydd Natur Lleol Bryste a'r cymunedau o'u hamgylch, gan amlygu saith maes allweddol lle y gwnaed cynnydd:

- **Hyrwyddo cyfrifoldeb cymunedol am Warchodfeydd Natur Lleol.** Drwy gefnogi datblygu cymunedol, mae'r prosiect wedi sicrhau nid yn unig bod pobl leol yn cymryd rhan mewn tasgau ar y safle, ond y gallant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu syniadau newydd. Mae meithrin gallu wedi bod yn gost effeithiol ac wedi annog gwirfoddolwyr i feithrin dealltwriaeth well o waith rheoli safleoedd, tra'n galluogi unigolion i ddysgu sgiliau newydd ac i gael eu grymuso.
- **Meithrin ymdeimlad o gymuned.** Gwelwyd bod Grwpiau Cymunedol yn sicrhau manteision i'w cymuned sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r gwelliannau a wnaed ar y safle.
- **Hyrwyddo manteision Gwarchodfeydd Natur Lleol o ran iechyd.** Arweiniodd y prosiect at fanteision corfforol ac iechyd meddwl i'r cyfranogwyr drwy weithgarwch corfforol, a roddodd ymdeimlad o gyflawniad a'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd hefyd. Roedd y teithiau cerdded 'Cerdded Llwybr Iechyd' yn enghreifftiau arbennig o dda o hyn ac fe'u cynhaliwyd ar bob safle Gwarchodfa Natur Leol.
- **Hyrwyddo dysgu.** Mae dysgu am fywyd gwyllt a thirwedd wrth wraidd pob digwyddiad Wildspace. Roedd y teithiau cerdded tywys, 'Owl Prowls', nosweithiau canfod ystlumod, 'Bug Hunts' a gweithgareddau yn ystod y gwyliau i blant oll yn hyrwyddo dysgu mewn ffordd bleserus, difyr a hwylus.
- **Gwella ansawdd bywyd i grwpiau difreintiedig.** Mae'r prosiect Wildspace wedi gweithio'n galed i sicrhau manteision i bobl a oedd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd a chafwyd ei fod wedi helpu i sicrhau manteision cymdeithasol gwirioneddol a gwella ansawdd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas – gan ddiwallu anghenion nas diwellir gan ddarparwyr eraill o reidrwydd.
- **Gwella Gwarchodfeydd Natur Lleol ar gyfer bywyd gwyllt a phobl.** Mae'r prosiect wedi gwella'r Gwarchodfeydd Natur Lleol drwy weithio gyda rheolwyr safleoedd, partneriaid a grwpiau cymunedol.
- **Ehangu'r rhwydwaith o Warchodfeydd Natur Lleol.** Mae'r prosiect wedi codi proffil y Gwarchodfeydd Natur Lleol ym Mryste ymhlith y cyhoedd yn sylweddol ac awgrymodd y gwerthusiad y dylid hyrwyddo'r safleoedd hyn fel prif Safleoedd o Ddiddordeb Gwarchod Natur o ran cynnwys cymunedau ac addysg amgylcheddol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 5.5 Codi Ymwybyddiaeth

Mae gan fesurau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ran allweddol i'w chwarae i warchod bioamrywiaeth, i gefnogi mentrau eraill (megis gwaith cynnal a chadw tiroedd) ac i feithrin agweddau a chamau cadarnhaol gan y cyhoedd o ran bioamrywiaeth. Maent hefyd yn bwysig er mwyn gwella dealltwriaeth a mwynhad o natur a hyrwyddo'r manteision cymdeithasol, iechyd ac economaidd a ddaw yn sgîl hyn. Mae nifer o gyfryngau gwahanol ar gael i awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, o roi profiadau uniongyrchol o ymweld â gwarchodfeydd natur lleol a dehongli'r safleoedd hyn yn briodol, i ddefnyddio digwyddiadau a'r cyfryngau a thrwy lyfrgelloedd, y celfyddydau ac amgueddfeydd.

Mae codi ymwybyddiaeth o lwyddiannau o ran gwarchod bioamrywiaeth hefyd yn rhoi cyfleoedd i awdurdodau lleol wella eu henw da eu hunain.

Ymhlith gweithgareddau allweddol awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at godi ymwybyddiaeth gyffredinol o fioamrywiaeth mae:

- **Darparu lleoedd a threfnu digwyddiadau lle y gall pobl gael profiad o fioamrywiaeth a dysgu'n anffurfiol amdano.** Ymhlith y safleoedd posibl mae gwarchodfeydd natur lleol a safleoedd awdurdodau lleol eraill megis parciau, tiroedd comin, coetiroedd, seilwaith gwyrdd arall a hawliau tramwy cyhoeddus. Ceir llawer o gyfleoedd i hyrwyddo dysgu ac ymwybyddiaeth ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r safleoedd hyn ar gyfer hamddena, a gellir hwyluso hyn drwy ddarparu byrddau dehongli a chanolfannau ymwelwyr, digwyddiadau megis teithiau cerdded tywys, a datblygu mentrau eco-dwristiaeth.
- **Defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.** Ymhlith y cyfryngau allweddol mae gwefan yr awdurdod lleol a chysylltiadau allanol drwy'r teledu, papurau newydd, cylchlythyrau a'r rhyngrwyd.
- **Defnyddio'r adnodd a ddarperir gan lyfrgelloedd, y celfyddydau ac amgueddfeydd lleol i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.** Mae llyfrgelloedd, y celfyddydau ac amgueddfeydd yn cynnig adnodd pwysig i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth o fewn awdurdodau lleol, yn ogystal â darparu cyngor a gweithgareddau addysgol.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 19 Astudiaeth Achos ALl: Ymgyrch 'Breathing Places' y BBC

Ym mis Mehefin 2006, lansiodd y BBC ymgyrch genedlaethol yn para am dair blynedd i ddiogelu bioamrywiaeth, mewn partneriaeth â Natural England, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Scottish Natural Heritage, a Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth Gogledd Iwerddon. Cefnogir yr ymgyrch 'Breathing Places' gan y Gronfa Loteri Fawr a'i nod yw ysbrydoli'r cyhoedd i greu mannau gwyrdd ledled y DU a gofalu amdanynt.

Mae'r ymgyrch yn gobeithio cynnwys mwy na miliwn o wirfoddolwyr i weddnewid mwy na 50,000 o safleoedd er budd bywyd gwyllt ac er mwyn i bobl eu mwynhau. Mae'r BBC wedi creu llyfryn 'Breathing Places', sydd ar gael o'i wefan www.bbc.co.uk/breathingplaces, i roi cyngor a chyfarwyddyd i unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb mewn cymryd rhan. Mae'r llyfryn yn rhoi canllaw cam wrth gam i greu 'Breathing Place' ac wedyn ei gofrestru ar wefan y BBC. Mae hefyd yn cyflwyno'r rhaglen grantiau £5 miliwn a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn awgrymu ffynonellau arian posibl eraill.

Ceir llawer o gyfleoedd i awdurdodau lleol hyrwyddo'r ymgyrch 'Breathing Places' yn lleol, gan annog cyfranogiad cymunedau a phrosiectau bioamrywiaeth yn yr ardal leol. Ceir manylion am brosiectau unigol ar y wefan, sy'n rhoi cyfle delfrydol i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau o fewn awdurdodau lleol ymhlith cynulleidfa genedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# 6. Gweithredu'r Ddyletswydd – Goblygiadau i Awdurdodau Lleol a'u Staff

## Negeseuon Allweddol

- Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried bioamrywiaeth wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u swyddogaethau presennol. Ni ddylai fod yn faich ariannol mawr.
- Ceir amrywiaeth o gyfleoedd i leihau unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol ac i awdurdodau lleol wireddu'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a ddaw yn sgîl bioamrywiaeth iach.
- Efallai y bydd angen gwariant ychwanegol mewn achosion lle nad yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r ymrwymiadau statudol presennol.
- Mae goblygiadau yn gysylltiedig ag ystyried gwarchod bioamrywiaeth yn eu gweithgareddau i ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig. Gellir diwallu'r anghenion hyn mewn sawl ffordd.
- Mae natur amrywiol awdurdodau lleol yn golygu y bydd angen gweithio mewn ffordd hyblyg ac arloesol. Fodd bynnag, mae rhai gweithgareddau allweddol y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu eu dangos.
- Mae amrywiaeth o ddangosyddion ar gael i fesur cynnydd.

## 6.1 Adnoddau Ariannol

Mae gwarchod bioamrywiaeth yn flaenoriaeth bwysig i awdurdodau lleol, ond dim ond un o lu o flaenoriaethau ydyw. Gellir cynnwys ystyried bioamrywiaeth mewn llawer o swyddogaethau a gwasanaethau awdurdodau lleol heb gostau ychwanegol sylweddol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwariant ychwanegol mewn achosion lle nad yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r ymrwymiadau statudol presennol.

Gall awdurdodau lleol leihau'r gost o gyflawni eu Dyletswydd a gwireddu manteision gwarchod bioamrywiaeth drwy:

- **Chwilio am gyfleoedd i arbed costau.** Mae rhai o'r enghreifftiau yn y canllawiau hyn yn dangos y gall awdurdodau lleol arbed arian a sicrhau manteision o ran bioamrywiaeth, yn enwedig lle y mae bioamrywiaeth yn cael budd o gyfundrefnau rheoli tir llai dwys. Enghreifftiau allweddol yw cyfleoedd i dorri glaswellt yn llai aml wrth gynnal a chadw tiroedd, parciau a mannau agored, lleiniau ymyl ffordd a gwrychoedd. Mae'n bwysig nodi, er bod cyfleoedd gwirioneddol yn bodoli, nad yw bob amser yn hawdd manteisio arnynt, ac efallai y bydd rhwystrau mawr o ran technoleg, rheoli a gwybodaeth i'w goresgyn. Fodd bynnag, mae cyngor ar gael gan sefydliadau partner, ac mae enghreifftiau ac astudiaethau achos wedi'u darparu drwy'r ddogfen hon. Gellir gwario arian a arbedir o ran costau gweithredol ar flaenoriaethau bioamrywiaeth eraill, neu dalu costau cwblhau arolygon, archwiliadau a chynlluniau rheoli er enghraifft.
- **Chwilio am gyfleoedd i gysylltu bioamrywiaeth ag agendâu eraill.** Fel yr eglura'r ddogfen hon, ceir cysylltiadau cryf rhwng gwarchod bioamrywiaeth a llawer o amcanion a gweithgareddau eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys hybu iechyd a hamdden awyr agored, addysg, ymgysylltu â'r gymuned a chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo gwarchod bioamrywiaeth drwy ddefnyddio bioamrywiaeth i helpu i gyflwyno rhaglenni cymdeithasol ehangach.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

- **Manteisio i'r eithaf ar arian allanol.** Gall amrywiaeth o ffynonellau arian allanol helpu awdurdodau lleol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylchedd a chynlluniau grantiau coetir, cynlluniau treth tirlenwi ac agregau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr, cynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd a Chronfa LIFE yr UE. Mae astudiaethau achos yn y ddogfen gyfarwyddyd hon (e.e. astudiaeth achos ESA Norwich) yn dangos bod gan arian allanol ran allweddol i'w chwarae i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau bioamrywiaeth. Mae arian ar gael ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth annibynnol yn ogystal â phrosiectau lle y mae bioamrywiaeth yn un o nifer o elfennau o waith cymunedol ehangach.



**Clychau'r Gog, Thorpe Wood, Peterborough**
Llun: Ffotograffydd Natural England Peter Wakely

- **Annog pob swyddog a phob aelod etholedig i ystyried bioamrywiaeth ar draws dyletswyddau a swyddogaethau.** Mewn llawer o'r enghreifftiau yn y ddogfen hon, mae perfformiad bioamrywiaeth awdurdodau lleol wedi'i wella drwy wneud pethau'n wahanol, yn hytrach na thrwy weithredu prosiectau ychwanegol mawr. Gellir gwneud cynnydd sylweddol drwy hyrwyddo newid diwylliannol a thrwy annog pob aelod o staff a phob aelod etholedig i feddwl am oblygiadau gweithgareddau'r awdurdod lleol i fioamrywiaeth. Mae llawer o agweddau ar arfer da yn golygu gwella'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn hytrach na gweithgaredd newydd. Gall penodi hyrwyddwyr bioamrywiaeth – unigolion â rôl i hyrwyddo bioamrywiaeth o fewn y sefydliad – fod yn ffordd effeithiol o hyrwyddo gwaith gwarchod bioamrywiaeth.

- **Manteisio i'r eithaf ar adnoddau presennol.** Mae gan lawer o awdurdodau lleol adnoddau mewnol gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo gwaith gwarchod bioamrywiaeth, ar ffurf ecolegwyr llywodraeth leol, sy'n ceisio helpu i integreiddio gwaith gwarchod bioamrywiaeth yng ngweithgareddau a swyddogaethau'r awdurdod lleol.

- **Manteisio ar egni gwirfoddolwyr a chymunedau lleol.** Gall gwirfoddolwyr a chymunedau lleol wneud llawer i warchod bioamrywiaeth. Mae llawer o'r astudiaethau achos yn y canllawiau hyn yn dangos y cyfraniad mawr y gall pobl leol ei wneud i warchod bioamrywiaeth yn eu hardal.

- **Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.** Mae partneriaid allweddol yn debygol o gynnwys Natural England, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, y sector gwirfoddol, partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac awdurdodau lleol eraill.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 6.2 Sgiliau a Hyfforddiant

Mae goblygiadau yn gysylltiedig ag ystyried gwarchod bioamrywiaeth yn eu gweithgareddau i ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig. Gellir diwallu'r anghenion hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- **Codi ymwybyddiaeth gyffredinol.** Mewn llawer o achosion, yn aml mae angen codi ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion o ran bioamrywiaeth a'u cydberthynas â swyddogaethau a gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae gan y canllawiau hyn, a'r gwaith o'u hyrwyddo o fewn awdurdodau lleol, ran allweddol i'w chwarae.
- **Defnyddio'r canllawiau sydd ar gael.** Mae amrywiaeth o ddogfennau cyfarwyddyd a llawlyfrau manwl wedi'u cynhyrchu gan sefydliadau gwahanol, gan gyfeirio at weithgareddau a swyddogaethau awdurdodau lleol gwahanol, ac maent yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth fanylach am faterion penodol o ran bioamrywiaeth. Cyfeirir at y canllawiau sydd ar gael drwy'r ddogfen hon ac fe'u crynhoir yn Atodiad 1.
- **Integreiddio bioamrywiaeth mewn hyfforddiant staff.** Mae'n bwysig, lle y bo'n briodol, bod yr hyfforddiant a ddarperir o ran swyddogaethau a gweithgareddau perthnasol yn ystyried materion o ran bioamrywiaeth. Ymhlith yr enghreifftiau mae integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth yn yr hyfforddiant a roddir i staff a chontractwyr sy'n ymwneud â chynnal a chadw tiroedd, priffyrdd ac adeiladau.
- **Ceisio cyngor.** Mae gan lawer o awdurdodau lleol arbenigedd mewnol – drwy ecolegwyr llywodraeth leol – i gynghori staff ar sut y gallant ystyried bioamrywiaeth yn eu gweithgareddau a'u swyddogaethau. Gall sefydliadau amgylcheddol eraill roi cyngor ar faterion o ran bioamrywiaeth hefyd. Yn ogystal â Natural England a CCGC, gall y rhain gynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol megis Ymddiriedolaethau Natur ac amrywiaeth o sefydliadau sy'n ymdrin â grwpiad rhywogaethau penodol.
- Darparu hyfforddiant penodol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn briodol darparu hyfforddiant arbenigol i ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth mewn gweithgareddau neu feysydd gwasanaeth penodol (e.e. cynllunio neu gynnal a chadw tiroedd).

## 6.3 Mesur Cynnydd

Nid yw'r Ddyletswydd yn cyflwyno gwaith monitro ychwanegol. Fodd bynnag, caiff effaith y Ddyletswydd ei hadolygu yn 2009. Drwy ddefnyddio dulliau presennol a'r rhai sy'n cael eu datblygu eisoes i fonitro bioamrywiaeth, bydd awdurdodau lleol yn gallu dangos sut y maent wedi cyflawni eu Dyletswydd a bydd hefyd yn helpu i ddangos eu cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy a 'materion ansawdd bywyd'.

Mae natur amrywiol awdurdodau lleol yn golygu y bydd angen gweithio mewn ffordd hyblyg ac arloesol. Fodd bynnag, mae rhai gweithgareddau allweddol y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu eu dangos:

- Rhoi arweiniad yn y gymuned – gan godi proffil bioamrywiaeth ar draws swyddogaethau'r awdurdod.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

- Ystyried cyfleoedd i integreiddio ystyriaethau o ran bioamrywiaeth ym mhob maes gwasanaeth a swyddogaeth berthnasol, a chymryd camau i weithredu'r cyfleoedd a nodwyd.
- Rheoli daliadau tir awdurdodau lleol. Bydd awdurdod sy'n cydymffurfio yn rheoli ei safleoedd ei hun mewn ffordd sy'n ystyriol o fioamrywiaeth.
- Ymdrechu i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff, pob rheolwr a phob aelod etholedig o faterion o ran bioamrywiaeth.
- Dangos ymrwymiad i fentrau bioamrywiaeth lleol allweddol, megis Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a chyfrannu at gyflawni canlyniadau, ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, lle y bo'n briodol.
- Defnyddio gwybodaeth a data a dangos cynnydd yn erbyn dangosyddion bioamrywiaeth allweddol. Mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn gallu cael gafael ar ddata am rywogaethau a chynefinoedd, er enghraifft, Canolfannau Cofnodion Lleol a/neu Ranbarthol, neu drwy Bartneriaethau Bioamrywiaeth Lleol.
- Cynnydd yn erbyn unrhyw ddangosydd bioamrywiaeth a gynhwysir yn fframwaith perfformiad llywodraeth leol.

Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael ar hyn o bryd i helpu awdurdodau lleol i fesur eu perfformiad ym maes gwarchod bioamrywiaeth. Er enghraifft, gellir defnyddio dangosyddion bioamrywiaeth i roi'r wybodaeth angenrheidiol am berfformiad i reolwyr gwasanaethau i sicrhau gwelliannau. Gellid defnyddio'r dangosyddion bioamrywiaeth canlynol hefyd fel sail ar gyfer llunio targedau blaenoriaethau lleol ar gyfer Cytundebau Ardal Lleol. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol am ystyried defnyddio dangosyddion yng nghyd-destun blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol:

Datblygwyd dangosydd bioamrywiaeth o ganlyniad i brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Defra yn 2004[34]. Y dangosydd a ddatblygwyd i fesur perfformiad awdurdod lleol yw "Cynnydd tuag at gyflawni potensial awdurdod lleol o ran bioamrywiaeth" ac mae'n seiliedig ar bedwar is-ddangosydd yn ymwneud â'r canlynol:

1. Rheoli daliadau tir awdurdod lleol % y daliadau tir a reolir yn ôl cynllun sy'n ceisio sicrhau potential mwyaf y safleoedd o ran bioamrywiaeth).
2. Cyflwr y SoDdGA a reolir gan awdurdod lleol (e.e. % y SoDdGA mewn cyflwr 'ffafriol' neu 'anffafriol sy'n gwella')
3. Darparu mannau gwyrdd hygyrch.
4. **Effaith penderfyniadau rheoli datblygu ar safleoedd dynodedig** (e.e. newid safleoedd dynodedig o ganlyniad i ganiatadau cynllunio).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[34] http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/resprog/findings/biodivperf-localauth/index.htm

Mae'r Llyfrgell o Ddangosyddion Perfformiad Lleol, a ddarperir gan y Comisiwn Archwilio a'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (I&DeA)[35] yn cynnig y dangosyddion canlynol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i fesur cynnydd mewn perthynas â gwarchod bioamrywiaeth:

1. Statws cyfraniad yr awdurdod lleol i broses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol;
2. Canran y tir y mae'r awdurdod lleol yn berchen arno ac yn ei reoli, heb ddynodiad gwarchod natur, a arolygwyd i nodi bod bioamrywiaeth yn bresennol a chyfleoedd i gynnal neu wella bioamrywiaeth;
3. Canran y tir y mae'r awdurdod lleol yn berchen arno ac yn ei reoli, heb ddynodiad gwarchod natur, a reolir o ran bioamrywiaeth;
4. Tir a ddynodwyd yn SoDdGA o fewn ardal yr awdurdod lleol;
5. Canran arwynebedd yr holl dir a ddynodwyd yn SoDdGA a aseswyd, ac y cafwyd ei fod mewn cyflwr ffafriol neu anffafriol sy'n gwella: (a) cyfanswm a (b) yn ôl math cyffredinol o gynefin yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.
6. Arfer swyddogaeth gynllunio'r awdurdod lleol i ddiogelu SoDdGA rhag pwysau datblygu: colled net tir SoDdGA i gynlluniau datblygu.
7. Canran arwynebedd SoDdGA y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, yr aseswyd eu bod mewn cyflwr ffafriol neu anffafriol sy'n gwella: (a) cyfanswm a (b) yn ôl math cyffredinol o gynefin yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.
8. Arwynebedd o Warchodfa Natur Leol fesul 1,000 o'r boblogaeth (hectarau).

Mae *Symud yn ein Blaenau*[36], Datganiad Gweledigaeth ALGE ar gyfer Bioamrywiaeth mewn Llywodraeth Leol 2004-2010, yn nodi'r hyn sydd, ym marn ALGE, yn nodweddion awdurdod lleol sy'n perfformio'n dda, o dan yr wyth thema ganlynol:

1. Arweinyddiaeth Wleidyddol, Atebolrwydd Democrataidd a Rheoli Ariannol
2. Annog Cydgysylltu Lleol a Phartneriaeth
3. Casglu a Defnyddio Data Bioamrywiaeth
4. Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu
5. Galluogi Cyfranogiad, Cynnwys ac Addysg Cymunedau
6. Rheoli Tir Awdurdodau Lleol
7. Helpu Rheolwyr Tir a Thirfeddianwyr eraill
8. Cyfrifoldeb Statudol a Chymhwysedd Proffesiynol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[35] http://www.local-pi-library.gov.uk/LIBRARY_ALL_PIS.ASP?MENUID=609
[36] http://www.alge.org.uk/strategy/index.php

# Atodiad 1: Crynodeb o'r Canllawiau Presennol ar Faterion yn Ymwneud â Bioamrywiaeth

**DS: Nid yw'r dogfennau cyfarwyddyd hyn o reidrwydd yn adlewyrchu barn Defra a phartneriaid.**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Cyffredinol

**Best Value and Biodiversity in Scotland: A Handbook of Good Practice for Public Bodies**

Gweithrediaeth yr Alban

Medi 2004

Llyfr A4 yn cynnwys 74 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill

Cyswllt: **http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/25725/0014475.pdf**

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio helpu awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill drwy roi argymhellion ac enghreifftiau ymarferol a fydd yn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth a gwerth gorau yn torri ar draws pob maes darparu gwasanaethau. Mae'n esbonio pam y dylai awdurdodau cyhoeddus roi sylw i warchod bioamrywiaeth, ac yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut y gallant gymryd rhan mewn materion o ran bioamrywiaeth. Mae'r cyhoeddiad hefyd yn cynnig cyfres o astudiaethau achos ar gamau gwarchod bioamrywiaeth a gymerwyd gan awdurdodau lleol eisoes o ran gwerth gorau, a chrynodeb o'r cyhoeddiadau presennol sy'n cynnig cyngor a chanllawiau ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth.

**A Review of Biodiversity Conservation Performance Measures**

Earthwatch, Rio Tinto

Mawrth 2006

Llyfr A4 yn cynnwys 63 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Rheoli Perfformiad Awdurdodau Lleol a Sefydliadau eraill sy'n Ymwneud â Chadwraeth

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/Biodiversity%20report%20(2).pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cydnabod yr ymwybyddiaeth gynyddol bod angen i sefydliadau cadwraeth fod yn fwy atebol am eu canlyniadau cadwraeth i gyrff ariannu, rhanddeiliaid eraill a'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n crynhoi ac yn adolygu'r ystyriaethau allweddol o ran mesur perfformiad ym maes gwarchod bioamrywiaeth, gan ganolbwyntio ar fesurau uniongyrchol ac anuniongyrchol o statws bioamrywiaeth ac ar gamau gweithredu yn ymwneud â phrosiectau. Mae hefyd yn disgrifio'r prif systemau monitro a gynigiwyd, manteision ac anfanteision y systemau hyn ac yn nodi camau gweithredu pellach y gallai busnesau a sefydliadau cadwraeth eu cymryd i ddatblygu systemau monitro perfformiad ym maes gwarchod bioamrywiaeth.

**Biodiversity – Making the Links**

English Nature

1999

Adroddiad yn cynnwys 48 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: Mae'r adroddiad ar gael am ddim o wefan English Nature **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/pub_search.asp**, neu drwy gysylltu ag **english-nature@twoten.press.net** (0870 1214 177)

Adroddiad English Nature Cod: IN3.2

ISBN: 1 85716 469 5

Mae'r cyhoeddiad hwn yn disgrifio'r graddau y mae rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn gydberthnasol. Mae'n defnyddio matrics i nodi cysylltiadau rhwng rhywogaethau a chynefinoedd ac yn rhoi enghreifftiau o sut y gall rhaglenni rhywogaethau a chynefinoedd weithio gyda'i gilydd a sut y gall y cysylltiadau hyn chwarae rhan allweddol o ran datblygu strategaeth gwarchod bioamrywiaeth integredig yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'n awgrymu dulliau o gysylltu rhwng grwpiau rhywogaethau a chynefinoedd ac yn rhoi enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r matrics.

**Sustainable Development and Environment Manual**

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

Ebrill 2005

Adroddiad yn cynnwys 602 o dudalennau

Cynulleidfa: Cyflogeion yr MOD, contractwyr a phartneriaid

Cyswllt: **http://www.mod.uk/NR/rdonlyres/F32B94CE-6620-40E8-A1D2-230EA43AFDD0/0/jsp418_whole.pdf**

Mae'r llawlyfr hwn yn un o nifer o wahanol ddogfennau o fewn yr MOD sy'n cynnig canllawiau ar gydymffurfio ag agweddau penodol ar bolisi a deddfwriaeth amgylcheddol. Mae'n cefnogi fframwaith ar gyfer diogelu'r amgylchedd yn yr MOD, gan roi sylw i egwyddorion cyffredinol diogelu amgylcheddol a datblygu cynaliadwy a dderbynnir yn fyd-eang. Mae'n nodi polisi'r MOD ac yn rhoi rhai canllawiau ymarferol ar gyfer swyddogaethau ac adrannau penodol o fewn yr MOD i ddatblygu'r agenda hon o ran diogelu amgylcheddol a datblygu cynaliadwy.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Environmental Information Regulations 2004 – Detailed Guidance**

Defra

Mawrth 2005

Adroddiad yn cynnwys 92 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/corporate/opengov/eir/guidance/full-guidance/index.htm**

Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu sefydliadau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'n ddatganiad ar yr ymagwedd y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei mabwysiadu wrth weithredu cyfundrefn y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ar ben hynny bwriedir iddynt helpu i nodi'n gliriach y berthynas rhwng y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn fwy cyffredinol, a chyfundrefnau gwybodaeth eraill.

**National Biodiversity Network Trust: Position Statement on Local Records Centres**

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol

Ebrill 2004

Datganiad yn cynnwys 7 tudalen

Cynulleidfa: Y rhai sy'n ceisio sefydlu Canolfannau Cofnodion Lleol neu eu datblygu ymhellach (E.e. Awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Natur, asiantaethau cadwraeth statudol, cyrff cadwraeth eraill)

Cyswllt:
**http://www.nbn.org.uk/information/info.asp?level1id=1&level2id=10&level3id=45&level4id=&cat_id=101**

Mae'r datganiad hwn yn rhoi diffiniad gweithredol o Ganolfan Cofnodion Lleol, yn disgrifio ei swyddogaethau a'i rôl o ran swyddogaethau hanfodol ac ychwanegol, ac yn disgrifio'r berthynas rhyngddi ac Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Fe'i datblygwyd gyda chyfraniadau gan ystod eang o bartneriaid ac, yn arbennig, mae'n defnyddio gwaith y Prosiect Cysylltu Canolfannau Cofnodion Lleol, 1998-2001, a arweiniwyd gan yr Ymddiriedolaethau Natur ar gyfer y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Developing a Local Record Centre**

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol

1999

Llawlyfr yn cynnwys 150 o dudalennau

Cynulleidfa: Y rhai sy'n ceisio sefydlu Canolfannau Cofnodion Lleol neu eu datblygu ymhellach (E.e. Awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Natur, asiantaethau cadwraeth statudol, cyrff cadwraeth eraill)

Cyswllt:
**http://www.nbn.org.uk/information/info.asp?level1id=1&level2id=10&level3id=45&level4id=&cat_id=101**

Mae'r canllawiau yn nodi materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth sefydlu neu ddatblygu Canolfan Gofnodion Leol ac yn rhoi gwybodaeth am sut i lunio Cynllun Datblygu, yr hyn y dylai ei gynnwys a sut y dylid ei ddefnyddio fel dogfen gyfeirio. Mae hefyd yn rhoi fframwaith i gynorthwyo gwaith monitro effeithiolrwydd Canolfan Gofnodion Leol mwy hirdymor.

**Running a Local Record Centre**

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol

1999

Llawlyfr yn cynnwys 150 o dudalennau

Cynulleidfa: Y rhai sy'n rhedeg Canolfannau Cofnodion Lleol

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol –

**http://www.nbn.org.uk/information/info.asp?level1id=1&level2id=10&level3id=45&level4id=&cat_id=101**

Mae'r llawlyfr cyfarwyddyd hwn yn adeiladu ar y model a ddisgrifir yn 'Developing a Local Record Centre' ac yn rhoi gwybodaeth ymarferol am lawer o'r gweithrediadau sy'n gysylltiedig â rhedeg Canolfan Gofnodion Leol. Mae'r llawlyfr mewn dwy gyfrol. Mae Cyfrol 1 yn ymdrin â 'Rheoli Busnes' ac yn rhoi gwybodaeth am sut i redeg Canolfan Gofnodion Leol fel busnes bach. Mae Cyfrol 2 yn ymdrin â 'Systemau Rheoli Gwybodaeth Bioamrywiaeth' ac yn cynnwys canllawiau ymarferol ar gyfer Canolfannau Cofnodion Lleol ar sut i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer amrywiaeth o dasgau rheoli data, a eglurir gan ddefnyddio nifer o astudiaethau achos.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**The Wildlife Trusts' Biodiversity Benchmark**

Yr Ymddiriedolaethau Natur

2003

Taflen A4 yn cynnwys 4 tudalen/Gwefan

Cynulleidfa: Unrhyw sefydliad sy'n berchen ar dir neu sy'n gyfrifol am reoli tir

Cyswllt: **http://www.biodiversitybenchmark.org/index.html**

Mae'r daflen hon yn cyflwyno "Meincnod Bioamrywiaeth" yr Ymddiriedolaethau Natur, yn esbonio sut y gall fod o fudd i sefydliadau ac yn esbonio'r prosesau sy'n gysylltiedig ag ennill dyfarniad y "Meincnod Bioamrywiaeth". Mae'r "Meincnod Bioamrywiaeth" yn gynllun hyblyg, addasadwy a chydnabyddedig i wobrwyo sefydliadau am wella bioamrywiaeth yn barhaus. Mae'n galluogi unrhyw sefydliad i asesu ei effaith ar y byd naturiol a gwella ei gyfraniad at yr amgylchedd, tra'n dangos ymrwymiad i fioamrywiaeth.

## Awdurdodau Lleol – Cyffredinol

**Making a Difference: A Guide to Incorporating Biodiversity into Local Authority Services**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham (Noddir gan Gyngor Bwrdeistref Metropolitan Gateshead)

2000

Llyfryn A4 yn cynnwys 17 tudalen

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.gateshead.gov.uk/DocumentLibrary/Environment/Strategies/makingadifference.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys canllawiau gweithredol ar gyfer y swyddog awdurdod lleol neu'r goruchwyliwr gweithrediadau i'w helpu i ymgorffori Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Durham yn eu swyddi. Tynnir sylw at ystod eang o feysydd gwasanaeth, ac ar gyfer pob un o'r rhain rhoddir awgrymiadau i alluogi newid arferion gwaith cyfredol i sicrhau gwelliannau mewn bioamrywiaeth. Dosbarthwyd yr awgrymiadau ar gyfer arferion gwaith o dan benawdau darparu gwasanaethau yn hytrach na phenawdau adrannol. Fel partneriaid allweddol yn y broses bioamrywiaeth, gall awdurdodau lleol chwarae rhan bwysig o ran gweithredu er lles bioamrywiaeth, a gallant fod yn enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer partneriaid eraill sy'n gweithio i warchod bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Symud yn ein Blaenau: Datganiad Gweledigaeth ar gyfer Bioamrywiaeth mewn Llywodraeth Leol 2004-2010**

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)

2004

Llyfryn A4 yn cynnwys 24 o dudalennau

Cynulleidfa: Ecolegwyr Awdurdodau Lleol a holl swyddogaethau Awdurdodau Lleol

Cyswllt Cymraeg:
**http://www.alge.org.uk/publications/files/download.php?filepath=Alge_Report_Welsh.pdf**

Cyswllt Saesneg:
**http://www.alge.org.uk/publications/files/download.php?filepath=Alge_Report_English.pdf**

Mae’r llyfryn hwn yn cyflwyno gweledigaeth o’r hyn y dylai awdurdod lleol allu ei gyflawni, pan fydd ei berfformiad yn dda neu’n ardderchog, ar draws ystod eang o weithgareddau o ran pob mater yn ymwneud â bioamrywiaeth a gwarchod natur. Bwriedir i hyn roi cyfeiriad strategol ar gyfer awdurdodau lleol a sicrhau y cydnabyddir anghenion bioamrywiaeth ac yr eir i’r afael â hwy fel rhan o’u darpariaeth gwasanaethau craidd ac y’u hymgorfforir ym mhenderfyniadau a chamau gweithredu pob dydd holl swyddogaethau awdurdodau lleol. Mae’n rhoi cyfres o nodweddion neu ‘ddilysnodau’ bioamrywiaeth awdurdod sy’n perfformio’n dda, sy’n darparu meincnodau ar gyfer pwyso a mesur awdurdodau unigol.

**Local Authorities, Nature Conservation and Biodiversity**

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)

2005

Llyfryn A5 yn cynnwys 13 tudalen

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol

Cyswllt:
**http://www.alge.org.uk/publications/files/download.php?filepath=Alge_Book_pages1_6.pdf**

Mae’r llyfryn hwn yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol o ran gwarchod natur a diogelu a gwella bioamrywiaeth yn y DU. Mae’n rhoi canllawiau ar rôl awdurdodau lleol i wella a hyrwyddo bioamrywiaeth o fewn: strategaethau datblygu cynaliadwy a strategaethau cymunedol; cynllunio a rheoli datblygu; casglu a defnyddio data; tir awdurdodau lleol; rheoli tir; cydlynu a phartneriaeth; a chyfranogiad cymunedol, cynnwys y gymuned ac addysg gymunedol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Best Value for Biodiversity: Helping to Achieve Continuous Improvement for Biodiversity Conservation Within Local Government**

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)

2001

Llyfr A4 ar wefan ALGE

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Lleol

Cyswllt: **http://www.alge.org.uk/publications/bvb/contents.php**

Dengys y llyfr hwn sut y gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad cadarnhaol at warchod bioamrywiaeth ac fe'i hanelir at bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Cynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol, Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Bwrdeistref Metropolitan, Awdurdodau Unedol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Mae'n rhoi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar sut i gynnal Adolygiad Gwerth Gorau o'r modd y darperir eu gwasanaethau lle y maent yn ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth. Mae hefyd yn helpu i nodi meysydd gwella posibl, dewis dangosyddion perfformiad lleol, ac integreiddio bioamrywiaeth mewn meysydd gwaith eraill.

**Biodiversity Strategy: A Vision for the Conservation of the District's Biodiversity 2006-2009**

Cyngor Dosbarth De Swydd Gaergrawnt

Awst 2006

Llyfr A4 yn cynnwys 97 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.scambs.gov.uk/admin/documents/retrieve.asp?pk_document=904818**

Mae'r strategaeth hon yn ceisio nodi sut y bydd Cyngor Dosbarth De Swydd Gaergrawnt yn hyrwyddo bioamrywiaeth, cadwraeth a gwelliannau ar draws holl swyddogaethau'r cyngor er mwyn creu amgylchedd lleol sy'n ecolegol amrywiol a chynaliadwy. Mae'n nodi sut y mae materion o ran bioamrywiaeth yn drawsbynciol rhwng gwahanol swyddogaethau awdurdod lleol ac yn awgrymu meysydd lle y gellid o bosibl sicrhau gwelliannau mewn bioamrywiaeth. Cydnabyddir gwerth gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant datblygu a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei warchod yn effeithiol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity in Community Strategies**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham

Gorffennaf 2002

Llyfryn A4 yn cynnwys 28 o dudalennau

Cynulleidfa: Aelodau Partneriaethau Strategol Lleol a swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddrafftio Strategaethau Cymunedol

Cyswllt:
**http://www.durhambiodiversity.org.uk/pdfs/Biodiversity&CommunityStratgeies2002.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â llunio Strategaethau Cymunedol i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'u cynorthwyo i ymgorffori'r wybodaeth berthnasol am fioamrywiaeth yn eu Strategaeth Gymunedol. Mae'r canllawiau yn cyflwyno bioamrywiaeth a'i berthnasedd i Strategaethau Cymunedol a'r Broses Cynllunio Cymunedol, yn trafod cydgyfeirio polisi, materion allweddol, adrodd a monitro, ac yn awgrymu ystod o dargedau a dangosyddion perfformiad ar gyfer bioamrywiaeth.

**Life Support: Incorporating Biodiversity into Community Strategies**

English Nature

Chwefror 2004

Llyfryn A5 yn cynnwys 16 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol a'r rhai sy'n ymwneud â datblygu a chyflawni strategaethau cymunedol

Cyswllt: **http://www.ukbap.org.uk/ebg/library/lrsig/DefraLifeSupport.pdf**

Lluniwyd y llyfryn hwn i esbonio sut y gall amcanion Partneriaethau Strategol Lleol gael budd o fioamrywiaeth lleol. Dogfen wybodaeth ydyw sy'n herio'r partneriaethau i ofyn cwestiynau a dod o hyd i bobl â'r atebion o ran sicrhau cefnogaeth gymunedol i fioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity and Community Strategies Project – Chester-le-Street District: Final Report**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham

Ionawr 2005

Adroddiad A4 yn cynnwys 36 o dudalennau

Cynulleidfa: Aelodau Partneriaethau Strategol Lleol a swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddrafftio Strategaethau Cymunedol

Cyswllt:
**http://www.durhambiodiversity.org.uk/pdfs/Final%20Report%20Chester-le-Street.pdf**

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ac yn gwerthuso gweithgareddau'r astudiaeth beilot o Strategaethau Bioamrywiaeth a Chymunedol yn Chester-le-Street, a barodd o 2002 hyd 2004. Nod y prosiect oedd dangos, drwy ddatblygu rhaglen datblygu cymunedol a gynnelir gan bartneriaeth, sut y gallai materion bioamrywiaeth a materion amgylcheddol ehangach hyrwyddo Partneriaeth Strategol Leol Chester-le-Street a datblygu Strategaeth Gymunedol yr Ardal. Mae'r adroddiad terfynol yn disgrifio'r gweithgareddau a gyflawnwyd, yn cyflwyno dadansoddiad SWOT, ac yn darparu gwersi a ddysgwyd ac argymhellion arfer gorau.

**Local Area Agreement – Defra Support Pack**

Defra

Awst 2006

Dogfen yn cynnwys 43 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol a Swyddfeydd y Llywodraeth

Cyswllt:
**http://www.oursouthwest.com/climate/archive/LAA-Defra-support-pack-1-august%202006.doc**

Mae'r ddogfen hon yn ceisio cynorthwyo ardaloedd lleol a Swyddfeydd y Llywodraeth i sicrhau bod pob Cytundeb Ardal Lleol yn fodd i harneisio egni ac arloesi cymunedau a dinasyddion lleol. Mae'n nodi pob un o ganlyniadau Defra yn fframwaith cyffredin yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac yn awgrymu canlyniadau ychwanegol posibl ac yn ategu'r rhain â gwybodaeth ychwanegol pan fo angen.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity Data Needs for Local Authorities and National Park Authorities**

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)

2006

Adroddiad yn cynnwys 60 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol

Cyswllt: **http://www.alge.org.uk/publications/files/index.php**

Mae'r adroddiad yn ymdrin â gwaith a wnaed gan ALGE i nodi anghenion o ran data bioamrywiaeth ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr fel rhan o brosiect mwy o faint, 'Biodiversity and Good Practice in Local Authorities' i gefnogi a hyrwyddo gweithredu gan awdurdodau lleol er mwyn gwarchod natur. Mae'r adroddiad yn dadansoddi naw maes o anghenion gwybodaeth bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â statudau a chanllawiau cysylltiedig gan gyrff y llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, yn nodi 17 o gynhyrchion data argymelledig sy'n addas ar gyfer diwallu'r anghenion hynny, ac yn cynnig argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach.

**Biodiversity Action Plan for Hampshire: Volume One**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Hampshire

1998

Strategaeth yn cynnwys 80 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.hampshirebiodiversity.org.uk/pdf/vol1/Biodiversitypages01-09.pdf**

Mae Cyfrol un Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Hampshire yn gynllun gweithredu 10 mlynedd strategol ar gyfer bioamrywiaeth ledled y sir. Mae'n nodi amcanion Partneriaeth Bioamrywiaeth Hampshire, yn disgrifio bioamrywiaeth Hampshire, ac yn nodi cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Mae hefyd yn hyrwyddo strategaeth ar gyfer gwybodaeth a data bioamrywiaeth ac ar gyfer codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity Action Plan for Hampshire: Volume Two**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Hampshire

2000

31 o dudalennau ar gyfer rhan un o'r adroddiad

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.hampshirebiodiversity.org.uk/pdf/vol2/Vol2ActionPlansp1-13.pdf**

Mae Cyfrol dau yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu manwl ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau unigol â blaenoriaeth, ac mae'n ymdrin â phynciau penodol megis rheoli dŵr ac addysg ac ymwybyddiaeth sy'n cael cryn ddylanwad ar weithgarwch gwarchod bioamrywiaeth.

## Parciau a Mannau Gwyrdd

**Making Contracts Work for Wildlife: How to Encourage Biodiversity in Urban Parks**

Y Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE)

2006

Llyfr A4 yn cynnwys 62 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Rheoli Parciau a Mannau Gwyrdd o fewn Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.cabe.org.uk/AssetLibrary/8068.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cynghori gweithwyr proffesiynol ym maes parciau a mannau gwryd ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer bioamrywiaeth yn ein parciau trefol, a sut i integreiddio bioamrywiaeth mewn dulliau traddodiadol o reoli mannau gwerth. Mae'n canolbwyntio ar agweddau ymarferol ac yn cynnwys astudiaethau achos i ddangos sut y gall yr argymhellion ddwyn manteision i fioamrywiaeth a phobl leol, yn ogystal â chynyddu boddhad staff, ac mae'n esbonio sut y gall ymrwymiad unigolion a chyflogwyr wneud y gwahaniaeth rhwng methu a llwyddo.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**A Space for Nature**

English Nature

1996

Taflen A5 yn cynnwys 8 tudalen

Cynulleidfa: Pob awdurdod cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/spacefornature.pdf**

Mae'r daflen hon yn amlinellu'r gwerthoedd i bobl yn gysylltiedig â mannau gwyrdd naturiol hygyrch mewn ardaloedd trefol a'u pwysigrwydd o ran cadwraeth, gan nodi barn English Nature a safonau awgrymedig ar gyfer eu darparu.

**Accessible Natural Greenspace in Towns and Cities: A Review of Appropriate Size and Distance Criteria – Research Report No. 153**

English Nature

1995

Adroddiad yn cynnwys 49 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair adran –

**http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/153_1.pdf**

**http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/153_2.pdf**

**http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/153_3.pdf**

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu polisïau sy'n cydnabod, yn diogelu ac yn gwella'r cyfraniad y mae mannau naturiol yn ei wneud at gynaliadwyedd lleol. Trafodir tair agwedd ar fannau naturiol mewn dinasoedd a threfi: eu bioamrywiaeth; eu gallu i ymdopi â llygredd trefol; sicrhau bod mannau naturiol yn hygyrch i bawb. Mae'r adroddiad yn ceisio dangos sut y gellir defnyddio meini prawf maint a phellter i nodi'r mannau naturiol sy'n cyfrannu fwyaf at gynaliadwyedd lleol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Accessible Natural Green Space Standards in Towns and Cities: A Review and Toolkit for their Implementation – Research Report No. 526**

English Nature

2003

Adroddiad yn cynnwys 98 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/526.pdf**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect a edrychodd ar fodel safonau mannau gwyrdd naturiol English Nature er mwyn nodi a ellid cefnogi ei ddilysrwydd o hyd, sut yr oedd awdurdodau lleol yn rheoli polisi mannau gwyrdd a sut y gellid hyrwyddo'r safonau yn effeithiol yn yr amgylchedd polisi newydd a chyfnewidiol. Mae'r prosiect yn adeiladu ar waith a gyhoeddwyd yn Adroddiad Ymchwil Rhif 153 English Nature, 'Accessible Natural Greenspace in towns and cities – a review of appropriate size and distance criteria (1995)'.

**Providing Accessible Natural Greenspace in Towns and Cities: A Practical Guide to Assessing the Resource and Implementing Local Standards for Provision**

English Nature

2003

Canllawiau yn cynnwys 36 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/Accessgreenspace.pdf**

Mae'r canllawiau hyn yn darparu methodoleg awgrymedig a chyngor ar ddefnyddio Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch English Nature – fel y nodir yn Adroddiad Ymchwil Rhif 526 English Nature, 'Accessible Natural Green Space Standards in Towns and Cities: A Review and Toolkit for their Implementation'.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Cynllunio a Datblygu

**Planning Policy Statement (PPS) 9: Biodiversity and Geological Conservation**

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

2005

Taflen A4 yn cynnwys 13 o dudalennau

Cynulleidfa: Cynrychiolwyr Cynllunio a Datblygu Awdurdodau Cyhoeddus Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol.

Cyswllt:
**http://www.communities.gov.uk/pub/833/PlanningPolicyStatement9BiodiversityandGeologicalConservation_id1143833.pdf**

Mae Datganiad Polisi Cynllunio 9 yn nodi polisïau cynllunio ar ddiogelu bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol drwy'r system gynllunio. Nid yw'r polisïau hyn yn disodli polisïau cynllunio cenedlaethol sy'n bodoli eisoes nac unrhyw bolisïau cynllunio cenedlaethol eraill ac nid ydynt yn bwysicach na'r cyfryw bolisïau, ond dylent ategu'r polisïau hyn a gweithredu ochr yn ochr â datganiadau perthnasol eraill o bolisi cynllunio cenedlaethol. Bydd angen i'r polisïau a nodir yn y ddogfen hon gael eu hystyried gan gyrff cynllunio rhanbarthol wrth iddynt lunio strategaethau gofodol rhanbarthol, a chan awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt lunio dogfennau datblygu lleol, a gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

**Planning for Biodiversity and Geological Conservation: A Guide to Good Practice**

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Defra, English Nature

Mawrth 2006

Llyfr A4 yn cynnwys 63 o dudalennau

Cynulleidfa: Cynrychiolwyr Cynllunio a Datblygu Awdurdodau Cyhoeddus Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol.

Cyswllt:
**http://www.communities.gov.uk/pub/843/PlanningforBiodiversityGeologicalConservationAGuidetoGoodPractice_id1164843.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau arfer da ar ffyrdd y gall cyrff cynllunio rhanbarthol ac awdurdodau cynllunio lleol helpu i gyflawni'r polisïau cenedlaethol yn PPS9 (a grynhowyd uchod) a chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a nodir yng Nghylchlythyr y Llywodraeth, "Biodiversity and Geological Conservation – statutory obligations and their impact within the planning system". Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu ffyrdd y gall polisïau a phenderfyniadau cynllunio wella ac adfer bioamrywiaeth a daeareg yn llwyddiannus, tra'n osgoi neu'n lliniaru niwed neu'n gwneud iawn amdano.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Canllawiau Cynllunio (Cymru): Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio**

Y Swyddfa Gymreig

1996

Nodyn cyngor technegol yn cynnwys 19 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Cyswllt:
**http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403821/40382/40382/ 403824/tan-5-w.pdf?lang=cy**

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn yn rhoi cyngor ar faterion rheoli datblygu ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae hefyd yn ymdrin â dewis a dynodi safleoedd gwarchod natur anstatudol, megis gwarchodfeydd natur lleol, a diogelu rhywogaethau, tiroedd comin a lawntiau.

**Framework for Biodiversity: Integrating Biodiversity into Local Development Frameworks**

Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol (ALGE)

2005

Llyfryn A4 yn cynnwys 40 o dudalennau

Cynulleidfa: Ecolegwyr Llywodraeth Leol ac Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol

Cyswllt:
**http://www.alge.org.uk/publications/files/download.php?filepath=Biodiversity_ Framework.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyngor ar gwmpasu ac integreiddio bioamrywiaeth mewn Fframweithiau Datblygu Lleol. Mae'n ceisio cynorthwyo awdurdodau lleol i lunio'r dogfennau allweddol sydd eu hangen yn eu Fframweithiau Datblygu Lleol ac i gyflawni eu swyddogaethau rheoli datblygu dilynol, a helpu i lunio dogfennau cynllunio atodol ar fioamrywiaeth, a hyrwyddo arfer da gan ddatblygwyr. Mae'n rhoi canllawiau ar sicrhau bod datblygiadau yn osgoi neu'n gwella ardaloedd sy'n destun dynodiadau amgylcheddol a dynodiadau treftadaeth, yn hyrwyddo deunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu, yn osgoi neu'n lleihau llygredd, yn lleihau gwastraff, yn unioni effeithiau tir diffaith a thir halogedig, yn lleihau'r dŵr a'r ynni a ddefnyddir, yn defnyddio ynni adnewyddadwy, yn lleihau'r angen i deithio, yn cynyddu dwysedd ac yn defnyddio llai o dir.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity Guidance for Land Use Planners in Cambridgeshire and Peterborough**

Cyngor Sir Caergrawnt

2001

Llyfryn A4 yn cynnwys 32 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol

Cyswllt:
**http://www.cambridgeshire.gov.uk/NR/rdonlyres/E2DF93F7-ADD4-42E3-B8A4-22704BD6A163/0/bplanchecklist.pdf**

Nododd y Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer Dwyrain Lloegr a'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru a Lloegr y cyfrifoldeb sydd gan awdurdodau cynllunio lleol i helpu i gyrraedd y targedau a bennwyd yng nghynllun gweithredu bioamrywiaeth y DU a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar sut y dylai'r system gynllunio ymdrin â bioamrywiaeth. Fe'i lluniwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Swydd Gaergrawnt a Peterborough gan ymgynghori â chynllunwyr, ac ar eu rhan, i helpu i ymdrin â materion o ran bioamrywiaeth yn fwy effeithiol. Mae'r rhestr gyfeirio hon yn cynorthwyo cynllunwyr strategol a chynllunwyr rheoli datblygu pan fyddant yn ystyried bioamrywiaeth, ym maes datblygu polisi ac wrth ymdrin â chynigion cynllunio. Cynhwysir pum astudiaeth achos i roi enghreifftiau o arfer da, sy'n edrych ar: ddatblygiad preswyl bach; dwysedd preswyl uwch; ystad ddiwydiannol; datblygiad ffordd; ac anheddiad newydd arfaethedig.

**Planning Sustainable Communities: A Green Infrastructure Guide for Milton Keynes and the South Midlands**

Is-grŵp yr Amgylchedd ac Ansawdd Bywyd Milton Keynes a De Canolbarth Lloegr

Ebrill 2005

Llyfryn A4 yn cynnwys 36 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio, Rheoli Tir, Rheoli Parciau Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://publications.environment-agency.gov.uk/pdf/GeAN0305BIWY-e-e.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau i gynorthwyo cyfryngau cyflawni lleol ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion cynllunio a chyflawni 'seilwaith gwyrdd' a manteision gwneud hynny. Mae'n cyflwyno rhestr gyfeirio o egwyddorion cynllunio a chyflawni seilwaith gwyrdd yn ymwneud ag ystod o asedau cyhoeddus a phreifat, gyda mynediad cyhoeddus a hebddo, mewn lleoliadau trefol a gwledig. Eglurir egwyddorion cynllunio a chyflawni pob ased seilwaith gwyrdd gan ddefnyddio astudiaethau achos perthnasol yn nodi arfer gorau, a thynnir sylw at adnoddau a gwybodaeth bellach.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Strategic Environmental Assessment and Biodiversity: Guidance for Practitioners**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Asiantaeth yr Amgylchedd, RSPB

Mehefin 2004

Adroddiad yn cynnwys 93 o dudalennau

Cynulleidfa: Ymarferwyr sy'n Ymwneud ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/SEAbiodiversityGuide.pdf**

Mae'r llyfr hwn yn rhoi canllawiau i sicrhau yr ymdrinnir ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn briodol ym mhob cam mewn asesiadau amgylcheddol strategol. Mae'n ceisio cynorthwyo pobl a sefydliadau i lunio cynllunio a rhaglenni mewn ystod eang o sectorau, cyflawni a pharatoi asesiadau amgylcheddol strategol, a gwneud sylwadau ar faterion o ran bioamrywiaeth yn yr asesiadau amgylcheddol strategol hynny. Mae'r llyfryn yn cyflwyno'r asesiad amgylcheddol strategol a'i ofynion cyfreithiol, yn esbonio sut y gellir ystyried goblygiadau bioamrywiaeth mewn asesiad amgylcheddol strategol, ac yn cyflwyno 'pecyn cymorth' o dechnegau mwy penodol ar gyfer hyrwyddo bioamrywiaeth drwy'r asesiad amgylcheddol strategol.

**Living Roofs**

English Nature

2006

Taflen A5 yn cynnwys 28 o dudalennau

Cynulleidfa:

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/LivingRoofs.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau ar doeau byw, ac yn nodi manteision ac anfanteision gwahanol fathau o do byw (neu wyrdd). Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwahanol fathau o adeiladau a thoeau ac yn rhoi manylion a chanllawiau yn ymwneud â gwahanol ddeunyddiau adeiladu a phlanhigion i ddarparu'r cynefinoedd sych a'r rhywogaethau bywyd gwyllt y gellir disgwyl iddynt fyw mewn toeau byw.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Design for Biodiversity: A Guidance Document for Development in London**

Asiantaeth Datblygu Llundain

2006

Taflen A5 yn cynnwys 21 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol a Datblygwyr

Cyswllt: **http://www.lda.gov.uk/upload/pdf/Design_for__Biodiversity.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau cyffredinol ar ddylunio datblygiadau er budd bioamrywiaeth. Mae'n nodi'r ffactorau sbarduno allweddol a'r prif brosesau sy'n hyrwyddo arfer gorau ac yn esbonio y dylai datblygiadau fod yn gynaliadwy, wedi'u canolbwyntio ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, tra'n diogelu ac yn gwella mannau agored ac asedau amgylcheddol. Mae hefyd yn rhoi tair astudiaeth achos sy'n dangos sut y cyflawnwyd blaenoriaethau gwarchod natur mewn datblygiadau ym Mharc Gillespie yn Islington, Deptford Creek a BICC Cables yn Belvedere.

**Developing Naturally: A Handbook for Incorporating the Natural Environment into Planning and Development**

Oxford, M

2000

Llyfr A4 yn cynnwys 194 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol

Cyswllt:
**Ar gael i'w brynu o Siop Lyfrau'r Amgylchedd NHBS – http://www.nhbs.com/developing_naturally_tefno_109816.html**

Mae'r llyfryn hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n ymwneud â'r broses cynllunio a datblygu ac yn rhoi canllawiau a gwybodaeth gynhwysfawr am bopeth o asesu gwerth safle ar gyfer bywyd gwyllt i dirlunio a chreu cynefinoedd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity Impact – Biodiversity and Environmental Impact Assessment: A Good Practice Guide for Road Schemes**

Byron, H. (RSPB)

2000

Llyfryn A4 yn cynnwys 119 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â llunio Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol

Cyswllt:
**Ar gael i'w brynu o Siop Lyfrau'r Amgylchedd NHBS – http://www.nhbs.com/biodiversity_impact_tefno_108236.html**

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio helpu Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) i wireddu eu potensial drwy roi canllawiau arfer gorau ar ymdrin â bioamrywiaeth mewn Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cynlluniau ffordd. Mae'n rhoi ymagwedd fanwl sy'n berthnasol nid yn unig i gynlluniau ffordd, ond i Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau, a bydd yn ategu canllawiau sy'n bodoli eisoes a dylai helpu pawb sy'n cymryd rhan yn y broses asesu'r effaith amgylchedd ar gyfer cynllun ffordd o'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cynllunwyr ac ecolegwyr, cyrff statudol a chyrff gwarchod natur, datblygwyr a hyrwyddwyr, i ymgynghorwyr amgylcheddol ac ecolegol sy'n ymwneud â llunio Datganiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer ffyrdd.

**PAS 2010: Planning to Halt the Loss of Biodiversity – Biodiversity Conservation Standards for Planning in the United Kingdom – Code of Practice**

BSI

Awst 2006

Llyfryn A4 yn cynnwys 36 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus Eraill â Diddordeb mewn Bioamrywiaeth a Chynllunio

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o eSiop BSI –
**http://eshop.bsi-global.com/ProductDetails.aspx?p=30154979&cat=Environment**

Mae'r llyfryn hwn wedi'i anelu at bob awdurdod cymwys sy'n ymwneud â'r broses gynllunio yn y DU. Mae hefyd yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar gyfer eraill sydd â diddordeb mewn bioamrywiaeth a chynllunio, megis cyrff gwarchod natur statudol, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, ymgynghoreion cynllunio, ymgeiswyr cynllunio a'u hasiantiaid a'u hymgynghorwyr, ynghyd â grwpiau cymunedol lleol. Mae'r PAS yn nodi gweithdrefn y gall awdurdod cymwys ei defnyddio i weithredu statud, polisi ac arfer da o ran bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Planning for Biodiversity: Good Practice Guide**

Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

1999 (Ailargraffwyd ym mis Gorffennaf 2001)

Llyfr A4 yn cynnwys 62 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus Eraill â Diddordeb mewn Bioamrywiaeth a Chynllunio

Cyswllt: **http://www.rtpi.org.uk/resources/publications/environment/biodiversity**/

Mae'r llyfr hwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o weithgarwch gwarchod bioamrywiaeth yn y system gynllunio, yn ogystal â datrys gwrthdaro a phroblemau, a chreu a chydnabod cyfleoedd. Mae'n rhoi canllawiau ymarferol ar offerynnau cynllunio a all gyfrannu at warchod bioamrywiaeth. Mae'r ddogfen yn esbonio beth yw bioamrywiaeth, yn rhoi'r cyd-destun polisi a deddfwriaeth, ac yn nodi proses y cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol. Mae'n rhoi cyngor ar arfer da mewn Cynlluniau Datblygu, gwaith Rheoli Datblygu, ac mewn mentrau cynllunio eraill a all gyfrannu at warchod bioamrywiaeth.

**Working With Wildlife: A Resource and Training Pack for the Construction Industry**

Newton, J., Williams, C., Nicholson, C., Venables, R., ac eraill

2004

Adnodd hyfforddi yn cynnwys 400 o dudalennau

Cynulleidfa: Hyfforddiant i Unigolion sy'n Ymwneud ag Adeiladu, Cynllunio a Datblygu

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o CIRIA Books –

**http://www.ciria.org/acatalog/C587TP.html**

Sampl: **http://www.ciria.org/acatalog/c587.pdf**

Mae'r pecyn hyfforddi hwn yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau i alluogi amrywiaeth eang o bobl sy'n ymwneud ag adeiladu i aros o fewn y gyfraith yn ymwneud â bywyd gwyllt, a gweithredu arfer da wrth ddiogelu bywyd gwyllt ar brosiectau datblygu ac adeiladu. Bwriedir i'r pecyn hwn gael ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi ac mae'n cynnwys cyflwyniad a deunyddiau hyfforddi ar CD-ROM cysylltiedig. Mae'r deunyddiau ategol hyn yn cynnwys taflenni briffio ar gynefinoedd a rhywogaethau unigol, cyflwyniadau pecyn cymorth a chwis ar gyfer y rhai sy'n cael yr hyfforddiant. Mae'r pecyn yn ymdrin â hanfodion ecoleg ac yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n rheoli materion bywyd gwyllt ac adeiladu, cyn rhoi canllawiau ymarferol ar ymdrin â bywyd gwyllt ar safleoedd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Working With Wildlife: Pocket Book**

Newton, J., Williams, C., Nicholson, C., Venables, R., ac eraill

2004

Llyfryn A4 yn cynnwys 32 o dudalennau

Cynulleidfa: Unigolion sy'n Ymwneud ag Adeiladu a Datblygu

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o CIRIA Books –

**http://www.ciria.org/acatalog/C613.html**

Sampl: **http://www.ciria.org/acatalog/c587.pdf**

Bwriedir i'r llyfr poced hwn roi cyngor ymarferol ar rai o'r rhywogaethau bywyd gwyllt pwysicaf a geir ar safleoedd adeiladu yn y DU ar gyfer gweithwyr a rheolwyr safleoedd adeiladu. Mae'n rhoi canllawiau i gynorthwyo i nodi pob un o'r rhywogaethau bywyd gwyllt yr ymdrinnir â hwy, ac mae'n esbonio beth i'w wneud pan y'u canfyddir ar y safle. Bwriedir i'r llyfr hwn helpu safleoedd adeiladu i gydymffurfio â'r gyfraith, ond mae hefyd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o arfer da amgylcheddol ac yn hyrwyddo ei weithredu i raddau helaethach, ac yn tynnu sylw at y goblygiadau iechyd a diogelwch o ran gweithio gyda bywyd gwyllt.

**Working With Wildlife: Site Guide**

Newton, J., Williams, C.

2005

Llyfr A4 yn cynnwys 196 o dudalennau

Cynulleidfa: Unigolion sy'n Ymwneud ag Adeiladu a Datblygu

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o CIRIA Books –

**http://www.ciria.org/acatalog/C567.html**

Sampl: **http://www.ciria.org/acatalog/c567.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau, ar gyfer amrywiaeth eang o bobl sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith yn ymwneud â bywyd gwyllt a hyrwyddo deall a gweithredu arfer da wrth ddiogelu bywyd gwyllt ar brosiectau datblygu ac adeiladu. Bwriedir i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio fel cyfeirlyfr cyflym, ar y safle i helpu i nodi rhywogaethau a rhoi canllawiau ar yr hyn y dylid ei wneud os canfyddir y rhywogaethau hyn. Mae'n rhoi gwybodaeth am rolau'r contractwr a'r ecolegydd o ran helpu i ddeall y materion, ac yn rhoi canllawiau ar yr amseroedd gorau posibl ar gyfer gwneud arolygon arbenigol a gwaith lliniaru.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Building Greener**

Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA)

2006

Cyhoeddir y ddogfen gyfarwyddyd lawn yn Hydref 2006

Cynulleidfa: Dylunwyr, Cynllunwyr a'r Diwydiant Adeiladu

Cyswllt: **http://www.ciria.org/buildinggreener/guidance_introduction.htm**

Bydd y canllawiau yn edrych ar y materion cynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal a chadw yn ymwneud ag ymgorffori toeau gwyrdd, waliau gwyrdd a nodweddion cysylltiedig ar draws ystod o wahanol fathau o eiddo ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes. Bydd y ddogfen yn canolbwyntio ar sut y gall y nodweddion hyn ddwyn manteision i'r amgylchedd adeiledig drwy wella bioamrywiaeth, draenio cynaliadwy ac effeithlonrwydd thermol. Bydd yn defnyddio astudiaethau achos i nodi arfer da a gwersi a ddysgwyd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am y fframwaith a'r ffactorau sbarduno a ddarperir gan ganllawiau Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu, y manteision a'r rhwystrau, dewisiadau dylunio a materion adeiladu a chynnal a chadw o ran pob un o'r nodweddion yr ymdrinnir â hwy.

**Biodiversity Indicators for Construction Projects**

Woodall, R., Crowhurst, D.

Gorffennaf 2003

Llyfryn A4 yn cynnwys 29 o dudalennau

Cynulleidfa: Dylunwyr, Cynllunwyr a'r Diwydiant Adeiladu

Cyswllt: **http://www.ciria.org/pdf/w005.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno set o dri dangosydd bioamrywiaeth cydategol, a ddatblygwyd gan BRE a CIRIA, sy'n caniatáu mesur effaith prosiectau adeiladu ar fioamrywiaeth. Bydd hyn yn helpu defnyddwyr i fesur effaith eu cynnyrch adeiladu a'u prosesau adeiladu ar fioamrywiaeth, tra bydd dylunwyr a thimau adeiladu hefyd yn gallu eu defnyddio i fonitro eu perfformiad eu hunain. Gobeithir y bydd y dangosyddion hyn yn hyrwyddo dylunio ac adeiladu prosiectau mwy ecolegol gadarn ac yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a materion bioamrywiaeth o fewn y diwydiant adeiladu.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Duties on Relevant Authorities to Have Regard to the Purposes of National Parks, Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs) and the Norfolk and Suffolk Broads: Guidance Note**

Defra

2005

Taflen A4 yn cynnwys 10 tudalen

Cynulleidfa: Adrannau Rheoli Tir Awdurdodau Lleol Perthnasol

Cyswllt:
**http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/issues/landscap/pdf/authorityduties-guidancenote.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau yn ymwneud â Pharciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE) a Llynnoedd Norfolk a Suffolk ac yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau y bwriedir iddynt ddiogelu'r ardaloedd hyn a nodi'r dyletswyddau hynny yn gliriach. Mae'n esbonio sut y gallai awdurdodau ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau, yn nodi'r broses a ddefnyddir i'w monitro ac yn rhoi cyfle newydd i bob awdurdod perthnasol ddangos ei ymrwymiad i warchod a gwella ein tirweddau gorau.

**Biodiversity Checklist: Developer's Guidance**

Cyngor Sir Caergrawnt

Mawrth 2001

Taflen A4 6 thudalen

Cynulleidfa: Awdurdodau Cynllunio Lleol

Cyswllt:
**http://www.cambridgeshire.gov.uk/NR/rdonlyres/BA8E3741-34F4-4421-80F7-3069B275FF61/0/biodguide.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau, a ddatblygwyd gan ymgynghori â chynllunwyr awdurdodau lleol yn Swydd Gaergrawnt a Peterborough, ar y math o wybodaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth y gellid ei disgwyl pan gyflwynir ffurflenni cais cynllunio. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â nifer o gamau y gellir eu cymryd yn ystod proses y cais cynllunio i hwyluso gwaith y cynllunwyr a sicrhau na thorrir deddfwriaeth y llywodraeth, tra'n sicrhau manteision i fioamrywiaeth hefyd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Busnes a Bioamrywiaeth

**Business and Biodiversity: A UK Business Guide for Understanding and Integrating Nature Conservation and Biodiversity into Environmental Management Systems**

Earthwatch

2002

Llyfryn A5 yn cynnwys 24 o dudalennau

Cynulleidfa: Busnesau

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/bandb.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno pwysigrwydd bioamrywiaeth a gwarchod natur, gan ddisgrifio'r prif fygythiadau i fioamrywiaeth ac esbonio pam y mae gwarchod bioamrywiaeth yn bwysig i fyd busnes. Mae'r ddogfen hefyd yn cyflwyno pum cam ar gyfer integreiddio bioamrywiaeth i System Rheoli Amgylcheddol. Mae'r pum cam hyn yn mynd â busnesau drwy: nodi a rhestru gweithgareddau busnes ac effeithiau ar fioamrywiaeth leol; nodi ac adolygu risgiau ac effeithiau posibl; pennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu; datblygu rhaglen cynllunio rheoli; ac integreiddio a gweithredu cynllun gweithredu priodol yn y broses fusnes.

**Business and Biodiversity: Site Biodiversity Action Plans – A Guide to Managing Biodiversity on Your Site**

Earthwatch

2003

Taflen A5 yn cynnwys 6 thudalen

Cynulleidfa: Busnesau

Cyswllt:
**http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/B&B%20SITE%20BAP%20(181)%20V10.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi cyfarwyddyd a chanllawiau ymarferol ar ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer safleoedd busnes. Mae'r ddogfen yn cynnwys cyngor ar: sut i gynnal arolwg ecolegol o safle; sut i lunio, ac wedyn gweithredu, y cynllun gweithredu bioamrywiaeth; a chanllawiau ar fonitro ac adolygu cynlluniau a chyflwyno adroddiadau arnynt. Cynhwysir cyfres o astudiaethau achos ar gyfer Severn Trent Water, Royal Bank of Scotland, GlaxoSmithKline, Center Parcs ac RMC.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Case Studies in Business and Biodiversity: A Companion Volume to 'Business & Biodiversity: A UK Business Guide for Understanding and Integrating Nature Conservation and Biodiversity into Environmental Management Systems**

Earthwatch

2000

Llyfryn A5 yn cynnwys 32 o dudalennau

Cynulleidfa: Busnesau

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/bandbcasestudies.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ac yn rhoi deg dangosydd o ran ystyried bioamrywiaeth, sy'n cynnwys deall bioamrywiaeth, datblygu ac integreiddio cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer y cwmni, gweithio gyda phartneriaid lleol a chyflogeion, arian a chymorth rheolwyr, a chyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Eglurir y dangosyddion gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau, yn ogystal â chyfres o astudiaethau achos ar gyfer Northumbrian Water, Center Parcs, Maes Awyr Luton Llundain, Glaxo Wellcome, BP Amoco a'r Banc Cydweithredol.

**Putting a Bit Back: A Guide to Nature Conservation for Small to Medium-sized Enterprises (SMEs)**

Earthwatch

2001

Llyfryn A5 yn cynnwys 8 tudalen

Cynulleidfa: Busnesau

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/bit.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn darparu argymhellion arfer gorau ar gyfer mentrau bach a chanolig ac yn nodi ystod o weithgareddau syml y gellir eu cyflawni yn y gweithle (e.e. lleihau llygredd, defnyddio ynni yn ddoeth a lleihau hyd yr eithaf ar wastraff) i helpu i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd, tra'n gwella effeithlonrwydd busnesau hefyd. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar feysydd allweddol yn ymwneud â phrosesau gwarchod natur gan gynnwys: adolygu amgylcheddol; adolygu safleoedd; gwella budd gwarchod natur safleoedd; aelodaeth a nawdd; cyfranogiad staff; ac adolygu camau gweithredu. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos ar gyfer Shields Environmental Ltd, Beacon Press Ltd, Mileta Tog 24, Husky Injection Moulding Systems a Ginns and Gutteridge Ltd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Business and Biodiversity: A Guide for UK-Based Companies Operating Internationally**

Earthwatch

2002

Llyfryn A5 yn cynnwys 48 o dudalennau

Cynulleidfa: Busnesau Rhyngwladol wedi'u lleoli yn y DU

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/BandBOseas.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg o ystyriaethau a heriau ar gyfer cwmnïau wedi'u lleoli yn y DU sydd â gweithrediadau neu gysylltiadau dramor ac yn esbonio'r fframwaith rhyngwladol o gonfensiynau, cyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â bioamrywiaeth. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi enghreifftiau o arfer da, sy'n nodi problemau penodol y mae cwmnïau eisoes wedi'u hwynebu a mynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, llunio a gweithredu cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer y cwmni, a chynnwys rhanddeiliaid a chadwyni cyflenwi yn y broses.

**Business and Biodiversity: The Handbook for Corporate Action**

Earthwatch, Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN), Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

2002

Llyfryn A5 yn cynnwys 56 o dudalennau

Cynulleidfa: Cynrychiolwyr Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Cyswllt: **http://www.businessandbiodiversity.org/pdf/IUCN-EW-WBCSD%20Handbook.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw bioamrywiaeth i'r gymuned fusnes. Mae'n defnyddio profiadau nifer o gwmnïau sydd eisoes wedi dechrau integreiddio materion o ran bioamrywiaeth yn eu systemau rheoli a chymryd camau i warchod bioamrywiaeth, i roi enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddygwyd. Yn arbennig mae'r adroddiad yn amlinellu'r achos busnes dros fioamrywiaeth, yn nodi materion bioamrywiaeth corfforaethol, ac yn rhoi canllawiau ar gyfer datblygu gweithredu corfforaethol i hyrwyddo bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Addysg

**Biodiversity Education Pack: Key Stage 1 and 2**

Partneriaeth Bioamrywiaeth Essex

Llyfryn A4 yn cynnwys 33 o dudalennau

Cynulleidfa: Athrawon a Disgyblion Ysgol

Cyswllt: **http://www.essexbiodiversity.org.uk/library/CD_folder/Education%20Pack.pdf**

Bwriedir i'r llyfryn hwn gael ei ddefnyddio gan athrawon fel offeryn addysgol i addysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 a 2 am bwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth. Mae'n ceisio addysgu disgyblion am bwysigrwydd bioamrywiaeth a'u helpu i ddeall bod angen ei ddiogelu, a gobeithir y bydd hyn yn helpu i ddylanwadu ar blant a'u rhoi ar ben y ffordd i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Mae'r pecyn yn cyflwyno cysyniadau bioamrywiaeth a chynaliadwyedd, rhywogaethau a chynefinoedd ac yn awgrymu gweithgareddau ymarferol ar gyfer gwersi i gynorthwyo dealltwriaeth y disgyblion.

## Iechyd

**Amgylchedd Gwell, Pobl Iachach: Ein Cyfraniad at Iechyd**

Asiantaeth yr Amgylchedd

Hydref 2005

Taflen A4 yn cynnwys 17 o dudalennau

Cynulleidfa: Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Iechyd mewn Awdurdodau Lleol

Cyswllt:
**http://publications.environment-agency.gov.uk/pdf/GEHO0905BJOW-b-e.pdf?lang=_e**

Mae'r daflen hon yn ymchwilio i'r gydberthynas rhwng yr amgylchedd awyr agored ac iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles pobl. Mae'r ddogfen yn defnyddio enghreifftiau i nodi'r effeithiau y mae amrywiaeth o amgylcheddau awyr agored yn eu cael ar iechyd, gan gynnwys: 'byw gyda chemegolion'; 'byw gerllaw diwydiant'; 'byw mewn trefi a dinasoedd'; 'byw gerllaw dŵr'; 'byw yng nghefn gwlad'; 'byw yn y dyfodol'. Mae'n ceisio helpu Asiantaeth yr Amgylchedd i weithio'n effeithiol gydag eraill i wella'r amgylchedd mewn ffyrdd sydd o fudd i iechyd y genedl.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Enhancing the Healing Environment: A Guide for NHS Trusts**

Kings Fund

Mehefin 2004

Canllaw yn cynnwys 74 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ymwneud ag iechyd

Cyswllt: **http://www.kingsfund.org.uk/resources/publications/enhancing_the.html**

Dengys y canllaw hwn sut y gall timau staff newid lleoedd megis ystafelloedd aros a gerddi drwy ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithiol. Gan ddefnyddio dysgu o raglen 'Enhancing the Healing Environment' y King's Fund, mae'n nodi'r achos dros fuddsoddi mewn gwaith dylunio ysbytai da i hyrwyddo manteision iechyd/gwella, ac yn cynnig canllaw cam wrth gam i gynllunio prosiect dylunio.

**Promoting land management in the NHS to support local biodiversity**

Yr Adran Iechyd

2005

Adroddiad yn cynnwys 21 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ymwneud ag iechyd

Cyswllt: **http://www.gosw.gov.uk/gosw/docs/166235/Biodiversity_Report_Final_E1.pdf**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau gwaith arloesol a wnaed ar draws ystad y GIG yn rhanbarth De-orllewin Lloegr, a ymchwiliodd i sut y gall gwaith rheoli ystad cadarnhaol gyfrannu at les cleifion a staff, a sut y mae'n gwneud cyfraniad ehangach at wella bioamrywiaeth lleol. O ganlyniad mae'r adroddiad yn cynrychioli dechrau partneriaeth newydd rhwng sectorau iechyd ac amgylcheddol yn y De-orllewin. Mae'r argymhellion yn nodi rhai ffyrdd synhwyrol y gellir mynd ymlaen â'r bartneriaeth a'i datblygu.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Seilwaith

### Integrated Washland Management for Flood Defence and Biodiversity

Morris, J., Hess, T.M., Gowing, D.J., Leeds-Harrison, P.B., Bannister, N., Wade, M., a Vivash, R.M. (Adroddiad i DEFRA ac English Nature)

2004

Adroddiad yn cynnwys 155 o dudalennau

Cynulleidfa: Meysydd Polisi Allweddol gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch (CFMP), Rheoli Cynefinoedd, Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol, a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Cyswllt:
**http://www.silsoe.cranfield.ac.uk/iwe/projects/washlands/envr%20598%20washland%20report.pdf**

Mae'r adroddiad yn adolygu'r opsiynau ar gyfer creu golchdiroedd ac yn rhoi canllawiau ar sut y gellid datblygu golchdiroedd i sicrhau manteision i fioamrywiaeth a/neu weithgarwch rheoli llifogydd ac o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud hynny. Mae'n adolygu profiad astudiaethau achos detholedig yn y DU ac Ewrop ac yn tynnu sylw at synergeddau a phroblemau sy'n bodoli eisoes a synergeddau a phroblemau posibl rhwng gwaith amddiffyn rhag llifogydd a bioamrywiaeth, ac yn nodi ymyriadau y gellir eu mabwysiadu i gyflawni amcanion rheoli llifogydd a bioamrywiaeth.

### Biodiversity Action Plan

Yr Asiantaeth Priffyrdd

2001

Tua 21 o dudalennau ar wefan yr Asiantaeth Priffyrdd

Cynulleidfa: Sefydliadau Amgylcheddol a Sefydliadau Cadwraeth, Tirfeddianwyr Cyfagos, Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.highways.gov.uk/aboutus/723.aspx**

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn rhoi manylion targedau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth lle y'i ceir ar hyd y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Mae'r ddogfen yn rhan o strategaeth hirdymor ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau ar leiniau ymyl traffyrdd a chefnffyrdd, a lle bynnag y bo modd eu gwella. Mae'n ceisio cynnig cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n berthnasol ac yn briodol i'r rhwydwaith ac i waith yr Asiantaeth Priffyrdd, nodi camau gweithredu a thargedau ymarferol a realistig fel y gellir cynyddu hyd yr eithaf ar gyfraniad yr Asiantaeth Priffyrdd at fioamrywiaeth, cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwaith bioamrywiaeth yr Asiantaeth Priffyrdd ymhlith staff a chontractwyr, partneriaid amgylcheddol a'r cyhoedd. Mae'r cynllun yn pwysleisio nad dim ond sefydliadau gwarchod natur sy'n gyfrifol am ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd ar leiniau ymyl ffyrdd, ond y dylai busnesau, y cyfleustodau preifat, awdurdodau lleol a chymunedau lleol hefyd fod yn gyfrifol am wneud hynny.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Caffael Cyhoeddus

**Sustainable Procurement Guide**

Asiantaeth yr Amgylchedd

Tachwedd 2002

Llyfr A4 yn cynnwys 74 o dudalennau

Cynulleidfa: Prynwyr, Rheolwyr, Rhagnodwyr, Rheolwyr Prosiect a Chyflenwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd a Phob Awdurdod Cyhoeddus Arall

Cyswllt: **http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/103599/spg_517077.doc**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi templed arfer gorau ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n gobeithio gwella eu cynaliadwyedd o fewn gweithgareddau caffael a'r gadwyn gyflenwi. Mae'n rhoi sail ar gyfer datblygu ffordd o weithredu i gyd-fynd â diwylliant a gwerthoedd amgylcheddol unrhyw sefydliad sy'n defnyddio'r canllaw. Mae'r canllaw wedi'i rannu'n ddwy ran: mae'r rhan gyntaf yn ganllaw proses i Brynwyr ddeall sut i integreiddio materion amgylcheddol a chymdeithasol yn eu gweithgareddau caffael pob dydd; mae'r ail ran yn rhoi gwybodaeth benodol am y cynhyrchion a'r gwasanaethau a brodwyd sy'n cael effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol mawr.

**Environmental Purchasing in Practice: Guidance for Organisations**

Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS), Sefydliad y Cynghorwyr Rheoli Amgylcheddol (IEMA) a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)

2002

Llyfr A4 yn cynnwys 106 o dudalennau

Cynulleidfa: Ymarferwyr Amgylcheddol, Prynwyr a Gweithwyr Proffesiynol Cadwyni Cyflenwi ym Mhob Sefydliad

Cyswllt: Mae'r canllaw ar gael am ddim i aelodau IEMA drwy wefan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi

**http://bookshop.cips.org/**

Neu gellir ei archebu drwy wefan IEMA ar gyfer y rhai nad ydynt yn aelodau o IEMA

**http://www.iema.net/shop/product_info.php?cPath=27_29&products_id=55**

Mae'r llyfr hwn yn disgrifio arfer prynu amgylcheddol da ac fe'i hysgrifennwyd ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am brynu a'r gadwyn gyflenwi, ac ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac ymgynghorwyr ym maes rheoli amgylcheddol. Bydd yn ddefnyddiol hefyd i ddeiliaid cyllidebau a staff technegol sy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau prynu neu sy'n defnyddio offer, a'r rhai sy'n datblygu ac yn gweithredu polisi yn ymwneud â phrynu, rheoli amgylcheddol, rheoli cadwyni cyflenwi a rheoli risg.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Project – Oriented Environmental Management System Manual (POEMS)**

Yr Asiantaeth Caffael at Ddibenion Amddifyn a'r Sefydliad Logisteg Amddiffyn

Mai 2005

Llyfr A4 ar wefan y System Diogelwch Caffael a Rheoli Amgylcheddol (ASEMS)

Cynulleidfa: Cyflogeion, contractwyr a phartneriaid yr MOD

Cyswllt: **http://www.asems.mod.uk/poems_manual.htm**

Mae'r llawlyfr hwn yn ceisio esbonio cynnwys a gweithrediad elfen rheoli amgylcheddol System Diogelwch Caffael a Rheoli Amgylcheddol (ASEMS) yr MOD, a elwir yn System Rheoli Amgylcheddol sydd â Gogwydd at Brosiectau (POEMS). Mae'n disgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli amgylcheddol y dylid eu defnyddio yn ystod cylch oes prosiect o fewn yr Asiantaeth Caffael at Ddibenion Amddiffyn (DPA), y Sefydliad Logisteg Amddiffyn (DLO) neu gan gontractwyr sy'n gweithio iddynt.

**An Introduction to Environmental Management in the MOD Acquisition Process**

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

Gorffennaf 2005

Llyfryn A4 yn cynnwys 33 o dudalennau

Cynulleidfa: Cyflogeion, contractwyr a phartneriaid yr MOD

Cyswllt: **http://www.asems.mod.uk/greenbook_1_3.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys cysyniadau, termau a gweithgareddau gwaith rheoli amgylcheddol effeithiol y dylid eu defnyddio o fewn y broses gaffael. Bwriedir iddo alluogi Timau Prosiect Integredig (TPI) ac aelodau eraill o staff yr MOD i ddeall y prif faterion amgylcheddol a'r methodolegau hanfodol i reoli effeithiau amgylcheddol yn deillio o benderfyniadau caffael yr MOD, eu lleihau hyd yr eithaf a'u lliniaru. Mae'r llyfryn hefyd yn cyflwyno ac yn cefnogi'r System Rheoli Amgylcheddol sydd â Gogwydd at Brosiectau (POEMS) a ddefnyddir i sefydlu systemau rheoli amgylcheddol a chynnal asesiadau amgylcheddol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Rheoli Gwastraff

**Guidance on Municipal Waste Management Strategies**

Defra

Gorffennaf 2005

Llyfryn A4 yn cynnwys 18 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Lleol (Rheoli Gwastraff)

Cyswllt:
**http://www.defra.gov.uk/ENVIRONMENT/WASTE/localauth/pdf/guidemunwaste-strategy.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau sy'n nodi'r hyn y mae'r llywodraeth yn ei ddisgwyl gan awdurdodau gwaredu gwastraff ac awdurdodau casglu gwastraff, pan fyddant yn llunio ac yn diweddaru Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol. Mae'n ceisio sicrhau bod prosesau cynllunio strategol hirdymor ar waith i sicrhau y caiff gwastraff ei reoli yn fwy cynaliadwy. Mae'r ddogfen yn cynnwys Canllawiau Arfer, sy'n rhoi cyngor manwl ar gyfer awdurdodau ar sut i lunio strategaethau rheoli gwastraff.

## Rheoli Safleoedd a Diogelu Rhywogaethau

**Sites of Special Scientific interest: Encouraging positive partnerships**

**Cod Canllawiau**

Defra

Ebrill 2003

Dogfen gyfarwyddyd yn cynnwys 50 o dudalennau

Cynulleidfa: Natural England, Cyrff Cyhoeddus, Ymgymerwyr statudol a pherchenogion a meddianwyr tir sy'n SoDdGA

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/ewd/sssi/sssi-code.pdf**

Mae'r ddogfen gyfarwyddyd hon yn pwysleisio pa mor bwysig yw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a pha mor bwysig yw sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod yn gywir; a sicrhau (pan fo hynny'n ymarferol ac yn briodol) eu bod yn cael eu hadfer a'u gwella. Mae'n cadarnhau gwerth deialog adeiladol, gan wrando'n ofalus ar amrywiaeth o safbwyntiau; pwysigrwydd cymorth drwy gyngor, a, phan fo hynny'n briodol, drwy gymorth ariannol; a'r disgwyliad y bydd gwybodaeth am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar gael i bawb. Mae hefyd yn tynnu sylw penodol at yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn gwbl gyfrifol am y camau a gymerir ganddynt, ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mewn perthynas â hwy.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Local Sites: Guidance on their Identification, Selection and Management**

Defra

2006

Llyfryn A4 yn cynnwys 30 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Rheoli Tir Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/ewd/local-sites/localsites.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ar ddatblygu a rheoli systemau i nodi safleoedd o bwys lleol ar gyfer gwarchod natur yn Lloegr. Mae'r canllawiau yn ceisio hyrwyddo ffyrdd mwy tryloyw a chyson o weithredu systemau safleoedd lleol, gan gwmpasu amrywiaeth rhanbarthol a lleol o fewn yr amgylchedd naturiol, hyrwyddo partneriaethau sy'n bodoli eisoes ac annog eraill i lenwi bylchau i ddiogelu eu bywyd gwyllt naturiol a'u treftadaeth ddaearegol drwy ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau. Mae'n nodi rolau a dibenion systemau safleoedd lleol ac yn cynnig fframweithiau a safonau ar gyfer eu gweithredu yn ogystal ag ar gyfer dethol, diogelu a rheoli'r safleoedd eu hunain.

**Wildlife Fencing Design Guide**

Pepper, H.W., Holland, M., Trout, R.

2006

Llyfr A4 yn cynnwys 13 o dudalennau

Cynulleidfa: Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol (yn arbennig Cynllunio Ffyrdd)

Cyswllt: **http://www.ciria.org.uk/acatalog/c646.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau damcaniaethol ar gyfer dylunwyr a chynllunwyr a chanllawiau ymarferol ar gyfer rheolwyr ac adeiladwyr ffensys ac, yn arbennig, y rhai sy'n ymwneud â gosod ffensys ar ymylon ffyrdd. Mae'r canllawiau yn ymdrin â phob math o ffens y gellir ei defnyddio i reoli bywyd gwyllt ym meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, rheoli tir ac ar hyd coridorau llinellol, yn arbennig ar hyd ymylon ffyrdd, ond hefyd rheilffyrdd a chamlesi. Esbonnir pam y mae angen ffensys bywyd gwyllt a thrafodir y ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a oes angen ffensys. Rhoddir cyngor penodol ar ffensys bywyd gwyllt ar hyd gwahanol fathau o ffyrdd a'r goblygiadau o ran alinio, dylunio a chynnal a chadw ffensys bywyd gwyllt.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Badgers and Development**

English Nature

2002

Llyfryn A4 yn cynnwys 16 o dudalennau

Cynulleidfa: Awdurdodau Cynllunio

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/badgerdev.pdf**

Diben y llyfryn hwn yw rhoi canllawiau ar sut i ystyried yr effeithiau cadwraeth a lles a gaiff datblygiadau ar foch daear wrth asesu ceisiadau cynllunio a sicrhau y cyflawnir datblygiadau yn unol â chanllawiau arfer gorau. Mae'r canllawiau yn rhoi cipolwg ar fioleg moch daear a'u ffordd o fwy, y ddeddfwriaeth bywyd gwyllt berthnasol a chyngor i helpu datblygwyr i osgoi troseddu a chynyddu'r tebygolrwydd y cânt drwydded gan English Nature cyn i unrhyw waith fynd yn ei flaen a fydd yn tarfu ar ddeyerydd moch daear.

**Water Vole: Guidance for Planners and Developers**

English Nature

2001

Taflen A4 yn cynnwys 6 thudalen

Cynulleidfa: Cynllunwyr Awdurdodau Lleol a Datblygwyr

Cyswllt: **http://www.english-nature.org.uk/pubs/publication/PDF/Watervole.pdf**

Mae'r daflen hon yn cynnig canllaw ar y diogelwch cyfreithiol a roddir i lygoden y dŵr ac yn rhoi cyngor ar chwilio am dystiolaeth o lygod dŵr a'r camau y dylid eu cymryd i sicrhau y diogelir cynefinoedd llygod dŵr drwy'r broses gynllunio. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at gynllunwyr a datblygwyr ac mae hefyd yn rhoi manylion am sut y gellir dylunio datblygiadau i roi cyfleoedd ar gyfer gwella cynefinoedd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Water Vole Conservation Handbook (Second Edition)**

Rob Strachan a Tom Moorhouse

2006

Llyfr yn cynnwys 37 o dudalennau

Cynulleidfa: Ecolegwyr a Rheolwyr Afonydd

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o NHBS – **http://www.nhbs.com/title.php?tefno=88540**

Mae'r llyfr hwn yn rhoi canllaw ymarferol ar warchod llygod dŵr ac yn ceisio cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion llygod dŵr. Diweddarwyd yr ail argraffiad ac fe'i helaengwyd i gynnwys yr ymchwil fwyaf diweddar i'r rhywogaeth, diogelwch cyfreithiol cyfredol a'i statws yn y gwyllt. Mae gan y llyfr adrannau ar arolygon o lygod dŵr a rheoli cynefinoedd, ac mae'n cynnwys 25 o astudiaethau achos o brosiectau yn y DU.

**Know Your Vole: Rat Control and Water Vole Conservation**

Yr Ymddiriedolaethau Natur

Hydref 2002

Taflen A4 yn cynnwys 2 dudalen

Cynulleidfa: Difa Plâu

Cyswllt: **http://www.wildlifetrusts.org/files/uploaded/knowyourvole.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau sy'n esbonio sut i ddifa plâu heb niweidio llygod dŵr. Mae'n esbonio'r risigau yn gysylltiedig â difa plâu a'r diogelwch cyfreithiol a roddir i lygod dŵr, mae'n tynnu sylw at nodweddion gwahaniaethol llygod Ffrengig a llygod dŵr, ac yn rhoi cyngor ar helpu i ddiogelu'r boblogaeth llygod dŵr.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Bats in Roofs: A Guide for Surveyors**

English Nature

2002

Taflen A4 yn cynnwys 4 tudalen

Cynulleidfa: Syrfewyr

Cyswllt: **http://www.hastings.gov.uk/animal_nuisance/bats.pdf**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllaw i'r gyfraith sy'n diogelu ystlumod a chlwydfannau ystlumod yn y DU ac yn rhoi canllawiau ar chwilio am dystiolaeth o ystlumod. Diogelir clwydfannau ystlumod hyd yn oed os yw'r ystlumod yn absennol felly mae'r daflen hefyd yn rhoi canllawiau i helpu i adnabod clwydfannau hyd yn oed os nad oes unrhyw ystlumod yn clwydo yno ar y pryd.

**Impact of Lighting on Bats**

Dr Jenny Jones

Mai 2000

Taflen A4 yn cynnwys 3 thudalen

Cynulleidfa: Adran Amgylcheddol mewn Awdurdodau Lleol

Cyswllt: **http://www.lbp.org.uk/07library/lighting_and_bats.pdf**

Mae'r daflen hon yn esbonio'r effaith sylweddol y gall goleuadau ei chael ar ystlumod drwy effeithio ar ymddygiad bwyta, cyfleoedd ysglyfaethu a thrwy newid eu hardaloedd chwilota. Mae'n esbonio statws diogelwch cyfreithiol ystlumod ac yn awgrymu y gallai goleuadau gerllaw clwydfan ystlumod sy'n achosi aflonyddwch fod yn gyfystyr â throsedd. Mae'r ddogfen yn rhoi canllawiau ar reoli goleuadau i leihau effaith goleuadau artiffisial ar ystlumod.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**A Guide to Rabbit Management**

Wray, S. (Cresswell Associates)

2006

Llyfr A4 yn cynnwys 12 o dudalennau

Cynulleidfa: Rheolwyr Tir

Cyswllt: **http://www.ciria.org/acatalog/c645.pdf**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi crynodeb o'r corff presennol o wybodaeth am y gwningen Ewropeaidd, ac yn rhoi canllawiau cymharol syml ar reoli poblogaethau cwningod. Nodir canlyniadau ymgynghoriadau ac adolygiadau o lenyddiaeth ac egwyddorion system reoli integredig ar gyfer pob math o reolwyr tir. Mae'n cynnwys penodau manwl ar niwed a achosir gan gwningod a dulliau rheoli cwningod yn ogystal â phenodau ar hanes y gwningen yn Ewrop, ecoleg a bioleg cwningod, clefydau, a deddfwriaeth berthnasol.

**Wetland Restoration Manual**

Tîm Polisi Dŵr yr Ymddiriedolaethau Natur

2005

Llawlyfr yn cynnwys 660 o dudalennau

Cynulleidfa: Cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar brosiectau gwlyptir

Cyswllt: Ar gael i'w brynu o NHBS – **http://www.nhbs.com/title.php?tefno=112676**

Mae'r llawlyfr hwn yn ganllaw i arfer gorau yng ngwaith adfer gwlyptiroedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n cynnwys canllawiau ar: y cefndir i faterion o ran gwlyptiroedd; rheoli lefel dŵr; gwaith ffisegol; y prif fathau o gynefinoedd gwlyptir yn y DU, a sut i'w diogelu a'u hadfer; cyfleoedd tir ôl-ddiwydiannol ar gyfer gwlyptiroedd; rhywogaethau goresgynnol; gwaith arolygu a monitro; a chamlesi. Fe'i datblygwyd gan yr Ymddiriedolaethau Natur gyda phartneriaid ledled y DU ac mae'n defnyddio astudiaethau achos i amlygu achosion o arfer da.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Keepers of Time: A statement of policy for England's Ancient and Native Woodland**

Defra a'r Comisiwn Coedwigaeth

2005

Datganiad yn cynnwys 13 o dudalennau

Cynulleidfa: Perchenogion a Rheolwyr Tir Coetir

Cyswllt: **http://www.forestry.gov.uk/keepersoftime**

Mae'r datganiad hwn yn diweddaru polisi'r llywodraeth tuag at goetiroedd a choed drwy ailbwysleisio eu gwerth, gwerthuso bygythiadau a chyfleoedd a nodi ystod o gamau gweithredu i wella eu hansawdd a sicrhau y'u diogelir yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ganlyniadau i fonitro cynnydd a mesur llwyddiant.

## Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a Strategaethau Bioamrywiaeth Cenedlaethol

**UK Biodiversity Action Plan**

English Nature ac Adran yr Amgylchedd

1994

Adroddiad yn cynnwys 192 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.ukbap.org.uk/Library/PLAN_LO.PDF**

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ym 1994 mewn ymateb i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth, i ddatblygu strategaethau cenedlaethol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth biolegol a defnyddio adnoddau biolegol yn gynaliadwy. Mae'r cynllun yn ymrwymo llywodraeth y DU i gynllun gweithredu i atal colli bioamrywiaeth drwy gyfres o dasgau, sef: gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd; datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd; a chyfrannu at waith bioamrywiaeth yng nghyd-destun Ewrop a'r byd cyfan.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Biodiversity: The UK Steering Group Report (Volumes 1 and 2)**

Adran yr Amgylchedd

1995

Adroddiad yn cynnwys 103 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt Cyfrol 1: **http://www.ukbap.org.uk/Library/Tranche1.pdf**

Cyswllt Cyfrol 2: **http://www.ukbap.org.uk/Library/Tranche1_Ann_f.pdf**

Cyswllt Cyfrol 2: **http://www.ukbap.org.uk/Library/Tranche1_Ann_g.pdf**

Mae'r adroddiad yn nodi targedau manwl ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn y DU a monitro'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd yn y gwaith o warchod bioamrywiaeth, ac yn awgrymu ffyrdd o wella hygyrchedd a'r modd y cydlynir gwybodaeth am fioamrywiaeth. Mae Cyfrol 1 yr adroddiad yn nodi'r broses cynllunio bioamrywiaeth tra bod Cyfrol 2 yn cynnwys cynlluniau gweithredu a rhestrau o rywogaethau sy'n peri pryder o ran cadwraeth.

**Sustaining the Variety of Life: 5 Years of the UK Biodiversity Action Plan**

Grŵp Bioamrywiaeth y DU

2001

Adroddiad yn cynnwys 159 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt Rhan 1: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV1.PDF**

Cyswllt Rhan 2: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV2.PDF**

Cyswllt Rhan 3: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV3.PDF**

Cyswllt Rhan 4: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV4.PDF**

Cyswllt Rhan 5: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV5.PDF**

Cyswllt Rhan 6: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV6.PDF**

Cyswllt Rhan 7: **http://www.ukbap.org.uk/Library/BIODIV7.PDF**

Mae'r adroddiad yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan y bartneriaeth bioamrywiaeth ynghyd â llwyddiannau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, yr heriau sy'n ei wynebu a'i amcanion ar gyfer y dyfodol. Mae'n ceisio atgyfnerthu cyfeiriadau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gwreiddiol y DU, tra'n nodi ffyrdd newydd o'i gyflawni: troi'r ymdrech o ddatblygu cynlluniau datblygu yn gamau gweithredu effeithiol ar lawr gwlad; cynyddu ymdrechion i sicrhau bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth brif ffrwd ym mholisïau ac arferion pob sector; cydnabod, hyrwyddo a hwyluso'r cyfraniad a wneir gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol; adeiladu ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg y rhyngrwyd i hyrwyddo cyfathrebu a rhoi gwybodaeth; a sicrhau bod cysyniadau a blaenoriaethau gwarchod bioamrywiaeth yn datblygu dros amser.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Working with the Grain of Nature: A Biodiversity Strategy for England**

Grŵp Bioamrywiaeth Lloegr

Hydref 2002

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/biostrat/index.htm**

Mae Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr yn un o strategaethau'r Llywodraeth, ond fe'i lluniwyd gan weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Mae'r Strategaeth yn nodi cyfres o gamau a gymerir gan y Llywodraeth a'i phartneriaid i sicrhau bod bioamrywiaeth yn ystyriaeth sylfaenol ar draws pob prif sector o bolisi cyhoeddus ac mae hefyd yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y gymdeithas yn gyffredinol yn deall anghenion bioamrywiaeth a'r hyn y gall pawb ei wneud i helpu i'w warchod a'i wella.

**Working with the Grain of Nature – Taking it Forward:**

**Volume I – Full Report on Progress under the England Biodiversity Strategy 2002-2006**

Defra

Tachwedd 2006

Adroddiad yn cynnwys 136 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/biostrat/indicators/pdf/grain/grainvol1v3.pdf**

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o dan Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr ers 2002. Mae'r adroddiad yn nodi gweledigaeth newydd ac yn cynnwys y cynnydd a wnaed gan ddefnyddio ymagwedd gyfannol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys adolygiad o'r prif ddangosyddion, adroddiadau cynnydd ar gyfer pob ffrwd gwaith yn y strategaeth a blaengynlluniau gwaith tan 2010.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**Working with the Grain of Nature – Taking it Forward:**

Volume II – Measuring Progress on the England Biodiversity Strategy: 2006 Assessment

Defra

Tachwedd 2006

Adroddiad yn cynnwys 188 o dudalennau

Cynulleidfa: Pob Awdurdod Cyhoeddus

Cyswllt: **http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/biodiversity/biostrat/indicators/index.htm**

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad o asesiad sylfaenol 2003 ac mae'n cyflwyno dangosyddion wedi'u diweddaru a gwell yn ogystal ag asesiad o dueddiadau yn 2006 a nifer o ddangosyddion newydd, o gymharu ag asesiad 2003, sy'n ceisio mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y gyfres. Disgwylir i'r gwaith o ddiweddaru dangosyddion a gwaith datblygu pellach barhau fel y bydd cyfres amser ar gael ar gyfer y dangosyddion erbyn 2010 i helpu i asesu cyfraniad Lloegr at dargedau'r DU a thargedau Ewropeaidd a byd-eang ar gyfer bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# Atodiad 2

## Deddfwriaeth, Cytundebau Amgylcheddol Rhyngwladol a Datganiadau Polisi

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

| Cyfeirnod | Deddfwriaeth | Swyddogaeth awdurdod cyhoeddus | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol Rhychwantol | Awdurdodau Lleol | Cyrff Cyhoeddus | Parciau a Mannau Gwyrdd | Strategaeth Gorfforaethol | Addysg | Iechyd | Seilwaith | Caffael Cyhoeddus | Rheoli Gwastraff | Rheoli Safleoedd a Diogelu Rhywogaethau |
| **Cytundebau Amgylcheddol Rhyngwladol** | | | | | | | | | | | | |
| 1 | Confensiwn Rhyngwladol ar Amrywiaeth Biolegol Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (1992). | ✔ | | | | | | | | | | |
| 2 | Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o bwys rhyngwladol yn arbennig cynefinoedd adar dŵr (1971). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| **Ewrop** | | | | | | | | | | | | |
| 3 | Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| 4 | Cyfarwyddeb Adar Ewrop (Cyfarwyddeb Cyngor y CE 79/409/EC ar Warchod Adar Gwyllt). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| 5 | Confensiwn Bern ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop. EC. 1979. | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| 6 | Cyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol (85/337/EEC) (Cyfarwyddeb EIA) (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 97/11/EC | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ |
| 7 | Cyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42/EEC) (Cyfarwyddeb SEA). | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 8 | Rheoliadau CITES yr UE (Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 338/97 Rheoliad Masnach Mewn Bywyd Gwyllt yr Undeb Ewropeaidd (1997) a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 865/2006. | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |

| Cyfeirnod | Deddfwriaeth | Swyddogaeth awdurdod cyhoeddus | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol Rhychwantol | Awdurdodau Lleol | Cyrff Cyhoeddus | Parciau a Mannau Gwyrdd | Strategaeth Gorfforaethol | Addysg | Iechyd | Seilwaith | Caffael Cyhoeddus | Rheoli Gwastraff | Rheoli Safleoedd a Diogelu Rhywogaethau |
| **Ewrop** | | | | | | | | | | | | |
| 9 | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000) (2000/60/EC. | ✔ | | | | | | | ✔ | | | |
| 10 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| **Lloegr a Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| 11 | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| 12 | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004). | | | ✔ | | | | | | | | |
| 13 | Deddf Diogelu Moch Daear (1992). | ✔ | | | | | | | | | | ✔ |
| 14 | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004). | | ✔ | | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ |
| 15 | Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 1994 (y Rheoliadau Cynefinoedd. | | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |
| 16 | Deddf yr Amgylchedd (1995). | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 17 | Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 2007 (y Rheoliadau Morol Alltraeth). | | | | | | | | | | | |
| 18 | Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006). | | | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 19 | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999. | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ |

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

| Cyfeirnod | Deddfwriaeth | Swyddogaeth awdurdod cyhoeddus | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol Rhychwantol | Awdurdodau Lleol | Cyrff Cyhoeddus | Parciau a Mannau Gwyrdd | Strategaeth Gorfforaethol | Addysg | Iechyd | Seilwaith | Caffael Cyhoeddus | Rheoli Gwastraff | Rheoli Safleoedd a Diogelu Rhywogaethau |
| **Lloegr a Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| 20 | Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygiad) 2007. | | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |
| 21 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949). | | ✔ | | | | | | | | | ✔ |
| 22 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) (Deddf CRoW). | | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |
| 23 | Deddf Llywodraeth Leol (2000). | | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| **Lloegr** | | | | | | | | | | | | |
| 24 | Datganiad Polisi Cynllunio 1: Datblygu Cynaliadwy (2005). | | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |
| 25 | Datganiad Polisi Cynllunio 9: Gwarchod Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol (DCLG 2005). | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ | | | ✔ |
| 26 | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Lloegr) 1999. | ✔ | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |
| **Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| 27 | Polisi Cynllunio Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ | | | ✔ |
| 28 | Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ | | | ✔ |
| 29 | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002. | ✔ | ✔ | ✔ | | | | | | | | ✔ |

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# Trosolwg o'r ddeddfwriaeth

## Cytundebau Amgylcheddol Rhyngwladol

### 1. Confensiwn Rhyngwladol ar Amrywiaeth Biolegol Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (1992)

Y Confensiwn yw'r cytundeb byd-eang cyntaf ar warchod bioamrywiaeth ac mae pob gwlad sydd wedi ymuno ag ef o dan rwymedigaeth gyfreithiol i weithredu'r darpariaethau a nodir yn y Confensiwn. Mae'r Confensiwn yn ceisio sicrhau y gwarchodir bioamrywiaeth, y defnyddir bioamrywiaeth yn gynaliadwy ac y rhennir y manteision yn deillio o ddefnyddio adnoddau genetig yn fasnachol yn deg.

Mae'r Confensiwn yn cwmpasu ecosystemau, rhywogaethau ac adnoddau genetig ac mae'n cynnwys materion megis mesurau a chymhellion i warchod bioamrywiaeth, mynediad rheoledig i adnoddau genetig, addysg ac ymwybyddiaeth a darparu adnoddau ariannol. Fel un o lofnodwyr y Confensiwn, mae'r DU o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'i ddarpariaethau.

**http://www.biodiv.org/convention/convention.shtml**

### 2. Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o bwys rhyngwladol (1971)

Mae'r Confensiwn ar Wlyptiroedd, a lofnodwyd yn Ramsar, Iran, ym 1971, yn gytundeb rhynglywodraethol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer camau gweithredu cenedlaethol a chydweithredu rhyngwladol i warchod gwlyptiroedd a'u hadnoddau a sicrhau y cânt eu defnyddio'n ddoeth.

Mae enw swyddogol y cytundeb, sef *Y Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol yn arbennig Cynefinoedd Adar Dŵr* yn adlewyrchu ei bwyslais gwreiddiol ar warchod gwlyptiroedd a sicrhau y cânt eu defnyddio'n ddoeth yn bennaf i ddarparu cynefin ar gyfer adar dŵr. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae'r Confensiwn wedi ehangu ei gwmpas i gynnwys pob agwedd ar warchod gwlyptiroedd a'u defnyddio'n ddoeth, gan gydnabod bod gwlyptiroedd yn ecosystemau sy'n dra phwysig i warchod bioamrywiaeth ac er lles cymunedau dynol. Mae Cytundebwyr yn ymrwymo i; ddynodi o leiaf un gwlyptir i'w gynnwys yn Rhestr Ramsar a hyrwyddo'r gwaith o'i warchod; ystyried gwarchod gwlyptiroedd mewn prosesau cynllunio defnydd tir cenedlaethol; hyrwyddo hyfforddiant mewn ymchwil i wlyptiroedd, rheoli gwlyptiroedd a wardeinio gwlyptiroedd ac ymgynghori â chytundebwyr eraill ynghylch gweithredu'r Confensiwn, gan gynnwys systemau dr a rennir, rhywogaethau a rennir a gwlyptiroedd trawsffiniol. Fel cytundebwr, mae'n ofynnol i'r DU integreiddio egwyddorion y Confensiwn mewn polisïau a chamau gweithredu cenedlaethol gan gynnwys deddfwriaeth i wneud y defnydd doeth (cynaliadwy) gorau posibl o adnoddau gwlyptir.

**http://ramsar.org/**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Ewrop

**3. Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y CE 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt)**

Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn hyrwyddo diogelu bioamrywiaeth ac yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn cynnal neu'n adfer rhywogaethau gwyllt a'u cynefinoedd naturiol yn eu tiriogaethau ar statws cadwraeth ffafriol. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhwymo Aelod-wladwriaethau i weithredu nifer o fesurau i gyflawni hyn, gan gynnwys diogelu rhywogaethau a restrir yn Atodiadau 1 a 2 i'r Gyfarwyddeb trwy rwydwaith o safleoedd a elwir yn 'Natura 2000'. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro cynefinoedd a rhywogaethau yn yr UE, a chyflwyno adroddiadau bob chwe blynedd.

Fel rhan o ofynion y Gyfarwyddeb, mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau gynnig rhestr genedlaethol o Safleoedd o Bwys Cymunedol (SBC). Ar ôl cael eu mabwysiadu, dynodir y safleoedd hyn yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Ynghyd ag Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA), a ddosberthir o dan Gyfarwyddeb Adar y CE, mae'r rhain yn ffurfio rhwydwaith Natura 2000 o ardaloedd gwarchodedig.

Os oes gan gynllun neu brosiect y potensial i amharu ar gyfanrwydd un o safleoedd Natura 2000 nis caniateir, oni ellir profi nad oes unrhyw opsiynau eraill a bod rhesymau hollbwysig er budd y cyhoedd. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu rhai rhywogaethau yn benodol lle bynnag y'u ceir o fewn tiriogaeth Aelod-wladwriaeth.

**http://ec.europa.eu/environment/nature/nature_conservation/eu_nature_legislation/habitats_directive/index_en.htm**

**4. Cyfarwyddeb Adar Ewrop (Cyfarwyddeb Cyngor y GE 79/409/EC ar Warchodaeth Adar Gwyllt)**

Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gosod y fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli adar gwyllt yn Ewrop. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau gymryd camau sydd eu hangen i gynnal poblogaeth pob rhywogaeth o aderyn sy'n bridio'n naturiol yn y gwyllt ar lefel sy'n cyd-fynd yn benodol â gofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol, ac ar yr un pryd ystyried gofynion economaidd a hamdden. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau gymryd camau sydd eu hangen i ddiogelu, cynnal, neu ail-sefydlu ardaloedd ac amrywiaeth digonol o gynefinoedd ar gyfer pob rhywogaeth. Bydd y rhywogaethau yn Atodiad I yn destun mesurau cadwraeth arbennig (e.e. dosbarthu Ardaloedd Gwarchod Arbennig) o ran eu cynefin er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi ac yn epilio. Mae'n ofynnol i Aelod Wladwriaethau sefydlu cynllun cyffredinol i amddiffyn pob math o adar gwyllt.

**http://europa.eu.int/eur-lex/en/consleg/pdf/1979/en_1979L0409_do_001.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**5. Confensiwn Bern ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop. CE. 1979**

Mae Confensiwn Bern yn cynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud â gwarchod a diogelu rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion gwyllt a'u cynefinoedd, y mae'n rhaid i Gytundebwyr, gan gynnwys y DU, lynu wrthynt. Mabwysiadodd y Gymuned Ewropeaidd Gyfarwyddeb Adar y CE ym 1979 a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ym 1992 i weithredu Confensiwn Bern yn Ewrop.

**http://conventions.coe.int/Treaty/en/Treaties/Html/104.htm**

**6. Cyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol (85/337/EEC)(Cyfarwyddeb EIA) (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 97/11/EC)**

Mae'r Gyfarwyddeb EIA yn ceisio sicrhau y deellir unrhyw effeithiau y mae datblygiadau newydd yn debygol o'u cael ar yr amgylchedd ac y'u hystyrir yn fanwl cyn i ddatblygiadau o'r fath fynd yn eu blaen. Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal gan y rhai sy'n ymwneud â chynllunio rhai prosiectau i nodi unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd (gan gynnwys bioamrywiaeth) i sicrhau y gall y cyhoedd a'r awdurdod cymwys perthnasol (neu awdurdod cynllunio) lawn ddeall yr effeithiau disgwyliedig ac i ba raddau y gellir eu lleihau cyn gwneud y penderfyniad cynllunio.

Mae datblygwyr yn gyfrifol am lunio Datganiad Amgylcheddol, y dylid ei gyflwyno gyda chais cynllunio ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu'r wybodaeth a geir yn y Datganiad Amgylcheddol.

Ceir y rhestr o brosiectau y mae'r Gyfarwyddeb EIA yn berthnasol iddynt yn Atodiadau 2 a 3 i'r Canllawiau Asesu'r Effaith Amgylcheddol.

**http://ec.europa.eu/environment/eia/eia-legalcontext.htm#legalcontext**

**7. Cyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42/EEC) (Cyfarwyddeb SEA)**

Mae'r Gyfarwyddeb SEA yn mynnu yr asesir rhai cynlluniau a rhaglenni i nodi eu heffeithiau ar yr amgylchedd (sy'n cynnwys bioamrywiaeth). Mae angen i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun neu'r rhaglen lunio adroddiad ar effeithiau sylweddol tebygol y rhaglen, yn ogystal ag ymgynghori ynghylch y cynllun neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol, gan roi sylw i'r Adroddiad Amgylcheddol ac ymatebion ymgynghori, a darparu gwybodaeth sy'n dangos sut yr ystyriwyd yr asesiad amgylcheddol pan fabwysiedir y cynllun. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro'r cynllun neu'r rhaglen i sicrhau y nodir ac y lleiheir unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl.

Ceir y cynlluniau a'r rhaglenni hynny sy'n ddarostyngedig i'r Gyfarwyddeb SEA trwy ddilyn y cyswllt â'r Gyfarwyddeb.

**http://www.environ.ie/DOEI/DOEIPol.nsf/0/b8aeb091f741ee9c80256f5d004cd61c/$FILE/0142_en.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**8. Rheoliadau CITES yr UE (Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 338/97 Rheoliad Masnach Mewn Bywyd Gwyllt yr Undeb Ewropeaidd (1997) a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 865/2006**

Mae Rheoliadau CITES yr UE yn ceisio diogelu, rheoleiddio a monitro'r fasnach ryngwladol mewn rhai rhywogaethau fflora a ffawna. Mae'r rheoliadau yn helpu i ddiogelu rhywogaethau sydd o dan fygythiad ledled y byd. Mae'r rheoliadau yn dosbarthu rhywogaethau ac yn atgyfnerthu ac yn ymestyn rheolaethau mewnforio ac allforio sydd eisoes ar waith.

**http://www.ukcites.gov.uk/news/865_06.pdf**

**http://www.unep-wcmc.org/species/trade/eu/tradereg.html**

**9. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000) (2000/60/EC)**

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dr yn ceisio diogelu a gwella ansawdd dr ac mae'n mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn atal dirywiad yn statws dŵr ac yn ceisio cyrraedd 'statws da' o leiaf ym mhob corff o ddŵr (mewndirol, arfordirol a dyfroedd daear) erbyn 2015. Mae statws ansawdd dŵr yn cynnwys statws cemegol ac ecolegol. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau lunio cynllun rheoli basn afon ar gyfer pob ardal basn afon erbyn 2009 (a'i ddiweddaru bob 6 blynedd). Mae ardaloedd basn afon ar raddfa ranbarthol ond mae'r ffiniau yn ymwneud â dalgylchoedd afonydd.

Mae'n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyflawni eu swyddogaethau i sicrhau y cydymffurfir â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo pob amcan amgylcheddol a chynllun rheoli basn afon. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am ddrafftio cynlluniau rheoli basnau, sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses o lunio cynlluniau rheoli basn afon a gwneud gwaith dadansoddi sydd ei angen i ategu'r cynlluniau. Sefydlodd Asiantaeth yr Amgylchedd banel cysylltu ym mhob ardal basn afon i helpu i lunio cynlluniau basn afon. Mae'r paneli hyn yn cynnwys cynrychiolwyr y rheoleiddwyr a'r cyflawnwyr hynny y bydd angen iddynt gymryd camau i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith.

Mae'n ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus gyflawni eu swyddogaethau gan roi sylw i gynlluniau rheoli basn afon [Rheoliad 17 OS 2003 Rhif 3242 Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr [Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003].

**http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/index_en.html**

**http://www.environment-agency.gov.uk/business/444217/444663/955573/**

## Lloegr yr Cymru

**10. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)**

Mae'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn darparu ar gyfer diogelu adar a nifer o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion eraill, atal cyflwyno rhywogaethau anfrodorol, hysbysiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan asiantaethau gwledig, mae'n cynnwys mesurau ar gyfer rheoli a diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn darparu ar gyfer dynodi Gwarchodfeydd Natur Morol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

Dylid nodi bod llawer o'r darpariaethau yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'r Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn disodli darpariaethau a nodir yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

Mae Deddf CRoW yn newid y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad trwy ddiwygio gweithdrefnau hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, darparu pwerau ychwanegol i reoli a diogelu'r safleoedd hyn, ac ymestyn pwerau i wneud cytundebau rheoli. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i warchod a rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ymhellach. Mae Deddf CRoW hefyd yn diwygio'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad trwy gynyddu'r diogelwch cyfreithiol a roddir i rywogaethau o dan fygythiad.

Mae Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn gwneud wyth diwygiad i ran 1 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, sy'n ceisio sicrhau y diogelir bywyd gwyllt yn fwy effeithiol.

**http://www.jncc.gov.uk/page-3614#download**

**11. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (EPA)**

Sefydlodd Deddf Diogelu'r Amgylchedd Gyngor Gwarchod Natur Lloegr (Natural England bellach) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghyd â'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y cynghorau hyn i gyflawni eu swyddogaethau gwarchod natur. Yn ogystal â rhoi'r pwerau i'r cynghorau hyn sefydlu, cynnal a rheoli gwarchodfeydd natur, mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu eu bod yn rhoi cyngor a gwybodaeth i bawb am warchod natur yn eu hardal. Dylid nodi i rannau o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd gael eu diweddaru gan y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd (2005).

**http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1990/Ukpga_19900043_en_1.htm**

**12. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004)**

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn galluogi'r cyhoedd i weld gwybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn darparu gwybodaeth amgylcheddol a ddelir ganddynt ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, a dylid gwneud hynny yn gynyddol trwy ddulliau electronig. Dylid trefnu gwybodaeth o'r fath i sicrhau y caiff ei lledaenu i'r cyhoedd yn systematig. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi i'r cyhoedd hawliau mynediad cyhoeddus i wybodaeth amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

**http://www.opsi.gov.uk/si/si2004/20043391.htm**

**13. Deddf Diogelu Moch Daear (1992)**

Mae'r Ddeddf Diogelu Moch Daear yn diogelu moch daear a'u deyerydd. O dan y Ddeddf mae'n drosedd lladd neu anafu moch daear yn fwriadol neu darfu ar eu deyerydd, ac eithrio o dan delerau trwydded. Mae'r rhai a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau o dan y Ddeddf yn agored i gyfnod yn y carchar a/neu ddirwy.

**http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1992/Ukpga_19920051_en_1.htm**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**14. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)**

Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ceisio gweithredu polisi'r Llywodraeth ar ddiwygio'r system gynllunio.

Er nad oes a wnelo'r rhan fwyaf o'r Ddeddf â gwarchod bioamrywiaeth, mae Rhan 8 yn nodi y bydd awdurdodau lleol, byrddau cydgynllunio ac awdurdodau Parc Cenedlaethol 'yn gallu caffael tir trwy brynu gorfodol os ydynt o'r farn y bydd yn hyrwyddo cyflawni datblygiadau, ailddatblygiadau neu welliannau ar y tir neu mewn perthynas ag ef, cyhyd ag y bydd y cyfryw gaffaeliad o fudd economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i'w hardal' (Nodiadau Cyfarwyddyd y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol).

**http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040005.htm**

**15. Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (1994)**

Mae'r Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) yn darparu ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) mewn deddfwriaeth ddomestig ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt.

Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu ar gyfer diogelu Ardaloedd Gwarchod Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn ogystal â rhywogaethau a restrir yn Atodiad 2 i'r Rheoliadau a phlanhigion a restrir yn Atodlen 4.

Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys gofyniad clir (o ran rhai cyfundrefnau) a dyletswydd gyffredinol bod yn rhaid i awdurdodau cynnwys ystyried neu adolygu cydsyniadau, caniatadau neu ganiatâd arall ar ffurf awdurdodiadau y gwnaed cais amdanynt neu a roddwyd eisoes ar gyfer cynlluniau neu brosiectau, sy'n effeithio ar safle Ewropeaidd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ynghyd ag eraill. Gellir cyfyngu ar awdurdodiadau neu eu diddymu os amherir ar gyfanrwydd y safle (yn ddarostyngedig i eithriadau).

**http://www.opsi.gov.uk/SI/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm**

**16 Deddf yr Amgylchedd (1995)**

Sefydlodd Deddf yr Amgylchedd Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol a sefydlodd safonau newydd ar gyfer rheoli amgylcheddol. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rheoli llygredd, gan gynnwys llygredd aer, gwarchod adnoddau naturiol a gwarchod neu wella'r amgylchedd ac mae'n darparu ar gyfer diogelu gwrychoedd pwysig yng Nghymru a Lloegr.

**http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1995/Ukpga_19950025_en_1.htm**

**17. Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd, ac ati) (2007)**

Mae'r rheoliadau hyn yn trosi'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yn ardal forol alltraeth y DU. Mae hyn yn cwmpasu moroedd sy'n fwy na 12 milltir fôr o'r arfordir, gan gynnwys dyfroedd y tu allan i derfynau pysgodfeydd Prydain (hyd at 200 milltir fôr), ac unrhyw ran o wely'r môr sydd wedi'i dynodi'n rhan o ysgafell gyfandirol y DU (sy'n ymestyn mewn rhai achosion y tu hwnt i 200 milltir fôr). Disgwylir i hyn ddod i rym erbyn diwedd mis Awst 2007

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## 18. Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006)

Prif ddiben Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yw gweithredu agweddau allweddol ar Strategaeth Wledig y Llywodraeth (2004).

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Natural England, corff annibynnol sy'n gyfrifol am warchod, rheoli a gwella Amgylchedd Naturiol Lloegr, a'r Comisiwn Cymunedau Gwledig, eiriolwr, gwarchodwr a chynghorwr arbenigol annibynnol dros Loegr wledig. Mae hefyd yn ailffurfio'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur ac yn ailenwi ac yn ailffurfio'r Cyngor Cynghori Amwynder Dyfrffyrdd Mewndirol.

Mae Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd a Chymunedau Naturiol yn mynnu bod yn Every public authority must, in exercising its functions, have regard, so far as is consistent with the proper exercise of those functions, to the purpose of conserving biodiversity.' Dylid nodi bod Deddf yr Amgylchedd a Chymunedau Gwledig yn disodli Adran 74 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

**http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2006/20060016.htm**

## 19. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999

Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i brosiectau a gwmpesir gan y Gyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol (85/337/EEC) (Cyfarwyddeb EIA) (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 97/11/EC) y mae angen iddynt ganiatâd cynllunio yng Nghymru a Lloegr.

**http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/19990293.htm**

Ar ben hynny, mae cyfres o Reoliadau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 85/337/EEC, yn ymwneud â gwahanol fathau o weithgarwch a allai gael cryn effaith ar yr amgylchedd. Ceir cyfeiriadau at y rhain yn Atodiad 8 i'r 'Environmental Impact Assessment: A Guide to Procedures' (Swyddfa'r Dirprwy Weinidog, LlCC, 2000) **http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1143258** ac maent ar gael o wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI) **http://www.opsi.gov.uk**

## 20. Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2007

Mae Atodlen 1 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) (Diwygio (Cymru a Lloegr)8 2006 (Rheoliadau Cynefinoedd) yn mewnosod Rhan IVA newydd yn Rheoliadau Cynefinoedd (Cynefinoedd, ac ati) 1994 ac yn trosi yng nghyfraith Lloegr y gofyniad i wneud Asesiadau Priodol ar gyfer cynlluniau defnydd tir.

**http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/nat-habitats-2006/nathabitats2006-consultation.pdf**

## 21. Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949)

Darparodd y Ddeddf hon y fframwaith ar gyfer creu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE) yng Nghymru a Lloegr ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990), Deddf yr Amgylchedd (1995) a'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000).

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

Rhoddodd y Ddeddf y pŵer i'r Cyngor Gwarchod Natur sefydlu gwarchodfeydd natur a rhoddodd bwerau i awdurdodau lleol sefydlu gwarchodfeydd natur lleol yn eu hardal, gan osod dyletswydd ar y Cyngor Gwarchod Natur i hysbysu awdurdodau cynllunio lleol o ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**http://www.defra.gov.uk/rural/pdfs/ruraldelivery/bill/np-1949.pdf**

**22. Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) (Deddf CRoW)**

O ran diogelu bywyd gwyllt a gwarchod natur, mae Deddf CRoW yn gosod Dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac Adrannau'r Llywodraeth i roi sylw i warchod bioamrywiaeth, yn ogystal â chadw rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd y dylid cymryd camau i'w diogelu, yn unol â'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol (1992). Mae Adran 74 o Ddeddf CRoW yn cynnwys rhestr o'r holl rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys pennaf ar gyfer cadwraeth fiolegol.

Ar ben hynny, mae Deddf CRoW yn darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ar droed i dir (rhai mathau), yn diwygio cyfraith hawliau tramwy cyhoeddus, ac yn gwella'r modd y rheolir Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000037.htm**

**23. Deddf Llywodraeth Leol (2000)**

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol bŵer eang i brif awdurdodau lleol gymryd unrhyw gamau i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu cymuned leol oni bai bod deddfwriaeth arall yn eu gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny. Ar ben hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Strategaethau Cymunedol i hyrwyddo lles eu cymunedau lleol. Mae'r Canllawiau a gyhoeddwyd fel rhan o Gylchlythyr 4/2001 DETR yn nodi y dylid ystyried Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ymhlith pethau eraill, pan fydd awdurdodau lleol yn llunio'r Strategaethau Cymunedol hyn.

**http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2000/20000022.htm**

## Lloegr

**24. Datganiad Polisi Cynllunio 1: Datblygu Cynaliadwy (2005)**

Mae Datganiad Polisi Cynllunio 1 yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Lloegr o ran datblygu cynaliadwy. Mae Datganiad Polisi Cynllunio 1 yn nodi gofynion ar gyfer cyrff cynllunio rhanbarthol ac awdurdodau cynllunio lleol o ran cynlluniau datblygu a rheoli datblygu i sicrhau y rhoddir sylw llawn i egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae Polisi Cynllunio 1 yn mynnu bod polisïau cynllunio a phenderfyniadau cynllunio yn ceisio diogelu a gwella cefn gwlad ac ardaloedd trefol, gan gynnwys cynefinoedd bywyd gwyllt.

**http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1143805**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.uk

**25. Datganiad Polisi Cynllunio 9: Gwarchod Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol (DCLG 2005)**

Mae Datganiad Polisi Cynllunio 9 yn darparu cyd-destun polisi cynllunio defnydd tir cenedlaethol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn Lloegr. Mae Datganiad Polisi Cynllunio 9 yn nodi gofynion ar gyfer Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Fframweithiau Datblygu Lleol ynghyd â gofynion bod awdurdodau cynllunio yn sicrhau y diogelir safleoedd dynodedig, rhywogaethau gwarchodedig, coetiroedd hynafol a chynefinoedd naturiol eraill, rhwydweithiau cynefinoedd. Ymdrinnir â'r angen i awdurdodau cynllunio a datblygwyr ystyried buddiannau bioamrywiaeth ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a bioamrywiaeth o fewn datblygiadau hefyd gan Ddatganiad Polisi Cynllunio 9.

**http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1501970**

**26. Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Lloegr) 1999.**

Mae'r Rheoliadau Peledi Plwm (Lloegr) 1999 yn gwahardd defnyddio peledi plwm at unrhyw ddiben ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a enwyd, yr ystyrir eu bod yn bwysig ar gyfer adar dr, a phob safle Ramsar (gwlyptir). Ar ben hynny gwaherddir defnyddio peledi plwm ar gyfer saethu gwahanol rywogaethau gan gynnwys hwyaid gwyllt (sydd i bob pwrpas yn gwahardd defnyddio peledi plwm ar gyfer saethu adar dr ledled Lloegr). Mae'r Heddlu yn gorfodi'r Rheoliadau.

## Cymru

**27. Polisi Cynllunio Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i hategir gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN5).

Mae Adran 5 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi'r gofynion i awdurdodau lleol ymdrin â materion bioamrywiaeth yn gysylltiedig â chynllunio defnydd tir wrth lunio Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU) ac wrth reoli datblygu a'i nodau cyffredinol yw hyrwyddo gwarchod bioamrywiaeth, diogelu safleoedd a ddynodwyd yn statudol a diogelu rhywogaethau gwarchodedig.

**http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403821/403821/403828/planningpolicy-e.pdf?lang=en**

**28. Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Gwarchod Natur a Chynllunio**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru o ran gwarchod natur. Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 yn darparu cyngor ar gyfer awdurdodau cynllunio ar gynlluniau datblygu a rheoli datblygu ar gyfer safleoedd dynodedig ac ardaloedd y tu allan i safleoedd dynodedig, rhywogaethau gwarchodedig, tiroedd comin a lawntiau trefi a phentrefi. Ymgynghorwyd ynglŷn â'r TAN hwn ym mis Ionawr 2006.

**http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403821/403821/40382/403822/TAN_5_Nature_Conservation_a1.pdf?lang=en**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

**29. Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002.**

Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylcheddol (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002 yn gwahardd defnyddi peledi plwm dros Safleoedd gwlyptirol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y nodwyd eu bod y bwysig i adar dŵr; dros bob ardal islaw'r marc penllanw; ac ar gyfer saethu cwtieir, hwyaid a gwyddau, ac ieir dr unrhyw le yng Nghymru.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# Atodiad 3: Crynodeb o Ddynodiadau Gwarchod Natur Allweddol

**Rhwydwaith Safleoedd Natura 2000** – mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) yn darparu ar gyfer creu rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig ledled yr Undeb Ewropeaidd, a elwir yn safleoedd 'Natura 2000'. Mae'r rhwydwaith hwn sydd o bwys rhyngwladol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA), a fydd fel arfer yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd.

- Mae **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** yn safleoedd a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992, a sefydlwyd i ddiogelu cynefinoedd naturiol, rhywogaethau prin a rhywogaethau o dan fygythiad (ac eithrio adar) a chynefinoedd ar gyfer y rhywogaethau hyn. Ar hyn o bryd mae 571 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi yn y DU. Diogelir Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan gyfraith ryngwladol, a rhoddir cryn ddiogelwch iddynt yn y DU.
- Mae **Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA)** yn safleoedd a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb ar Warchod Adar Gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar) ac fe'u sefydlwyd i ddiogelu rhywogaethau adar gwyllt a'u cynefinoedd.

**Gwlyptiroedd Ramsar o Bwys Rhyngwladol (Safleoedd Ramsar)** – Mae llawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig hefyd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar ar wlyptiroedd o bwys rhyngwladol. Dynodwyd y safleoedd Ramsar cyntaf ym 1976.

**Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)** – sefydlwyd y safleoedd hyn sydd o bwys cenedlaethol i ddiogelu rhai o'r enghreifftiau gorau o gynefin a ffurfiannau daearegol yn y DU. Ar ddiwedd 2004, roedd:

- **217 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yn Lloegr â chyfanswm arwynebedd o 87,900 o hectarau; a**
- **76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru â chyfanswm arwynebedd o fwy na 24,000 o hectarau.**

**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** yw'r enghreifftiau gorau o'n cynefinoedd bywyd gwyllt, ein nodweddion daearegol a'n tirffurfiau cenedlaethol. Dyma'r safleoedd sy'n rhoi'r gwerth cadwraeth mwyaf yn ôl arolygon gwyddonol. Fe'i diogelir o dan gyfraith y DU. Gellir mynnu bod y perchennog tir neu'r meddiannwr yn rheoli'r tir mewn ffordd benodol. Pan na ellir dod i gytundeb ynghylch sut y dylid rheoli'r tir, gall y Corff Cadwraeth perthnasol o fewn Llywodraeth y DU wneud cais am orchymyn prynu gorfodol, a phan niweidir SoDdGA, gall y perchennog tir neu'r meddiannwr fod yn agored i ddirwy sylweddol.

**Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)** – ardaloedd sy'n cynnwys bywyd gwyllt neu nodweddion daearegol sydd o ddiddordeb yn lleol. Ar hyn o bryd mae 1260 o Warchodfeydd Natur Lleol yn Lloegr, sydd i gyd mewn perchenogaeth gyhoeddus.

**Safleoedd Lleol** – Dewisir y safleoedd hyn gan bartneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, ac maent yn ceisio gwarchod safleoedd o bwys rhanbarthol neu leol.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# Atodiad 4: Casgliad Cyflawn o Astudiaethau Achos

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr holl astudiaethau achos a gasglwyd ynghyd wrth baratoi'r canllawiau ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth i Awdurdodau Cyhoeddus.

Mae'r drefn fel a ganlyn:

**A. Astudiaethau achos a gynhwysir yn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol.**

**B. Astudiaethau achos eraill a gynhwysir yn y Canllawiau i Awdurdodau Cyhoeddus (ond nid yn y canllawiau i awdurdodau lleol).**

**C. Astudiaethau achos ychwanegol a gasglwyd ynghyd wrth baratoi'r canllawiau ond nas cynhwysir yn y naill ddogfen na'r llall.**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# A. Astudiaethau achos a Gynhwysir yn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol

## Astudiaeth Achos: Gwarchod Natur i'r Gymuned

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol Cyngor Sir Hampshire**

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol Cyngor Sir Hampshire yn pwysleisio pwysigrwydd natur i ansawdd bywyd yn Hampshire. Mae'n cynnwys pob adran o'r Cyngor ac yn cynnwys cynllunio, priffyrdd, rheoli tir, hamdden, addysg a gofal cymdeithasol. Mae camau gweithredu yn amrywio o ddiogelu cynefinoedd sydd o bwys yn rhyngwladol i wella amgylchedd naturiol tiroedd ysgolion.

Mae'r Cynllun yn elfen allweddol yn rhaglen datblygu cynaliadwy y Cyngor. Mae'n dangos ymrwymiad corfforaethol cryf i warchod amgylchedd naturiol Hampshire ac yn nodi cynllun heriol o gamau gweithredu i hyrwyddo'r gwaith hwn a datblygu mentrau newydd.

Mae gan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol dri phrif nod:

- Gwella perfformiad y Cyngor o ran gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Hampshire
- Defnyddio manteision bioamrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau megis addysg a lles cymdeithasol
- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a staff o fioamrywiaeth

Mae'r Cynllun yn cwmpasu camau gweithredu, dangosyddion a thargedau allweddol er mwyn sicrhau ymrwymiad gwirioneddol i'w gyflawni. Mae'r gydnabyddiaeth bwysig bod bioamrywiaeth yn sail i gynaliadwyedd yn rhoi Conserving Nature for the Community wrth wraidd gwaith o ddydd i ddydd yn Hampshire. Mae hyn wedi helpu i wella'r rhaglenni amgylcheddol a ddarperir, gwella gwaith rhyngadrannol ar weithgarwch bioamrywiaeth a gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith staff y Cyngor.

**http://www3.hants.gov.uk/biodiversity/corporateactionplan.htm**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cytundeb Ardal Lleol ar gyfer Cernyw

**Cynghorau Sir a Dosbarth Cernyw**

Mae Cytundeb Ardal Lleol Cernyw yn gynllun cyflenwi ar gyfer Strategaeth Gymunedol Cernyw. Gweledigaeth Strategaeth Gymunedol Cernyw yw cymuned gynaliadwy gref i bawb, a nod y Cytundeb Ardal Lleol yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau yn y DU, drwy ddileu rhwystrau, gwella enillion a gwarchod yr amgylchedd. Nodir canlyniadau ar gyfer Cytundeb Ardal Lleol Cernyw, ac un ohonynt yw sicrhau bod Cernyw yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol. Y nod yw gwella'r gwaith o reoli bioamrywiaeth, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd, a rhoi mwy o gyfleoedd hyfforddiant a busnes amgylcheddol, yn ogystal â chyfrannu at ddelwedd brand Cernyw.

Caiff y gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Ragoriaeth ei lywio gan weithgorau a sefydlwyd gan Fforwm Economaidd Cernyw ac Environment Kernow (partneriaeth amgylcheddol gyffredinol ar gyfer Cernyw). Caiff y cynnydd a wneir o ran y canlyniad hwn ei fonitro drwy dri dangosydd, y pennir targedau uchelgeisiol ar eu cyfer:

- Y nifer sy'n manteisio ar Stiwardiaeth Amgylcheddol;
- Safleoedd Lleol â chanlyniadau gwell ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth;
- Buddiolwyr hyfforddiant yn y sector amgylcheddol.

Ochr yn ochr â'r nod i ddod yn Ganolfan Ragoriaeth, mae Cytundeb Ardal Lleol Cernyw hefyd yn cynnwys amcanion eraill yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Gwella gwaith rheoli amgylcheddol mewn busnesau gwledig;
- Gwneud cyfraniad mesuradwy i dargedau Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus Ansawdd Bywyd cenedlaethol, er enghraifft niferoedd yr adar ar dir ffermio.
- Gwella'r gwaith o reoli cynefinoedd mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol;
- Adfywio Environment Kernow;
- Cynyddu'r rhan y mae cymunedau yn ei chwarae mewn gwaith rheoli amgylcheddol.

**http://www.cornwallstrategicpartnership.gov.uk/index.cfm?articleid=12893**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Safleoedd Mwynau Gorllewin Sussex

**Cyngor Sir Gorllewin Sussex**

Fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae'r Cyngor Sir wedi dangos ei ymrwymiad i fioamrywiaeth drwy Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Safleoedd Mwynau Gorllewin Sussex. Ceir tua 50 o safleoedd mwynau yng Ngorllewin Sussex sy'n amrywio o un hectar i 150 hectar o ran maint ac sy'n ymestyn dros 700 hectar i gyd. Nod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yw manteisio i'r eithaf ar bob cyfle o ran bioamrywiaeth ar safleoedd mwynau yng Ngorllewin Sussex drwy:

- Sicrhau bod digon o wybodaeth o arolygon biolegol, daearegol ac archeolegol ynglŷn â safleoedd mwynau er mwyn seilio penderfyniadau arni;
- Hyrwyddo gweithdrefnau cydymdeimladol a rheolaeth arfer gorau ar gyfer bioamrywiaeth a geoamrywiaeth;
- Cefnogi arferion gwaith agosach rhwng cyrff gwarchod natur, gweithredwyr mwynau a'r awdurdod cynllunio;
- Gwella canfyddiad y cyhoedd o'r diwydiant mwynau;
- Integreiddio amcanion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ag amcanion adfer eraill ar gyfer y safle, er enghraifft hamdden, mynediad ac addysg.

Er mwyn gwneud hyn, mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Safleoedd Mwynau Gorllewin Sussex yn rhestru nifer o gamau gweithredu allweddol, gan gynnwys:

- Cynnal archwiliadau ac arolygon;
- Gwell cynlluniau adfer;
- Paratoi taflenni ffeithiol ar gyfer rheolwyr safleoedd;
- Trefnu cynllun gwobrwyo amgylcheddol.

Er mwyn helpu'r diwydiant, mae Cyngor Sir Gorllewin Sussex wedi cynhyrchu llawlyfr ymarferol ar gyfer hyrwyddo bioamrywiaeth ar safleoedd mwynau yng Ngorllewin Sussex. Mae'r canllaw yn cwmpasu pob agwedd ar reoli safle yn amrywio o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Safleoedd, rheoli cynefinoedd ar safleoedd gweithredol ac arfer gorau i ail-greu cynefinoedd, deddfwriaeth a rhywogaethau a ddiogelir.

Gwegyswllt: **http://www.westsussex.gov.uk/ccm/content/environment/heritage-wildlife-and-landscape/biodiversity-action-plans.en;jsessionid=aHdcrDk3Lk94?page=2**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos – Comin Epsom – adfer SoDdGA

**Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell**

Mae rhan fawr o Gomin Epsom yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell yn berchen arno ac yn ei reoli. Yn ystod yr 1980au, cydnabuwyd bod bioamrywiaeth Comin Epsom yn dirywio oherwydd twf cyflym prysgwydd a choetir ifanc, a oedd yn cwtogi ar amrywiaeth cynefinoedd ar y safle. Gwnaed rhywfaint o waith gyda gwirfoddolwyr a staff y cyngor i glirio rhai prysgwydd ac awgrymwyd y syniad o ailgyflwyno gwartheg. Yn 1997, cyflwynwyd dwy fuwch. Roedd ymateb y cyhoedd yn gadarnhaol ond nid oedd y fenter yn ddigon mawr i wrthdroi'r newidiadau niweidiol.

Ar ôl i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ddod i rym, daeth Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell, fel perchennog y safle, yn gyfrifol yn statudol am ddiogelwch ei fioamrywiaeth, a dosbarthwyd ei statws yn 'anffafriol yn dirywio'. Gofynnodd English Nature a Chymdeithas Comin Epsom, sef grŵp buddiannau lleol ag 800 o aelodau, i Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell lofnodi 'Datganiad Rheoli Safle' a'i rhwymodd i weithio i sicrhau y câi bioamrywiaeth y safle ei ddiogelu ac nad oedd yn colli ei statws fel SoDdGA.

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud ers 2001 mewn partneriaeth â Natural England, Cymdeithas Comin Epsom a Phrosiect Rheoli Cefn Gwlad Lower Mole. Yn 2001 datganodd Cyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell y safle cyfan yn Warchodfa Natur Leol a lluniwyd Cytundeb Stiwardiaeth Cefn Gwlad â Defra i ddechrau proses o ail-greu coetir pori ar y safle a gwrthdroi'r dirywiad mewn cynefinoedd pwysig yn barhaol. Wrth i brysgwydd gael eu clirio, mae pori wedi'i ailgyflwyno'n raddol. Ym mis Ionawr 2005 cymeradwywyd cynllun rheoli 10 mlynedd gan Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell a datganwyd statws y safle yn 'anffafriol yn gwella'. Pennwyd un o nodau hirdymor Statws Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn nod gan Gyngor Bwrdeistref Epsom ac Ewell a Natural England ac mae Natural England bellach yn ystyried bod y safle yn un o'r tiroedd comin a reolir orau yn Ne-ddwyrain Lloegr. Ym mis Awst 2005, cytunwyd ar 'Gynllun Gwella Bywyd Gwyllt' pum mlynedd â Natural England i ariannu gwaith bioamrywiaeth.

Mae llawer o'r cynnydd a wnaed hyd yma wedi'i wneud yn sgîl ymdrechion gwirfoddolwyr a thrigolion lleol. Mae gan ECOVOLS (cangen gwirfoddolwyr Cymdeithas Comin Epsom) raglen waith flynyddol fawr, maent yn gwneud golosg unwaith y mis ac yn 2006 rhoddodd cynghorwyr sir lleol £10,000 iddynt i brynu cerbyd sy'n addas ar gyfer pob math o dir i gludo eu holl offer o amgylch y safle.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect Calderdale Wildspace! – Gwella Gwarchodfeydd Natur Lleol er Bioamrywiaeth

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Calderdale**

Roedd Wildspace Calderdale yn brosiect 3 blynedd a ariannwyd gan English Nature. Ymhlith y nodau roedd:

- Cynyddu darpariaeth Gwarchodfeydd Natur Lleol Calderdale o ddim Gwarchodfeydd Natur Lleol i un hectar o Warchodfa Natur Leol i bob 760 o bobl yn Calderdale a sicrhau bod gan 80% o drigolion Calderdale Warchodfa Natur Leol o fewn 2km i'w cartref drwy ddatgan 10 o Warchodfeydd Natur Lleol, sef cyfanswm o 250 o hectarau. Cyflawnwyd hyn a Calderdale yw un o'r awdurdodau lleol cyntaf i ragori ar darged English Nature o un hectar o Warchodfa Natur Leol fesul 1000 o'r boblogaeth.
- Cynnwys cymunedau lleol yn well, yn enwedig grwpiau difreintiedig, yn y gwaith o ddefnyddio a rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol yn gynaliadwy. Mae gan bob safle grŵp cymunedol lleol sy'n gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth. Mewn rhai achosion, grwpiau Cyfeillion ydynt, a grwpiau defnyddwyr ydynt mewn achosion eraill.
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth Gwarchodfeydd Natur Lleol, gan roi sylw arbennig i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodwyd fel blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Calderdale, drwy gynhyrchu a gweithredu cynlluniau rheoli. Mae gan bob safle gynllun rheoli bellach, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau o ran cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Mae'r prosiect wedi helpu i brif ffrydio bioamrywiaeth ym meddylfryd y Cyngor a bu'n fodd i fanteisio ar ffrydiau ariannu lleol a chenedlaethol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Gwneud i Gontractau Weithio er Bywyd Gwyllt

**CABE Space**

Mae CABE Space (2006) yn rhoi canllawiau ar y ffordd y gellir gwella parciau trefol er bioamrywiaeth. Mae'r canllawiau yn crynhoi mathau gwahanol o gontractau cynnal a chadw tir fel a ganlyn:

- **Yn seiliedig ar fewnbwn** – lle y nodir y gweithrediadau, yn ogystal â pha mor aml y'u cynhelir a safonau.
- **Yn seiliedig ar allbwn** – lle y nodir canlyniadau penodol, megis uchder mwyaf y glaswellt a ganiateir.
- **Yn seiliedig ar ganlyniadau** – lle y disgrifir y canlyniadau cyffredinol, gan adael i'r contractwyr nodi sut y maent yn bwriadu eu cyflawni. Fel arfer, ategir hyn gan ddatganiadau dull a ddarparwyd gan y contractwr, y cytunwyd arnynt gan y cleient, a llunio cyfarwyddiadau ymarferol i'r rhai sy'n gwneud y gwaith.

Mae Space CABE yn argymell contract yn seiliedig ar ganlyniadau fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r nod o wella bioamrywiaeth, tra'n rhoi ffordd ddefnyddiol o nodi gwaith cynnal a chadw tiroedd hefyd. Mae gan y math hwn o fanyleb fantais arall yn y ffaith nad yw wedi'i gyfyngu i gylch gwaith blynyddol, gan olygu y gellir symud at ganlyniadau drwy fwy nag un tymor. Gellir cyflawni gwaith hunan-fonitro os bydd y dulliau mesur yn glir, a gall hyn gynnwys targedau cynyddol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

## Astudiaeth Achos: Ceunant a Pharc Broadhurst

**Cyngor Dinas Manceinion**

Mae'r safle hwn yn cwmpasu 14 o hectarau o ardaloedd naturiol yn ardal drefol Moston, Gogledd Manceinion, sef ardal ddifreintiedig iawn. Roedd Ceunant Broadhurst yn hen gynefin dŵr agored a lenwyd yn 1946 er mwyn adeiladau tai parod, a ddymchwelwyd wedyn yn y 1960au. Ers hynny, mae wedi dod yn wlyptir sy'n dirywio – gan aros yn wlyb yn ystod misoedd y gaeaf ond heb gadw ei nodweddion dŵr agored. Cafwyd amrywiaeth o broblemau ar y safle, oherwydd pwysau'r cyhoedd yn bennaf yn sgîl sathru, dympio, llosgi a beiciau modur oddi ar y ffordd. Mae'r gwlyptir wrth ymyl Parc Broadhurst, sef man gwyrdd cyhoeddus ffurfiol â chaeau pêl-droed i dimau iau ac uwch, lle y cafwyd problemau draenio difrifol a gafodd effaith andwyol ar eu swyddogaeth fel cyfleuster chwaraeon.

Ymdriniodd y prosiect â'r ddwy broblem wahanol hyn a oedd yn effeithio ar y ddau fan gwyrdd cyfagos pwysig. Yr ateb oedd draenio'r dŵr dros ben o'r caeau chwarae i'r ardal wlyb gyfagos a oedd yn dirywio, gan ei hadfer yn wlyptir a chan gwella gallu'r caeau chwaraeon i weithredu fel cyfleuster chwaraeon. Yn sgîl hyn, bu modd creu dwy ardal ddŵr agored tra'n cadw rhywfaint o'r glaswelltir corsiog. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r gymuned bêl-droed leol, trigolion a grwpiau archeolegol i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect arfaethedig a sicrhau cefnogaeth iddo.

Roedd y gwaith yn cynnwys dau gam. Y cam cyntaf oedd creu'r pwll bas gwlyptir a gwaith draenio'r caeau pêl-droed, a'r ail gam oedd datblygu'r seilwaith gwlyptir, mynediad a dehongli, gyda'r nod o gynyddu defnydd a mwynhad y cyhoedd o'r safle.

Mae'r prosiect wedi cael cyfranogiad cymunedol gwirfoddol penodedig i wella'r safle. Gwnaed cais am Grant Mannau Anadlu i gynnal gweithgareddau cymunedol i gynyddu'r defnydd o'r Ceunant. Cafwyd gwelliant sylweddol o ran draeniad y caeau pêl-droed i dimau iau. Dros amser, ceir cynlluniau i ddatblygu'r safle ymhellach fel adnodd o safon i weithgareddau hamdden goddefol a gweithredol, a chyfleuster addysgol pwysig i ysgolion lleol ac oedolion.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect Priffyrdd Byw

**Cyngor Sir Powys, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Phartneriaid**

Yn y DU, mae lleiniau ymyl ffordd yn cynnwys rhai o'r enghreifftiau olaf o gynefinoedd llawn rhywogaethau a oedd yn gyffredin gynt yng nghefn gwlad ac sydd wedi dirywio'n sylweddol yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae'n bosibl hefyd y byddant yn helpu i ddarparu cysylltiadau ffisegol rhwng pocedi o gynefinoedd sy'n weddill a fyddai'n ynysig fel arall, gan helpu i ehangu a gwasgaru rhywogaethau llai symudol.

Mae'r Prosiect Priffyrdd Byw yn bartneriaeth sefydledig, a ddechreuwyd yn 2001, rhwng Ymddiriedolaethau Natur Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed a Brycheiniog, Cyngor Sir Powys, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Grŵp Pryder Lleiniau Ymyl Ffordd a Gwrychoedd Powys. Nod y prosiect yw diogelu ac annog cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt gwerthfawr sy'n gysylltiedig â lleiniau ymyl ffordd ym Mhowys, yn y Canolbarth. Mae'r prosiect yn gweithio ar nifer o fentrau gwahanol i gyflawni hyn, gan gynnwys sefydlu systemau i ddiogelu safleoedd hysbys o werth ecolegol mawr a gwella arferion rheoli lleiniau ymyl ffordd.

Mae symud toriadau yn ystyriaeth reoli bwysig wrth anelu at gynnal neu gynyddu bioamrywiaeth ardaloedd glaswellt, gan helpu i ostwng lefelau maetholion er budd fflora brodorol. Yn 2005, ymchwiliodd treialon a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn ar ran y bartneriaeth i ymarferoldeb defnyddio toriadau i gynhyrchu compost a bionwy. Dangoswyd bod modd casglu toriadau o leiniau ymyl ffordd Powys ar raddfa gymharol fawr a bod y deunydd yn addas i gynhyrchu compost a bionwy, gan gynhyrchu cynhyrchion terfynol a allai fod yn werthfawr. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol a ddaw yn sgîl peidio â gwaredu'r deunydd mewn safleoedd tirlenwi, gall gwaith cynhyrchu bionwy hefyd fod yn ffynhonnell o ynni cynaliadwy, ac iddo fanteision o ran lleihau gollyngiadau carbon. Ar ôl y treial, cafwyd gwaith datblygu a gwerthuso pellach, gyda'r nod o gynaeafu ar raddfa fawr yn y dyfodol.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Defnyddio Cynlluniau Amaeth-amgylchedd i Wella Gwlyptiroedd ar Gyrion y Dref

**Cyngor Dinas Norwich**

Mae pum safle gwlyptir a reolir gan Gyngor Dinas Norwich wedi cael arian amaeth-amgylchedd o dan Gynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif y Broads. Mae'r safleoedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o wlyptir, gan gynnwys ffen, corsleoedd a glaswelltir gwlyb ac maent yn gyfagos at afonydd Yare a Wensum. Mae Cyngor Dinas Norwich wedi cynnwys cyfanswm o 46 o hectarau o'r pum safle yn y Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif.

Cyn eu cynnwys yn y cynllun, roedd y safleoedd dan sylw wedi mynd drwy gylchoedd o weithgarwch ac wedyn roeddent wedi cael eu hesgeuluso i ryw raddau, oherwydd blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor neu faint o arian a oedd ar gael. Er bod gwaith rheoli cadwraeth wedi'i wneud mewn rhai o'r safleoedd, nid oedd yr un ohonynt mewn cyflwr delfrydol o bell ffordd, ac roedd rhai wedi'u hesgeuluso a'u camddefnyddio, gan gynnwys dympio anghyfreithlon. Nid oedd fawr ddim gobaith y gallai'r Cyngor ariannu'r gwelliannau angenrheidiol ac, yn ogystal, roedd rhai aelodau o'r Cyngor o'r farn bod y safleoedd yn gwastraffu adnoddau'r Cyngor, ac ar un adeg cafwyd cynnig i werthu llawer o'r safle mwyaf, gorau, Marston Marsh, er mwyn ymestyn cwrs golff.

Credwyd y gallai'r Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ariannu llawer o'r buddsoddiad cyfalaf a'r gwaith rheoli blynyddol a oedd eu hangen, yn ogystal â rheoli'r safleoedd mewn ffordd fwy cyson na fyddai blaenoriaethau a chyllidebau cyfnewidiol y Cyngor yn effeithio arno. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn, ac mae pob un o'r safleoedd bellach mewn cyflwr gwell, a bwriedir cyflawni gwelliannau pellach, gan gynnwys gwaith cyfalaf pellach o dan Gynlluniau Cadwraeth Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif. Mae'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif wedi golygu y gall gwartheg bori ar y tri safle bellach, gan wella'r strwythur llystyfiant a chan atal prysgwydd rhag tyfu dros y safleoedd. Cofnodwyd tegeirianau cors y de yn 2006, mae planhigion blodeuol eraill wedi cynyddu hefyd o ganlyniad i'r pori ac mae amodau'r gaeaf wedi gwella i adar megis giachod cyffredin.

Mae llawer o fanteision o ran cadwraeth wedi dod yn sgîl y cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ac mae wedi helpu i godi proffil y safleoedd, y cydnabyddir pob un ohonynt fel safleoedd bioamrywiaeth allweddol bellach. Mae wedi helpu i sicrhau arian am welliannau eraill megis byrddau dehongli a thaflenni i ymwelwyr. Mae'r cynllun hefyd wedi golygu y gellir cyfeirio cyllidebau cadwraeth mewnol sy'n weddill at safleoedd eraill nad ydynt yn rhan o'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif y mae angen buddsoddi ynddynt a'u rheoli'n well.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect Bywyd Gwyllt Tiroedd Ysgolion

**Cyngor Sir Norfolk**

Bu'r cynllun hwn yn rhedeg ers 1989. Mae wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn o fod yn gynllun sy'n ymwneud â gwella gwerth gwarchod natur tiroedd ysgolion yn unig drwy blannu coed a chreu pyllau a dolydd i gylch gwaith ehangach lle y caiff cymunedau ysgolion eu hannog i ystyried sut y maent yn defnyddio eu tiroedd a'r hyn y gellid ei wneud i'w gwella, gan bwysleisio dymunoldeb gwella bioamrywiaeth. Mae dros dri chwarter ysgolion Norfolk wedi cymryd camau i wella eu tiroedd gyda chymorth y cynllun.

Cynigir gwasanaeth cyngor a dylunio am ddim i bob ysgol awdurdod lleol yn Norfolk er mwyn eu helpu mewn prosiectau gwella tiroedd. Yn ogystal, mae grant llawn ar gael i goed a llwyni brodorol. Cynigiwyd coed ffrwythau i ysgolion, i gysylltu â'r fenter ffrwythau 'pump y dydd', gan eu hannog i blannu amrywiadau lleol lle y bo'n bosibl.

Ceir rhwydwaith cryf o gymorth i ysgolion sy'n dymuno gwella eu tiroedd yn Norfolk. Cyd-gysylltir y rhwydwaith hwn drwy Grŵp Cydgysylltu Tiroedd Ysgolion Norfolk; fforwm o'r ymarferwyr hynny o awdurdodau lleol, cwmnïau a sefydliadau anllywodraethol y mae eu gwaith yn cynnwys cynghori ysgolion am wella eu tiroedd.

Gwerthusodd y Cyngor y cynllun yn 2005 i brofi ei effeithiolrwydd o ran cynyddu bioamrywiaeth tiroedd ysgolion. Anfonwyd holiadur i 21 o ysgolion a oedd wedi creu pwll ac a oedd wedi plannu coed brodorol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Nododd yr ymatebion gynnydd sylweddol yn nifer y brogaod, llyffantod, madfallod dŵr ac adar bronfraith ar diroedd ysgolion, gan ddangos bod y gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bioamrywiaeth yn ogystal â chreu adnodd addysgol pwysig.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli Traethau er Bioamrywiaeth

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro**

Ers blynyddoedd lawer, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cydnabod pwysigrwydd traethau a blaendraethau am fioamrywiaeth ac fel rhan bwysig o'r dirwedd. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn berchen ar sawl safle blaendraeth ac mae wedi ymgymryd â phrosiectau mawr i adfer twyni gan ddefnyddio grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr i ffensio a phlannu twyni, symud meysydd parcio ceir oddi wrth ardaloedd tywodlyd a gosod llwybrau bordiau.

Ers creu Cyngor Sir Penfro yn 1996, bu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rhan o grŵp cyswllt o dan arweiniad Cyngor Sir Penfro yn cynnwys sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli traethau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys sawl tîm o Gyngor Sir Penfro, gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Wardeiniaid Cŷn ac arweinwyr tîm o dimau sy'n gyfrifol am lanhau traethau a thoiledau. Maent yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn â staff o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i drafod gwobrau traethau, gwaith rheoli traethau, ansawdd dŵr a diogelwch. Er mwyn gwarchod bioamrywiaeth, caiff traethau yn Sir Benfro eu glanhau â llaw yn hytrach na chan ddefnyddio peiriant, gan helpu i ddiogelu llinell y lan fel y caiff gwymon a broc môr eu cadw yn eu lle. Hyd yn oed lle y ceir llawer o wymon, fe'i cedwir ar y safle oni bai bod ystyriaethau iechyd ac amwynder yn bwysicach nag ystyriaethau eraill. Mae sesiwn friffio aml-asiantaeth flynyddol ar gyfer pob aelod o staff y traethau yn sicrhau bod gan y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r traeth wybodaeth am unrhyw nodweddion arbennig traethau ac ystyriaethau o ran gwarchod bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth Gorllewin Canolbarth Lloegr

**Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr**

Er mwyn ateb yr her o weithredu 'ar raddfa'r dirwedd' neu 'yn seiliedig ar ardal', fel y'i nodir yn 'Restoring the Region's Wildlife: Regional Biodiversity Strategy in the West Midlands', mae Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi nodi 14 o Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth yn y Rhanbarth.

Mae'r Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth yn cwmpasu ardaloedd pwysig o fywyd gwyllt. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig anghysbell, ac maent yn amrywio o ran maint o ychydig blwyfi i gynefinoedd ucheldir mawr.

Mae Strategaeth Ofodol Ranbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr yn nodi'r Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth, ac yn annog y gwaith o atgyfnerthu eu cyfanrwydd ecolegol. Ymhlith y nodau ar gyfer yr Ardaloedd Gwella Bioamrywiaeth mae:

- cefnogi prosiectau gwella bioamrywiaeth a thirwedd presennol;
- clustogi unedau cynefinoedd rhag effeithiau andwyol;
- adfer ac ail-greu cynefinoedd nodweddiadol yn lleol;
- ehangu a chysylltu unedau cynefinoedd pwysig;
- hyrwyddo manteision cymdeithasol ac economaidd drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau cysylltiedig ar gyfer mynediad, mwynhad ac addysg gynaliadwy;
- buddsoddi mewn busnesau sy'n cyfrannu at amgylchedd naturiol o safon ac sy'n manteisio arno.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Dogfen Gynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Thirwedd Lichfield

### Cyngor Dosbarth Litchfield

Mae Cyngor Dosbarth Lichfield wedi cynhyrchu Dogfen Gynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Thirwedd ddrafft sydd â'r nod o ddarparu dull o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y Dosbarth yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o bolisïau yn ymwneud â'r dirwedd a bioamrywiaeth, dulliau o ddiogelu bioamrywiaeth a chyfleoedd gwella a chreu. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nifer fawr o atodiadau yn cynnwys rhestr wirio bioamrywiaeth i ddatblygwyr sy'n amlygu rhywogaethau a ddiogelir yn y Dosbarth ac yn cyfeirio at wybodaeth bellach yn ymwneud â'r rhywogaethau hyn.

Disgwylir y bydd i'r ddogfen nifer o fanteision pan gaiff ei chyhoeddi gan gynnwys:

- Rhoi gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol am warchod a gwella bioamrywiaeth i gynllunwyr a datblygwyr.
- Sicrhau yr ystyrir bioamrywiaeth ar y cam cynharaf, h.y. cyn gwneud cais. Mae hyn yn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ddiogelu'n effeithiol ac y cynllunnir yn briodol ar gyfer lliniaru a gwella er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o ran bioamrywiaeth. Ceir manteision hefyd i swyddogion rheoli datblygu ac ymgeiswyr oherwydd caiff oedi diangen yn y broses gwneud cais ei osgoi.
- Rhoi'r holl ganllawiau bioamrywiaeth a thirwedd lleol a chenedlaethol i ymgeiswyr a datblygwyr ar gam cynnar.
- Dilysu ceisiadau cyn i'r pwyllgor eu hystyried. Nodir materion o ran bioamrywiaeth drwy'r rhestr wirio ac wedyn mae ymgeiswyr yn rhoi gwybodaeth am arolygon gyda'u cais lle y bo'n briodol. Mae hyn yn golygu y gellir cytuno ar fesurau lliniaru cyn i'r cais fynd i'r pwyllgor.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rhywogaethau a Ddiogelir a'ch Cais Cynllunio

**Cyngor Sir Caerhirfryn, yr Ymddiriedolaethau Natur, English Nature a Lancashire Rural Futures**

Mae Cyngor Sir Caerhirfryn a'i bartneriaid wedi llunio taflen tair tudalen i'w defnyddio gan bawb sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio. Mae'r daflen wedi'i chynllunio i gynnig cyflwyniad byr i rywogaethau a ddiogelir ac amlygu'r angen i ystyried rhywogaethau o'r fath ar gamau cychwynnol cais.

Mae'r daflen yn cynnwys digon o enghreifftiau ac yn hawdd i'w dilyn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth o dan y penawdau:

- Rhywogaethau a'r gyfraith;
- Sut y mae rhywogaethau a ddiogelir yn effeithio arnaf?;
- Eich cyfrifoldebau (cyn cyflwyno cais cynllunio);
- Gwybodaeth benodol am Ystlumod, Madfallod Dŵr Cribog, Moch Daear, Dyfrgwn, Llygod Dŵr ac Adar Gwyllt.

Mae'r daflen hefyd yn rhoi cysylltiadau â gwybodaeth bellach a chysylltiad â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Caerhirfryn: Tirwedd a Threftadaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth.

Mae'r daflen wedi'i chynhyrchu i arbed amser ac adnoddau i'r adran gynllunio oherwydd dylid ystyried rhywogaethau a ddiogelir cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio.

**http://www.lancashire.gov.uk/environment/ecology/protected_species_pp.asp**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Strategaeth Redbridge ar gyfer Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio

**Cyngor Bwrdeistref Redbridge**

Mae Bwrdeistref Redbridge yn Llundain wedi cynhyrchu Dogfen Gynllunio Atodol ar warchod natur, sy'n caniatáu i amodau a rhwymedigaethau cynllunio gael eu defnyddio i sicrhau gwelliannau o ran bioamrywiaeth. Mae'r Ddogfen yn nodi:

"Where appropriate, the Council will use planning conditions or Section 106 agreements with developers to secure the rehabilitation and ongoing management of areas important for nature conservation. This may also include a contribution towards meeting the objectives of the Biodiversity Action Plan for the borough."

## Astudiaeth Achos: Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham – Addysg Bioamrywiaeth ac Eco-ysgolion

**Cyngor Sir Durham, Cyngor Bwrdeistref Darlington, Cyngor Gateshead, Cyngor Dosbarth South Tyneside a Chyngor Dinas Sunderland**

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Durham yn darparu deunyddiau addysg bioamrywiaeth ar y we, gan gynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth yn y cwricwlwm, prosiectau bioamrywiaeth lleol, enghreifftiau ymarferol o sut y gellir cynnwys bioamrywiaeth mewn cyfleoedd dysgu, ac enghreifftiau o arbedion effeithlonrwydd a chost posibl i ysgolion yn sgîl prosiectau amgylcheddol. http://www.ecoeducation.org.uk/

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn annog y gwaith o wella bywyd gwyllt ar diroedd ysgolion at ddibenion addysgol a dibenion bywyd gwyllt ac mae'n cysylltu hyn â chynnwys bioamrywiaeth mewn addysg yn fwy cyffredinol. Mae'r ddogfen 'Enhancing Wildlife in the School Ground: Everything you need to know to attract wildlife into the school environment!' yn amlinellu dulliau a all ddenu a gwella bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion, gan roi:

- Gwybodaeth ymarferol am reoli cynefinoedd a'r mathau gwahanol o rywogaethau y gellir eu denu i gynefinoedd penodol, eu harferion bwyta, ac ati
- Taflenni cyfarwyddyd i adeiladu byrddau adar a blychau i adar ac ystlumod.
- Cyfleoedd dysgu awgrymedig
- Gwybodaeth gyswllt am ragor o wybodaeth

Drwy hyn llwyddwyd i annog addysgu bioamrywiaeth mewn ysgolion lleol a datblygu nifer o eco-ysgolion yn Durham. Un enghraifft o eco-ysgol yw Ysgol Iau Harrowgate Hill, a enillodd y Faner Werdd yn ddiweddar ar ôl gwerthuso llwyddiant y mentrau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae achrediad y Faner Werdd yn golygu y caiff y cynllun ei redeg mewn ffordd sy'n golygu bod y plant yn teimlo eu bod yn rhan ohono. Yn yr achos hwn, mae gan y plant eu cyllideb eu hun, a ariennir drwy ailgylchu cetris argraffu, gwerthu hen ddillad i'w hailgylchu i wledydd sy'n datblygu a mentrau codi arian eraill.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rhwydwaith Amgylchedd Busnes Cumbria – Gwobrau Amgylcheddol

**Ymddiriedolaeth Amgylchedd Rheoli Gwastraff Cumbria, Asiantaeth Menter Wledig Cumbria, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Cumbria, Cyngor Dinas Caerliwelydd, Cyngor Dosbarth Eden**

Mae gan Rwydwaith Amgylchedd Busnes Cumbria (CBEN) gontract â Natural England i roi cyngor ymarferol ar fioamrywiaeth i fusnesau ledled Cumbria. Nod y prosiect yw rhoi cyngor penodol ar fioamrywiaeth i fusnesau, gan ystyried cynllun gweithredu bioamrywiaeth Cumbria er mwyn helpu i ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Gall y cyngor fod mor syml â chynghori busnesau i dorri’r glaswellt o amgylch eu hadeiladau yn llai aml er mwyn galluogi blodau gwyllt i flodeuo a hadu, gan roi ffynhonnell o fwyd i bryfed ac adar.

Mae menter arall yn cynnwys defnyddio cynllun gwobrwyo i fusnesau lleol. Cynigir archwiliad am ddim gan arbenigwr amgylcheddol i’r busnesau sy’n cymryd rhan, a bydd yr arbenigwr hwn yn cynghori ac yn llywio’r busnes drwy’r broses. Mae tair haen o wobrau – efydd, arian ac aur – ac mae gan bob lefel set gysylltiedig o feini prawf, llawlyfr cyfarwyddyd a rhestr wirio at ddibenion asesu. Mae’r wobr efydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddangos ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i weithrediadau sy’n amgylcheddol gadarn. Wedyn caiff busnesau eu hannog i symud drwy’r system, gan ddilyn y canllawiau i gyrraedd y lefel arian, lle y disgwylir y byddant wedi gwneud cynnydd tuag at asesu a rheoli risgiau amgylcheddol. Yn olaf enillir y wobr aur gan fusnesau sydd wedi sicrhau rhagoriaeth o ran nodi risgiau, sydd wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i reoli eu heffeithiau posibl, ac sy’n cynllunio i wella eu perfformiad yn barhaus.

Prif fanteision amgylcheddol y cynllun yw:

- Gwella gwaith rheoli, sgiliau ac arferion amgylcheddol
- Cynyddu ailgylchu
- Lleihau costau drwy leihau’r gwastraff sy’n mynd i safleoedd tirlenwi
- Lleihau’r risg o lygredd
- Sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol
- Lleihau’r defnydd o ynni
- Datblygu arferion gorau drwy leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, a lleihau costau ynni.

Caiff busnesau eu denu gan y cyfle i arbed costau, ac i gael cyngor a chymorth i fodloni deddfwriaeth amgylcheddol, a chan y manteision o ran enw da a ddaw yn sgîl ennill gwobr.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Cynghori Amgylcheddol Glannau Mersi – Cyngor a Chymorth i Ddatblygu Bioamrywiaeth

**Awdurdodau lleol Halton, Knowsley, Lerpwl, Sefton, St. Helens a Chilgwri**

Mae Gwasanaeth Cynghori Amgylcheddol Glannau Mersi (MEAS) yn wasanaeth isranbarthol, a ddarperir ar ran yr aelod-awdurdodau sef Cynghorau Halton, Knowsley, Lerpwl, Sefton, St. Helens a Chilgwri. Mae wedi'i drefnu yn 5 o dimau – tir halogedig, rheoli datblygu ac arfarniadau amgylcheddol, ecoleg, gwasanaethau cymorth, a gwastraff. Mae'r tîm ecoleg yn rhoi cymorth craidd ynglŷn â materion o ran bioamrywiaeth, yn enwedig mewn perthynas â rheoli datblygu, ond hefyd i dimau eraill ac ar draws cyfarwyddiaethau yn ôl yr angen. Mae gwasanaethau bioamrywiaeth a ddarperir gan dîm ecoleg MEAS ar ran yr aelod-awdurdodau yn cynnwys y canlynol:

- Gwneud sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â rheoli datblygu gyda sylw arbennig i rywogaethau a safleoedd a ddiogelir, rhywogaethau goresgynnol a materion ecolegol cyffredinol
- Cofnodi colledion ac enillion bioamrywiaeth sy'n codi o'r broses rheoli datblygu
- Cynnal cronfa ddata o safleoedd a rhywogaethau a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael fel gwasanaeth
- Ymateb i ymgynghoriadau ynglŷn â bioamrywiaeth a chynghori ar y ffordd y gellir sicrhau 'enillion bioamrywiaeth'. Er enghraifft, drwy osod briciau ystlumod (briciau a holltau ynddynt ar gyfer mannau clwydo ystlumod) a blychau nythu i adar.

## Astudiaeth Achos: B-LEAF – Training Towards Employment

**Grŵp Gweithredu Amgylcheddol Lleol Blyth Valley (B-LEAF), Cyngor Bwrdeistref Blyth Valley**

Mae'r prosiect B-LEAF wedi'i ddatblygu i roi cyfleoedd i bobl ddifreintiedig sy'n ceisio goresgyn dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol ymgymryd â gwaith gwirfoddol ar brosiectau bioamrywiaeth er mwyn eu helpu i gael bywyd 'arferol'. Sefydlwyd y prosiect oherwydd, er bod pob math o gymorth ar gael i helpu i oresgyn dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, nid oes cymorth ar gael i alluogi'r unigolyn i gael cyflogaeth ac integreiddio â chymdeithas. Gall hyn fod yn broblem fawr i'r grŵp hwn oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, gall y ffaith nad oes profiad gwaith na chymwysterau ganddynt a'u hanghenion o ran sgiliau sylfaenol greu rhwystrau i gyflogaeth a ffordd o fyw heb gyffuriau.

Mae'r prosiect B-LEAF yn rhoi cyfleoedd gwirfoddoli i gael profiad gwaith ar randiroedd prosiectau, ym maes rheoli coetiroedd ac ar warchodfeydd natur lleol, ac ennill cymwysterau i helpu'r unigolion hyn i gael cyflogaeth. Megis cychwyn mae'r prosiect, ond mae grŵp llywio wedi'i sefydlu â chynrychiolwyr o Dîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol (DAAT) Northumberland, Cyngor Bwrdeistref Blyth Valley, Escape Family Support, Community Matters, ac Ymddiriedolaeth Gofal Northumberland. Mae coleg amaethyddol lleol bellach wedi mynegi awydd i ddarparu cyrsiau a chymorth i gyfranogwyr, er mwyn eu galluogi i ennill cymwysterau. Caiff cysylltiadau eu meithrin â rhannau eraill o Northumberland a South Tyneside er mwyn ehangu'r gwasanaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect Wildspace Bryste

**Cyngor Dinas Bryste**

Dechreuodd Prosiect Wildspace Bryste ym mis Medi 2002, wedi'i ariannu gan gynllun grant Wildspace! English Nature a Chronfa Parciau Cynhwysol Cyngor Dinas Bryste. Y prif nod yw hyrwyddo cyfranogiad cymunedol ac addysg amgylcheddol ar warchodfeydd natur lleol Bryste. Mae gwerthusiad o'r prosiect wedi nodi ei fod wedi sicrhau manteision sylweddol i Warchodfeydd Natur Lleol Bryste a'r cymunedau o'u hamgylch, gan amlygu saith maes allweddol lle y gwnaed cynnydd:

- **Hyrwyddo cyfrifoldeb cymunedol am Warchodfeydd Natur Lleol.** Drwy ddefnogi datblygu cymunedol, mae'r prosiect wedi sicrhau nid yn unig bod pobl leol yn cymryd rhan mewn tasgau ar y safle, ond y gallant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu syniadau newydd. Mae meithrin gallu wedi bod yn gost effeithiol ac wedi annog gwirfoddolwyr i feithrin dealltwriaeth well o waith rheoli safleoedd, tra'n galluogi unigolion i ddysgu sgiliau newydd ac i gael eu grymuso.
- **Meithrin ymdeimlad o gymuned.** Gwelwyd bod Grwpiau Cymunedol yn sicrhau manteision i'w cymuned sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r gwelliannau a wnaed ar y safle.
- **Hyrwyddo manteision Gwarchodfeydd Natur Lleol o ran iechyd.** Arweiniodd y prosiect at fanteision corfforol ac iechyd meddwl i'r cyfranogwyr drwy weithgarwch corfforol, a roddodd ymdeimlad o gyflawniad a'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd hefyd. Roedd y teithiau cerdded 'Cerdded Llwybr Iechyd' yn enghreifftiau arbennig o dda o hyn ac fe'u cynhaliwyd ar bob safle Gwarchodfa Natur Leol.
- **Hyrwyddo dysgu.** Mae dysgu am fywyd gwyllt a thirwedd wrth wraidd pob digwyddiad Wildspace. Roedd y teithiau cerdded tywys, 'Owl Prowls', nosweithiau canfod ystlumod, 'Bug Hunts' a gweithgareddau yn ystod y gwyliau i blant oll yn hyrwyddo dysgu mewn ffordd bleserus, difyr a hwylus.
- **Gwella ansawdd bywyd i grwpiau difreintiedig.** Mae'r prosiect Wildspace wedi gweithio'n galed i sicrhau manteision i bobl a oedd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd a chafwyd ei fod wedi helpu i sicrhau manteision cymdeithasol gwirioneddol a gwella ansawdd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas – gan ddiwallu anghenion nas diwellir gan ddarparwyr eraill o reidrwydd.
- **Gwella Gwarchodfeydd Natur Lleol ar gyfer bywyd gwyllt a phobl.** Mae'r prosiect wedi gwella'r Gwarchodfeydd Natur Lleol drwy weithio gyda rheolwyr safleoedd, partneriaid a grwpiau cymunedol.
- **Ehangu'r rhwydwaith o Warchodfeydd Natur Lleol.** Mae'r prosiect wedi codi proffil y Gwarchodfeydd Natur Lleol ym Mryste ymhlith y cyhoedd yn sylweddol ac awgrymodd y gwerthusiad y dylid hyrwyddo'r safleoedd hyn fel prif Safleoedd o Ddiddordeb Gwarchod Natur o ran cynnwys cymunedau ac addysg amgylcheddol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: 'Ymgyrch 'Breathing Places' y BBC

**BBC**

Ym mis Mehefin 2006, lansiodd y BBC ymgyrch genedlaethol yn para am dair blynedd i ddiogelu bioamrywiaeth, mewn partneriaeth â Natural England, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Scottish Natural Heritage, a Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth Gogledd Iwerddon. Cefnogir yr ymgyrch 'Breathing Places' gan y Gronfa Loteri Fawr a'i nod yw ysbrydoli'r cyhoedd i greu mannau gwyrdd ledled y DU a gofalu amdanynt.

Mae'r ymgyrch yn gobeithio cynnwys mwy na miliwn o wirfoddolwyr i weddnewid mwy na 50,000 o safleoedd er budd bywyd gwyllt ac er mwyn i bobl eu mwynhau. Mae'r BBC wedi creu llyfryn 'Breathing Places', sydd ar gael o'i wefan www.bbc.co.uk/breathingplaces, i roi cyngor a chyfarwyddyd i unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb mewn cymryd rhan. Mae'r llyfryn yn rhoi canllaw cam wrth gam i greu 'Breathing Place' ac wedyn ei gofrestru ar wefan y BBC. Mae hefyd yn cyflwyno'r rhaglen grantiau £5 miliwn a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn awgrymu ffynonellau arian posibl eraill.

Ceir llawer o gyfleoedd i awdurdodau lleol hyrwyddo'r ymgyrch 'Breathing Places' yn lleol, gan annog cyfranogiad cymunedau a phrosiectau bioamrywiaeth yn yr ardal leol. Ceir manylion am brosiectau unigol ar y wefan, sy'n rhoi cyfle delfrydol i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau o fewn awdurdodau lleol ymhlith cynulleidfa genedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# B. Rhagor o astudiaethau achos sy'n ymddangos yn y canllawiau i awdurdodau cyhoeddus yn unig

## Astudiaeth Achos: Gweithio gyda Gwirfoddolwyr Awdurdodau Cyhoeddus

**RSPB**

Mae rhoi amser gwirfoddoli i staff gyflawni gwaith rheoli cadwraeth penodol yn ffordd i unrhyw awdurdod cyhoeddus helpu gwaith gwarchod bioamrywiaeth. Gall y math hwn o weithgarwch roi cyfleoedd ardderchog i feithrin tîm a gall roi seibiant pleserus o weithgareddau arferol. Mae'n rhoi cyswllt â'r byd naturiol ac mae'n rhoi teimlad da i'r staff eu bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i gadwraeth. Er enghraifft, helpodd grŵp o swyddfa Bedford Asiantaeth yr Amgylchedd mewn gwaith adfer rhostir a choetir yng ngwarchodfa natur y RSPB yn y Lodge ger Sandy, Swydd Bedford. Aeth y tîm ati i glirio rhedyn a symud sycamorwydd goresgynnol fel rhan o brosiect i ymestyn ardal o rostir iseldir, sef cynefin â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac sy'n brin iawn yn Swydd Bedford. Ceir astudiaeth achos o aelod o staff Cyllid y Wlad a gafodd ei secondio i'r RSPB yn 2004 i fod yn swyddog datblygu'r Prosiect Gweithwyr yn Gwirfoddoli yn:
**http://www.rspb.org.uk/volunteering/type/teamchallenges/sharonnightingale.asp**

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Datblygiad Polisi Coedwigaeth y DU

**Y Comisiwn Coedwigaeth**

Mae polisi coedwigaeth y DU wedi datblygu drwy gydol yr ugeinfed ganrif ac mae'n parhau i newid mewn ymateb i ymwybyddiaeth wleidyddol a chyhoeddus ddyfnach o faterion amgylcheddol a materion o ran cynaliadwyedd.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gwelwyd dirywiad mawr mewn adnoddau coed. Yn 1919, crëwyd y Comisiwn Coedwigaeth gan y Ddeddf Coedwigaeth, a rhoddwyd y cyfrifoldeb am goed yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon iddo. Roedd y cylch gwaith yn ymwneud â'r angen i ailadeiladu a chadw cyflenwadau strategol wrth gefn o bren a oedd yn golygu prynu ardaloedd mawr o dir amaethyddol a phlannu conwydd.

Oherwydd yr angen i fod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu bwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd cafwyd gwrthdaro uniongyrchol â'r amcan o blannu coetiroedd, a olygai fod coetiroedd yn cael eu plannu'n fwyfwy ar dir ymylol yn hytrach nag ar dir amaethyddol.

O'r 1950au daeth plannu, cymynu a marchnata pren i ddiwydiannau a ddefnyddiai goed yn rhan gynyddol bwysig o waith y Comisiwn Coedwigaeth. Nid tan y 1970au y rhoddwyd mwy o bwys ar faterion cadwraeth ac amwynder drwy dirlunio a phlannu mwy o goed llydanddail brodorol.

## Astudiaeth Achos: Datblygiad Polisi Coedwigaeth y DU (parhad)

Erbyn y 1990au, roedd cylch gwaith y Comisiwn Coedwigaeth wedi datblygu i gynnwys hyrwyddo a chynnal coedwigaeth amlbwrpas, gyda chymhellion i dirfeddianwyr ar ffurf dyfarndaliadau, cynlluniau grantiau a Chynlluniau Dylunio Coedwigaeth er mwyn cydbwyso gofynion masnachol â hamdden a chadwraeth.

Cynhwysir y polisi presennol o ran coedwigaeth yn Strategaeth Goedwigaeth Lloegr 'A New Focus for England's Woodlands' (Y Comisiwn Coedwigaeth, 1998)

**http://www.forestry.gov.uk/efs**

Nodir gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer coetiroedd brodorol a hynafol Lloegr yn natganiad polisi Defra a'r Comisiwn Coedwigaeth 'Keepers of Time

**http://www.forestry.gov.uk/website/pdf.nsf/pdf/anw-policy.pdf/$FILE/anw-policy.pdf**

Nodir polisi Cymru o ran coedwigaeth yn Strategaeth Goedwigaeth Cymru 'Coetiroedd i Gymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001)

**http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5nlkt7**

Ym mis Mai 2006, lansiodd Defra ymgynghoriad ar lunio strategaeth newydd ar gyfer coed a choedwigoedd Lloegr. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Awst 2006.

**http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/forestry-strategy/index.htm**

Nododd yr ymgynghoriad fod angen dod â pholisi ym maes coedwigaeth at ei gilydd o fewn yr agenda datblygu cynaliadwy ehangach. Mae hyn yn golygu mwy o gydnabyddiaeth i'r cyfraniad y gall coed a choedwigoedd ei wneud i'r amgylchedd e.e. drwy liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, i les cymdeithasol e.e. drwy sicrhau'r manteision mwyaf o ran iechyd a chynaliadwyedd economaidd e.e. drwy alinio cymorth grant â sicrhau manteision i'r cyhoedd. Ystyrir bioamrywiaeth yn un o'r blaenoriaethau amgylcheddol allweddol bellach. Disgwylir i'r Strategaeth newydd gael ei chyhoeddi yn ystod haf 2007.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Pecyn Cymorth Datblygu Cynaliadwy Dwyrain Lloegr

**Cynulliad Rhanbarthol Dwyrain Lloegr a Bord Gron Datblygu Cynaliadwy Dwyrain Lloegr**

Gwegyswllt: **http://www.toolkit-east.org.uk/**

Datblygwyd Pecyn Cymorth Dwyrain Lloegr gan Ganolfan Datblygu Economaidd ac Amgylcheddol y DU (UK CEED) ar ran y Cynulliad Rhanbarthol, Asiantaeth Datblygu Dwyrain Lloegr (EEDA) a Swyddfa'r Llywodraeth dros Ddwyrain Lloegr (GO-East).

Ei ddiben yw amlygu effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol polisïau, cynigion datblygu a mentrau newydd eraill yn y Rhanbarth a rhoi gwybodaeth a all helpu i'w gwella. Mae gan y Pecyn Cymorth rôl ganolog o ran helpu partneriaid i ddatblygu'r Strategaeth Ranbarthol Integredig.

Mae'r Pecyn Cymorth yn rhoi rhestr wirio ar-lein yn erbyn amcanion y Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhanbarthol. Ar gyfer pob amcan, mae'n rhaid i'r aseswr benderfynu a fydd polisi neu fenter yn cael effaith gadarnhaol iawn, ychydig yn gadarnhaol, niwtral neu gymysg, ychydig yn negyddol neu negyddol iawn.

Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys adran ar Wella Bioamrywiaeth a'r Dirwedd, sy'n gofyn cyfres o gwestiynau:

- A fydd yn annog mwy o fioamrywiaeth?
- A fydd yn creu unrhyw gynefinoedd/safleoedd bywyd gwyllt newydd?
- A fydd yn diogelu ac yn gwella cynefinoedd a safleoedd bywyd gwyllt sy'n bodoli eisoes?
- A fydd yn helpu i ddiogelu unrhyw rywogaethau sydd mewn perygl?
- A fydd yn helpu i ddiogelu unrhyw SoDdGA a safleoedd dynodedig eraill?

Ystyrir bioamrywiaeth mewn adrannau eraill o'r pecyn cymorth hefyd, er enghraifft, wrth ystyried effaith y fenter ar amaethyddiaeth. Mae'r gyfres o gwestiynau o dan bob amcan yn rhestr wirio ac yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a fydd yn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf ar fioamrywiaeth ac yn lleihau'r effeithiau negyddol. Mae'r Pecyn Cymorth yn cysylltu ag ystod o wybodaeth am gynefinoedd a bywyd gwyllt, gan gynnwys gofynion polisïau allweddol ac enghreifftiau o arferion da a'r angen i warchod rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth a nodir mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Asiantaeth Priffyrdd

**Yr Asiantaeth Priffyrdd**

Gwegyswllt: **http://www.highways.gov.uk/aboutus/1153.aspx**

Mae'r tir y mae'r Asiantaeth Priffyrdd yn berchen arno rhwng ffensys priffyrdd ond nid oes ffordd arno, sef yr ystad feddal fel y'i gelwir, yn adnodd a rhwydwaith cynefinoedd sylweddol i fioamrywiaeth. Ar hyn o bryd, arwynebedd yr ystad feddal yw 30,000 o hectarau. Mae'n cynnwys ystod eang o gynefinoedd, yn arbennig glaswelltir, prysgwydd a choetir yn agos at ffyrdd, ond hefyd ardaloedd mwy o gynefinoedd eraill megis rhostir, clogwyni a gwlyptiroedd.

Prif nod Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Asiantaeth Priffyrdd yw ategu nod yr Asiantaeth o warchod a, lle y bo'n bosibl, gwella bioamrywiaeth. Ategir hyn gan amcanion penodol i:

- Ddarparu cynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n berthnasol ac yn briodol i'r rhwydwaith ac i waith yr Asiantaeth, gan gynnwys rhai y mae sefydliadau cadwraeth cenedlaethol a rhanbarthol yn gofyn amdanynt;
- Pennu camau gweithredu a thargedau ymarferol a realistig fel y gellir sicrhau bod yr Asiantaeth yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i fioamrywiaeth;
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwaith bioamrywiaeth ymhlith staff a chontractwyr yr Asiantaeth, ei phartneriaeth amgylcheddol, a'r cyhoedd.

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Asiantaeth Priffyrdd gan Bartneriaeth o randdeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys English Nature, RSPB, Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra, Asiantaeth Cefn Gwlad, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Fforwm Ansawdd Aer Cenedlaethol yn ogystal â'r Asiantaeth Priffyrdd ei hun. Roedd hyn yn golygu proses o adolygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, rhanbarthol a lleol o ran eu cyfeiriadau at ffyrdd, er mwyn canfod pa rywogaethau a chynefinoedd a allai godi o fewn ystad feddal yr Asiantaeth Priffyrdd, a pha rai y mae datblygu ffyrdd newydd yn debygol o'u peryglu fwyaf.

Mae cynlluniau gweithredu a thargedau wedi'u datblygu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau unigol, a chaiff y cynnydd a wneir tuag atynt ei fesur gan ddefnyddio Dangosyddion Cynnydd Allweddol. Cânt eu gweithredu mewn tair ffordd:

- Arferion rheoli lleiniau ymyl ffordd lleol, gan gynnwys defnyddio Strategaethau Rheoli Llwybrau a Chynlluniau Rheoli Amgylcheddol;
- Gwaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau adeiladau, cynnal a chadw a gwella ffyrdd;
- Prosiectau gwarchod bioamrywiaeth penodol mewn lleoliadau dewisol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

## Astudiaeth Achos: Caffael Cynaliadwy yn Heddlu Gogledd Cymru

**Gwegyswllt: http://www.north-wales.police.uk**

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu polisïau a strategaethau amgylcheddol a datblygu cynaliadwy fel rhan o'i ymdrechion i leihau effeithiau gweithredol ar y gymuned leol ac fel ymrwymiad i'r dyfodol. Fel rhan o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn, prif amcan yr Adran Gaffael yw ystyried cost bywyd cyfan, effeithlonrwydd ynni a goblygiadau gwaredu'r holl nwyddau a gwasanaethau y mae'n eu caffael.

Mae dogfen fewnol, o'r enw *Environmental Purchasing Guide*, wedi'i chynhyrchu gyda'r nod o hyrwyddo ymwybyddiaeth y staff o ddeddfwriaeth bresennol a chynnig cyngor mewn meysydd megis:

- Costau Cylch Bywyd Cyfan – gan gynnwys cynnal a chadw, y defnydd o ynni a gwaredu.
- Eco-labeli – logo a roddir i weithgynhyrchwyr a all brofi y caiff eu cynhyrchion lai o effaith ar yr amgylchedd, gan ddylanwadu ar y farchnad defnyddwyr.
- Effeithlonrwydd Ynni – Dylai pob nwydd trydanol a nwydd gwyn fod wedi cael gradd A+ er mwyn sicrhau ei fod mor effeithlon â phosibl yn ei amgylchedd gwaith

Gwneir ymdrechion ymarferol i ddylanwadu ar newid drwy weithredu treialon o gynhyrchion wedi'u hailgylchu, trafod amserlenni dosbarthu a lleihau pecynnu â chyflenwyr a cheisio cael gafael ar ddodrefn o goedwigoedd a reolir. Mae'r adran hefyd yn treialu system e-Dendro a Chardiau Caffael er mwyn ceisio lleihau papur a symleiddio prosesau.

Mae gan ddogfennaeth dendro bellach gymal yn ymwneud â chynaliadwyedd a moeseg a gaiff ei bwysoli a'i werthuso wrth i gyflenwyr ddychwelyd eu cyflwyniadau tendro. Yn ogystal, mae'r adran wedi cydweithio'n agos â'r Adran Rheoli Cyfleusterau ac wedi cyfrannu at ofynion y System Rheoli Amgylcheddol a oedd yn allweddol o ran sicrhau mai Heddlu Gogledd Cymru oedd yr Heddlu cyntaf yng Nghymru i gyflawni Lefel 5 y Ddraig Werdd.

Cafodd yr Adran Gaffael ei hachredu gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi yn ddiweddar am ei dogfennaeth a'i gweithdrefnau. Bydd hyn yn helpu'r adran i godi ymwybyddiaeth yn fewnol ymhellach a hyrwyddo arferion da mewn perthynas â chynaliadwyedd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli'r Ystad Amddiffyn o ran Bioamrywiaeth

### Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn un o'r tirfeddianwyr mwyaf yn y DU a pherchennog cyhoeddus mwyaf safleoedd gwarchod natur dynodedig. Mae'r angen i roi hyfforddiant realistig ar dir heriol a garw mewn nifer o amgylcheddau gwahanol yn golygu bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am rai o'r ardaloedd mwyaf gwyllt ac anghysbell ym Mhrydain. Mae sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn amrywio o ran maint o adeiladau unigol i ardaloedd helaeth o dir, a'r mwyaf yw'r Ystad Hyfforddiant Amddiffyn ar Wastadedd Caersallog, sy'n ymestyn dros 38,000 o hectarau. O'r cynefinoedd a'r rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, mae 37 o gynefinoedd a 139 o rywogaethau ar yr Ystad Amddiffyn. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am reoli 175 o SoDdGA, gan gynnwys dros 130 â dynodiadau gwarchod natur rhyngwladol ac Ewropeaidd, yn ogystal â llawer o safleoedd sy'n bwysig yn lleol. Er mwyn ategu'r dynodiadau a'r ymrwymiadau statudol hyn, mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sawl menter a dull rheoli. Er enghraifft:

- Mae Datganiad Strategol Bioamrywiaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar sy'n amlinellu amcanion strategol o ran bioamrywiaeth â thargedau a dangosyddion perfformiad cysylltiedig. Cynhyrchwyd y Datganiad yn bennaf mewn ymateb i dargedau bioamrywiaeth y Llywodraeth o dan yr agenda Datblygu Cynaliadwy ar Ystad y Llywodraeth, a rhoddodd gyfle i amlinellu rhwymedigaethau gwarchod bioamrywiaeth ehangach y Weinyddiaeth Amddiffyn[1].
- Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi polisi a chanllawiau mewnol ar warchod bioamrywiaeth yng Nghyhoeddiad Gwasanaethau ar y Cyd 362.
- Sefydlwyd Prosiect Cyflwr Ffafriol SoDdGA i ategu targed Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus y Llywodraeth ar gyflwr SoDdGA. Mae tua £5 miliwn wedi'i fuddsoddi i wella'r 175 o SoDdGA ar ystad y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wrthi'n cynnal archwiliad o'r ystad i wella dealltwriaeth o'r budd bioamrywiaeth a lle y gall ategu rhwymedigaethau cadwraeth, gan gynnwys targedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.
- Mae hierarchaeth o ddulliau arfarnu a chanllawiau ar eu defnyddio wedi'u datblygu er mwyn sicrhau yr ystyrir rhwymedigaethau at fioamrywiaeth ac amcanion datblygu cynaliadwy ehangach ar gam cynnar yn y broses o gynllunio polisïau a phrosiectau.
- Ystyrir bioamrywiaeth yn rhan o System Rheoli Amgylcheddol safle. Lle y ceir budd bioamrywiaeth mawr, datblygir cynllun rheoli integredig.
- Mae cyngor mewnol ar gael drwy Dîm Cymorth Amgylcheddol arbenigol o fewn Ystadau Amddiffyn.
- Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fwy na 120 o Grwpiau Cadwraeth gwirfoddol ledled y DU, yn cynnwys personél y Weinyddiaeth Amddiffyn, arbenigwyr lleol eraill a gwirfoddolwyr, sy'n gwneud gwaith rheolaidd i fonitro a gwella gwerth yr ystad o ran bywyd gwyllt.

[1] http://www.mod.uk/NR/rdonlyres/562E434A-ABBA-4FB2-8986-2ADC82EEB789/0/BiodiversityStratgicStatement.pdf

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli'r Ystad Amddiffyn o ran Bioamrywiaeth (parhad)

- Mae gan y Weinyddiaeth sawl Corff Cyhoeddus Anadrannol sydd wedi'u hysbysu o'r Ddyletswydd newydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a'r angen i integreiddio bioamrywiaeth yn eu dulliau rheoli ac adolygu, a bod cymorth ar gael yn y Weinyddiaeth Amddiffyn a Defra os bydd ei angen.
- Ceir enghreifftiau o brosiectau diweddar yng Nghylchgrawn Cadwraeth y Weinyddiaeth Amddiffyn *Sanctuary*[2] ac maent yn cynnwys adfer rhos sy'n SoDdGA ar arfordir Cernyw, integreiddio gwaith rheoli cadwraeth gweundir grug â gweithrediadau milwrol yng Ngogledd Swydd Efrog, cyfrannu at wella afonydd Wysg a Gwy, rheoli prsygwydd ar laswelltir sy'n SoDdGA ym Maes Tanio Castlemartin, astudio planhigion a symudiadau twyni tywod yn Braunton Burrows, a chymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth o garsiynau ar Ynys Cyprus ac Ynys y Dyrchafael.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

[2] http://www.defence-estates.mod.uk/publications/sanctuary/sanctuary2006.pdf

## Astudiaeth Achos: Cynnal a Chadw Tiroedd o ran Bioamrywiaeth

**Y Swyddfa Batentau**

Cysylltodd y Swyddfa Batentau â Gweithredu Cymunedol dros Fywyd Gwyllt yng Nghasnewydd a'r Swyddog Bioamrywiaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd i geisio cyngor ar sut y gallai'r gwaith o gynnal a chadw'r tiroedd ar ei safle fod o fudd i fioamrywiaeth. O ganlyniad, mae amryw fentrau wedi'u gweithredu gan gynnwys:

- Darparu blychau i ystlumod ac adar
- Defnyddio planhigion brodorol mewn ierdydd a borderi
- Gadael rhai ardaloedd glaswellt heb eu torri er mwyn cael dolydd bach i ddatblygu
- Hau hadau blodau gwyllt ar hyd ffensys wrth ymyl y ffordd
- Cynnal a chadw a diogelu coed ar hyd perimedr y safle, gan geisio cyngor gan Swyddog Cadw Coed y Cyngor.

Mae'r contract cynnal a chadw tiroedd bellach yn rhagnodi'r canlynol:

- Defnyddio deunyddiau sy'n gwella'r pridd sy'n deillio o brosesu neu ailddefnyddio gwastraff organig megis rhisgl coconyt, gwrtaith, deilbridd a mân ddarnau o risgl yn lle deunyddiau adnewyddadwy araf;
- Mae'r contractwr yn gwneud defnydd llawn o'r ardal gompostio, gan gompostio lle bynnag y bo'n bosibl a chan ddefnyddio'r compost a gynhyrchir;
- Dylid osgoi gwrtaith artiffisial a defnyddio gwrtaith a gwrtaith gwyrdd yn ei le;
- Dylid osgoi plaladdwyr, chwynladdwyr a ffwngladdwyr.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Diogelu Rhywogaethau ar Safleoedd yr Heddlu

**Heddlu Gogledd Cymru**

***Madfallod Dŵr Cribog***

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio pedwar safle ym Mharc Busnes Llanelwy, a'r mwyaf yw Pencadlys y Rhanbarth Canolog â dalfa o 32 o gelloedd, sy'n cwmpasu 9500m$^2$. Ffermdir oedd y tir ym Mharc Busnes Llanelwy yn wreiddiol. Darganfuwyd Madfallod Dŵr Cribog ar y safle pan gafodd y tir ei ddatblygu. Er mwyn diogelu'r anifeiliaid hyn, symudwyd hwy gan Heddlu Gogledd Cymru i gae cyfagos gan sicrhau nad oeddent yn symud yn ôl yn ystod y cam adeiladu, drwy godi ffens rhag madfallod dŵr o amgylch ffin y safle, a gafodd ei harchwilio bob dydd i gadarnhau ei bod yn gyfan. Dyluniwyd y gwaith peirianneg sifil i alluogi'r amffibiaid i barhau i fyw ar y safle, ac roedd yn cynnwys rhoi pwll dŵr croyw ar y safle. Caiff nifer y Madfallod Dŵr Cribog ei monitro a'i hasesu'n rheolaidd, ac ymddengys fod y pwll yn gynefin addawol. Mae Heddlu Gogledd Cymru bob amser yn ystyried yr effeithiau posibl ar y Madfallod Dŵr Cribog wrth gynllunio gwaith datblygu a gwaith cynnal a chadw'r tiroedd ar unrhyw un o'i safleoedd ar y Parc Busnes, gan geisio cyngor gan ymgynghorwyr ecolegol lle y bo angen.

***Moch Daear***

Ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn ceir adeilad yn y tiroedd o enw Llety'r Dryw, y mae coetir o boptu iddo (sydd â Gorchmynion Gwarchod Coed). O fewn y coetir hwn, ceir daear moch daear, a fu yno ers 1969. Yn 2002, roedd angen gwaith ym maes parcio Llety'r Dryw. Roedd y gwaith yn golygu defnyddio peiriannau o fewn 30m i fynedfa'r ddaear. Ymgynghorwyd â Grŵp Moch Daear Clwyd a ymwelodd â'r safle a rhoi cyfarwyddyd. Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru gais i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am drwydded i weithio ger daear moch daear, gyda'r gwaith yn cael ei oruchwylio. Fel rhan o'r gwaith, codwyd 'ffens diogelu moch daear' i atal parcio ar y llethr glaswelltog yn arwain at y ddaear yn y dyfodol. Erbyn hyn, pan fydd angen unrhyw waith cynnal a chadw tiroedd ar y safle, dygir y ddaear moch daear i sylw'r contractwyr a chaiff y gwaith ei oruchwylio.

***Hebogiaid Tramor***

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi llwyddo i roi blychau nythu i hebogiaid tramor yn ei Bencadlys Heddlu Rhanbarthol yn Wrecsam.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli Tir Cwmnïau Dŵr o ran Bioamrywiaeth

**Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus Dŵr**

Mae'r cwmnïau dŵr wedi'u preifateiddio yn dirfeddianwyr mawr, ac mae eu hystadau yn cwmpasu nifer fawr o gynefinoedd mewn dalgylchoedd dŵr, yn ogystal â chronfeydd dŵr, gwlyptiroedd, cyrsiau dŵr a thir ger gwaith trin dŵr a dŵr gwastraff. Ceir enghreifftiau niferus o gamau gweithredu yn cael eu cymryd gan gwmnïau dŵr er budd bioamrywiaeth ar eu tir, ac ymhlith yr enghreifftiau hyn mae'r canlynol:

Northumbrian Water ac Essex & Suffolk Water:

- Ailddefnyddio gwastraff yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Howdon i greu gwlyptir
- Creu cynefin penodol ar gyfer llygod dŵr yng Ngwaith Trin Dŵr Dyffryn Wear
- Defnyddio gwastraff gwyrdd wedi'i gompostio lleol yn lle pridd uchaf i greu glaswelltir blodau gwyllt yng Ngwaith Trin Dŵr Whittle Dene
- Dylunio gwelyau cyrs trin i gynnwys bioamrywiaeth yng Ngwely Cyrs Lamesley ger Birtley
- Gweithio gydag Ymddiriedolaethau Natur lleol i wella tir er bioamrywiaeth, gan ganolbwyntio'n flynyddol ar rywogaeth neu gynefin penodol (gan gynnwys, yn ddiweddar, glaswelltir, ystlumod a choetir)
- Cynllun 'Just an Hour' i alluogi staff i gyfrannu gwerth ag awr o waith gwirfoddol y mis, gan gynnwys gwaith cadwraeth i adeiladu rafftiau dyfrgwn, clirio prysgwydd a phyllau, plannu coed.
- Dylunio gwaith tirlunio ar gyfer swyddfeydd newydd er budd bioamrywiaeth.

Severn Trent Water:

- Creu cynefin ac adfer gorlifdir yn Aston Hall Farm
- Creu gwlyptir yn Nyffryn Trent
- Gwella cynefinoedd yn Knobbs Farm a Stoke Bardolph Farm
- Creu a rheoli dolydd blodau gwyllt yn safleoedd Severn Trent Water
- Adfer a rheoli gwely cyrs, gwlyptir, llyn a choetir yn Witches Oak Waters
- Ailgyflwyno grugieir du i Ddyffryn Derwent Uchaf
- Ailgyflwyno llygod dŵr yng Ngwaith Trin Carthion Netheridge
- Prosiect Golfanod y Mynydd.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli Tir Cwmnïau Dŵr o ran Bioamrywiaeth (parhad)

Thames Water

- Archwilio daliadau tir mwy er mwyn cadarnhau eu budd bioamrywiaeth a defnyddio'r data hwn i lywio'r busnes o ran diogelu'r budd bioamrywiaeth drwy Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a chynnal a chadw tiroedd.
- Datblygu Canolfan Gwlyptir Llundain yn Barnes, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlyptiroedd.
- Rheoli cadwraeth mewn llawer o safleoedd gan gynnwys: Corsydd Crossness; Gwarchodfa Natur Kempton; y dolydd yng Nghronfa Ddŵr Farmoor; Pwll Melin Bracknell; Gwlyptiroedd Bicester, Godalming a Swindon; Rye Meads; Kings Mead ac Afon Kennet.
- Noddi prosiectau llygod dŵr, adar y bwn, môr-wenoliaid, golfanod y mynydd, tylluanod gwyn, hebogiaid tramor, rhedwyr y moelydd ac ymchwil ar adar dŵr gan ddefnyddio Ardal Gwarchodaeth Arbennig De-orllewin Llundain.

## Astudiaeth Achos: Fferm Carchar Prescoed

**Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar Prescoed**

Hwn yw'r unig garchar sy'n cynnwys fferm yng Nghymru. Mae'n cynnwys Safle Arbennig o Ddiddordeb Archeolegol, coetir a ardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'n cynnal nifer o rywogaethau pwysig, gan gynnwys madfallod dŵr cribog, moch daear, tylluanod gwyn, pathewod a phum rhywogaeth wahanol o ystlumod.

Mae fferm y carchar o fewn cynllun amaeth-amgylchedd Tir Gofal, sy'n ei gwneud yn bosibl i'w rheoli gan ystyried bywyd gwyllt. Yn sgîl cyflwyno Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Gwasanaeth Carchardai ym Mhrescoed yn ddiweddar, amlygwyd y gweithrediadau o ran y gwaith maes ar y fferm a'i botensial i annog adar tir ffermio megis y gornchwiglen, y dylluan wen a choch y berllan. Lluniwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r rhywogaethau hyn gan ymgorffori'r newid o gnydio âr yn y rhaglen moderneiddio ffermydd i fwyd a phorthiant anifeiliaid i gynnal ei buches odro. Mae rhaglen fonitro wedi'i sefydlu ac mae'r fferm bellach wedi cofnodi o leiaf bum pâr bridio o gornchwiglen, sef rhywogaeth nas cofnodwyd gynt ar y safle.

Mae blychau tylluanod gwyn bellach wedi'u codi ar y fferm, a, gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Hebogiaid a Thylluanod, mae ardaloedd o laswellt bras hir wedi'u gadael i gael mwy o famaliaid bach megis llygod dŵr, llygod coch a mathau eraill o lygod, sef prif borthiant tylluanod gwyn. Cofnodir tylluanod gwyn yn gynyddol yn y cyffiniau a disgwylir iddynt fridio ar y safle yn y dyfodol agos. Mae prosiect diweddar yn canolbwyntio ar adfer cynefinoedd gwlyptir ar ymyl y coetiroedd o fudd i'r boblogaeth leol o fadfallod dŵr cribog.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli Glaswelltir yr Ystad

**Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Yn 2002, cychwynnodd Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar brosiect ar y cyd i fabwysiadu cyfundrefn reoli a oedd yn fwy 'ystyriol o fioamrywiaeth' ar gyfer yr ardal o laswelltir o flaen Pencadlys yr Heddlu, y mae'r Cyngor yn berchen ar ran ohoni ac y mae'r Heddlu yn berchen ar y rhan arall. O'r blaen, roedd y gwaith rheoli'r glaswelltir wedi cynnwys ei dorri bob wythnos am y 30 blynedd diwethaf.

Rhannwyd y safle yn dair rhan wahanol, a reolir yn wahanol i gynyddu amrywiaeth; pwll bywyd gwyllt a chors, dôl blodau gwyllt ac ardal wedi'i phlannu â blodau tymhorol – cyfanswm arwynebedd o tua 18,000m$^2$. Dynodwyd y safle o dan adran Mannau Gwyrdd Trefol – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy. Codwyd arwyddion o amgylch perimedr y safle i egluro i'r cyhoedd yr hyn a oedd yn digwydd.

Ar ôl rhoi'r gorau i dorri'r glaswellt yn ystod gwanwyn a haf 2003, cofnodwyd yr arolwg 'sylfaenol' 79 o rywogaethau o blanhigion. Roedd pob un ohonynt yn gyffredin ac ar gael yn helaeth ac eithrio'r frwynen hybrid Juncus x kern-reichgeltii a Mandon Las yr ŷd Sherardia arvensis, sef planhigyn âr sydd wedi prinhau'n sylweddol yn genedlaethol ac nad yw'n gyffredin yng Ngogledd Cymru. Roedd nythfa fach o Leision Cyffredin newydd ei sefydlu, yn ôl pob golwg, lle mae'r planhigyn y mae'n ei fwyta (Pys y Ceirw) yn tyfu – rhywogaeth o blanhigyn na allai dyfu yn ystod y gyfundrefn dorri wythnosol flaenorol. Gwelwyd llawer mwy o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar draws y safle hefyd.

Cytunwyd ar Gynllun Rheoli ffurfiol rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2004 a rhoddwyd 'cyfundrefn torri dolydd' ar waith lle y caiff y glaswellt ei dorri bob mis Mawrth a mis Awst bellach. Symudir y toriadau glaswellt i ddepo compost Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r gost o dorri'r glaswellt ar y safle bob wythnos wedi'i lleihau'n sylweddol, a defnyddir yr arbedion o ran cost i ariannu arolygon o'r safle a gwaith rheoli. Cofnodwyd tair rhywogaeth o degeirian – tegeirian bera, tegeirian brych a thegeirian gwenynog – yn 2006.

Wynebodd y prosiect broblemau mawr ar y cychwyn, gan ysgogi dadleuon ymhlith y cyhoedd ar y sail na chafodd y safle ei reoli'n ddigonol ac nad oedd yn daclus, a dyfynnwyd un cynghorydd lleol yn y wasg yn cyfeirio at y safle fel "jyngl". Arweiniodd hyn at ymdrechion mawr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o nodau'r prosiect ac ymdrin â chanfyddiadau'r cyhoedd ynghylch y safle. Derbynnir yn eang bellach fod y gyfundrefn reoli newydd wedi gwneud y safle yn fwy deniadol a diddorol, ac roedd y prosiect yn ffactor pwysig o ran achredu'r safle yn safle Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, ac roedd hefyd yn rhan o gyflwyniad Tref yn ei Blodau Hen Golwyn yn 2006.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Canolfan Ymwelwyr Nant yr Arian

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

Yn ddiweddar, cododd y Comisiwn Coedwigaeth adeilad gwyrdd newydd yn lle ei ganolfan ymwelwyr yn Nant yr Arian. Mae'r ganolfan yn cynnwys nifer o nodweddion cynaliadwy, gan gynnwys "to gwyrdd byw", casglu dŵr glaw a ailddefnyddir yn y toiledau ac i olchi beiciau, defnyddio papur newydd wedi'i ailgylchu fel deunydd insiwleiddio, system toiledau compostio a system wresogi tanwydd coed. Yn ogystal, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn casglu sbwriel o'r biniau o amgylch y safle bob dydd gan ddidoli unrhyw ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, megis papur, tuniau, poteli plastig a chardbord, cyn mynd â hwy i'r ganolfan ailgylchu. Mae hyn yn lleihau costau casglu gwastraff yn sylweddol ac yn sicrhau na waredir llawer o ddeunyddiau defnyddiol mewn safleoedd tirlenwi.

Ymhlith cyfleusterau newydd y ganolfan mae cawodydd, teras mawr yn edrych dros y llyn, ffwrn sy'n llosgi coed yn y caffi/bwyty, mwy o seddau i gwsmeriaid, cae antur newydd a lle chwarae i blant bach a dulliau dehongli a gwybodaeth well am nodweddion y goedwig sydd o ddiddordeb.

Mae'r hen ganolfan ymwelwyr wedi'i hymgorffori yn y ganolfan newydd i'w defnyddio fel ystafell ddosbarth amgylcheddol a bwriedir canolbwyntio'n fwy ar dwristiaeth addysgol. Ceir cuddfan drionglog newydd ac anarferol i wylio barcudiaid.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Inspired! yn Amgueddfa Wyddoniaeth Swindon

**Yr Amgueddfa Wyddoniaeth**

Mae Inspired yn dangos sut y gellir dylunio datblygiadau adeiledig i ymgorffori bioamrywiaeth er mwyn helpu i gael caniatâd cynllunio amlinellol. Athroniaeth yr Amgueddfa Wyddoniaeth yw nad yw gofynion amgylcheddol yn faich, ond y gallant arwain at fanteision sy'n lleihau risg ac yn ychwanegu gwerth.

Y safle yw'r storfa eitemau mawr i gasgliadau'r Amgueddfa Wyddoniaeth ac mae dros 18,000 o eitemau yno. Mae hefyd yn storio 200,000 o eitemau llai eraill, gan mai dim ond 5% o'r casgliadau a arddangosir ar unrhyw adeg. Mae'r safle yn cwmpasu 220 o hectarau o dir ffermio, coetir a tharmac. Nod Inspired! yw gwella'r dirwedd a chreu cyfleoedd newydd i ennyn diddordeb pobl mewn gwyddoniaeth.

Bydd Inspired yn cadw'r casgliadau mewn cyfleuster pwrpasol, bydd ynddo'i hun yn enghraifft o ddatblygu cynaliadwy sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd o'i gwmpas yn dda. Ymhlith yr enghreifftiau o welliannau ym maes bioamrywiaeth mae:

- Coetir 160 o erwau ar batrwm SoDdGA cydffiniol, sef Clouts Wood
- Dôl sialc 100 o erwau â gwlithbyllau
- Plannu chwe chilometr o wrychoedd
- Symud rhedfeydd a lloriau caled
- Fferm organig 80 o hectarau yn cyflenwi caffis
- 20 o hectarau o gaeau yn lluosogi hadau a choedlan cylchdro byr.
- Gwella cynefinoedd
- To Gwyrdd a chynefinoedd eraill yn gysylltiedig ag adeiladau
- Arolygu a monitro cyn, yn ystod ac ar ôl y cam adeiladu

Bu'r cyflawniadau hyd yma yn amrywiol, yn amrywio o osod blychau i ystlumod a thylluanod i weithio â throseddwyr ifanc i greu coetiroedd. Mae gwella'r amgylchedd naturiol yn arwain at lawer o fanteision, gan gynnwys helpu i gael caniatâd cynllunio amlinellol ac arian.

**www.sciencemuseumswindon.org.uk**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect 'Just an Hour'

**Northumbrian Water ac Essex & Suffolk Water**

Mae 'Just an Hour' yn brosiect a gaiff ei redeg gan Northumbrian Water ac Essex & Suffolk Water lle yr anogir pob aelod o staff i ddefnyddio hyd at awr y mis (neu ddau ddiwrnod y flwyddyn) i gymryd rhan mewn gwaith cymunedol neu waith cadwraeth. Mae hyn yn galluogi'r sefydliadau hyn i weithio tuag at gyflawni eu targedau bioamrywiaeth, ac mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o faterion o ran bioamrywiaeth ymhlith y staff a'r gymuned leol.

Ymhlith y prosiectau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth mae:

- Clirio pyllau
- Arolwg o bathewod
- Difa rhywogaethau goresgynnol megis llysiau'r gingroen a chlirio dail y gron
- Gwneud a chodi blychau nythu adar
- Plannu coed
- Clirio prysgwydd a bondocio – ar warchodfeydd natur a SoDdGA
- Datblygu ardaloedd bywyd gwyllt a mannau tyfu llysiau gydag ysgolion lleol
- Creu gerddi sych gyda chanolfan siopa leol
- Adeiladu gwâl i ddyfrgwn
- Adeiladu pyramid i chwilod corniog
- Plannu meryw
- Torri brwyn

Mae 'Just an Hour' yn rhoi cyfle i'r staff weld a dysgu mwy am y safleoedd y mae'r cwmnïau dŵr yn berchen arnynt a'r ardaloedd ehangach lle y maent yn gweithio ac yn rhoi cyfleoedd i gynnwys y gymuned leol mewn gwaith gwarchod bioamrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cynnwys y Staff, y Carcharorion a'r Gymuned mewn Prosiectau Bioamrywiaeth

### Gwasanaeth Carchardai EM

Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn cydnabod mai dim ond drwy gefnogaeth frwd gan ei staff, ei bartneriaeth ganolog a'i bartneriaid lleol y gall gyflawni'r camau gweithredu a'r targedau a bennwyd ganddo ym maes bioamrywiaeth. Drwy annog staff a charcharorion i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fioamrywiaeth yn ei ystad, a thrwy brosiectau cymunedol lleol, gall y Gwasanaeth ehangu ei agenda effeithiau cymdeithasol datblygu cynaliadwy.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai o'r farn y dylai fod gan bob aelod o'r gymdeithas fynediad i fannau gwyrdd a'r byd naturiol er mwynhad, addysg a lles. Mae amrywiaeth biolegol natur yn parhau i roi mwynhad cyson i bobl. Nod y Gwasanaeth Carchardai yw adeiladu ar ei lwyddiannau yn y gorffennol yn y maes hwn er mwyn helpu i feithrin cysylltiadau agosach â throseddwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y gymuned leol yn hyrwyddo ac yn diogelu bioamrywiaeth. Bydd creu partneriaethau newydd a mentrau lleol yn helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Gwasanaeth Carchardai ac ymdrin â materion cymdeithasol pwysig eraill, megis rhoi sgiliau swyddi trosglwyddadwy i garcharorion. Yn ogystal, mae annog grwpiau a chymunedau lleol i weithio gyda charchardai a charcharorion nid yn unig yn cefnogi'r cymunedau a'r prosiectau cymunedol hynny, ond mae'n annog gwaith tuag at Gyfiawnder Adferol.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn anelu at:

- Greu cyfleoedd i droseddwyr unigol a'r gymuned ddod i gysylltiad â natur a bywyd gwyllt mewn amgylcheddau gwledig, trefol a chanol dinas
- Sicrhau bod ei ystad ar gael i gynulleidfa eang (lle y bo'n ymarferol ac yn ddarostyngedig i anghenion gweithredol)
- Cynyddu'r cyfleoedd ym maes gwarchod natur a diogelu bywyd gwyllt drwy ddatblygu gweithgareddau sy'n bleserus ac yn cynnwys staff a charcharorion fel ei gilydd
- Cynyddu'r cyfleoedd i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau ac arbenigedd personol
- Galluogi staff a charcharorion i ystyried a gwella cynaliadwyedd eu dewisiadau bywyd bob dydd a sut y maent yn effeithio ar fioamrywiaeth a'r gymuned y tu allan
- Ceisio sicrhau y caiff hawliau tramwy eu rheoli a'u cynnal a'u cadw gan ystyried bioamrywiaeth, lle y maent yn croesi ystad y Gwasanaeth Carchardai.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Addysg a Chodi Ymwybyddiaeth yn Kew

**Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew**

Gerddi Botaneg Brenhinol Kew yw sefydliad gwyddor planhigion mwyaf blaenllaw'r byd. Mae addysg wrth wraidd y gwaith yn Kew, sy'n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol ledled y byd ac yn cyfleu'r neges bod planhigion yn hollbwysig i bob un ohonom ac i'r blaned i'r 1.9 miliwn o ymwelwyr blynyddol a defnyddwyr ei wefan.

Nod Kew yw ysbrydoli awydd i wybod am blanhigion a gwyddorau planhigion a'u deall er mwyn hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth o amrywiaeth planhigion. Mae'r casgliadau ar y safle o blanhigion byw a phlanhigion wedi'u cadw, ar y cyd â gwybodaeth y staff o wyddor planhigion, yn rhoi dysgu ysbrydoledig i bobl o bob oedran. Nod deublyg Kew yw rhannu gwybodaeth a sgiliau gwyddonol â chydweithwyr ym maes gwarchod gwyddoniaeth a garddwriaeth a rhannu gwerthfawrogiad o amrywiaeth a phwysigrwydd planhigion â'r cyhoedd.

Cyflawnir hyn drwy lyfrau, papurau, cyfraniadau i gynadleddau a chyfleoedd ymchwil, profiad yn y maes, hyfforddiant proffesiynol arbenigol a mynediad i gasgliadau ac arbenigedd. Mae ymweliadau addysgol, diwrnodau agored, digwyddiadau a'r rhyngrwyd ymhlith y ffyrdd y mae Kew yn ymgysylltu â'i ymwelwyr.

Mae gan Kew dîm o staff addysg a dehongli, darlithfa i 200 o bobl, ystafelloedd darlithio arbenigol â chyfleusterau cyfrifiadurol, 40 o athrawon a 60 o dywyswyr hyfforddedig gwirfoddol. Mae Kew hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon ac adnoddau'r we megis www.plantcultures.com a chronfeydd data planhigion hanfodol.

Ymhlith yr enghreifftiau o waith addysgol a gwaith codi ymwybyddiaeth a wnaed yn Kew mae'r canlynol:

- Mae dros 100,000 o blant y flwyddyn yn defnyddio 'Climbers and Creepers', parth chwarae rhyngweithiol i blant. Mae 100,000 o fyfyrwyr eraill yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol â'r gerddi yn Kew a Wakehurst lle y maent yn gweld bioamrywiaeth byd-eang yn y Tŷ Palmwydd trofannol, y Tŷ Tymherus a Heulfan Tywysoges Cymru yn Kew. Mae pob plentyn yn ymweld â Kew am ddim.
- Gyda chyfarwyddyd gan Brosiect Cronfa Hadau'r Mileniwm a'r Rhaglen Ddysgu yn Kew, mae treial yn mynd rhagddo i hyfforddi ysgolion i gynnal astudiaeth hirhoedledd hadau o fflora brodorol Prydain. Bydd myfyrwyr ysgolion yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i gynnal bioamrywiaeth planhigion. Yn 2006/7 bydd bron 70 o ysgolion ledled y wlad yn helpu Kew yn ei ymchwil flaengar ar ran Cronfa Hadau'r Mileniwm. Bydd hyn yn cynnwys 150 o athrawon a 2,000 o fyfyrwyr mewn arbrofion ymarferol i roi gwybodaeth i wyddonwyr yng Nghronfa Hadau'r Milieniwm.
- Midnight Ramblers. Mae pobl ifanc yn cael profiad uniongyrchol o rannau cudd Kew drwy aros dros nos. Mae tywyswyr arbenigol yn dod â'r nos yn fyw, gan annog plant i ddatblygu eu diddordeb ym mywyd planhigion ac anifeiliaid drwy archwilio a dysgu drwy weithgareddau ymarferol a gemau amgylcheddol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Addysg a Chodi Ymwybyddiaeth yn Kew (parhad)

- Mae'r 'Cactus Trail' yn un o'r llwybrau i helpu teuluoedd ifanc i archwilio a dysgu am gacti a gwaith cadwraeth Kew.
- Mae Kew yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o hyfforddi eraill i ddiogelu phlanhigion mewn perygl rhag masnach anghyfreithlon. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Kew wedi hyfforddi 500 o fyfyrwyr, 300 o swyddogion gorfodi yn y DU a thramor ac wedi dosbarthu 5,000 o lawlyfrau hyfforddi a CD-ROMs am ddim i weithwyr mewn dros 160 o wledydd.
- Mae tua 100 o ymchwilwyr ymweld yn defnyddio'r cyfleusterau ar y safle yn Kew bob dydd, ac mae llawer mwy yn manteisio arnynt ar-lein. Mae Kew hefyd yn goruchwylio 85 o fyfyrwyr doethuriaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn.
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

# CH. Astudiaethau achos eraill nad ydynt yn ymddangos yn y naill ganllawiau na'r llall

## Astudiaeth Achos: Rheoli Parciau er Bywyd Gwyllt

**Cyngor Dinas Bryste**

Dros ddeng mlynedd bu'r Cyngor yn ymgymryd â'r gwaith o wella parciau er bywyd gwyllt drwy gyflwyno 'manylebau gwarchod natur' mewn parciau ar draws y ddinas. Nod y manylebau yw ceisio creu dolydd ar gyfer bywyd gwyllt drwy adael y glaswellt i dyfu'n hir yn ystod misoedd yr haf a thrwy dorri gwair ar ddiwedd yr haf. Mae'r dolydd wedi cael eu dewis yn ofalus er budd bywyd gwyllt – drwy ddewis yr ardaloedd hynny o laswelltir lle mae bywyd gwyllt o ddiddordeb cynhenid wedi goroesi (h.y. ardaloedd llawn fflora) ac i sicrhau eu bod yn cydweddu â'r defnydd a wneir o barciau gan bobl. Mae hyn wedi arwain at ganlyniadau aruthrol ar safleoedd ar draws Bryste gyda dolydd a blodau gwyllt yn tyfu ynddynt bellach yn nodwedd gyson mewn nifer o barciau, gan roi cyfle i bobl weld dolydd llawn blodau gwyllt, gloÿnnod byw a cheiliogod rhedyn a chael blas ar gefn gwlad yn y ddinas. Mae enghreifftiau da yn cynnwys Dyffryn Manor Woods, Comin Highridge a'r Downs, sydd oll wedi cael derbyniad da gan y cyhoedd ac maent yn llawn bywyd gwyllt gan gynnwys rhywogaethau megis tegeirian gwenynog a briallu Mair sawrus.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Gwarchodfa Natur Leol Fferm Bedelands, Sussex

**Cyngor Dosbarth Canol Sussex**

Saif Fferm Bedelands ar ymyl ogledd-ddwyreiniol Bryn Burgess, ac mae'n cynnwys 80 erw o gynefinoedd amrywiol gan gynnwys pyllau, coetiroedd a dolydd blodau gwyllt. Mae'n ffurfio pen pellaf gogledd y Cilgant Gwyrdd, sef nifer o leiniau o dir agored naturiol ar ochr ddeheuol a gorllewinol ffordd gylchol y dref. Mae'r safle yn cysylltu â'r rhwydwaith presennol o lwybrau ceffylau a llwybrau troed gan roi llwybr gwyrdd o amgylch y dref, a ddefnyddir gan gerddwyr, beicwyr a marchogwyr.

Mae'r warchodfa wedi ennill gwobr y Faner Werdd, y safon genedlaethol ar gyfer mannau gwyrdd o safon, bob blwyddyn ers 2004. Yn 2003, cafodd y safle cyfan ei ddynodi'n Safle Gwarchod Natur Pwysig (SNCI). Yn 2000, roedd yn un o 17 o safleoedd yn y De-ddwyrain a gafodd 'Millennium Marque', gwobr uchel ei bri sy'n cydnabod rhagoriaeth amgylcheddol.

Mae Prifysgol Sussex a Chyngor Dosbarth Canol Sussex wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ar arbrawf gwyddonol i bennu'r amser gorau i dorri gwair ac effaith gwrtaith a phori ar dyfiant blodau gwyllt. Cynhelir yr arbrawf mewn dwy ddôl a cheir gwybodaeth ddehongli yn y ddwy ddôl.

Cyn i'r tir ddod yn eiddo i'r Cyngor Dosbarth, cafodd ei reoli fel porfa a choedlan draddodiadol. Ffurfiwyd **Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Fferm Bedelands** yn 1994 er mwyn ymgymryd â'r gwaith rheoli cadwraeth ymarferol ar y warchodfa, sy'n cynnwys bondocio, gwaith ar byllau, adeiladu llwybrau, clirio llystyfiant, adeiladu a chodi blychau adar, arolygon o fflora a ffawna, ymweliadau addysgol ag ysgolion, cynnal digwyddiadau a chynhyrchu deunyddiau addysgol. Mae 226 o aelwydydd bellach yn aelodau. Mae'r Cyfeillion yn aelodau cyswllt o **Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain** er mwyn cael cymorth technegol ar reoli cadwraeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: All of a Buzz – Cydweithio i gadw bioamrywiaeth safleoedd tir llwyd

**Buglife, Natural England ac awdurdodau lleol**

Gwegyswllt: **www.buglife.org.uk**

Mae prosiect All of a Buzz yn ardal Porth Tafwys wedi’i gydlynu gan Buglife a Natural England mewn cydweithrediad â nifer o Awdurdodau Lleol. Amcan y prosiect yw rhoi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â bioamrywiaeth ar safleoedd tir llwyd i gynllunwyr, rheolwyr tir a datblygwyr, er mwyn sicrhau bod rhywogaethau sy’n cael blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau eraill o dan fygythiad yn cael eu gwarchod. Mae’r prosiect yn ymateb i un o’r heriau mawr sy’n wynebu byd gwarchod natur, sef y ffaith bod y broses ddatblygu yn aml iawn yn tynnu ar ei therfyn – ac mae cryn adnoddau wedi’u defnyddio – cyn bod rhywogaethau prin a rhywogaethau mewn perygl yn cael eu nodi a’u hystyried. Drwy asesu cannoedd o safleoedd tir llwyd bydd y prosiect hwn yn tynnu sylw awdurdodau cynllunio a datblygwyr at y mannau lle ceir y bioamrywiaeth pwysig cyn bod penderfyniadau cynllunio eraill a phenderfyniadau eraill ynglŷn ag adnoddau yn cael eu gwneud.

Mae polisi’r Llywodraeth ar fioamrywiaeth (megis Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr) yn tynnu sylw at y ffaith bod safleoedd tir llwyd yn gallu bod yn llochesau gwych i fywyd gwyllt, gan gynnal rhywogaethau sy’n cael blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau’r Llyfr Data Coch yn ogystal â chynefinoedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Maent yn werthfawr i anifeiliaid di-asgwrn-cefn, megis cacwn, chwilod a gloÿnnod byw am eu bod yn cynnwys amryw gynefinoedd sydd wedi mynd yn brin bellach yn y dirwedd ehangach – gan gynnwys tir moel, glaswelltir llawn blodau ac ardaloedd gwlyb. Mae’n anhygoel bod safloedd tir llwyd yn cynnal cymaint o rywogaethau prin â choetir hynafol; mae arbenigwyr yn cyfeirio at safleoedd gorau ardal Porth Tafwys fel ‘coedwig law Lloegr’.

Nodwyd y bygythiadau a’r heriau a wynebir gan gynefinoedd tir llwyd yn Canvey Wick. Prynwyd y safle hwn gan EEDA yn 2002 i’w ddatblygu, ond dangosodd arolygon dilynol fod yna ffawna hynod bwysig gan gynnwys 32 o rywogaethau’r Llyfr Data Coch a phum rhywogaeth sy’n cael blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Ar ôl cyd-drafod â Buglife ac English Nature, tynnodd EEDA y cynlluniau datblygu gwreiddiol yn ôl a chyflwyno cynlluniau newydd a fu’n fodd i’r rhan fwyaf o’r safle gael ei ddynodi yn SoDdGA, ochr yn ochr â datblygiad wedi’i gynllunio mewn ffordd gynaliadawy-amgylcheddol gan gynnwys ‘toeon brown’ lle y gall anifeiliaid di-asgwrn-cefn borthi am neithdar.

Mae prosiect All of a Buzz wedi nodi bod tua thraean o safleoedd tir llwyd ardal Porth Tafwys yn debygol o fod yn bwysig iawn o ran bywyd gwyllt, ond mae llawer o’r safleoedd pwysicaf eisoes wedi’u clustnodi ar gyfer datblygiadau. Mae’r prosiect wedi mapio dros 1000 o safleoedd tir llwyd yn ardal Porth Tafwys a Llundain Fwyaf ac mae wedi asesu dros 400 o’r rhain, gan gynnal arolygon o’r safleoedd allweddol. Mae’r data newydd hwn wedi’i gyfuno â’r wybodaeth bresennol oddi wrth Ganolfannau Cofnodion Lleol, cynlluniau cofnodi, arbenigwyr a ffynonellau eraill.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: All of a Buzz – Cydweithio i gadw bioamrywiaeth safleoedd tir llwyd (parhad)

Pan fydd y prosiect wedi cael dealltwriaeth fwy cyflawn o'r adnodd bioamrywiaeth anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn ardal Porth Tafwys, bydd yn datblygu strategaeth ar gyfer gwarchod yr ased bioamrywiaeth hynod hwn, gan gynnwys nodi 'ardaloedd cadwraeth â blaenoriaeth' ac 'ardaloedd â chyfleoedd gwella posibl'. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gydag ymarferwyr bioamrywiaeth lleol i godi ymwybyddiaeth o'r rhesymau pam mae cynefinoedd tir llwyd yn bwysig o ran bywyd gwyllt, ac mae pecynnau gwybodaeth wedi cael eu hanfon at gynllunwyr awdurdodau lleol.

Gall y model a ddatblygwyd ar gyfer nodi'r bywyd gwyllt sy'n bresennol ar safleoedd tir llwyd ar gam cynnar o'r broses gael ei gymhwyso'n fwy cyffredinol a'r gobaith yw y caiff camau tebyg eu cymryd mewn ardaloedd eraill lle mae canran fawr o dir llwyd yn cynnal bywyd gwyllt sydd mewn perygl.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Safonau Amgylcheddol ar gyfer Adeiladau

**BREEAM**

Ers dros ddegawd, mae Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) wedi cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad amgylcheddol adeiladau newydd ac adeiladau a godwyd eisoes. Mae sector adeiladu a sector eiddo'r DU yn ei ystyried yn fesur o arfer gorau ym maes dylunio a rheoli amgylcheddol. Mae BREEAM yn cwmpasu nifer fawr o faterion amgylcheddol mewn un asesiad, ac mae'n cyflwyno'r canlyniadau mewn ffordd a ddeallir gan bawb sy'n gweithio ym maes caffael a rheoli.

Mae BREEAM yn asesu perfformiad adeiladau yn y meysydd canlyno, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol i fioamrywiaeth:

- Rheoli: polisi rheoli cyffredinol, rheoli'r broses o gomisiynu safle a materion gweithdrefnol
- Defnydd o ynni: materion o ran ynni gweithredol a charbon deuocsid ($CO_2$)
- Iechyd a lles: materion sy'n effeithio ar iechyd a lles y tu mewn i adeiladau a'r tu allan iddynt
- Llygredd: aer a dŵr
- Trafnidiaeth: $CO_2$ sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a ffactorau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad
- Defnydd tir: safleoedd tir glas a thir llwyd
- Ecoleg: gwarchod a gwella gwerth ecolegol y safle
- Deunyddiau: goblygiad amgylcheddol deunyddiau adeiladu, gan gynnwys effeithiau cylch bywyd
- Dŵr: defnydd o ddŵr ac effeithlonrwydd dŵr.

Anogir datblygwyr a dylunwyr i ystyried y materion hyn ar y cam cyntaf posibl er mwyn cael y cyfle gorau i sicrhau gradd BREEAM dda.

Rhoddir credydau ym mhob maes yn ôl perfformiad. Defnyddir pwysoliadau amgylcheddol i adio'r credydau at ei gilydd er mwyn cael un sgôr gyffredinol. Yna rhoddir un o bedair gradd i adeilad sef LLWYDDO, DA, DA IAWN neu ARDDERCHOG, a dyfernir tystysgrif y gellir ei defnyddio at ddibenion hyrwyddo.

Mae BREEAM yn cwmpasu nifer o fathau o adeiladau, gan gynnwys swyddfeydd, cartrefi (a elwir yn Eco-Gartrefi), unedau diwydiannol, unedau manwerthu, ysgolion ac adeiladau iechyd. Gellir asesu mathau eraill o adeiladau, megis canolfannau hamdden a labordai, drwy ddefnyddio fersiwn penodol o BREEAM.

**http://www.breeam.org/index.html**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth drwy'r Llyfrgell Brydeinig

**Y Llyfrgell Brydeinig**

Esgorir ar ganran gynyddol o ddeunydd ymchwil gwerthfawr ynglŷn â geneteg, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth ar ffurf ddigidol fel e-gyfnodolion a chronfeydd data, a dim ond yn y fformat hwn y gellir ei ddefnyddio. Mae'r Llyfrgell Brydeinig yn cefnogi'r broses o gadw gwybodaeth ddigidol a rhoi cyfle i'r cyhoedd ei gweld, ac mae wedi cyflwyno mentrau a rhaglenni newydd i ddiogelu 'mynediad parhaol at gofnodion gwyddoniaeth'.

Hefyd mae gan y Llyfrgell Brydeinig Gasgliad o Archifau Sain Bywyd Gwyllt sy'n cynnwys dros 130,000 o recordiadau yn y maes sydd wedi'u dogfennu'n llawn. Defnyddir y rhain i greu seinluniau newydd cyffrous ac mae cannoedd o seiniau bywyd gwyllt ar gael ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a gwella dealltwriaeth ohono. Yn ogystal, mae'r Llyfrgell Brydeinig yn darparu recordiadau i nifer fawr o sefydliadau allanol er mwyn ychwanegu at arddangosfeydd addysgol.

## Astudiaeth Achos: Archwiliad Bioamrywiaeth o Safleoedd Awdurdodau Lleol

**Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Calderdale, Gorllewin Swydd Efrog**

**Problem** – Mae'r Cyngor yn berchen ar niferoedd mawr o leiniau o dir, yn amrywio o ddarnau bach o lain ymyl ffordd i safleoedd pwysig sydd wedi'u dynodi'n SoDdGA. Mae amrywiol adrannau o'r Cyngor yn gyfrifol am y rhain. Mae'n bosibl bod i rai darnau o'r tir hwn werth neu werth posibl o ran bioamrywiaeth nas cydnabuwyd hyd yma. Roedd angen ateb cost isel ac ymarferol.

**Yr ateb –**

- Drwy ddefnyddio system wybodaeth ddaearyddol mae'r Cyngor wedi mapio pob man gwerth yn nwylo'r Cyngor nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw
- Drwy ddefnyddio lluniau o'r awyr, mae'r Cyngor wedi gwneud asesiad cychwynnol o werth bioamrywiaeth y safleoedd hyn – sydd bron â dod i ben.
- Ar gyfer safleoedd sy'n dangos potensial o ran bioamrywiaeth, cynhelir asesiad o fioamrywiaeth y safle – mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.
- Caiff perchnogaeth a chyfyngiadau adrannol eu nodi ar gyfer pob safle a chanddo botensial.
- Ar gyfer y safleoedd gorau, caiff camau ymarferol eu cymryd i sicrhau'r budd mwyaf o ran bioamrywiaeth (e.e. adolygu trwyddedau pori, cyllid amaeth-amgylcheddol)
- Bydd y Cyngor yn paratoi cynlluniau/briffiau rheoli safle ar gyfer safleoedd allweddol a chanddynt botensial o ran amrywiaeth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Yr Eco-Gartref – Cartref Arddangos Amgylcheddol Caerlŵr sydd wedi ennill bri yn rhyngwladol

**Cyngor Dinas Caerlŵr**

Mae'r Eco-Gartref yn dangos cannoedd o nodweddion a syniadau amgylcheddol, gan godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ac ysbrydoli ymwelwyr i wneud newidiadau i'w cartrefi a'u gerddi eu hunain. Mae'r Eco-Gartref wedi croesawu dros 100,000 o ymwelwyr ers iddo agor yn 1989. Mae'r prosiect wedi'i reoli gan Groundwork Caerlŵr a Swydd Caerlŵr, ac mae'n cael cymorth ariannol gan Gyngor Dinas Caerlŵr. Cynhaliwyd rhaglen ehangu ac adnewyddu fawr cyn i'r Eco-Gartref ailagor ym mis Chwefror 2000, gwaith a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol, yr Undeb Ewropeaidd a thros 100 o fusnesau.

Mae dulliau dehongli ar y safle yn rhai arloesol sy'n defnyddio technoleg er mwyn rhoi profiad buddiol i ymwelwyr, gan gynnwys cyflwyniadau fideo, llwybr sain, nifer o arddangosiadau rhyngweithiol a chyfrifiaduron sgrîn gyffwrdd sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y cynhyrchion amgylcheddol y gellir eu gweld. Mae staff yr Eco-Gartref yn rhoi teithiau tywys, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor i ymwelwyr ynglŷn ag arbed ynni a dŵr, dod o hyd i gynhyrchion wedi'u hailgylchu, a gwybodaeth am grantiau sydd ar gael i wneud gwelliannau amgylcheddol i'r cartref.

Mae'r Eco-Gartref hefyd yn cynnig teithiau addysgol i ysgolion, ac yn darparu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys gemau cyfrifiadurol amgylcheddol rhyngweithiol. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau ar y safle i annog gwirfoddolwyr a'r gymuned i gymryd rhan yn y gwaith o gynnal a chadw'r ardd organig a'r tiroedd. Mae'r garddwyr yn rhoi cyngor i berchnogion gerddi o bob math ynglŷn â sut i arddio'n ecogyfeillgar.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV UK

## Astudiaeth Achos: Wild About Manchester

### Cyngor Dinas Manceinion

Mae 'Wild About Manchester' yn ymgyrch wedi'i hanelu at y gymuned ac sydd â'r nod o gael ysgolion a'r cyhoedd i warchod, diogelu a gwella bioamrywiaeth ym Manceinion i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Amcanion allweddol yr ymgyrch, ynglŷn â chyngor, addysg ac ymwybyddiaeth, yw:

- **Creu archwiliad o rywogaethau a chynefinoedd i bennu llinell sylfaen o fioamrywiaeth yn y ddinas.** Mae cymunedau lleol, ysgolion a phartneriaid oll yn rhan o'r gwaith o goladu gwybodaeth am fioamrywiaeth er mwyn llywio'r archwiliad o rywogaethau a chynefinoedd.
- **Hyrwyddo bioamrywiaeth ym Manceinion.** Ymhlith y nodau penodol mae codi proffil prif atyniadau naturiol, cael pobl leol i ymwneud yn fwy â bioamrywiaeth drwy eu hannog i ffurfio grwpiau 'cyfeillion' a grwpiau cymunedol, hyrwyddo gerddi sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y cyfryngau a hyrwyddo manteision eco-dwristiaeth ar draws y ddinas.
- **Hyrwyddo bioamrywiaeth fel adnodd addysg amgylcheddol.** Mae Cyngor Dinas Manceinion yn gwneud ymdrech i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth drwy astudiaethau cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys hyrwyddo gerddi bywyd gwyllt mewn ysgolion er mwyn hwyluso arolygon o fywyd gwyllt.

Yn 2006 roedd mwy na 75 o brosiectau gwarchod natur ar draws holl wardiau Manceinion, gan gynnwys mwy na 1,000 o unigolion o grwpiau cymunedol lleol ac ysgolion ac aelodau o'r cyhoedd. O dan y prosiectau hyn crëwyd tri phwll newydd a 12 o wrychoedd bywyd gwyllt, plannwyd wyth perllan ffrwythau a phedair dôl blodau gwyllt, a gosodwyd tua 1,000 o flychau nythu mewn parciau, gerddi a thiroedd ysgol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Caffael Bwyd Lleol Cyngor Sir Northumberland

**Cyngor Sir Northumberland**

Nod Cyngor Sir Northumberland oedd ceisio gwella effaith ei brosesau caffael ar yr economi leol, a dechreuodd wneud hyn drwy newid ei gyflenwyr bwyd o ffynonellau o'r tu allan i ffynonellau lleol. Nod y Cyngor yw symud 10% o'i wariant ar gaffael i ffynonellau lleol o fewn y tair blynedd nesaf. Gwneir hyn drwy:

- Codi ymwybyddiaeth o anghenion cytundebol y Cyngor drwy drefnu seminar i gyflenwyr lleol bach;
- Cynnal gallu cyflenwyr lleol drwy weithio gydag asiantaethau cymorth busnes rhanbarthol;
- Newid manylebau tendrau i'w gwneud yn agored i fusnesau lleol, bach a'i gwneud yn ofynnol i gontractwr allu helpu Adran Gwasanaethau Arlwyo'r Cyngor i ddilyn strategaeth caffael bwyd gynaliadwy a chyflenwi cynhyrchion a dyfir yn lleol neu gynhyrchion organig.

Ar ôl y newidiadau i broses dendro'r Cyngor gwelwyd cynnydd pum gwaith yn nifer y cyflenwyr lleol a fynegodd ddiddordeb, a dyfarnwyd y contractau ar gyfer cyflenwi cig, llaeth, bara a ffrwyth a llysiau i gyflenwyr lleol.

Er mai prif nod y cynllun hwn oedd sicrhau manteision economaidd i'r diwydiant lleol, mae defnyddio cyflenwyr lleol hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol fawr ar yr amgylchedd, ac arwain at fanteision penodol o ran bioamrywiaeth. Ymhlith y rhain mae:

- Lleihau faint o bellter y caiff bwyd ei gludo, gan leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o gludo ac oeri bwyd, gyda manteision anuniongyrchol o ran bioamrywiaeth;
- Annog caffael bwyd a dyfir yn organig. Mae tir a ffermir yn organig yn cynnal bywyd gwyllt drwy beidio â defnyddio agrocemegion, a rhoi cynefinoedd newydd megis ymylon caeau a gwrychoedd.

**http://www.sustainable-development.gov.uk/what/documents/northumberland-county-council1.pdf**

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cwrs Golff Portishead

### Cyngor Dosbarth Gogledd Gwlad yr Haf

Ar lan y môr yn Portishead ceir cwrs golff cyhoeddus bach 10 hectar. Ar ochr glan y môr mae llwybr cyhoeddus yn ffin iddo ac ar yr ochr arall ceir ffordd brysur a thai preswyl, yn ogystal â mannau agored cyhoeddus eraill ar y naill ochr a'r llall. Yn 2005, nododd Swyddog Contractau Cynnal a Chadw Tiroedd Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf y gellid o bosibl wella'r safle o ran bywyd gwyllt, a cheisiodd gyngor gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ac Ymddiriedolaeth Hebogiaid a Thylluanod ynglŷn â gwella'r ffordd y câi ei reoli. Cytunwyd y byddai gwelliannau o ran bioamrywiaeth yn ychwanegu cryn dipyn at werth amwynder y safle, a chynigiwyd cyfres o welliannau a fyddai'n rhai syml i'w gweithredu ac ar yr un pryd yn creu cynefinoedd i adar, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a mamaliaid bach. Ymhlith y gwelliannau roedd y canlynol:

- Plannwyd gwrych newydd â llawer o rywogaethau ar hyd llinell ffens foel, a fyddai hefyd yn helpu i gelu'r ffordd o'r golwg a gwella amwynder gweledol y safle a phlannwyd gwrych arall ar hyd ochr y llwybr cyhoeddus ger glân y môr yn parhau sef tua 150m i gyd. Ariannwyd y gwrych yn rhannol drwy Grant Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf. Plannwyd y gwrych gan Wirfoddolwyr Canolfan Carlton (grŵp o bobl ag anawsterau dysgu) gyda goruchwyliwr o Ganolfan Amgylcheddol Goblin Combe, Cleeve a gweithlu cynnal a chadw tiroedd.
- Newid y drefn rheoli glaswelltir, er mwyn cael mwy o lygod y dŵr i helpu i gynnal adar ysglyfaethus, drwy dorri rhannau gwahanol o'r cwrs ar wahanol gyfnodau.
- Gosodwyd blychau i ystlumod ac adar, gyda'r arian o'r Grant Gweithredu Bioamrywiaeth. Ceir tylluanod gwyn a chudyllod coch yn yr ardal leol a bwriedir i'r prosiect hwn roi cynefin newydd iddynt.

Er bod y prosiect yn fach o ran graddfa, mae'n dangos y gall gwella mannau agored cyhoeddus er bywyd gwyllt fod yn eithaf syml ac y gall roi cyfleoedd o ran cynhwysiant cymdeithasol. Bwriedir i'r prosiect barhau, yn amodol ar gyllid, gyda gwrychoedd ychwanegol, a gobeithio, ddulliau dehongli, gan fod yno fannau da i wylio adar ar Foryd Hafren gerllaw. Bwriedir gwneud gwaith monitro a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith drwy arddangosfa mewn llyfrgell leol yn y dyfodol.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Prosiect Cochiaid y Berllan

**Cyngor Dinas Manceinion**

Nod Prosiect Cochiaid y Berllan yw ceisio gwella a sefydlogi cynefin presennol i gochiaid y berllan, gan gynnwys cryn gyfranogiad gan y gymuned leol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar Barc Dŵr Chorlton, De Manceinion, lle ceir nifer dda o gochiaid y berllan, sef un o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sydd wedi dirywio gryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y prosiect yn golygu plannu coed ffrwythau, llwyni a chribau'r pannwr i roi bwyd ar wahanol adegau o'r flwyddyn, ac eithin ar gyfer nythu a lloches. Gofynnwyd i'r gymuned leol gymryd camau ymarferol i warchod ei hamgylchedd, ac ar yr un pryd codwyd ymwybyddiaeth o gochiaid y berllan a bioamrywiaeth yn fwy cyffredinol. Roedd y gymuned yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol y prosiect. Cynhaliwyd ymgynghoriad yng Nghymdeithas Cymuned Rhostir Barlow i geisio barn a chefnogaeth. Cafodd llawer o'r coed a'r planhigion eu plannu gan blant ysgol a cherddwyr iechyd. Mae wedi helpu i wella cynefinoedd lleol, gan roi budd i gochiaid y berllan a nifer o rywogaethau eraill.

## Astudiaeth Achos: Cynllun Lleiniau Ymyl Ffordd Nodedig Gorllewin Sussex

**Cyngor Sir Gorllewin Sussex**

Ar ddechrau'r 1970au tynnodd Cymdeithas Cofnodi Botanegol Sussex sylw at bwysigrwydd botanegol nifer o leiniau ymyl ffordd. Drwy drafodaethau gyda'r Syrfëwr Sirol sefydlwyd cynllun y Lleiniau Ymyl Ffordd Nodedig. Y prif bwrpas oedd sicrhau bod y safleoedd dynodedig yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'r cynllun hwn bellach yn rhan ganolog o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleiniau Ymyl Ffordd Gorllewin Sussex, sy'n pennu nifer o amcanion a chamau gweithredu i wella'r ffordd y caiff lleiniau ymyl ffordd eu rheoli o ran bioamrywiaeth (gweler **http://www.biodiversitysussex.org**).

Ceir 84 o Leiniau Ymyl Ffordd Nodedig erbyn hyn. Er bod y rhan fwyaf wedi'u dynodi oherwydd eu fflora, mae rhai yn bwysig o ran anifeiliaid di-asgwrn-cefn a ffyngau. Mae'r Cyngor Sir wedi nodi lleoliad y lleiniau ymyl ffordd nodedig drwy byst marcio a chytunwyd ar drefn reoli ar gyfer pob un ohonynt.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer London Underground

**London Underground, Metronet Rail, Tube Lines, Partneriaeth Bioamrywiaeth Llundain a'i phartneriaid, Transport for London**

Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o'r ffordd y mae sefydliad trafnidiaeth wedi llunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i wella'r ffordd y mae bioamrywiaeth yn cael ei ddeall a'i reoli.

Mae London Underground (LU) yn un o'r tirfeddianwyr mwyaf yn Llundain. Mae dros hanner y rhwydwaith uwchben y ddaear ac mae LU yn ymwybodol bod llystyfiant wrth ochr y cledrau yn lloches werthfawr i blanhigion ac anifeiliaid, yn enwedig yng nghanol Llundain. Teimlai LU fod angen iddo fynd ati mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau bod gwerth bioamrywiaeth ei eiddo yn cael ei reoli'n briodol wrth iddo wynebu cyfnod pwysig o fuddsoddiad yn y rhwydwaith.

Creodd LU ddarlun o'r planhigion, yr anifeiliaid a'r cynefinoedd a geid ar ei eiddo yn seiliedig ar arolwg cychwynnol gan LU a chyfres o arolygon a gynhaliwyd gan gontractwyr Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat LU, Metronet a Tube Lines. Gweithiodd LU gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Llundain a'i phartneriaid i ddeall yr hyn y gellid ei wneud i warchod, a lle y bo modd, gwella gwerth bioamrywiaeth y tir ar hyd y cledrau. Metronet a Tube Lines sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cynefin wrth ymyl y cledrau, felly gweithiodd LU yn agos gyda hwy i gytuno ar weithgareddau a mentrau yn y dyfodol yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth London Underground.

Drwy ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth mae LU wedi dod i ddeall gwerth bioamrywiaeth ei eiddo yn well a'r ffordd y gall reoli hyn. Bydd y Cynllun yn fodd iddo ddefnyddio dulliau rheoli da wrth ymyl y cledrau yn gyson ar draws y rhwydwaith a bydd yn helpu i hyrwyddo bioamrywiaeth i'r staff a'r miliynau o bobl sy'n teithio gyda'r LU bob blwyddyn.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Canllawiau ar Ddylunio er Bioamrywiaeth

**Sefydliad/Partneriaeth:** Awdurdod Datblygu Llundain, Awdurdod Llundain Fwyaf, Natural England, Groundwork ac Ymddiriedolaeth Natur Llundain

Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o'r ffordd y mae awdurdod datblygu yn hyrwyddo gwarchod bioamrywiaeth yn y gwaith o ddylunio a rheoli'r amgylchedd adeiledig.

Mae'r prosiect hwn yn brosiect partneriaeth a sefydlwyd i hyrwyddo gwarchod bywyd gwyllt fel rhan o'r gwaith o ddylunio a rheoli adeiladau a thirweddau trefol yn Llundain. Er mai yn Llundain y lleolir y prosiect, mae pwysigrwydd Dylunio er Bioamrywiaeth a'r nodweddion a'r cyfleoedd a drafodir yn hollol berthnasol i bob math o waith datblygu ac adfywio.

Mae Dylunio er Bioamrywiaeth yn hyrwyddo swyddogaeth ecolegol adeiledd a'r ardal o'i amgylch yn ei gyd-destun lleol. Mae hyn nid yn unig yn gofyn am ystyried sut y gall adeiledd leihau unrhyw effaith andwyol ar yr ecoleg leol i'r eithaf, ond mae hefyd yn gofyn am ystyried a all yr adeiledd neu'i amgylchedd wedi'i dirlunio esgor ar unrhyw fanteision neu welliannau ecolegol ehangach.

Mae'r fenter wedi paratoi canllawiau sy'n esbonio gam wrth gam sut y dylid mynd i'r afael â bioamrywiaeth wrth gynllunio a chyflawni datblygiadau adeiledig yn Llundain. Mae'n cynnwys pum cam allweddol y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac arfer gorau:

- ymgynghori a phennu cwmpas;
- arolygu ac asesu effaith;
- ymgorffori amcanion bioamrywiaeth;
- nodi gwelliannau, camau lliniaru neu gamau i wneud iawn;
- sicrhau rheolaeth ac ôl-ofal priodol.

Gellir llwytho'r canllawiau i lawr yn **www.d4b.org.uk**, lle mae'r wefan yn rhoi rhagor o wybodaeth am bolisi cynllunio bioamrywiaeth Llundain, ac astudiaethau achos o arfer da sy'n dangos sut y gellir cynnwys nodweddion mewn datblygiad.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Astudiaeth Achos: Rheoli Rhyddhau Dŵr o Gronfeydd Dŵr er Budd Bioamrywiaeth

**Yorkshire Water**

Mae cronfeydd dŵr Swydd Efrog wedi'u lleoli yng nghanol rhai o'r golygfeydd mwyaf dramatig a hardd yn Lloegr. Yn ogystal â'u gwerth hamdden, maent yn hynod bwysig hefyd o ran bywyd gwyllt. Fodd bynnag, prif swyddogaeth y cronfeydd dŵr yw un ddiwydiannol. Cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu hadeiladu yn ystod Oes Fictoria i gyflenwi dŵr yfed i'r dinasoedd yn Swydd Efrog a oedd ar gynnydd ac i ddarparu dŵr ar gyfer y diwydiant tecstilau a'r diwydiant dur, a fu'n sbardun i ddiwydiannau mawr Gogledd Lloegr.

Mae cronfeydd dŵr yn rhan hollbwysig o gyflenwad dŵr Swydd Efrog, sy'n ateb bron hanner y galw. Yn ogystal, mae llawer o gronfeydd dŵr yn darparu dŵr ychwanegol y mae'n rhaid ei ollwng i'r cwrs dŵr i lawr yr afon er mwyn diwallu anghenion diwydiant a diogelu'r amgylchedd drwy gadw llif sylfaenol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r diwydiannau hanesyddol wedi crebachu erbyn hyn, gan olygu bod dŵr a ollyngir yn gyffredinol yn fwy na'r hyn sydd ei angen at anghenion diwydiannol. Hefyd, nid oedd y gollyngiadau wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion amgylcheddol ac felly nid ydynt yn gwneud y defnydd gorau o'r dŵr.

Mae Yorkshire Water, gan gydnabod bod cyfle wedi codi, wedi cydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Phrifysgol Durham ers 2002, i ymchwilio i ymarferoldeb gweithredu cronfeydd dŵr yn wahanol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd a chael y budd mwyaf o ran bioamrywiaeth.

Mewn dalgylchoedd peilot ger Sheffield a Holmfirth, mae gollyngiadau o ddŵr ychwanegol wedi cael eu hailgynllunio i sicrhau y caiff cronfeydd dŵr eu gweithredu yn y ffordd orau bosibl ac i wella llifoedd i lawr yr afon. Mae'r gollyngiadau wedi'u cynllunio er budd brithyllod yn seiliedig ar ofynion eu cylch bywyd, drwy greu llifoedd sy'n amrywio yn ôl y tymhorau, gan gynnwys llifeiriant yn yr hydref er mwyn cael mwy o frithyllod i fudo a silio.


Cafodd rhanddeiliaid megis Cymdeithas Eogiaid a Brithyllod, Ymddiriedolaeth Natur Sheffield a grwpiau bywyd gwyllt lleol eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf, gan gynnig gwybodaeth a chefnogaeth leol werthfawr.

Bu'r treialon yn llwyddiant, ac yn fuddiol o ran y boblogaeth o frithyllod (a genweirwyr) drwy gynyddu cyfraddau tyfu a silio a rhoi gwell cynefin i anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis pryfed pric a chlêr Mai.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae Yorkshire Water yn gobeithio defnyddio'r technegau a'r gwersi a ddysgwyd o'r treialon mewn cronfeydd dŵr addas eraill yn y rhanbarth, gan geisio mwy o gyfleoedd i reoli ei weithrediadau er budd bioamrywiaeth y rhanbarth.

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

## Atodiad 5
## Diagram O Wasanaethau Awdurdodau Lleol




This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

This guidance is out of date and has been withdrawn
Up to date guidance elsewhere on GOV.UK

Cyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
© Hawlfraint y Goron 2007.

Argraffwyd ar ddeunydd sy'n cynnwys o leiaf 100% o ffibr wedi ei ailgylchu ar gyfer papur heb sglein a 75% o ffibr wedi ei ailgylchu ar gyfer papur sglein.

www.defra.gov.uk

PB12586

defra
Adran yr Amgylchedd Bwyd
a Materion Gwledig